



Cyfarfod

PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI

Dyddiad ac Amser

10.30 y.b., DYDD IAU, 9FED RHAGFYR, 2021

NODER: CYNHELIR SESIWN BRIFFIO I'R AELODAU AM 10.15YB

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol - Zoom

**I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni
Bydd gwe-ddarllodiad ar gael yn dilyn y cyfarfod**

https://gwynedd.public-i.tv/core//cy_GB/portal/home

Pwynt Cyswllt

Eirian Roberts

01286 679018

eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd 2/12/21)

PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI

AELODAETH (18)

Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Aled Ll. Evans
E. Selwyn Griffiths
Gareth Tudor Morris Jones
Olaf Cai Larsen
Paul John Rowlinson

Steve Collings
Judith Mary Humphreys
Huw Gruffydd Wyn Jones
Mair Rowlands
[sedd wag]

Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Elwyn Jones
Dewi Wyn Roberts
Mike Stevens

Beth Lawton
Elfed Powell Roberts

Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd

Annibynnol Unedig Gwynedd (1)

Y Cynghorydd Dewi Owen

Propel (1)

[sedd wag]

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

AELODAU CYFETHLEDIG:

Hefo pleidlais ar faterion addysg yn unig

[sedd wag]	Eglwys yng Nghymru
Colette Owen	Yr Eglwys Gatholig
Ruth Roe	Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr Meirionnydd
Karen Vaughan Jones	Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr Dwyfor
Manon Williams	Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr Arfon

Heb Bleidlais:

Dilwyn Elis Hughes	UCAC
Dylan Huw Jones	NASUWT

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION

6 - 19

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2021 fel rhai cywir.

5. LEFELAU DIWEITHDRA A CHEFNOGAETH YN OL I SWYDDI

20 - 28

Aelod Cabinet – Y Cynghorydd Gareth Thomas

Ystyried adroddiad ar yr uchod.

6. CINIO YSGOL

29 - 36

Aelod Cabinet – Y Cynghorydd Cemlyn Williams

Ystyried adroddiad ar yr uchod.

7. ADRODDIADAU BLYNYDDOL ADDYSG

(A) ADRODDIAD BLYNYDDOL ADDYSG 2020-21 A 37 - 65 BLAENORIAETHAU'R ADRAN ADDYSG

Aelod Cabinet – Y Cynghorydd Cemlyn Williams

Ystyried adroddiad ar yr uchod.

(B) ADRODDIAD BLYNYDDOL GWE 2020-21

66 - 242

Ystyried adroddiad ar yr uchod.

8. RHAGLEN WAITH CRAFFU DDIWYGIEDIG 2021-22

243

Cyflwyno rhaglen waith craffu ddiwygiedig ar gyfer 2021/22.

Eitem 4

PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI Dydd Iau, 21 Hydref 2021

PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI DYDD IAU, 21 HYDREF 2021

Yn bresennol: Y Cynghorydd Beth Lawton (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Cai Larsen (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr: Steve Collings, Alwyn Gruffydd, Selwyn Griffiths, Judith Humphreys, Elwyn Jones, Gareth Tudor Morris Jones, Dewi Owen, Rheinallt Puw, Paul Rowlinson, Dewi Roberts a Mike Stevens.

Aelodau Cyfetholedig: Ruth Roe (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Meirionnydd), Manon Williams (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Arfon) a Dilwyn Elis Hughes (UCAC).

Swyddogion yn bresennol: Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

Yn bresennol ar gyfer eitem 5:

Adran Addysg Y Cynghorydd Cemlyn Williams (Aelod Cabinet Addysg), Garem Jackson (Pennaeth Addysg), Debbie Anne Jones (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg) a Gwern ap Rhisiart (Swyddog Addysg Ardal Meirion / Dwyfor)

Gwasanaeth Cyfreithiol Iwan Evans (Swyddog Monitro) a Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr – Corfforaethol)

Yn bresennol ar gyfer eitem 6:

Sioned Williams (Pennaeth Economi a Chymuned), Dylan Griffiths (Rheolwr Rhaglenni Datblygu'r Economi) a Colin Morris (Rheolwr Cefnogi Busnes)

Yn bresennol ar gyfer eitem 7:

Adran Addysg: Y Cynghorydd Cemlyn Williams (Aelod Cabinet Addysg), Garem Jackson (Pennaeth Addysg), Debbie Anne Jones (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg), Diane Jones (Swyddog Addysg Ardal Arfon), Gwern ap Rhisiart (Swyddog Addysg Ardal Meirion / Dwyfor), Rhian Parry Jones (Swyddog Addysg Uwchradd Gwynedd) a Ffion Edwards Ellis (Pennaeth Cynorthwyol ADY a Chynhwysiad)

GwE: Arwyn Thomas (Rheolwr Gyfarwyddwr), Alwyn Lloyd Jones (Cyfarwyddwr Cynorthwyol - Safonau), Elyn Vaughan Jones (Uwch Arweinydd – Uwchradd), Sharon Vaughan (Arweinydd Craidd – Uwchradd) a Geraint Evans (Arweinydd Craidd – Cynradd)

Penaethiaid: Rhys Glyn (Pennaeth Ysgol Cefn Coch ac Ysgol Talsarnau), Dylan Minnice (Pennaeth Ysgol Botwnnog) a Bethan Morris Jones (Pennaeth Ysgol Pendalar)

Nododd y Cadeirydd fod heddiw'n nodi 55 mlynedd ers trychineb Aberfan ac ymdawelodd y pwyllgor fel arwydd o barch a choffadwriaeth.

Nododd y Cadeirydd fod Anest Gray Frazer (Eglwys yng Nghymru) wedi ymddeol o'r pwyllgor yn ddiweddar, a diolchodd iddi am ei gwasanaeth gan ddymuno'n dda iddi yn y dyfodol.

Croesawyd y Cynghorydd Mike Stevens i'r cyfarfod.

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Y Cynghorwyr Aled Evans a Mair Rowlands, Colette Owen (Yr Eglwys Gatholig) a'r Cynghorydd Gareth Thomas (Aelod Cabinet Economi).

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd Dewi Roberts fuddiant personol yn eitem 5 – Penderfyniad y Cabinet – 28-09-21 – Eitem 8 – Ysgol Abersoch - oherwydd ei fod yn llywodraethwr Ysgol Abersoch, ond oherwydd iddo gael ei benodi i'r rôl honno gan yr Awdurdod, nid oedd o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu, ac ni adawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

Datganodd y Cynghorydd Selwyn Griffiths fuddiant personol yn eitem 6 – Yr Economi a Chefnogaeth i Fusnesau - oherwydd mai ei fab oedd awdur yr adroddiad i'r pwyllgor. Nid oedd o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu, ac ni adawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 10 Mehefin, 2021 fel rhai cywir.

5. PENDERFYNIAD Y CABINET – 28-09-21 – EITEM 8 – YSGOL ABERSOCH

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth Democratiaeth yn nodi bod y penderfyniad a ganlyn wedi ei alw i mewn i'w graffu, yn unol ag Adran 7.25 o Gyfansoddiad y Cyngor:-

Eitem 8: Ysgol Abersoch, cyfarfod Cabinet 28.9.21

“Cadarnhawyd yn derfynol y cynnig a roddwyd drwy rybudd statudol, i gau Ysgol Abersoch ar 31 Rhagfyr 2021, a darparu lle i ddisgyblion yn Ysgol Sarn Bach o 1 Ionawr, 2022, yn unol ag Adran 53 o'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 11/2018.”

Eglurodd y Cadeirydd y gwnaethpwyd y cais i alw'r penderfyniad i mewn i'w graffu gan y Cynghorwyr Alwyn Gruffydd, Elwyn Jones a hithau o fewn y gofynion a'r amserlen angenrheidiol.

Nodwyd bod y rhesymau dros alw i mewn, sef yr agweddau o'r penderfyniad yr ystyrid y dylid eu craffu, ac sydd o fewn gofynion Cyfansoddiadol, wedi eu nodi fel a ganlyn:

“1. Mae'r Adroddiad yn anghywir ac yn gamarweiniol rhan effaith ar y Gymuned, er enghraifft iaith a diwylliant Cymraeg - yn y tabl ar dudalen 714 mae yn dweud nad oes dim effaith ar yr iaith.

2. Nid yw'r Adroddiad yn cymryd i ystyriaeth ddyfodol Tai a Gwaith fydd yn dod i rym yn y Pentref.

(a) Mae Datblygiad Newydd o godi Gwesty Newydd fydd yn creu beth bynnag 40 o swyddi llawn amser yn yr ardal - mi fydd y Gweithwyr a'u Teulu angen adnoddau yn cynnwys Addysg i ein plant.

(b) Mae Llywodraeth Cymru, yr Adran Tai ac Eiddo Cyngor Gwynedd a Chymdeithas Tai (sydd yn berchen tir yn y pentref) ar hyn o bryd yn edrych i godi mwy o dai - mae Llywodraeth Cymru wedi dweud fod grant ar gael i ddatblygu y tir yma i godi o bosib 15 o dai.

Mae'r Gymdeithas tai wedi cadarnhau fod cynlluniau wedi gwneud yn barod ar safle Bryn Garmon.

Nid yw'r adroddiad yn sôn dim am y cynllun newydd gan yr Adran Tai ac Eiddo a dim am y datblygiadau sydd yn mynd ymlaen yn y Pentref ac felly nid yw'r Adran Addysg wedi ymateb i ofynion Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol wrth beidio gwneud hyn.

3. Mae pryder wedi ei ddatgan rhan y ffordd droed rhwng Abersoch a Sarn Bach mae yr Adran addysg yn dweud fod cyswllt wedi bod gyda'r Adran Ffyrdd ond nid oes dim byd pendant wedi ei gyflwyno rhan datrys y risg yma sydd yn rhoi disgyblion mewn peryg. Mae'r Adran Addysg yn sôn am drefniadau cludiant sydd wrth gwrs yn ychwanegu at hinsawdd ac yn enghraifft ddrwg i'r plant ar sut mae'r Cyngor yn cymryd i ystyriaeth effaith ar hinsawdd.

4. Mae un plentyn yn disgyn allan o'r cynnig i gael cludiant oherwydd polisïau oed - yn y dyfodol pan fydd rhifau plant yn cynyddu oherwydd (a) a (b) mae'n debyg bydd plant eraill yn cael gwrthod y cludiant yma ac felly yn dioddef rhan eu haddysg.

5. Y penderfyniad ydi i gau yr ysgol yn ganol y flwyddyn ysgol a does dim amheuaeth fod hyn am fod yn ddryslud i'r plant ac eto mae hyn yn cael effaith negyddol ar eu haddysg does dim eglurhad pam a beth ydi y rhesymeg yn fan hyn.

Er mwyn cynorthwyo'r pwyllgor i graffu ar y mater yn unol â'r agweddau o'r penderfyniad yr ystyrid y dylid eu craffu, cyflwynwyd y dogfennau isod i'r pwyllgor craffu hefyd:-

- Atodiad 1 – ymateb yr Adran Addysg i'r agweddau o'r penderfyniad yr ystyrid y dylid eu craffu
- Atodiad 2 – Taflen benderfyniad y Cabinet (Eitem 8, 28.9.21)
- Atodiad 3 – adroddiad y Cabinet (Eitem 8, 28.9.21)

Eglurodd y Swyddog Monitro y cyd-destun i benderfyniad y Cabinet ym mis Medi (fel yr amlinellwyd yn y rhan cyntaf o Atodiad 2 i'r adroddiad).

Gosododd yr Aelod Cabinet y cyd-destun, gan nodi:-

- Ei fod o'r farn bod yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 28 Medi wedi ymdrin yn benodol â'r gwrthwynebiadau oedd yn ymwneud â'r effaith ar y gymuned ac ar yr iaith Gymraeg, datblygiadau posib' yn yr ardal, cludiant a theithio a dyddiad gweithredu'r cynnig.
- Y bu i'r materion hyn hefyd gael eu trafod ymhellach yn ystod cyfarfod y Cabinet, cyn dod i benderfyniad terfynol.
- Y byddai'r cynnig i gau Ysgol Abersoch a chynnig lle i'r disgyblion yn Ysgol Sarn Bach, nid yn unig yn ymateb i'r heriau sy'n wynebu Ysgol Abersoch, ond hefyd yn arwain at gyfleoedd mwy cyson i blant y dalgylch, drwy anelu at ddyheadau strategol y Cyngor i gynnal addysg o'r ansawdd uchaf bosib' i bob disgybl.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd ynglŷn â'r penderfyniad i gau Ysgol Abersoch yng nghanol blwyddyn ysgol, cadarnhawyd bod digon o amser i baratoi ar gyfer trosglwyddo disgyblion i Ysgol Sarn Bach. Mae yna ddarn o waith i'w wneud o ran lle mae rhieni yn dewis gyrru eu plant a'r ail gam fyddai llunio cynllun pontio manwl gyda staff yr ysgolion dan sylw, er mwyn sicrhau cefnogaeth i'r plant drwy'r cyfnod trosglwyddo. Nodwyd hefyd bod yr Adran wedi ymateb i sefyllfa gyffelyb o'r blaen, megis pan sefydlwyd Ysgol y Garnedd newydd ym Mangor.

Gwahoddwyd yr aelodau oedd wedi galw'r penderfyniad i mewn i gyflwyno eu sylwadau. Nodwyd:-

- Bod y Cabinet wedi dilyn llwybr di-droi nôl i gau Ysgol Abersoch, gan ddiystyru'r 3,000 o enwau oedd wedi gwrthwynebu, naill ai drwy ddeiseb neu sylwadau unigol. Diystyrwyd y tai newydd oedd yn cael eu codi yn Abersoch, a'r swyddi newydd oedd ar fin cael eu creu yn y pentref, ac ni roddwyd ystyriaeth wirioneddol i effeithiau'r penderfyniad ar y Gymraeg yn y pentref, na'r effaith ar lywodraethwyr, rhieni na disgyblion, sef yr ynys o Gymreictod yn y pentref.
- Bod y dadleuon dros gau'r ysgol yn amwys, a bod geiriau megis '*efallai*', '*o bosib*' neu '*mae'n debygol*' yn codi'n aml yn yr adroddiadau.
- Nad oedd modd cynnal ymgynghoriad teg a chynhwysfawr yng nghanol y pandemig.
- Bod y Ddeddf Trefniadaeth Ysgolion yn nodi y dylai awdurdodau addysg ragdybio yn erbyn cau ysgol.
- Mai mater o lanw a thrai yw poblogaeth ysgol. Derbynnid bod y niferoedd wedi gostwng ar hyn o bryd, ond roedd rhagdybiaeth y byddai yna 11-12 o ddisgyblion yn yr ysgol y flwyddyn nesaf a'r flwyddyn ganlynol. Roedd dros 20 o ddisgyblion yn y dalgylch yn mynd i ysgolion eraill, a dyna, yn anffodus, sy'n digwydd pan mae dyfodol ysgol dan fygythiad.
- Ei bod yn drueni na roddwyd ystyriaeth i opsiynau eraill, megis ffederaleiddio.
- Na welid unrhyw fantais symud 7 plentyn i Ysgol Sarn Bach.

Mewn ymateb i'r sylwadau hyn, nododd y Pennaeth Addysg:-

- Bod y mater o gynnal yr ymgynghoriad yn ystod cyfnod pandemig wedi'i graffu eisoes gan y pwyllgor hwn, ac nad oedd hynny'n un o'r seiliau dros alw'r penderfyniad i mewn.
- Bod y rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgol yn benodol ar gyfer ysgolion sydd wedi'u dynodi'n rhai bach a gwledig. Nid dyna'r achos yn Abersoch, ond er mwyn cynnig

cefnogaeth a bod yn dryloyw, roedd yr Adran wedi ymdrin â'r broses fel pe byddai'n ysgol fach a gwledig.

Rhodddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Nododd aelod ei fod yn credu bod y ddogfennaeth helaeth a dderbyniwyd yn cyfarch y rhesymau dros'r penderfyniad i mewn.

Mewn ymateb i gwestiynau, nodwyd:-

- O ran yr effaith ar yr iaith Gymraeg ac ar y gymuned, bod asesiadau effaith wedi'u gwneud ar yr effaith bosib' ar y gymuned a'r iaith Gymraeg drwy gydol y broses. Gan fod yr asesiad o ran cau ysgol yn nodi y byddai yna effaith ar agweddau cymunedol o'r ysgol, ac o golli'r ysgol yn y gymuned, edrychwyd ar beth allai'r Cyngor ei wneud i liniaru'r effeithiau negyddol posib'.
- Bod yr Awdurdod yn gwneud popeth i annog trafodaethau rhwng yr ysgol amgen ac Ysgol Abersoch fel bod modd pontio'r profiadau da mae'r disgyblion wedi gael yn Ysgol Abersoch i'r ysgol amgen. Roedd Ysgol Abersoch wedi bod yn weladwy iawn yn y pentref, ac roedd angen annog yr ysgol amgen i sicrhau bod y cydweithio gyda chymuned Abersoch yn parhau.
- Bod sefyllfa'r iaith Gymraeg yn gryf yn Ysgol Sarn Bach, gyda 57% o'r disgyblion yn dod o gartrefi Cymraeg, o gymharu â 33% yn Ysgol Abersoch. Golygai hynny y byddai yna fwy o gyfleoedd i'r disgyblion ymarfer yr iaith Gymraeg o fewn y dosbarth ac ar yr iard. Roedd Ysgol Abersoch wedi gweithio'n galed i ddatblygu dwyieithrwydd disgyblion ac wedi hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, ac roedd y disgwyliad yr un mor uchel ar Ysgol Sarn Bach.
- O ran niferoedd plant, bod ffigurau Medi 2020 yn dangos bod yna 26 o blant 3-8 oed yn byw yn y dalgylch, gyda 5 ohonynt (19%) yn dewis mynychu Ysgol Abersoch a 21 (81%) yn dewis mynychu ysgolion all-dalgylch. Ym mis Medi eleni, roedd 20 o blant 3-8 oed yn byw yn y dalgylch, gyda 4 ohonynt (20%) yn dewis mynychu Ysgol Abersoch ac 16 (80%) yn dewis mynychu ysgolion all-dalgylch. O ran y sefyllfa bresennol, mae 7 plentyn yn mynychu Ysgol Abersoch, 4 ohonynt o'r dalgylch, a 3 yn all-dalgylch.
- Bod teithio yn rhan allweddol o bob adroddiad i'r Cabinet. Darperir cludiant eisoes ar gyfer disgyblion oedd yn mynd i Ysgol Sarn Bach o Flwyddyn 4 ymlaen, ac ni chredir y byddai darparu cludiant ychwanegol ar gyfer disgyblion Ysgol Abersoch yn arwain at gostau ychwanegol nac yn effeithio'n andwyol ar ôl-troed carbon.

Gwahoddwyd yr Aelod Lleol i gyflwyno sylwadau. Nododd:-

- Y dymunai ddiolch i'w gyd-aelodau am alw'r penderfyniad i mewn, a hefyd i lywodraethwyr yr ysgol, sydd wedi brwydro mor galed, ac i'r staff a'r plant a'r rhieni sydd wedi parhau i anfon eu plant i'r ysgol.
- Bod yna lawer o gwestiynau ynglŷn â'r rhesymau dros symud plant yng nghanol blwyddyn ysgol.
- Bod cynllun i godi 12-15 tŷ fforddiadwy yn y pentref yn mynd yn ei flaen, ac y byddai hyn yn cynyddu nifer y plant yn yr ardal dros nos.
- Ei bod yn debygol iawn hefyd y byddai cynllun i godi gwesty yn Abersoch yn mynd rhagddo, ac yn creu swyddi newydd yn yr ardal.
- Nad oedd yr adroddiad yn cyfeirio at ddyfodol y dalgylch na'r pentref, ac felly'n diystyru egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

- Y dadleuwyd yn y Cyngor llawn yn ddiweddar y dylai'r premiwm treth cyngor gael ei wario yn yr ardaloedd lle mae'r dreth yn cael ei chasglu, ac nad oedd cyfeiriad yn yr adroddiad at unrhyw ymdrech i ddefnyddio arian y premiwm i geisio ariannu'r ysgol.
- Bod un ysgol gyfagos ymhell dros gapasiti, ond na chafwyd eglurhad pam bod hynny wedi gallu digwydd.
- Gan nad oedd un plentyn am gael cludiant i Ysgol Sarn Bach oherwydd polisi oedran y Cyngor, byddai'n cael ei amddifadu o addysg am flwyddyn.
- Na ddeallid y brys i gau'r ysgol erbyn 31 Rhagfyr eleni, yn enwedig pan fo gwybodaeth newydd yn dod i'r golwg.
- Y byddai'r effaith ar y diwylliant Cymraeg a'r iaith Gymraeg yn ergyd drom i'r ymdrechion a fu i gadw'r iaith yn fyw yn y pentref.
- Na ddeallid pam bod angen symud y plant cyn creu'r llwybr diogel i gerddwyr o Abersoch i Sarn Bach.
- Bod gan rieni'r hawl i anfon eu plant i unrhyw ysgol, a phwy oedd i ddweud y byddai rhieni Abersoch yn anfon eu plant i Sarn Bach? Nid oedd neb yn gwybod eto i ble y byddai'r plant yn mynd, na sut.
- Bod penderfyniad y Cabinet yn warthus, ac nad oedd yr adroddiadau yn ateb yr un o'r cwestiynau.
- Na ddeallid pam nad yw Ysgol Abersoch wedi ei chofrestru fel ysgol wledig. Cafwyd ar ddeall mai Llywodraeth Cymru sy'n penderfynu ar hyn, ond roedd Llywodraeth Cymru yn dweud bod rhaid gofyn y cwestiwn i'r Cyngor. Hefyd, dywedwyd ar un adeg na ymgynghorwyd â'r Cyngor ynglŷn â hyn, ond roedd Llywodraeth Cymru yn dweud bod yna 3 ymgynghoriad wedi bod.
- Bod Ysgol Abersoch yn ysgol hynod o dda, ac y mawr obeithiai y byddai'r pwyllgor yn ystyried gyrru'r mater i'r Cyngor llawn am benderfyniad.

Mewn ymateb i'r sylwadau hyn, eglurodd y Swyddog Monitro:-

- Gan na chafodd penderfyniad y Cabinet ym mis Mehefin eleni i gyhoeddi'r rhybudd statudol ei alw i mewn i'w graffu, bod hynny'n dirwyn y broses ymgynghori i ben.
- Mai rôl y Cabinet ym mis Medi oedd ystyried y gwrthwynebiadau i rybudd statudol oedd wedi'i gyhoeddi, a rôl y pwyllgor hwn yw ystyried ymateb y Cabinet i'r gwrthwynebiadau hynny, a bod honno'n drefn statudol gyda chyfnod statudol o'i chwmpas.
- Petai'r pwyllgor hwn yn gyrru'r mater yn ôl i'r Cabinet gyda phwyntiau nad oedd yn rhan o'r gwrthwynebiadau, neu'n faterion newydd, ni fyddai'r Cabinet mewn sefyllfa i gymryd y rheini i ystyriaeth.
- Bod gan y pwyllgor yr hawl i gyfeirio'r mater i'r Cyngor llawn i barhau â'r broses graffu, ond byddai'n rhaid bod yn glir am y rhesymeg dros wneud hynny. Hefyd, gan y byddai'r cyfnod 16 wythnos i gadarnhau'r rhybudd statudol yn dod i ben ganol Tachwedd, byddai'n rhaid galw cyfarfod arbennig o'r Cyngor mewn da bryd i gyfeirio'r mater yn ôl i'r Cabinet cyn i'r rhiniog statudol gael ei basio.

Mewn ymateb i'r pwynt diwethaf, awgrymodd yr Aelod Lleol nad oedd y ddatl ein bod yn rhedeg allan o amser yn dal dŵr, oherwydd y dylem fod wedi cymryd yr amserlen statudol i ystyriaeth yn ystod yr holl broses. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Monitro ei bod yn anghyffredin gofyn i'r Cyngor llawn ymgymryd â'r rôl craffu, a beth bynnag fyddai rôl y Cyngor llawn, byddai'n ofynnol i'r mater fynd yn ôl i'r Cabinet i'w benderfynu.

Ar bwynt o gywirdeb, nododd y Pennaeth Addysg fod sylw'r Aelod Lleol fod un disgybl ddim yn gymwys i gael cludiant i Ysgol Sarn Bach yn gamarweiniol, a bod yr adroddiad yn cyfarch y cludiant i'r disgybl meithrin. Atebodd yr Aelod Lleol nad dyna gafodd ei ddweud

yn y Cabinet. Mewn ymateb, eglurodd y Pennaeth Addysg fod yr Adran wedi adolygu'r sefyllfa unigol yn dilyn y Cabinet, ac wedi gwneud eithriad i'r polisi i sicrhau bod y disgybl yn cael cludiant i'r ysgol.

Nododd aelod:-

- Ei fod yn edmygu dygnwch ymgyrch daer y gymuned leol, yn cynnwys yr Aelod Lleol, y llywodraethwyr a'r rhieni a'r disgyblion a chyn-ddisgyblion, oedd wedi pledio eu hachos dros gadw'r ysgol yn agored er lles y plant a'r gymuned.
- Er hynny, roedd hefyd yn gweld dadl y Cabinet dros gau ysgol gyda 7 disgybl, ac nad oedd y ffigwr yma'n hyfyw, er cystal yr addysg.
- Bod y llywodraethwyr a'r rhieni yn teimlo'n rhwystredig nad ydynt wedi cael cyfarfod cyhoeddus wyneb yn wyneb gyda'r Awdurdod, a holwyd a oedd modd i'r Cabinet ystyried cynnal cyfarfod o'r fath er tegwch i bawb.

Mewn ymateb i'r sylw diwethaf, eglurodd yr Aelod Cabinet y cynhaliwyd cyfarfodydd cyhoeddus cyn cyfnod y pandemig.

Cynigiwyd ac eiliwyd bod y pwyllgor craffu yn cyfeirio'r mater yn ôl i'r Cabinet i'w ail-ystyried ar y sail na chafwyd ymateb digonol i'r ail reswm dros alw i mewn, sef datblygiadau tai a gwesty yn yr ardal.

Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant bod y pwyllgor craffu'n cyfeirio'r mater i'r Cyngor llawn oherwydd bod y mater yn llawer ehangach nag Abersoch, a bod angen rhoi cyfle i holl aelodau'r sir gael siawns i ymateb i hyn. Mewn ymateb i'r gwelliant, eglurodd y Swyddog Monitro nad oedd modd gofyn i'r Cyngor drafod yr holl broses trefniadaeth ysgolion, ac nad oedd y gwelliant yn golygu dim mwy na gofyn i'r Cyngor gyflawni'r rôl craffu yng nghydestun y pwynt penodol, sef yr ymateb i'r gwrthwynebiadau. Nodwyd hefyd bod angen bod yn glir beth oedd y rhesymeg dros ofyn i'r Cyngor llawn gyflawni'r rôl craffu yn yr achos hwn.

Nododd aelod na chredai bod gyrru'r mater yn ôl i'r union bobl oedd wedi gwneud y penderfyniad yn y lle cyntaf yn ddemocrataidd, ac y byddai'n fwy agored ac yn fwy tryloyw petai'r mater yn mynd gerbron y Cyngor llawn.

Er eglurder, cadarnhawyd mai'r gwelliant oedd bod y pwyllgor craffu'n cyfeirio'r mater i'w graffu mewn cyfarfod arbennig o'r Cyngor o fewn yr wythnos neu ddwy nesaf (i gyd-fynd â'r amserlen statudol), a bod hynny ar y sail na chafwyd ymateb digonol i'r 5 rheswm dros alw i mewn.

Pleidleisiwyd ar y gwelliant, ac fe ddisgynnodd.

Pleidleisiwyd ar y cynnig gwreiddiol i gyfeirio'r mater yn ôl i'r Cabinet i'w ail-ystyried ar y sail na chafwyd ymateb digonol i'r ail reswm dros alw i mewn, sef datblygiadau tai a gwesty yn yr ardal, ac fe gariodd.

PENDERFYNWYD bod y pwyllgor craffu yn cyfeirio'r mater yn ôl i'r Cabinet i'w ail-ystyried ar y sail na chafwyd ymateb digonol i'r ail reswm dros alw i mewn, sef:-

“2.Nid yw'r Adroddiad yn cymryd i ystyriaeth ddyfodol Tai a Gwaith fydd yn dod i rym yn y Pentref .

(a) Mae Datblygiad Newydd o godi Gwesty Newydd fydd yn creu beth bynnag 40 o swyddi llawn amser yn yr ardal - mi fydd y Gweithwyr a'u Teulu angen adnoddau yn cynnwys Addysg i ein plant.

(b) Mae Llywodraeth Cymru, yr Adran Tai ac Eiddo Cyngor Gwynedd a Chymdeithas Tai (sydd yn berchen tir yn y pentref) ar hyn o bryd yn edrych i godi mwy o dai - mae

Llywodraeth Cymru wedi dweud fod grant ar gael i ddatblygu y tir yma i godi o bosib 15 o dai.

Mae'r Gymdeithas tai wedi cadarnhau fod cynlluniau wedi gwneud yn barod ar safle Bryn Garmon.

Nid yw'r adroddiad yn sôn dim am y cynllun newydd gan yr Adran Tai ac Eiddo a dim am y datblygiadau sydd yn mynd ymlaen yn y Pentref ac felly nid yw'r Adran Addysg wedi ymateb i ofynion Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol wrth beidio gwneud hyn."

6. YR ECONOMI A CHEFNOGAETH I FUSNESAU

Croesawyd swyddogion yr Adran Economi a Chymuned i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Economi a Chymuned, ar gais y pwyllgor craffu, yn amlinellu pa gefnogaeth mae'r Cyngor yn ei roi i fusnesau, yn arbennig yn sgil y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd a'r pandemig Covid-19.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Nododd aelod, o ran cywirdeb, y dylai'r adroddiad gyfeirio at y Deyrnas Gyfunol, yn hytrach na'r Deyrnas Unedig.

Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau, nodwyd:-

- Bod y cynnydd yn nifer yr ymholiadau a cheisiadau am gymorth gan fusnesau dros y 18 mis diwethaf wedi cyflwyno heriau i'r gwasanaeth o ran adnoddau ac o ran ail-gyfeirio a blaenoriaethu'r gwaith. Hefyd, roedd y gwasanaeth wedi ail-flaenoriaethu mwy tuag at gefnogi a chynnal busnesau i barhau, yn hytrach na datblygu a chreu swyddi o'r newydd, fel yn y gorffennol. Roedd mwy o fusnesau wedi dod i gyswllt â'r Cyngor yn ystod cyfnod y pandemig nag erioed o'r blaen, ac un o'r pethau cadarnhaol a ddeilliodd o hynny oedd sefydlu'r bwletin busnes, oedd bellach yn mynd allan o leiaf ddwywaith yr wythnos i dros 4,500 o fusnesau'r sir. Roedd y gwasanaeth hefyd wedi symud tuag at roi cyngor ynglŷn â materion ychydig ehangach o ran arferion da a sut i fabwysiadu technoleg newydd. Roedd yn rhaid rhoi ymdrech i mewn i'r gwaith o gynnal a sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei dosbarthu, ac roedd y gwasanaeth yn ail-drefnu eu hunain hefyd, gan chwilio am adnoddau trwy law'r Cyngor i'w galluogi i barhau gyda'r gwaith.
- Na chafwyd sgwrs benodol gyda'r Adran Tai ac Eiddo yn y cyfnod yma o ran cynorthwyo gweithwyr allweddol, ac ati, sy'n symud i mewn i'r ardal i ddod o hyd i rywle i fyw. Roedd trafodaethau'n mynd ymlaen gyda'r Adran o ran polisiau cynllunio, ac ati, ond roedd angen gwneud mwy o waith ar hynny. Eglurwyd nad prinder sgiliau oedd y brif gŵyn gan fusnesau ar hyn o bryd, ond prinder pobl i weithio i'r busnesau hynny, ac roedd hynny'n wir ar draws y sectorau. Cyfeiriwyd at ddarn o waith i geisio cefnogi pobl nad ydynt mewn gwaith i mewn i swyddi mewn meysydd lle mae bylchau, ond roedd graddfa'r broblem yn llawer ehangach nag a fu, a byddai'n rhaid edrych ar hyn yn ehangach gyda phartneriaid eraill, er mwyn cwrdd â lefel y galw presennol. Nodwyd ymhellach bod dros 120 o bobl wedi cael cymorth drwy'r Tîm Gwaith Gwynedd, ac er nad oedd hyn yn cyfarch y galw yn ei gyfanrwydd, roedd yna weithgaredd sylweddol wedi digwydd. Hefyd, fe geisiwyd cymryd rhywfaint o gamau bychan, ond ymarferol, i gefnogi busnesau, e.e. drwy hwyluso cael tudalennau ar Facebook, fel bod modd i fusnesau hyrwyddo'r cyfleoedd gwaith sydd ganddynt.

- Bod cyhoeddiad Llywodraeth Prydain ar y trefniadau grant i'r dyfodol, yn sgil diflaniad arian Ewropeaidd, wedi ei wthio nôl, ond roedd yn debygol y byddai yna ryw fath o gyhoeddiad yn dilyn yr adolygiad ariannol fis nesaf. Eglurwyd mai'r bwriad oedd cyhoeddi Cronfa Ffyniant Gyffredin, ac er nad oedd y trefniadau wedi'u cadarnhau eto, rhagwelid, yn hytrach na throsglwyddo swm o arian i Lywodraeth Cymru i'w ddyrannu yng Nghymru, y byddai'n rhaid i bob awdurdod ymgeisio'n uniongyrchol am yr arian yma o Lundain. Disgwylid y byddai yna arian cyfalaf ac arian refeniw, fel yn flaenorol, ond nid oedd yn glir a fyddai'r arian wedi ei gylchu'n benodol i Gymru, er i Lywodraeth Prydain ddweud y byddent yn parhau â'r cytundeb yma, ac y byddwn yn derbyn yn union yr un faint o arian.
- Bod y gwasanaeth yn bur bryderus am y sefyllfa. Yn wreiddiol, disgwylid cyhoeddiad, ond ni fu trafod gyda neb ynglŷn â beth fyddai cynnwys y cyhoeddiad hwnnw. Roedd yn gam ymlaen, o leiaf, bod gennym berthynas a'n bod yn gallu cael trafodaeth ar hyn o bryd i geisio dylanwadu, ond cwestiynid faint o wir ddylanwad oedd hynny mewn gwirionedd. Unwaith y byddai'r wybodaeth wedi ei chyhoeddi, byddai'r gwasanaeth mewn gwell sefyllfa i'w dadansoddi. Cafwyd arweiniad i ddisgwyl rhywbeth ar yr un llinellau â'r Gronfa Codi'r Gwastad a'r Gronfa Adfer Cymunedol, a gyhoeddwyd yn gynharach eleni, ond os mai dyna'r achos, byddai yna gryn le i bryderu. Awgrymwyd y dylid cyflwyno adroddiad pellach ar hyn i'r pwyllgor i'w graffu pan fydd mwy o wybodaeth ar gael.
- Bod y gefnogaeth i fusnesau newydd y cyfeirir ati yn yr adroddiad yn gymorth penodol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi busnesau oedd newydd gychwyn pan ddechreuodd y pandemig. Ymdrechwyd i roi cymorth i fusnesau gychwyn ac i dyfu drwy gyfnod y pandemig. Ail-gyfeiriwyd sylw ac adnoddau yn ystod y 18 mis diwethaf, nid yn unig gan y Cyngor, ond gan Lywodraeth Cymru hefyd, tuag at gefnogi cynnal a chadw busnesau yn y tymor byr, ond roedd y symudiad yn ôl fwy tuag at gefnogaeth ddatblygol yn dechrau rŵan. Roedd y galw am arian i ddatblygu neu dyfu wedi parhau'n eithaf cryf drwy gydol y cyfnod, ac yn dal yn rhyfeddol o gryf.
- O ran cyfeirio pobl tuag at gymorth, anogid pobl i ddod i gyswllt â'r gwasanaeth ac i gofrestru ar gyfer derbyn y bwletin busnes, gan fod hynny'n ffordd dda o fod yn effro i'r cymorth ymarferol a'r grantiau, wrth iddynt ddod ar gael. Nodwyd bod modd cofrestru drwy wefan y Cyngor, a chytunwyd i gylchredeg cyswllt uniongyrchol at aelodau'r pwyllgor yn dilyn y cyfarfod, fel bod modd iddynt annog busnesau lleol yn eu hardal i gymryd mantais o'r ddarpariaeth.
- Eglurwyd bod nifer o gronfeydd yn dal ar gael ar gyfer helpu busnesau i dyfu, ac anogwyd pobl i gysylltu â'r gwasanaeth yn y lle cyntaf. Yn fwy hirdymor, roedd angen adeiladu ar y cyfathrebu oedd wedi digwydd yn ystod y cyfnod Covid, gan fagu mwy o ymgysylltiad a deialog gyda busnesau, ac roedd yn flaenoriaeth gan y gwasanaeth yn y flwyddyn nesaf i gynyddu'r gallu a'r capasiti i wneud hynny, gan y bu hynny'n heriol yn hanesyddol, oherwydd maint yr adnoddau oedd ar gael.
- Nad oedd adnoddau'r gwasanaeth yn ddigonol i allu cynnal y berthynas gyda busnesau ar yr un lefel â'r flwyddyn a hanner diwethaf, ac roedd profiad y cyfnod diweddar hwn wedi dangos bod angen cryfhau'r adnodd er mwyn cynnal a chefnogi busnesau mewn mwy o fanylder.
- Er nad oedd gan y gwasanaeth yr arbenigedd i gynnig cymorth i fusnesau allforio, y gallai'r aelodau gyfeirio unrhyw fusnes yn eu hardal i sylw'r Rheolwr Cefnogi Busnes, fyddai'n dod o hyd i'r arbenigedd ar eu cyfer.

Diolchodd y Cadeirydd am yr adroddiad, gan ddymuno bob llwyddiant i'r Adran gyda'r bidiau.

Cyn bwrw ei bleidlais ar y mater, holodd y Cynghorydd Mike Stevens a ddylai ddatgan buddiant personol oherwydd bod ganddo fusnes cynhyrchu yng Ngwynedd a'i fod hefyd yn Gadeirydd Siambr Twristiaeth Rhanbarth Tywyn.

Mewn ymateb, eglurwyd bod y cyfle i ddatgan buddiant, dan eitem 2 ar y rhaglen, wedi mynd heibio, ond y byddai'r datgan buddiant yn cael ei nodi ar y pwynt yma. Ychwanegwyd nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu, ac y gallai'r aelod symud ymlaen i fwrw ei bleidlais ar y mater.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gan edrych ymlaen at gael mwy o wybodaeth ynglŷn â grantiau i fusnesau maes o law.

7. GAGENDOR LLES A CHYRHAEDDIAD

Croesawyd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a'i gyd-swyddogion, swyddogion yr Adran Addysg a Phennaeth Ysgol Cefn Coch ac Ysgol Talsarnau, Pennaeth Ysgol Botwnnog a Phennaeth Ysgol Pendarfod i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg yn cyflwyno gwybodaeth i'r pwyllgor craffu ar y Gagendor Lles a Chyrhaeddiad, gan gynnwys:-

- Effaith Covid ar addysg yr holl ddisgyblion;
- Pa gynlluniau sydd gan ysgolion o ran llesiant yr holl ddisgyblion

Gosododd yr Aelod Cabinet y cyd-destun drwy nodi:-

- Er bod y gagendor lles a chyrhaeddiad wedi gwaethygu efallai yn ystod y pandemig, bod angen cydnabod bod y problemau hyn wedi bodoli ers rhai blynyddoedd.
- Bod presenoldeb swyddogion GwE yn y cyfarfod hwn yn tanlinellu pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth gyda GwE, a bod hyn yn ein galluogi i ymateb yn bositif i'r broblem ddyrys yma.
- Ei fod yn awyddus i'r pwyllgor gael darlun drwy lygaid gweithwyr rheng flaen, a'i fod felly'n hynod ddiolchgar bod cynrychiolwyr o'r uwchradd, y cynradd ac arbennig yn y cyfarfod i rannu eu profiadau.

Ategwyd sylwadau'r Aelod Cabinet gan y Pennaeth Addysg, a nododd ymhellach:-

- Bod cyfnod y pandemig wedi bod yn gyfnod heriol iawn i'r ysgolion, a bod yr Awdurdod, GwE, yr ysgolion a phartneriaid eraill wedi cydweithio'n agos iawn er mwyn lleihau'r problemau i'r graddau mwyaf oedd yn bosib'.
- Bod adroddiad Estyn ynghylch i ba raddau roedd yr Awdurdod wedi bod yn llwyddiannus yn cefnogi dysgwyr yn ystod y cyfnod yma yn adroddiad clodwiw, a'i fod yn ymwybodol bod Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a'i dîm hefyd wedi derbyn adroddiad yr un mor ganmoliaethus ar eu gwaith hwy yn ystod y cyfnod hwn, oedd eto'n amlygu'r cydweithio rhyngddynt.

Gosododd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE y cyd-destun i'r Strategaeth Adnewyddu a Diwygio, sy'n cefnogi lles a dysgu'r disgyblion ar draws Gogledd Cymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar Wunedd.

Yna derbyniwyd cyfres o gyflwyniadau gan swyddogion GwE, fel a ganlyn:-

- Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Safonau) – prif benawdau'r Strategaeth (Atodiad 1)
- Uwch Arweinydd – Uwchradd – blas o'r gwaith ymgysylltu gyda'r ysgolion i ddal cynnydd ac effaith y gweithredu sydd wedi bod hyd yma (Atodiad 2)
- Arweinyddion Craidd – Cynradd / Uwchradd – diweddariad ar y defnydd a'r effaith o'r Grant Cyflymu'r Dysgu (Atodiad 4)

Nododd aelod mai un sgil-ffaith o'r cyfnod Covid yw'r diffyg cyfleoedd i ddisgyblion ymarfer a siarad ar lafar gyda'i gilydd, a bod y cyfeiriad yn y papurau at 'ailgodi' sgiliau llafar a thrafod Cymraeg yn tanlinellu bod rhywbeth wedi syrthio. O gofio mai prif bwrpas y Siarter laith yw hybu defnydd anffurfiol o'r Gymraeg, holwyd beth fyddai rôl y Siarter laith yn y cyfnod hwn wrth geisio cyflymu'r dysgu, a pham nad oedd cyfeiriad penodol at waith allweddol y Siarter laith yn yr adroddiad cyflymu dysgu? Mewn ymateb, eglurwyd bod yr adroddiad hwn yn cyfeirio at ffocws y grant yn benodol. Yn dilyn cyflwyniadau GwE, byddai swyddogion yr Awdurdod yn ymhelaethu ar y gwaith partneriaethol sydd wedi digwydd rhwng yr Awdurdod a GwE, a byddai cyflwyniad Swyddog Addysg Uwchradd Gwynedd yn manylu ar ddylanwad y Siarter laith.

Derbyniwyd cyflwyniad gan Swyddog Addysg Uwchradd Gwynedd ar effaith y cyfnod Covid ar y Gymraeg mewn ysgolion. Mewn ymateb i'r cwestiwn penodol a godwyd ynghylch y Siarter laith, eglurodd:-

- Yr edrychwyd ar raglen waith y Cydlynnydd Siarter laith a Chydlynnydd Strategaeth laith Uwchradd y sir, a chefnogwyd ysgolion i weithredu prif flaenoriaethau'r Siarter laith drwy raglen waith y cydlynwyr hyn.
- Wrth ail-ddiffinio rolau a chynlluniau gwaith y cydlynwyr iaith ym mhob dalgylch o'r sir, a sicrhau bod y Cydlynnydd Siarter laith a'r Cydlynnydd Strategaeth laith yn eu cefnogi fel rheolwyr llinell, llwyddwyd i sicrhau parhad yng nghyfrwng addysg Gymraeg wrth i ddisgyblion drosglwyddo yn ôl i'r ysgolion yn dilyn y cyfnod clo, a hefyd wrth iddynt drosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd.
- Y sicrhawyd hefyd bod holl gynlluniau clwstwr y Gymraeg, sy'n ymateb i grant y Gymraeg, yn cyd-fynd gyda deilliannau Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y sir.
- Y cryfhawyd cydweithio rhwng y cynradd a'r uwchradd er mwyn sicrhau'r parhad ieithyddol, gan hefyd ymateb i anghenion lleol fydd yn rhoi mwy o gyfleoedd i ddisgyblion Gwynedd gael defnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol, a thrwy hynny gynyddu'r ganran o blant cynradd ac uwchradd sy'n hyderus i wneud defnydd o'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd.

Cyfeiriodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE at y cynllun 'Ein Llais Ni', sy'n rhoi cyfle i ysgolion gydweithio â Phrifysgol Bangor a GwE i hyrwyddo sgiliau llafaredd dysgwyr, gan nodi y byddai'n falch o adrodd yn ôl i'r pwyllgor ar yr union bwynt a godwyd ar ôl i'r cynllun gael cyfle i wreiddio.

Holodd aelod a oedd y strategaethau a'r camau y cyfeiriwyd atynt yn y cyflwyniadau yn gweithio fel y dylent, ac yn gwneud gwahaniaeth, ar draws Gwynedd. Mewn ymateb, eglurwyd:-

- Bod symudiad wedi bod yn rhanbarthol yn lled ddiweddar ynghylch y cynllun yma, o ran cefnogaeth wahanol i ysgolion, a bod hynny wedi gorfod digwydd yn sgil yr hyn a ddysgwyd drwy Covid.
- Mai'r drydedd goes oedd yr ysgolion, a'u parodrwyd a'u gallu i gydweithio.

- Bod gwaith da iawn yn mynd ymlaen, nid yn unig ar lefel sirol, ond ar lefel dalgyrch hefyd, sy'n cael ei arwain gan yr Awdurdod a swyddogion GwE. Roedd cyfarfodydd cyson yn cael eu cynnal ynghylch ansawdd y ddarpariaeth i'r ysgolion a'r gefnogaeth, a hefyd i asesu i ba raddau mae hynny yn ei dro yn dangos cynnydd priodol.
- Credid ei bod yn ddyddiau cynnar, os nad yn gynamserol, i fod yn pwysu a mesur pa mor effeithiol ydi hynny ar hyn o bryd, ond roedd yr ysgolion, oherwydd sefyllfaoedd lleol, a'r graddau y mae Covid wedi amharu ar eu gallu i weithredu ar ryw lefel o normalrwydd, yn amrywio yn ôl y cyd-destun. Fodd bynnag, at ei gilydd, roedd wedi cael derbyniad da gan yr ysgolion. Roedd y cydweithio'n dda ac roedd effaith y gwaith yma i'w weld yn gynyddol wrth symud ymlaen.
- Yn naturiol, roedd yn mynd i fod yn heriol ar hyn o bryd i ysgolion ymdopi yn llawn ar y parhad yma yng nghyd-destun y daith wella, ond roedd yn ofyn arnom i gyd fod yn gwneud hynny. Gobeithid bod hynny'n cael ei wneud mewn modd sensitif a rhesymol, a chredid ein bod yn cefnogi ein hysgolion hyd eithaf ein gallu, gan gymryd y cyd-destun lleol i ystyriaeth.

Nododd aelod na ellid bod yn siŵr beth fydd effaith y cynlluniau yma, gan ei bod yn ddyddiau cynnar, ac edrychid ymlaen at gael adroddiad ar hynny. Nododd hefyd fod athrawon y sir wedi gwneud gwaith gwyrthiol ac arwrol dros y 18 mis diwethaf, gan roi lles y plant o flaen eu lles eu hunain, ac y dylid mynegi diolchiadau'r pwyllgor iddynt am eu holl waith.

Derbyniwyd cyflwyniad gan Swyddog Addysg Ardal Meirion / Dwyfor ar y Strategaeth Addysg Ddigidol (tudalen 241 o'r rhaglen).

Nododd aelod fod yr ysgolion a'r Awdurdod i'w llongyfarch am y ffordd y bu iddynt ymateb i'r her drwy ddarparu dyfeisiadau ar gyfer dysgu o gartref yn ystod y cyfnod clo, ac edrychid ymlaen at dderbyn adroddiad pellach ar y Strategaeth maes o law.

Mewn ymateb i gwestiwn, nododd Swyddog Addysg Ardal Meirion / Dwyfor, er ei bod yn dechnegol bosib i'r ysgolion ail-fenthyg dyfeisiadau i blant sydd gartref o'r ysgol yn dioddef o Covid, neu'n hunan-ynysu, bod her mewn rhai cartrefi lle nad oes cysylltiad digon sydyn i fand llydan, neu ddim cysylltiad we o gwbl. Hefyd, er y byddai modd i blentyn sydd gartref gael mynediad i waith dosbarth sy'n disgyn i mewn i'r model dysgu cyfunol, nid oedd yn bosib gwneud popeth dros y cyfrwng digidol, oherwydd y pwysau fyddai hynny'n ei roi ar yr athrawon. Nodwyd hefyd bod cyflenwad o ddyfeisiadau MiFi ar gael petai'r angen i ddysgu o bell yn codi eto.

Derbyniwyd cyflwyniad gan y Pennaeth Cynorthwyol ADY a Chynhwysiad ar effaith y cyfnod Covid ar y gwasanaeth ADY a CH (tudalen 242 o'r rhaglen)

Nodwyd bod pryder ym meddyliau plant ynglŷn â chymysgu a mynd yn ôl i'r ysgol a phwysleiswyd pwysigrwydd bod yn effro i sut mae'r plant yn teimlo'n ddyddiol.

Nododd y Pennaeth Addysg y gwahoddiwyd cyflwyniadau gan 3 phennaeth, yn cynrychioli'r proffesiwn i gyd, fel bod modd i aelodau'r pwyllgor glywed o'r rheng-flaen am yr heriau mae'r ysgolion wedi, ac yn parhau, i wynebu. Diolchodd i'r 3 am roi o'u hamser prin i ddod i annerch yr aelodau, ac i holl bennaethiaid y sir am y gwaith maent wedi gwneud, ac yn parhau i'w wneud, dan amgylchiadau heriol ofnadwy.

Derbyniwyd cyflwyniadau gan yr isod:-

- Pennaeth Ysgol Cefn Coch ac Ysgol Talsarnau (cynradd)

- Pennaeth Ysgol Botwnnog (uwchradd)
- Pennaeth Ysgol Pendalar (arbennig)

Diolchodd y Cadeirydd i'r penaethiaid am eu cyflwyniadau, gan nodi bod clywed o'r rheng-flaen wedi bod yn agoriad llygaid i'r aelodau, ac wedi amlygu pa mor bwysig yw gwrando ar leisiau pobl o'r tu allan. Ychwanegodd y gallai'r pwyllgor roi sylw i graffu rhai o'r materion a godwyd fel mae'r blynyddoedd yn mynd yn eu blaenau. Awgrymodd hefyd y byddai wedi bod yn fuddiol petai'r pwyllgor wedi derbyn y cyflwyniadau hyn ar gychwyn, yn hytrach nag ar ddiwedd y cyfarfod. Nododd ymhellach ei bod yn falch o glywed bod y penaethiaid yn derbyn cefnogaeth gan yr Awdurdod, a diolchodd i holl staff yr ysgolion am eu holl waith er lles plant y sir.

Yn ystod y drafodaeth yn dilyn y cyflwyniadau, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau:-

- Diolchwyd i'r penaethiaid am fod mor onest ynglŷn â'r heriau.
- Diolchwyd i'r Awdurdod ac i GwE am y cydweithio clir, a'r arweiniad clir a doeth i ysgolion yn ystod y cyfnod anodd hwn.
- Awgrymwyd y dylai'r Cyngor llawn glywed cyflwyniadau'r 3 phennaeth yn y dyfodol agos, fel bod pob cynghorydd yn deall beth sydd wedi bod yn digwydd, sut mae'r staff wedi gweithio mor galed drwy hyn, a beth yw'r heriau sy'n wynebu ysgolion i'r dyfodol. Mewn ymateb, nododd y Cadeirydd y gellid edrych ar y posibilrwydd o roi'r cyflwyniadau i'r cynghorwyr i gyd.
- Mynegwyd pryder ynglŷn â pha gefnogaeth ariannol fydd ar gael i'r ysgolion yn y dyfodol, a phwysleisiwyd yr angen i gydweithio i sicrhau bod yr ysgolion yn cael y gefnogaeth maent yn ei haeddu i'r dyfodol.
- Nodwyd mai'r garfan sydd wedi dioddef fwyaf yn sgil y pandemig ydi'r bobl ifanc, a'u bod wedi eu hamddifadu o ran allweddol o'u magwraeth ac o'u cysylltiadau â phobl eraill.
- Nodwyd, er bod y We wedi bod yn fendith i gysylltu'r hefo'r disgyblion, ac i'r disgyblion gyfathrebu â'u cyfoedion, nad oedd cysylltu ar y We yn brofiad braf bob amser, a holwyd a welwyd cynnydd sylweddol yn y materion hynny ers y cyfnod clo? Mewn ymateb, nodwyd na welwyd cynnydd yn y problemau o ran rhwydweithiau cymdeithasol, a bod y broblem wedi tawelu rhywfaint yn y blynyddoedd diwethaf wrth i bawb ddod yn fwy hyddysg o ran gwybod sut i'w ddefnyddio'n ddoeth. O ran y defnydd ohono ar gyfer dysgu, roedd Hwb yn creu sefyllfa eithaf diogel ar gyfer y disgyblion o ran y dysgu ar-lein a'r cydweithio rhwng yr athrawon a'r disgyblion, a'r disgyblion â'i gilydd.
- Nodwyd na ellid gor-bwysleisio ymdrech y darparwyr addysg a'r staff, ac y byddai'n rhaid parhau i roi cefnogaeth iddynt i'r dyfodol, gan nad ydw'r pandemig drosodd.

Yn ei sylwadau cloi, nododd yr Aelod Cabinet fod gwahodd cynrychiolwyr o'r rheng-flaen i annerch y craffwyr wedi bod yn ddatblygiad newydd yn y pwyllgor hwn, a'i fod yn awyddus i ymestyn hynny, gan gymryd i ystyriaeth efallai y dylai'r cyflwyniadau ddod ar gychwyn, yn hytrach nag ar ddiwedd y cyfarfod yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chofnodi ein diolchiadau i'r gweithlu am eu cyfraniad yn ystod y 18 mis diwethaf.

8. RHAGLEN WAITH CRAFFU DDIWYGIEDIG

Cyflwynwyd rhaglen waith craffu ddiwygiedig ar gyfer 2021/22.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r rhaglen waith ar gyfer cyfarfod 9 Rhagfyr, a thrafod gweddill y rhaglen yn y cyfarfod anffurfiol i ddilyn y pwyllgor.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y.b. a daeth i ben am 2.30 y.h.

CADEIRYDD

Eitem 5

Cyfarfod:	Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
Dyddiad:	09 Rhagfyr 2021
Teitl:	Lefel diweithdra a chefnogaeth yn ôl i swyddi
Awdur:	Dylan Griffiths Rheolwr Datblygu Economaidd, Adran Economi a Chymuned
Aelod Cabinet:	Gareth Thomas Aelod Cabinet Economi a Chymuned
Pwrpas:	Adroddiad ar gais y Pwyllgor Craffu yn amlinellu'r newidiadau yn niweithdra a pa gefnogaeth mae'r Cyngor yn ei gynnig i bobl Gwynedd.

1. Cefndir

- 1.1. Mae sicrhau gwaith yn allweddol i les unigolion ac yn cael effaith gadarnhaol ar deuluoedd a'r gymuned yn ei gyfanrwydd.
- 1.2. Yn hanesyddol mae cyfraddau diweithdra yng Ngwynedd wedi bod yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Er hyn, roedd heriau o ran; sicrhau fod pawb sy'n gallu yn rhan o'r llafurlu, natur dymhorol cyflogaeth a chyfraddau cyflog isel.
- 1.3. Roedd y Cyngor yn weithgar yn ymateb i'r heriau hyn o dan adain [Cynllun y Cyngor](#) gyda'r rhaglen 'Mwy o drigolion Gwynedd yn chwarae rhan lawn yn y byd gwaith' yn darparu cefnogaeth i drigolion drwy law'r fîm [Gwaith Gwynedd](#) o fewn y Gwasanaeth Datblygu Economaidd.
- 1.4. O ganlyniad i ardrawiad pandemig y coronafeirws ac effeithiau gadael yr Undeb Ewropeaidd, mae'r deunaw mis diwethaf wedi bod yn gyfnod eithriadol o dymhestlog i bobl Gwynedd o ran y byd gwaith.
- 1.5. Mae'r adroddiad yma yn amlinellu'r newidiadau ac ymateb y Cyngor ynghyd â'r heriau i ddod. Dylid ystyried yr adroddiad ochr yn ochr gyda'r [adroddiad](#) gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu ar yr 21^{ain} o Hydref oedd yn amlinellu anghenion busnesau ac ymateb y Cyngor.

2. Y sefyllfa fel ac yr oedd cyn Mawrth 2020

- 2.1. Fel y nodir uchod, yn hanesyddol roedd diweithdra yng Ngwynedd wedi bod ychydig yn is na'r cyfartaledd, gan ddilyn yn fras y patrwm yn genedlaethol (wele graff 1 yn Atodiad 1).
- 2.2. Ym Mawrth 2020 roedd y gyfradd o'r gweithlu yn hawlio budd-dal yn gysylltiedig â chwilio am waith yn 2.6% sef 1,985 o unigolion o'i gymharu â 3.1% ledled Cymru¹.
- 2.3. Fodd bynnag, roedd cyfraddau segurddod (sef unigolion oed gwaith dim yn gweithio neu'n chwilio am waith) yng Ngwynedd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y DU² ac yn broblem arbennig o fewn rhai cymunedau.
- 2.4. Yn gyfochrog, roedd y gyfran o'r gweithlu ddim yn cyflawni eu llawn botensial o ganlyniad i fod yn gweithio'n rhan-amser yn her gyda 38% o swyddi Gwynedd yn rhan amser o'i gymharu â 32% ar draws Prydain Fawr³.
- 2.5. Er mwyn ymateb i'r heriau hyn roedd Cyngor Gwynedd wedi sefydlu fîm Gwaith Gwynedd o fewn Gwasanaeth Datblygu Economaidd yr Adran Economi a Chymuned gan ddenu arian gan Ewrop a Llywodraeth Cymru i ddarparu gwasanaeth i helpu unigolion di-waith ac, yn bennaf, trigolion segur ennyn y sgiliau anghrediniol a chwilio am swyddi addas.
- 2.6. Roedd fîm Gwaith Gwynedd hefyd yn gweithio gydag ystod o gyflogwyr o fewn y sir i'w cynorthwyo i sicrhau gweithwyr addas.
- 2.7. Ar drothwy'r pandemig roedd wyth o swyddogion o fewn fîm Gwaith Gwynedd.

3. Gwedd gyntaf pandemig y coronafeirws (2020/21)

- 3.1. Gyda chychwyn y cyfnod clo gyntaf mewn ymateb i COVID-19 gwelwyd chwildro yn y tirlun cyflogaeth yng Ngwynedd.
- 3.2. Ffrwydrodd y nifer o bobl Gwynedd oedd yn ddi-waith bron yn unionsyth. Neidiodd y nifer y ddi-waith i bron i 8 mil o unigolion erbyn Medi 2020 cynnydd o 115% ar y nifer yn flaenorol⁴ (gweler graff 2 yn Atodiad 1). Roedd y cynnydd yng Ngwynedd yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan.

¹ Data gan System Weinyddu'r Ganolfan Byd Gwaith, yr Adran Gwaith a Phensiynau o safle StatsCymru ([dolen](#))

² Data cyfraddau anweithgarwch economaidd gan eithrio myfyrwyr gan y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol o safle StatsCymru ([dolen](#))

³ Data gan Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol o safle Nomis ([dolen](#))

⁴ Data gan System Weinyddu'r Ganolfan Byd Gwaith, yr Adran Gwaith a Phensiynau

- 3.3. Yn gyfochrog, erbyn Gorffennaf 2020 roedd 16,700 sef 36% o'r holl weithwyr yng Ngwynedd i ffwrdd o'r gwaith ac yn rhan o gynllun Cynllun Cadw Swyddi Coronafeirws (ffyrlo) Llywodraeth y DU⁵.
- 3.4. Ymatebodd Cyngor Gwynedd yn gyflym i'r her gan addasu dull a gweithgaredd y fîm Gwaith Gwynedd er mwyn cyfarch anghenion trigolion y sir.
- 3.5. Sefydlwyd Tasglu Diweithdra traws adrannol, yn cynnwys aelodau Cabinet perthnasol ac uwch swyddogion i arwain ar ddeall ac ymateb i'r sefyllfa.
- 3.6. Trosglwyddwyd sylw'r fîm Gwaith Gwynedd dros nos o gefnogi unigolion ar gyfrifon y farchnad llafur i ddarparu cyngor a chefnogaeth ymarferol i bobl oedd wedi colli eu swyddi yn ddiweddar.
- 3.7. Roedd newid sylweddol hefyd i'r dull o ddarparu cymorth; gan newid o wasanaeth wyneb yn wyneb i gefnogaeth o bell:
 - sefydlwyd canolfan alw rhithiol yn darparu llinell gymorth ar gyfer bobl Gwynedd
 - cynhaliwyd ymgyrch farchnata i hyrwyddo'r ddarpariaeth
 - darparwyd hyfforddiant a chymorth i unigolion a grwpiau dros y ffôn a drwy ddulliau amgen eraill megis WhatsApp a MStams
 - cefnogwyd sefydlu darpariaeth wedi ei deilwra i anghenion Gwynedd ar gyfer cefnogi pobl ifanc i waith o dan adain rhaglen Blaentrod Llywodraeth y DU
- 3.8. Er gwaetha'r heriau, llwyddodd y fîm i gefnogi 68 o unigolion i waith yn uniongyrchol (gweler graff 4 yn Atodiad 1) a nifer uwch yn anuniongyrchol drwy hyrwyddo'r cyfleoedd a'r cymorth ar gael gan Gwaith Gwynedd ac eraill.
- 3.9. Ar sail llwyddiant Gwaith Gwynedd sicrhawyd adnoddau pellach gan Lywodraeth Cymru yn ystod yr Hydref yn 2020 i gynyddu'r nifer o swyddogion o fewn y fîm i 15.

4. Ail wedd y pandemig ac ardrawiad gadael yr Undeb Ewropeaidd (2021/22)

- 4.1. Gyda diwedd yr ail gyfnod clo a diwedd y cyfnod pontio wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd gwelwyd newid sylweddol eto yn y farchnad llafur yng Ngwynedd hyd yma yn ystod 2021/22.

⁵ Data gan CThEM o gwefan gov.uk ([dolen](#))

- 4.2. Mae'r sefyllfa bellach wedi troi ar ei ben gyda'r brif her yn deillio o anallu busnesau i sicrhau staff digonol / addas. Mae'r rhesymau am y diffyg yn ansicr ond yn debygol o fod yn gyfuniad o sawl ffactor megis:
- cynnydd yn y nifer cwsmeriaid
 - yr angen am fwy o staff i gydymffurfio gyda rheoliadau COVID-19
 - cyfraddau uwch o salwch o ganlyniad i'r coronafeirws
 - diffyg argaeledd gweithwyr o rannau eraill o'r Undeb Ewropeaidd
 - nifer uchel o weithwyr yn parhau ar ffyrlo
 - gweithwyr wedi dewis ymddeol a phheidio dychwelyd i'r gwaith wedi i'w cyfnod fyrlo ddod i ben
 - Canolfannau Byd Gwaith dim yn gorfodi unigolion i chwilio wedi i reoliadau gael eu llacio mewn ymateb i COVID-19
- 4.3. Mae'r newid i weld yn glir yn graff 3 yn Atodiad 1 sydd yn dangos y nifer yn chwilio am waith yn 2020 a 2021 o'i gymharu â 2019.
- 4.4. Gyda'r newid yn gofyn addaswyd gweithgaredd y fîm Gwaith Gwynedd unwaith eto i hyrwyddo'r cyfleoedd i bobl Gwynedd a chynyddu'r ymdrech i helpu unigolion ar gyron y farchnad llafur fagu'r sgiliau i ddychwelyd i waith. Mae gweithgaredd y fîm hyd yn hyn eleni wedi cynnwys:
- trefnu ffair swyddi i hyrwyddo'r cyfleoedd o fewn meysydd megis lletygarwch a'r cymorth ar gael i unigolion
 - gweithio'n agos gyda meysydd blaenoriaeth megis gofal a'r gwasanaeth profi ac olrhain gan baratoi unigolion yn unswydd i'r cyfleoedd ynghyd â chynghori ar sut ellid addasu swyddi i ddenu'r gweithwyr sydd ar gael
 - sefydlu hysbysfwrdd ar gyfer swyddi yn y sir ar Facebook i hyrwyddo cyfleoedd a hwyluso'r cyswllt rhwng cyflogwyr ac unigolion yn ceisio gwaith (mae oddeutu 800 o swyddi wedi eu hysbysebu yno hyd yma)
 - darparu a hyrwyddo hyfforddiant o fewn meysydd ble mae'r diffyg gweithwyr yn fwyaf amlwg gan gynnwys gyrwyr cerbydau HGV
 - cydlynu a hyrwyddo'r ddarpariaeth cefnogaeth i waith gan y Cyngor ac eraill
 - gweithio'n ddwys gydag unigolion sydd wedi eu heithrio o waith am resymau megis anghenion iechedd, i'w cael yn barod i ddychwelyd i'r gweithle a sicrhau fod cyflogwyr yn addasu eu harferion
- 4.5. Mae ffrwyth llafur Gwaith Gwynedd i'w weld yn glir yn eu canlyniadau. Eisoes eleni mae dros 150 o unigolion wedi llwyddo i sicrhau swydd wedi iddynt dderbyn cefnogaeth y fîm (wele graff 4 yn Atodiad 1).

4.6. Yn Atodiad 2, ceir dwy astudiaeth achos sydd yn amlinellu sut mae unigolion wedi elwa o'r cymorth mae'r Cyngor yn ei gynnig.

5. Edrych ymlaen


5.1. Mae'r sefyllfa o ran diweithdra a'r galw am swyddi yn parhau'n hynod ansicr ac mae'n debygol y bydd newidiadau annisgwyl unwaith eto.

5.2. Mae'r diffyg data a'r oedi yn y ddarpariaeth o ystadegau yn ei gwneud yn anodd ymateb ac i ragweld olion cynnar heriau newydd. Bydd y Tasglu Diweithdra yn parhau i fonitro'r sefyllfa a chynnig arweiniad i'r fîm Gwaith Gwynedd.

5.3. Mae'r diffyg gweithwyr yn debygol o barhau a rhagwelir y bydd ymdrech sylweddol gan y fîm Gwaith Gwynedd i gefnogi cyflogwyr ac i baratoi unigolion sydd wedi eu heithrio o waith i ddychwelyd i'r farchnad llafur.


5.4. Un bygythiad pellach sydd ar y gorwel yw ansicrwydd ynglŷn â chyllido'r maes i'r dyfodol. Mae gweithgaredd Gwaith Gwynedd yn llwyr ddibynnol ar gyllid gan Lywodraeth Cymru a'r Rhaglenni Ewropeaidd ac ar hyn o bryd mae gweithgaredd wedi ei raglennu i ddod i ben yn ystod haf 2022.

1. Cyfraddau diweithdra hanesyddol (% gweithlu yn hawlio budd-dal yn gysylltiedig â chwilio am waith)




Data gan System Weinyddu'r Ganolfan Byd Gwaith, yr Adran Gwaith a Phensiynau o safle StatsCymru ([dolen](#))

2. Cynnydd (%) yn y nifer yn hawlio budd-dal yn gysylltiedig â chwilio am waith




Data gan System Weinyddu'r Ganolfan Byd Gwaith, yr Adran Gwaith a Phensiynau

3. Niferoedd cymharol yn hawlio budd-dal yn gysylltiedig â chwilio am waith 2019 i 2021



Data o'r Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol drwy law Nomis ([dolen](#))

4. Nifer o unigolion wedi eu cefnogi i waith gan Gwaith Gwynedd



Data rheolaeth Gwaith Gwynedd – data 2021/22 ar gyfer saith mis yn unig

Stori 'Rachel'

Cyfeiriwyd Rachel at Gwaith Gwynedd yn Gorffennaf 2020. Derbyniwyd yr atgyfeiriad gan y Tîm o Amgylch y Teulu y Cyngor. Roedd Rachel eisiau cefnogaeth frys gan fod ganddi cyfweliad swydd ymhen ychydig ddyddiau ac er gwaethaf ymgeisio am nifer o swyddi a mynychu nifer o gyfweiliadau roedd Rachel yn ei chael hi'n anodd iawn sicrhau cyflogaeth ac wedi colli hyder.

Roedd rhai problemau yng nghartref y teulu ac roedd gan Rachel broblemau iechyd hefyd gan ei bod wedi dioddef anaf i'w hymennydd pan oedd yn ei thridegau cynnar.

Oherwydd rheoliadau COVID, cynhaliwyd pob cyfarfod dros y ffôn a hefyd trwy negeseuon e-bost a thestun. Rhoddwyd cefnogaeth, cyngor ac arweiniad cyn ei chyfweliad swydd yn ogystal â ffug gyfweliad ffurfiol a galwad ffôn ar fore ei chyfweliad swydd.

Er gwaethaf pob cefnogaeth, roedd Rachel yn aflwyddiannus a theimlai eto fod hyn wedi cael effaith ar ei hunanhyder a'i hunan-barch. Cafwyd cyswllt rheolaidd trwy alwadau ffôn, cyfarfodydd ffôn a thestunau rhwng Rachel a'i mentor. Ym mis Tachwedd 2020 gwelodd Rachel hysbyseb swydd gyda Cyngor Lleol. Cwblhaodd Rachel ffurflen gais a chafodd ei gwahodd i fynychu cyfweliad. Cefnogwyd Rachel drwy gyfarfod ffôn ar ddiwrnod ei chyfweliad ac er gwaethaf teimlo'n nerfus roedd Rachel yn teimlo'n llawer mwy hyderus nac yr oedd hi'n ei deimlo cyn derbyn cymorth.

Roedd Rachel yn llwyddiannus yn dilyn ei chyfweliad swydd a dechreuodd ei rôl newydd ym mis Ionawr 2021.

Stori 'John'

Cyfeiriwyd John, sy'n 50 oed ac yn dad i ddau, at Gwaith Gwynedd yn 2019. Roedd yn ddiweddar wedi ei ddiswyddo yn dilyn 20 mlynedd gyda'r un cyflogwr. Teimlai John fod byd gwaith wedi newid yn ddramatig ers iddo fod yn ddi-waith ddiwethaf. Roedd gan John hanes gwaith amrywiol ond roedd ganddo ddiddordeb mewn bwyd a'r diwydiant lletygarwch hefyd.

Oherwydd amgylchiadau teuluol roedd John hefyd yn digartref ac yn aros gyda ffrind. Roedd hyn yn achosi straen sylweddol i John ac yn cael effaith negyddol ar ei iechyd. Cefnogwyd John yn ystod cyfarfodydd wyneb yn wyneb rheolaidd yn y ganolfan waith a'r llyfrgell leol. Yn Tachwedd 2019 gwelodd John gyfle i fynychu diwrnod gwybodaeth ym mwyty lleol. Mwynhaodd John y profiad yn fawr.

Mewn ymateb yn Ionawr 2020 trefnodd Gwaith Gwynedd i John fynychu sesiynau hyfforddi mewn bwyty lleol. Yn ystod yr amser hwn cafodd John gyfle i gwrdd ag eraill yn yr un sefyllfa yn ogystal â chael profiad ymarferol o greu a choginio prydau mewn cegin ddiwydiannol.

Ddiwedd mis Tachwedd 2020, sicrhodd John swydd mewn bwyty newydd oedd yn agor ym Mangor.

Eitem 6

Enw'r Pwyllgor Craffu	Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
Dyddiad y cyfarfod	9 Rhagfyr 2021
Teitl yr Eitem	Cinio Ysgol
Aelod Cabinet	Cynghorydd Cemlyn Rees Williams

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

Cyflwynir yr adroddiad hwn ar gais y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn sgil gweithdy blynyddol a gynhaliwyd gyda'r aelodau ym mis Mehefin 2021 er mwyn adnabod eitemau amserol a pherthnasol i'w craffu yn ystod 2021-22.

Mae'r blaenadroddiad hwn a'r atodiadau cysylltiedig yn manylu ar:

- drefniadau cinio ysgol
- gohebiaeth Ysgol Dyffryn Nantlle
- cynlluniau sydd ar y gweill gan Lywodraeth Cymru i'r dyfodol.

2. CEFNDIR

Mae'n amserol i adrodd ar drefniadau casglu arian cinio ysgol, gan bwysleisio fod lles plant a phobl ifanc wastad yn flaenoriaeth i ni, a byddwn bob amser yn ceisio sicrhau nad oes unrhyw blentyn ar draws y sir yn wynebu diwrnod heb ginio yn yr ysgol.

Yn yr adroddiad hwn, darperir gwybodaeth am drefniadau ysgolion i geisio sicrhau na fydd unrhyw blentyn yn wynebu diwrnod heb ginio yn yr ysgol, ynghyd â sefyllfa dyledion cinio ysgol a'r prosesau sydd yn weithredol er mwyn ymateb i'r sefyllfa hynny.

i. Plant sydd yn gymwys i ginio am ddim

Mae 2,885 (ffigwr Tachwedd 2021) o blant Gwynedd wedi cofrestru i dderbyn hawl cinio am ddim. Mae'r hawl i ginio am ddim yn ddibynol ar amgylchiadau rhieni a pa fudd-dal a hawlir ganddynt. O dan y Ddeddf Addysg 1996 mae'n rhaid i riant wneud cais am yr hawl hwn ac ni allwn fel Awdurdod ddarparu'r hawl yn awtomatig.

ii. Plant bregus nad ydynt yn gymwys i ginio am ddim

Mae Person Dynodedig ym mhob ysgol yn sicrhau bod staff yr ysgol gan gynnwys staff y gegin yn gwybod pwy yw'r plant bregus yn yr ysgol. Mae'r neges yn glir i bob Person Diogelu Dynodedig fod angen sicrhau bod pob un plentyn bregus sydd yn adnabyddus i'r ysgol yn cael bwyd poeth yn yr ysgol. Cynhelir arolygiad blynyddol i sicrhau bod swyddogion dynodedig, a rheolwyr ysgolion yn gweithredu yn unol â'r Gweithdrefnau Diogelu Plant Cymru 2020.

iii. Trefniadau cinio ysgolion uwchradd

a) Cyathrebu diweddar Ysgol Dyffryn Nantlle

Mae cynnwys a geiriad llythyr diweddar gan Ysgol Dyffryn Nantlle at rieni yn glân â thaliadau cinio ysgol wedi arwain at bryder a phoen meddwl i nifer o deuluoedd yn lleol yn Nyffryn Nantlle, i chi fel aelodau etholedig, ac i unigolion, teuluoedd a chymunedau ar hyd a lled Gwynedd a thu hwnt.

Fel Awdurdod, nid ydym yn gweithredu polisi o wrthod cinio i blant, a'n dyhead yw fod pob plentyn yn cael pryd amser cinio, boed hynny'n ginio ysgol neu becyn bwyd. Dylai hyn fod yn glir mewn unrhyw llythyr at rieni gan ysgolion y sir pan yn trafod cinio ysgol.

Wedi ymchwilio i'r hyn ddigwyddodd, mae'n ymddangos fod cyngor technegol a roddwyd gan yr Adran ar sut i ymdrin â dyledion taliadau cinio ysgol wedi creu aneglurder, ac yn sgil hyn, byddwn yn adolygu ein harweiniad i ysgolion. Mae lles plant a phobl ifanc wastad yn flaenoriaeth i ni, a byddwn yn ceisio sicrhau nad oes unrhyw blentyn ar draws y sir yn wynebu diwrnod heb ginio yn yr ysgol.

b) Trefniadau cinio arferol ysgolion uwchradd

Yn gyffredinol yn yr ysgolion uwchradd gweithredir ar system caffeteria ble disgwylir fod gan y disgybl gredyd ar ei system cyfrif cinio electronig neu talu yn y fan a'r lle am y bwyd mae o/hi wedi'i ddewis. Gweithredir trefn electronig yn mhob ysgol uwchradd (heblaw 1 ysgol).

Mae plant sydd yn gymwys i ginio am ddim yn derbyn credyd awtomatig ar y system electronig sydd gyfwerth â phris cinio 2 gwrs yn yr ysgol ac felly mae cinio ar gael pob dydd iddynt. Noder fod trefniadau amgen mewn lle ar gyfer plant bregus nad ydynt yn gymwys i ginio am ddim a bydd yr ysgol yn adnabod y plant yma ac yn gweithredu fel yn ii.

O ddilyn y drefn caffeteria, ni ddylai fod unrhyw blentyn sydd yn talu am ginio, mewn dyled ac mae trefn 'overdraft' yn y system er mwyn parhau i allu rhoi cinio ysgol i blentyn er bod dyled yn cronni.

iv. **Dyledion cinio ysgol**

Mae gweddill yr adroddiad yma yn canolbwyntio ar drefniadau casglu arian cinio ysgol yn ysgolion cynradd Gwynedd.

Mae'r cyfrifoldeb o adnabod dyled ar gyfrif disgybl unigol yn disgyn ar yr ysgol, a disgwylir i'r ysgol weithredu fel a ganlyn:

1. Llythyr dyddiedig Ionawr 2019 wedi ei rannu efo rhieni cynradd (gweler **Atodiad 1**).
2. Hysbysu rhieni i dalu am ginio ysgol o flaen llaw neu ar yr hwyraf erbyn Dydd Gwener yr wythnos hynny.
3. I'r rhai sydd gyda dyled o fwy na 5 cinio, anfon llythyr PY18 (gweler **Atodiad 2**) i'r rhiant sydd yn nodi beth yw ei dyled.
4. Os oes dyled o dros 5 cinio neu fwy yn parhau erbyn y dydd Gwener canlynol, anfon llythyr PY19 (gweler **Atodiad 3**) i'r rhiant sydd yn nodi beth yw'r ddyled a bod angen iddynt wneud trefniadau eraill ar gyfer cinio ei plentyn o'r wythnos ganlynol ymlaen os na fydd taliad wedi ei dderbyn. Er fod y llythyr hwn yn dweud na fyddai cinio yn cael ei ddarparu mwyach i'r disgybl, yn y mwyafrif o achosion nid yw'r ysgolion yn arddel polisi o wrthod rhoi cinio i unrhyw blentyn.
5. Os oes dyled o dros 5 cinio neu fwy yn parhau i Gronni erbyn y dydd Gwener i ddilyn, yna anfon y ddyled ymlaen i'r Sir o dan y drefn PY20 (gweler **Atodiad 4**). Mi fydd y Sir cymryd drosodd y ddyled a bydd anfoneb swyddogol yn cael ei anfon gan Cyngor Gwynedd i'r rhiant. Mae hyn yn galluogi rhieni ddod i drefniant gyda'r Cyngor i dalu'r ddyled dros gyfnod o amser.

Os yw'r ysgol yn amau y dylai teuluoedd fod yn gymwys am ginio am ddim ond nid yw'n nodi hynny ar ei systemau yna iddynt gysylltu efo'r Adran Addysg.

Os oes amgylchiadau arbennig paham na all rhiant dalu, yna bydd angen trafod ymhellach gyda'r Adran Addysg.

Mae disgwyliad gan yr Awdurdod fod pob dyled wedi ei thalu yn yr ysgol neu wedi ei drosglwyddo i'r Sir ar ddiwedd pob hanner tymor.

Mae'r Adran Addysg yn derbyn arian gan y Cyngor yn ganolog am werth yr anfoneb sy'n cael ei godi a bydd y Cyngor yn ganolog yn mynd ar ôl y ddyled gan y rhieni. Gall ad-ennill dyled gan rieni gymryd amser maith. Mewn ychydig o achosion, mae'r ddyled yn cael ei ddileu gan y Cyngor. Yn yr achosion hyn, ni fydd yr Adran Addysg yn derbyn yr arian sy'n ddyledus.

Mae rhai disgyblion yn gymwys i dderbyn Prydau Ysgol am Ddim (PYD). Os na fydd yr hawl i PYD wedi'i adnabod yn amserol a bod dyled yn cronni gan ddisgybl, ond ei fod yn dod i'r amlwg yn hwyrach bod y disgybl i fod i fod wedi derbyn cinio am ddim, mae'r ddyled oedd wedi'i gronni yn yr ysgol yn cael ei dileu.

Fel ar ddiwedd Hydref 2021 mae dyledion arian cinio mewn ysgolion yn £36,159.98 ac anfonebau sydd yn parhau yn ddyledus dros y 9 mlynedd diwethaf yn £67,723.51.

Mae'r system Schoolgateway (sydd ar gael drwy ap dwyieithog hefyd) yn galluogi rhieni i weld beth yw eu dyled 24/7 a thalu am ginio ysgol yn ddyddiol os ydynt yn dymuno. Roedd sylwadau Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Dyffryn Nantlle yn awgrymu bod rhai rhwystrau a phroblemau gyda'r system talu am ginio, a byddwn yn ymchwilio i hynny er mwyn dileu unrhyw rwystrau. Rydym yn barod wedi cydweithio efo ysgolion uwchradd eraill i addasu'r system Schoolgateway i dderbyn lleiafswm o 50c gan deuluoedd fesul plentyn.

v. Datblygiadau ar y gorwel

Mae Llywodraeth Cymru yn edrych ar opsiynau i ymestyn hawl cinio am ddim i fwy o bobl sydd yn derbyn credyd cynhwysol gyda phenderfyniad i'w wneud yn Rhagfyr 2021. Yn fras, y 3 opsiwn sydd o dan ystyriaeth yw:

1. Cinio am ddim i bawb sydd ar gredyd cynhwysol
2. Cinio am ddim i rai sydd a'i incwm yn îs na £20,000 ac yn derbyn credyd cynhwysol
3. Cinio am ddim i rai sydd a'i incwm yn îs na £14,000 ac yn derbyn credyd cynhwysol

Pe bynnag opsiwn a ddewisir gan y Llywodraeth, maent yn disgwyl i'r newid ddod i rym yn ystod 2022.

Yn ddiweddar iawn, mae'r Llywodraeth wedi cadarnhau eu cynlluniau i ymestyn cinio am ddim i holl ddisgyblion cynradd. Mae'r datganiad yn cael ei groesawu'n fawr ond mae cryn dipyn o waith i'w wneud er mwyn gallu ei gyflawni.

Bydd angen astudiaeth achos dwfn i'r newid. Ar hyn o bryd, tua 50% o ddisgyblion cynradd sydd yn cymryd cinio ysgol (mae hyn yn cynnwys disgyblion sydd a hawl i ginio am ddim). Gan fod y cynllun i ymestyn cinio am ddim i holl ddisgyblion cynradd byddai hyn yn golygu dwblu yr hyn sydd yn bwyta.

Dyma rai o'r materion gweithredol fydd angen ystyriaeth:

- Addasrwydd ceginau o ran maint/offer
- Gofod annigonol yn y ffreutur/neuadd ginio
- Cynnydd tebygol yn nifer y sittings mewn ysgolion mwy, heb fynd ar draws yr amserlen ddysgu
- Heriau recriwtio yn y maes yn bresennol

- O gychwyn efo dalen lân gallai olygu allanoli'r gwasanaeth, neu greu 'production kitchens' mewn gwahanol ardaloedd o'r sir
- Costau bwyd/staff ychwanegol
- Cyfalaf ychwanegol i uwchraddio ceginau/gofod bwyta
- Colled incwm

Fel mae pethau yn sefyll gweler isod beth yw'r targed incwm a chostau rhedeg y gwasanaeth:

Targed incwm prydau ysgol 2021/22 yn:

Cynradd/Arbennig/Dilynol = £1,888,510

Uwchradd = £1,444,770

Cyfanswm = £3,333,280

Costau gwasanaeth arlwyio ysgolion 2021/22 yn:

Cynradd/Arbennig/Dilynol = £3,774,270

Uwchradd = £1,902,950

Cyfanswm = £5,677,220

3. ARGYMHELLION

Gofynnir i'r Aelodau:

- ddarparu sylwadau ar y drefn casglu arian cinio bresennol
- ddarparu sylwadau ar gynlluniau y Llywodraeth

Addysg / Education Gwasanaeth Adnoddau / Resources Service

Uwch Reolwr / Senior Manager – Owen Owens

Gofynnwch am/Ask for: **Owen Owens**

☎ (01286) 679467 Ein Cyf / Our Ref: **OO/BG**

📄 (01286) 677347 Eich Cyf / Your Ref:

✉ owenowens@gwynedd.llyw.cymru

9fed Ionawr 2019

Annwyl Riant/Gwarchodwr,

Trefn Casglu Arian Cinio

Yn dilyn sylw diweddar yn y Wasg am sefyllfa dyledion arian cinio Gwynedd, bydd newid i'r drefn casglu arian cinio yn weithredol o wythnos yma ymlaen.

Gan fod system ar-lein mewn lle, gallwch weld beth yw balansau cinio eich plant yn ddyddiol drwy'r Schoolgateway.

Disgwylir i chi dalu o flaen llaw am ginio ysgol (gellir gwneud hyn 24/7 drwy'r Schoolgateway) neu fan bellaf fod y balans wedi ei glirio erbyn dydd Gwener yn wythnosol. Bydd unrhyw gredyd yn dilyn absenoldebau yn cario ymlaen i'r wythnos ganlynol.

Os na fydd arian cinio yn cael ei dalu yn rheolaidd, bydd gofyn i chi wneud trefniadau eraill ar gyfer cinio eich plentyn drwy drefnu bocs bwyd.

Bydd diffyg cydweithrediad yn gallu arwain i'r ddyled gael ei throsglwyddo i'r Sir, casglwyr dyledion a'r Llysoedd mewn amgylchiadau eithriadol.

Mae teuluoedd sydd yn derbyn Credyd Cynhwysol, Cymhorthdal Incwm, Lwfans Cymorth a Chyflogaeth (sail incwm), Lwfans Ceisio Gwaith (ar sail incwm), Credyd Pensiwn (Gwarant), Cymorth o dan Ddeddf Lloches a Mewnfudo 1999, Credyd Treth Plentyn (gydag incwm trethadwy blynyddol ddim mwy na £16,190) yn gymwys i dderbyn cinio Ysgol am ddim. Os ydych yn derbyn un o'r budd-daliadau uchod a ddim yn derbyn cinio am ddim ar hyn o bryd rydych angen **cysylltu â'r swyddfa Budd-daliadau** drwy e-bostio:- budd-daliadau@gwynedd.llyw.cymru <<mailto:budd-daliadau@gwynedd.llyw.cymru>>

Gyda diolch am eich cydweithrediad parhaol.

Yn gywir

Owen Owens

Owen Owens
Uwch Reolwr Addysg (Gwasanaeth Adnoddau)

Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd LL55 1SH
01286 672255
www.gwynedd.llyw.cymru

Addysg/Education

Gwasanaeth Adnoddau/ Resources Service

Rheolwr Gwasanaethau Ategol/
Ancillary Services Manager- Bethan Griffith

PY18

ARIAN CINIO YSGOL YN DDYLEDUS / SCHOOL DINNER MONEY OWING

Ysgol/School: - Dyddiad/Date: -

Annwyl Riant neu Warcheidwad / Dear Parent or Guardian of,
.....

Hyd yma ni dderbyniwyd arian cinio Ysgol eich mab / merch a enwir uchod. Rwyf yn anfon y llythyr yma rhag ofn eich bod wedi anghofio talu. Mae'r swm sydd yn ddyledus hyd yn hyn, gan gynnwys heddiw, yna dylid talu y swm yma ar-lein erbyn bore Dydd Llun. **Os oes gennych ymholiad am y swm sy'n ddyledus yna cysylltwch yn uniongyrchol gyda'ch Ysgol.**

Mae teuluoedd sydd yn derbyn Credyd Cynhwysol (ar yr amod nad yw incwm net blynyddol eich cartref yn fwy na £7,400 – fel yr aseswyd yn ôl enillion o hyd at dri o'ch cyfnodau asesu mwyaf diweddar), Cymorthdal Incwm, Lwfans Cymorth a Chyflogaeth (sail incwm), Lwfans Ceisio Gwaith (ar sail incwm), Credyd Pensiwn (Gwarant), Cymorth o dan Ddeddf Lloches a Mewnfudo 1999, Credyd Treth Plentyn (gyda incwm trethadwy blynyddol ddim mwy na £16,190) yn gymwys i dderbyn cinio Ysgol am ddim. Os ydych yn derbyn un o'r budd-daliadau uchod ac ddim yn derbyn cinio am ddim ar hyn o bryd rydych angen **cysylltu â'r swyddfa Budd-daliadau.**

Ffôn :- 01286 682689 neu e-bost:- budd-daliadau@gwynedd.llyw.cymru

School dinner money in respect of your son / daughter named above has not to date been received. I am sending you this letter to remind you that money is owed as you may have forgotten. The amount owing up to and including today isand this sum should be paid on-line by Monday morning at the latest. **If you have a query regarding the sum owed then please contact the school directly.**

Families in receipt of Universal Credit (provided your household income has an annualised net earned income of no more than £7,400 – as assessed by earnings from up to three of your most recent assessment periods), Employment and Support Allowance (income based), Income Support, Job Seekers Allowance (income based), Child Tax Credit (with annual taxable income not exceeding £16,190) Pension Credit (Guarantee) and Help under Immigration and Asylum Seekers Act 1999 are eligible to receive free school meals. If you are receiving one of the benefits above and your children are not presently receiving free school meals **you need to contact the Benefits Office.**

Telephone: - 01286 682689 or e-mail:- benefit@gwynedd.llyw.cymru

Yn gywir/Yours Sincerley,

Bethan Griffith

Rheolwr Gwasanaethau Ategol/ Ancillary Services Manager

Addysg/Education

Gwasanaeth Adnoddau/ Resources Service

Rheolwr Gwasanaethau Ategol/
Ancillary Services Manager – Bethan Griffith

PY19

ARIAN CINIO YSGOL YN DDYLEDUS / SCHOOL DINNER MONEY OWING

Ysgol/School: - Dyddiad/Date: -

Annwyl Riant neu Warcheidwad / Dear Parent or Guardian of,
.....

Cawsoch lythyr ar i'ch hysbysu fod swm o yn ddyledus am brydau Ysgol a roddwyd i'r disgybl uchod.

Y swm dyledus hyd yma, gan gynnwys heddiw yw ac mae'n rhaid i mi bwysu arnoch i dalu ar-lein ar unwaith. Ni roddir prydau pellach i'r disgybl uchod o ddydd Llun nesaf ymlaen hyd oni thelir y swm dyledus. **Os oes gennych ymholiad am y swm sy'n ddyledus yna cysylltwch yn uniongyrchol a'ch ysgol.**

Dylech wneud trefniadau eraill ar gyfer cinio canol-dydd y disgybl yma unai paratoi pecyn bwyd neu drefnu i'r disgybl ddod adref i ginio.

I advised you by letter on the that the sum of was owing in respect of school dinners provided to the above named pupil/s.

The amount due up to and including today is and I must ask you to pay this amount on-line immediately. **If you have a query regarding the sum owed then please contact your school directly.**

Until payment is made, no further meals will be provided to the pupil(s) named and, as from next Monday you should make alternative arrangements for his/her mid-day meal either provide a packed lunch or arrange for the pupil to return home for lunch.

Yn gywir/Yours sincerley,

Bethan Griffith
Rheolwr Gwasanaethau Ategol/ Ancillary Services Manager



INCWM PRYDAU YSGOL ÔL-DDYLEDION
SCHOOL MEALS INCOME DEBT

I'w gwblhau gan y Clerc Cinio a'i dychwelyd yn ôl i sylw :-

Miss Bethan Griffith
Uwch Swyddog Gwasanaethau Ategol
Adran Addysg, Cyngor Gwynedd, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH

Ysgol :- Rhif yr Ysgol :-

Enw'r Plentyn :-

Enw'r Rhiant :-

Cyfeiriad a chod post :-

Rhif ffôn :-

RHOWCH V YN Y BOCS

Cymraeg Saesneg

Cyfnod yn ddyledus :-	Swm :-
<input type="text"/>	<input type="text"/>
<input type="text"/>	<input type="text"/>
<input type="text"/>	<input type="text"/>
<input type="text"/>	<input type="text"/>
<input type="text"/>	<input type="text"/>
Cyfanswm	<input type="text"/>

Defnydd yr Uned Gyllid yn unig

Rhif y Dyledwr Rhif Anfoneb

Dyddiad **Tud. 36** Swm

Eitem 7a

Pwyllgor	Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
Teitl yr Adroddiad	<ul style="list-style-type: none">• Adroddiad Blynyddol Addysg 2020-21• Blaenoriaethau'r Adran Addysg
Dyddiad y cyfarfod	9 Rhagfyr 2021
Awdur	Garem Jackson, Pennaeth Addysg
Aelod Cabinet Perthnasol	Cynghorydd Cemlyn Rees Williams

1. CEFNDIR

1.1 Yn unol â dymuniad y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi, cyflwynir Adroddiad Blynyddol yr Adran Addysg ar gyfer 2020-21 gerbron y pwyllgor.

1.2 Mae'r Adran Addysg yn cydnabod nad tasg hawdd yw sicrhau craffu effeithiol ar ddogfen sydd yn crynhoi blwyddyn o waith yr Adran Addysg ar lawr pwyllgor, ac o ganlyniad, wedi ceisio llunio adroddiad cryno, sydd yn tynnu sylw at brif waith arferol yr Adran, nodweddion cadarnhaol, ynghyd â meysydd sydd angen sylw dros y cyfnod nesaf. Gwelir yr Adroddiad Blynyddol yn Atodiad 1.

1.3 At hyn, bydd GwE yn manylu ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni ganddynt ym maes gwella ysgolion er sicrhau trosolwg cyflawn o'r maes i'r pwyllgor ar gyfer 2020-21.

2. MEYSYDD ALLWEDDOL O WAITH YR ADRAN ADDYSG YN 2020-21

2.1 Bu'r flwyddyn addysgol 2020-21 yn heriol iawn i'r Adran Addysg ac ysgolion wrth i bandemig Covid-19 barhau i effeithio ar addysg ein plant, staff ein hysgolion a'n cymunedau. Gwelwyd cyfnod 'firebreak' yn ystod y flwyddyn er mwyn ceisio rheoli'r haint, ac yn dilyn gwyliau'r Nadolig cafwyd cyfnod clo arall, gyda'r ysgolion yn dychwelyd i ddarpariaethau dysgu cyfunol, sef sesiynau dysgu byw, dysgu o bell, a gwaith ar Google Classrooms neu gyffelyb ar HWB. Ar ôl gwyliau hanner tymor Chwefror, gwelwyd y dysgwyr ieuengaf yn dychwelyd i'r ysgol yn gyntaf, gyda gweddill y blynyddoedd yn dychwelyd yn raddol wedi hynny hyd at wyliau'r Pasg.

2.2 Er bod Covid yn parhau yn ein cymunedau, cafwyd mwy o sefydlogrwydd yn nhymor yr haf, gan allu manteisio mwy ar yr awyr agored yn sgil tywydd gwell. Er hynny, arweiniodd y pandemig eto eleni at sefyllfa ble y bu i ddysgwyr dderbyn asesiadau athrawon ar ddiwedd eu gyrfa addysgol ym mlynnyddoedd 11, 12 ac 13, yn hytrach nag arholiadau allanol (TGAU a Safon Uwch) a gynhelir yn arferol. Cydnabyddir y bu i'r ansicrwydd a'r diffyg eglurder o amgylch yr asesiadau diwedd blwyddyn achosi cryn rwystredigaeth, straen a phryder i athrawon a dysgwyr fel ei gilydd.

2.3 Isod tynnir sylw at yr hyn y llwyddwyd i'w gyflawni mewn rhai meysydd allweddol o waith yr Adran Addysg yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, yn cynnwys:

- Diogelu
- ADY a CH
- Technoleg Gwybodaeth

- Cyfathrebu
- Y Gymraeg
- Moderneddi Addysg
- Arlwyo a Glanhau

2.4 Diogelu

Mae Diogelu lles plant a phobl ifanc Gwynedd yn flaenoriaeth allweddol i'r Adran a'r Cyngor, ac yn fwyfwy allweddol wrth gwrs yn sgil y pandemig a'r cyfnodau clo pan oedd mwyafrif ein dysgwyr (ar wahân i ddysgwyr bregus a phlant gweithwyr allweddol) yn gorfod aros adref. Yn ddiweddar, mae'r Adran wedi creu pecyn hyfforddi newydd yn y Gymraeg ar gyfer Personau Dynodedig Amddiffyn Plant mewn ysgolion a chanolfannau addysg ar y cyd â Grŵp Diogelu Mewn Addysg Llywodraeth Cymru. Bu i'r cwrs gael ei beilota yng Ngwynedd yn 2020, a bellach mae'n cael ei gyflwyno fel rhan o raglen hyfforddi rheolaidd.

Mae ysgolion Gwynedd hefyd wedi derbyn gwybodaeth am y Gweithdrefnau Diogelu Plant Cymru a gafodd eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru yn Ebrill 2020. Mae'r gweithdrefnau newydd wedi eu cyflwyno'n ddigidol ar ffurf Ap, ac mae staff allweddol yr Adran ac ysgolion Gwynedd wedi derbyn hyfforddiant sylfaenol ar y gweithdrefnau drwy ddarpariaeth gan NSPCC Cymru drwy gytundeb gyda Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru.

2.5 Gwasanaeth ADY a CH

Mae cyfnod y pandemig wedi bod yn hynod o heriol i ddysgwyr yn gyffredinol, ond yn enwedig i ddysgwyr gyda ADY a CH. Yn ystod y flwyddyn, bu i'r gwasanaeth ADY a CH greu llyfrgell o adnoddau i hyrwyddo lles ac iechyd meddwl dysgwyr a'u teuluoedd sydd ar gael ar wefan y gwasanaeth, ac mae'r Adran wedi ychwanegu cynhwysedd i'r gwasanaeth cwnselaer er mwyn sicrhau cefnogaeth i ddysgwyr yn dilyn y cyfnodau clo a pharhad y pandemig. Bu i drawiadau unigol misol ar y wefan gynyddu o 15,000 ym mis Ionawr 2020 i 130,000 ym mis Ebrill 2020. Yn ystod arolwg Thematig Estyn o'r ddarpariaeth gafodd ei gynig i ddysgwyr bregus, bu canmoliaeth i waith y tîm yn nghyd-destun y gynhafiaeth a gafodd ei ddarparu i ysgolion, rhieni a dysgwyr.

Ar yr un pryd, mae'r gwasanaeth ADY a CH wedi bod yn paratoi at ddyfodiad y ddeddfwriaeth newydd, ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae momentwm y cynnydd mewn paratoad at y ddeddfwriaeth wedi parhau. Bu ansicrwydd ynglŷn â rhyddhau'r Cod Terfynol ar gyfer gweithredu, a pha newidiadau fyddai wedi eu gwneud i'r Cod Drafft, ond rhyddhawyd y Cod terfynol ym mis Mawrth 2021.

Mae Arolwg Parodrwydd Deddf ADY Llywodraeth Cymru yn dangos cynnydd cryf iawn o ran paratoadau'r Awdurdod o ran y Ddeddfwriaeth. Mae'r swyddi statudol angenrheidiol mewn lle ers Ionawr 2021 ac yn gweithredu'n effeithiol. Mae cyd-weithio gyda'r Gwasanaeth Iechyd wedi datblygu'n dda drwy gydweithio gyda'r Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (SACDA). Mae nifer o ddigwyddiadau hyfforddi rhan-ddeiliaid wedi eu cynnal ar gyfer manylu ar agweddau penodol o'r Cod Terfynol. Bu gwaith ar y llwybrau datrys anghydfod i sicrhau bod rhain yn weithredol. Yn y sector blynyddoedd cynnar mae'r systemau angenrheidiol ar gyfer adnabod yn fuan, a sefydlu prosesau clir wedi ei gyflawni, ac mae'r gwaith paratoi yn y sector ôl-16 yn parhau. Hefyd mae'r gwaith o ddatblygu cyswllt gweithio, cwricwlwm ag asesu rhwng y prif-lif a'r Ysgolion Arbennig wedi datblygu ac yn parhau i ddatblygu.

At hyn, mae gwaith arloesol yn parhau i gymryd lle o ran defnydd a datblygiad parhaus y system Cynllun Datblygu Unigol ar-lein, gyda'r system yn gyrru'r holl broses ar gyfer yr ysgolion, rhieni, asiantaethau allanol a darpariaethau addysg eraill (e.e. blynyddoedd cynnar).

3.6 Technoleg Gwybodaeth

Bu'r Adran Addysg yn rhagweithiol a blaengar iawn ym maes TGCh o gychwyn y cyfnod clo cyntaf gan sicrhau 1,200 o ddyfeisiadau Chromebook a 175 o ddyfeisiadau MiFi i deuluoedd heb fynediad at dechnoleg yn Nhyrnor yr Haf 2020.

At hyn, bu i'r Adran Addysg lunio polisiau a gweithdrefnau blaenllaw er mwyn caniatáu ysgolion Gwynedd i fod yn dysgu o bell drwy dechnoleg dysgu byw. Bu i bolisi blaengar Gwynedd maes o law gael ei fabwysiadu gan nifer o awdurdodau eraill, a bu'r Awdurdod yn flaengar yn hyrwyddo ac annog sesiynau dysgu byw gyda'n hysgolion.

Yn ystod Tymor yr Haf 2021, darparwyd dros 6,000 o ddyfeisiadau i ysgolion, gyda 6,000 o ddyfeisiadau ychwanegol wedi eu prynu. Yn ystod y flwyddyn, cymeradwywyd Strategaeth Addysg Ddigidol gan y Cabinet sydd yn nodi sut y byddwn yn ymateb i'r her o gefnogi addysg drwy dechnoleg. Llwyddwyd hefyd i sefydlu trefn cynnal a chadw gwydn ar gyfer y dyfeisiadau i'r dyfodol.

3.7 Cyfathrebu

Mae'r Adran Addysg wedi parhau i roi bri mawr ar gyfathrebu gyda rhan-ddeiliaid yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan geisio sicrhau arweiniad, canllawiau a phenderfyniadau amserol i alluogi ysgolion weithredu yn y modd mwyaf priodol o dan yr amgylchiadau.

3.8 Y Gymraeg

Yn dilyn cyfnod estynedig o addysgu gartref, a'r pryder cenedlaethol a fynegwyd am effaith andwyol y pandemig ar safonau'r Gymraeg, rydym wedi llunio holiadur penodol er mwyn cael gwell trosolwg o sgiliau iaith Gymraeg dysgwyr yn ysgolion Gwynedd. Gofynnwyd cwestiynau er mwyn ystyried sut y caiff sgiliau ieithyddol plant eu heffeithio gan gyfnodau estynedig i ffwrdd o'r ysgol. Gofynnwyd am unrhyw anghenion cefnogi/hyfforddiant penodol y gall fod ei angen ar y gweithlu i gefnogi datblygiad y sgiliau i sicrhau'r cynnydd a ddisgwylir, a gofynnwyd am ymwneud y dysgwyr â'r gwaith a osodwyd iddynt yn ystod y cyfnodau clo, ac am unrhyw rwystrau amlwg. Holwyd pob pennaeth, ynghyd â chynrychiolwyr o'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad ymhob ysgol uwchradd, yn ogystal â chynrychiolwyr o'r Cyfnod Sylfaen. Cytunai'r mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr bod sgiliau iaith y dysgwyr wedi eu heffeithio o ganlyniad i'r cyfnodau o addysgu o adref.

Dengys y data a gasglwyd mai'r prif bryderon yw defnydd cymdeithasol y dysgwyr o'r Gymraeg, parodrwydd dysgwyr i siarad Cymraeg, ynghyd â safon eu patrymau iaith ar lafar. Rydym wedi adnabod felly mai sgiliau llafaredd yw'r pryder mwyaf ar draws y sir. Y camau nesaf fydd rhannu adroddiad yn unigol gyda phennaeth pob ysgol fydd yn cynnwys cynllun posib i dargedu'r gwendidau a amlygwyd a gofyn wrthynt fireinio a chadarnhau'r cynllun gweithredu i ymateb i'r canfyddiadau.

Rydym hefyd wedi rhoi sylw penodol i gefnogi sgiliau iaith y gweithlu er mwyn ceisio hwyluso dyfodol cyfrwng Cymraeg i'r ddarpariaeth ar draws y cwricwlwm yng Nghyfnod Allweddol 3, 4 a 5 trwy dreialu cynllun peilot Cymraeg Gwaith i Athrawon, Llywodraeth Cymru gyda staff addysgu un ysgol uwchradd yn y sir.

3.9 Moderneiddio Addysg

Er gwaethaf y pandemig bu i adeilad newydd Ysgol y Garnedd agor ei drysau yn Hydref 2020 gan ddod yn gartref addysgol newydd i hyd at 420 o ddysgwyr yn ninas Bangor. Mae safle'r ysgol hefyd yn cynnig addysg feithrin a darpariaeth gofal plant cynhwysfawr mewn awyrgylch pwrpasol gyda'r adnoddau gorau posibl. Mae gofod wedi ei gynllunio'n ofalus yn ogystal ar gyfer unedau arbenigol i gefnogi datblygiad plant ar y safle. Roedd gwaith tîm ardderchog, a chyfathrebu clir yn nodwedd o'r prosiect llwyddiannus hwn sydd wedi cadw o fewn y gyllideb a neilltuwyd ar ei gyfer.

Mae'r prosiect wedi ei enwebu ar gyfer tair gwobr Rhagoriaeth Mewn Adeiladwaith yng Nghymru 2021 sef:

Gwobr Adeiladwaith Digidol (Digital Construction Award)

Gwobr Integreiddio a Chydweithio (Integration and Collaborative Working Award)

Gwobr Cleient y flwyddyn (Client of the Year Award)

<https://www.cewales.org.uk/cew-awards/awards-2021/>

3.10 Arlwyo a Glanhau

Mae'r gwasanaeth yma wedi bod yn allweddol drwy gydol y pandemig i sicrhau gwasanaeth glanhau rheolaidd yn ystod y dydd er mwyn sicrhau awyrgylch diogel i ddysgwyr a staff yn ein hysgolion, yn ogystal â sicrhau darpariaeth cinio ysgol. Yn wir, mae'r gwasanaeth yma wedi bod yn gwbl greiddiol i alluogi ysgolion i barhau ar agor, a hynny pan fo'r gwasanaeth yn cael anawsterau recriwtio ac yn meddu ar lefelau salwch uchel ymhlith staff y gwasanaeth a hynny hyd yn oed cyn y pandemig.

Wedi i'r ysgolion ail-agor ar ôl yr ail gyfnod clo, bu i'r canran plant oedd yn cael cinio ysgol aros yn eithaf sefydlog o gwmpas 50% rhwng Ebrill-Gorffennaf 2021, sydd yn cyfateb yn fras i'r canran plant oedd yn cael cinio ysgol cyn y pandemig.

4 BLAENORIAETHAU'R ADRAN ADDYSG

4.1 Gagendor Lles a Chyrhaeddiad

Yn sgil y pandemig a'r cyfnodau clo, mae'r Adran Addysg a'r Cyngor wedi adnabod y gagendor lles a chyrhaeddiad fel un o'r prif flaenoriaethau yn sgil pryder y gallai rhai plant a phobl ifanc gael eu gadael ar ôl o safbwynt eu cyrhaeddiad addysgol, ac y byddai angen cymorth ychwanegol ar rai ohonynt i gau'r bwlch hwnnw, ynghyd â'r angen am gefnogaeth gyda'u lles.

Er mwyn ymateb i'r pryder hwn, ers Medi 2020 mae pob ysgol yng Ngwynedd yn gweithredu *Rhaglen Cyflymu'r Dysgu* gydag arian gan Lywodraeth Cymru er mwyn ymateb i effaith y cyfnod clo ar les a chyrhaeddiad rhai grwpiau penodol o ddysgwyr 5-16 oed. Mae blwyddyn bellach ers cyhoeddi'r rhaglen, ac rydym yn awyddus i wybod pa effaith y mae'r rhaglen a'r arian wedi ei gael ar les a chyrhaeddiad ein dysgwyr. O ganlyniad dros y misoedd nesaf byddwn ar y cyd â'r gwasanaeth gwella ysgolion (GwE) yn casglu tystiolaeth o effaith y rhaglen a'r gwahaniaeth y mae wedi'i wneud i rai dysgwyr.

Y tu hwnt i'r ysgol, mae dau gyfnod ym mywyd plant a phobl ifanc wedi eu hadnabod fel blaenoriaeth o ran ymateb i'r gagendor lles a chyrhaeddiad hefyd, sef plant 0-5 oed, ynghyd â phobl ifanc ôl-16. Yn sicr, mae'r cyfnodau clo wedi amlygu bregusrwydd y sector blynyddoedd cynnar, gydag anghysondeb ar draws y sir o ran ystod ac argaeledd gwasanaethau. Mae'r ystod o bartneriaid sydd yn rhan o'r ddarpariaeth ynghyd â chyfeiriad

strategol y maes yn genedlaethol yn ei gwneud yn anodd i saernïo ein gwasanaethau ni yma yng Ngwynedd. O ganlyniad, rydym yn bwriadu cyflwyno strategaeth ar gyfer y maes fydd ag anghenion Gwynedd yn ganolog iddo, gan ymgynghori ar ei gynnwys gyda'r holl ran-ddeiliaid allweddol yn ystod y misoedd nesaf.

Hefyd o sylweddoli fod y grŵp oedran 16-24 wedi eu heffeithio'n anghymesur gan yr argyfwng yn fwy nag unrhyw grŵp oedran arall, rydym wedi llunio adroddiad cychwynnol sydd yn casglu'r holl dystiolaeth ynghyd, ac yn bwriadu ail-ymgynnull y grŵp traws-adrannol a oedd eisoes yn cyfarfod mewn perthynas â'r fframwaith ymgysylltu, gyda'r bwriad fod y grŵp yma'n cymryd gofal o'r rhaglen waith.

4.2 Strategaeth Addysg Ddigidol

Mae'r hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni drwy'r strategaeth addysg ddigidol yn hynod uchelgeisiol ac yn arwydd o'r ffordd yr ydym ni'n blaenoriaethu addysg ein plant yma yng Ngwynedd. Yn syml, mae'r strategaeth yma, o'i gweithredu'n llawn am roi dyfais addas i alluogi dysgu digidol yn nwylo pob plentyn o flwyddyn 3 hyd at flwyddyn 11. Gwynedd fydd un o'r awdurdodau cyntaf i wneud hynny yng Nghymru ac mae'n rhywbeth y gallwn ni ymfalchïo ynddo.

Mae gwaith sylweddol eisoes wedi ei gyflawni, gan gynnwys uwchraddio rhwydwaith ysgolion yn unol â'r safonau digidol addysg, yn ogystal â'r gwaith o drawsnewid dull hidlo'r we. Mae ychydig dros £1.3m wedi ei fuddsoddi yn y rhwydwaith dros y ddwy flynedd ddiwethaf. At hyn, mae nifer sylweddol o ddyfeisiadau wedi eu rhannu yn unol â'r strategaeth. Mae digon o *ipads* wedi eu rhannu i roi un i bob pedwar dysgwr yn y Cyfnod Sylfaen, gyda digon o *Chromebooks* wedi eu rhannu fel bod pob dysgwr o flwyddyn 3 i 6 yn cael dyfais yr un. Mae dyfeisiadau Windows 10 yn cael eu paratoi yn ogystal ar gyfer pob disgybl ym mlwyddyn 7, 10 ac 11. Bydd pob un o athrawon Gwynedd yn derbyn dyfais safonol drwy'r strategaeth dros y misoedd nesaf gyda'r gobaith y bydd hyn yn tanio dychymyg a sbarduno ymhellach ddyfeisgarwch ac effeithiolrwydd yr agweddau o ddysgu digidol ar draws y sectorau.


4.3 Y Gymraeg

Er y pandemig, mae gwaith sylweddol wedi'i gyflawni dros y flwyddyn ddiwethaf yn trafod a chynllunio cynnwys, targedau a blaenoriaethau ar gyfer Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA), sydd yn ddogfen statudol yr Awdurdod Lleol. O Fedi 2022, bydd y CSGA yn ddogfen cynllunio 10 mlynedd ar gyfer addysg Gymraeg/dwyieithog yn unol â'r rheoliadau newydd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Yn sgil y gwaith sydd wedi mynd rhagddo, rydym ar hyn o bryd wedi cyhoeddi fersiwn drafft o'r CSGA ac rydym ynghanol cyfnod ymgynghori cyhoeddus arno ar hyn o bryd, gyda'r bwriad y byddwn yn ystyried unrhyw sylwadau a dderbynnir mewn ymateb i'r ymgynghoriad yn ystod Tymor y Gwanwyn 2022, gan addasu cynnwys y CSGA fel y gwelwn orau, gyda'r CSGA ar ei newydd wedd yn dod yn ddogfen weithredol erbyn Medi 2022.

5 ARGYMHELLION

Gofynnir i'r aelodau gyflwyno unrhyw sylwadau ar yr hyn y mae'r Adran Addysg wedi ei gyflawni yn ystod y flwyddyn a amlinellir yn y blaenadroddiad hwn a'r Adroddiad Blynyddol yn Atodiad 1, ynghyd ag unrhyw sylwadau ar flaenoriaethau'r Adran ar gyfer y cyfnod nesaf.



Adroddiad Blynyddol

Adran Addysg

2020-21



ADRODDIAD BLYNYDDOL ADDYSG 2020-21

CYNNWYS

- 1. CYD-DESTUN**
- 2. Y GYMRAEG**
- 3. ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A CHYNHWYSIAD**
- 4. DIOGELU**
- 5. BLYNYDDOEDD CYNNAR**
- 6. Y TÎM MODERNEIDDIO ADDYSG**
- 7. CONSORTIWM ADDYSG ÔL-16 GWYNEDD AC YNYS MÔN**
- 8. TRAC**
- 9. ARWEINYDDIAETH**
- 10. UNED DDATA**
- 11. GWASANAETH CEFNOGI LLYWODRAETHIANT YSGOLION**
- 12. UNED CONTRACTAU A CHYFLOGAETH**
- 13. UNED ARLWYO A GLANHAU**
- 14. CLUDIANT**
- 15. CANOLFAN FUSNES ADDYSG**
- 16. TECHNOLEG GWYBODAETH**

CYD-DESTUN

GWELEDIGAETH YR ADRAN ADDYSG: Plant a phobl ifanc Gwynedd yn cyflawni'r safonau uchaf er mwyn cynnal yr iaith, diwylliant ac economi yn lleol.

PWRPAS: *Hyrwyddo cyflawniad a lles plant a phobl ifanc Gwynedd drwy sicrhau llywodraethant, arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol ein hysgolion*

GWASANAETHAU RYDYM YN EU DARPARU: Codi Safonau, Gwasanaethau Cefnogol, Cyflogau a Chontractau Staff Ysgolion, Pensiynau Athrawon, Arlwyo Ysgolion, Glanhau Ysgolion, Cludiant Ysgolion, Iechyd a Diogelwch, Mynediad Ysgolion, Cefnogaeth i Lywodraethwyr, Cefnogaeth Gyllidol i Ysgolion, Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, Uned Ddata, Cefnogaeth Adnoddau Dynol i Ysgolion a'r Adran Addysg, Presenoldeb ac Ymddygiad, Gwasanaeth Lles Addysg, Anghenion Dysgu Ychwanegol, Amddiffyn Plant, Arweinyddiaeth, Rheolaeth a Hyfforddiant, yr iaith Gymraeg.

BETH MAE'R ADRAN YN EI WNEUD?

- Cefnogi plant a phobl ifanc i gyflawni'r safonau uchaf.
- Sicrhau bod disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael y gefnogaeth fwyaf addas.
- Sicrhau bod disgyblion ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol yn cael eu cynnwys yn llawn o fewn ysgolion Gwynedd.
- Sicrhau bod disgyblion o fewn ysgolion Gwynedd yn ddiogel.
- Darparu gwasanaethau cefnogol pwrpasol ar gyfer Gwasanaeth Addysg Gwynedd.
- Datblygu arweinwyr a chefnogi'r gweithlu yn yr ysgolion.
- Cefnogaeth i gyrrff llywodraethu ysgolion er mwyn iddynt weithredu fel llywodraethwyr effeithiol.

Yn 2020-21, roedd 80 ysgol gynradd, 13 Ysgol Uwchradd 1 Ysgol Ddilynol, 1 Ysgol Gydol Oes, a 2 Ysgol Arbennig yng Ngwynedd.

Mae cyfnod eithriadol y pandemig eto yn 2020-21 yn golygu nad yw'r Adran Addysg mewn sefyllfa i allu adrodd ar ei brif fesuryddion perfformiad, megis presenoldeb, gwaharddiadau a llwyddiannau academiaidd ein dysgwyr.

Yn ei ddatganiad ysgrifenedig (dyddiedig 21 Mehefin 2021) cadarnhaodd y Gweinidog Addysg 'y bydd y penderfyniad i atal mesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 a'r chweched dosbarth yn ymestyn i flwyddyn academiaidd 2021/22. Ni fydd data dyfarniadau cymwysterau yn cael ei ddefnyddio i adrodd ar ddeilliannau cyrhaeddiad ar lefel ysgol, awdurdod lleol na chonsortium rhanbarthol ac ni ddylid ei ddefnyddio i ddwyn ysgolion i gyfrif am ddeilliannau dysgwyr.'

Y GYMRAEG

Pwrpas

- Sicrhau bod plant Gwynedd yn cael addysg cyfrwng Cymraeg ac yn cael cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd.

Nodweddion da

- **Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg**

Gosod disgwyliadau clir i'r Adran ac i'n hysgolion ar gyfer y Gymraeg fel pwnc, fel cyfrwng addysgu a dysgu, ac fel cyfrwng cymdeithasu trwy lunio ac ymgynghori ar ddogfen statudol 'Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg' (CSGA) newydd fydd yn disodli'r ddogfen bresennol ym Medi 2022. Yn unol â rheoliadau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion Cymru (2013) a thargedau 'Cymraeg 2050 - Miliwn o Siaradwyr' Llywodraeth Cymru.

- **Canolfannau Iaith**

Parhau i sicrhau darpariaeth addysg drochi o ansawdd i alluogi newydd-ddyfodiaid cynradd ac uwchradd i elwa'n llawn o'r gyfundrefn addysg Gymraeg a dwyieithog yng Ngwynedd.

- **Siarter Iaith a'r Strategaeth Iaith Uwchradd**

Hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymysg pobl ifanc o fewn y cwricwlwm ac yn gymdeithasol, trwy arwain ar y Siarter Iaith a'r Strategaeth Iaith Uwchradd er mwyn cynyddu defnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg mewn ysgolion cynradd ac uwchradd.

Rydym wedi bod yn cydweithio ag ysgolion uwchradd i lunio cynlluniau gweithredu unigol er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol, ac wedi rhoi sylw penodol i gyfrwng iaith y ddarpariaeth ar draws y cwricwlwm yng Nghyfnod Allweddol 3, 4 a 5.

- **Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Mae pob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cael mynediad at wasanaethau cyfrwng Cymraeg. Mae darpariaethau a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gael ar gyfer yr holl ystod ac amrywiaeth o ADY.

- **Polisi Iaith Ysgolion**

Rydym wedi ail-gyflwyno Polisi Iaith Ysgolion i bwysleisio ein egwyddorion cyffredinol bod:

- holl ysgolion y sir yn gweithredu mewn modd sydd yn cyfrannu at nodau ac amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, i gynyddu a gwella'r cynllunio ar gyfer darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg.
- bob ysgol yn magu agweddau cadarnhaol ymysg y disgyblion a'r gweithlu tuag at yr iaith, gan greu balchder a chynyddu'r defnydd o'r iaith y tu fewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth.

Yn sgil ail gyflwyno'r Polisi Iaith Ysgolion, mae perfformiad cyffredinol yn y Gymraeg yn gyson dda ar draws y gyfundrefn ysgolion.

- **Ymateb i Effaith y Cyfnodau Clo ar y Gymraeg**

Rydym wedi adnabod mai'r prif bryderon yng Ngwynedd yn sgil y cyfnodau clo yw defnydd cymdeithasol dysgwyr o'r Gymraeg, eu parodrwydd i siarad Cymraeg, a safon eu patrymau iaith ar lafar.

Mae Cydlynnydd Strategaeth Iaith a'r Cydlynnydd Siarter Iaith yn cyd-lunio cynlluniau gweithredu gyda'r ysgolion i ymateb i'r pryderon hyn am sgiliau llafaredd ac i hwyluso unrhyw gefnogaeth ar eu cyfer.

- **Sgiliau iaith y gweithlu addysg**

Rydym wedi rhoi sylw penodol i gefnogi sgiliau iaith y gweithlu er mwyn ceisio hwyluso dyfodol cyfrwng Cymraeg i'r ddarpariaeth ar draws y cwricwlwm yng Nghyfnod Allweddol 3, 4 a 5 trwy dreialu cynllun peilot Cymraeg Gwaith i Athrawon, Llywodraeth Cymru gyda staff addysgu un ysgol uwchradd yn y sir.

Cynlluniau i hunan-asesu a chefnogi sgiliau iaith y gweithlu addysg wedi eu gweithredu yn ysgolion uwchradd y sir.

Comisiynu a chynnal hyfforddiant ar egwyddorion trochi iaith yn y Cyfnod Sylfaen.

Blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf:

- Parhau i osod disgwyliadau clir i'n ysgolion ar gyfer y Gymraeg fel pwnc ac fel cyfrwng dysgu ac addysgu trwy gyflwyno a gweithredu dogfen statudol deng mlynedd 'Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg' newydd ym Medi 2022.
- Ehangu a datblygu Cyfundrefn Drochi Gwynedd i ddarparu addysg drochi gyfoes o ansawdd i holl newydd-ddyfodiaid y sir.
- Cynllunio cyfres o weithdai hyfforddiant egwyddorion trochi iaith at ddefnydd holl athrawon y sir.
- Parhau i gefnogi dysgwyr sydd angen hwb ychwanegol i gynyddu eu hyder a'u sgiliau llafaredd yn y Gymraeg.
- Parhau i gefnogi ein ysgolion i gwblhau a gweithredu eu cynlluniau Siarter Iaith a/neu Strategaeth Iaith Uwchradd er mwyn hyrwyddo a chynyddu defnydd anffurfiol plant o'r Gymraeg.
- Parhau i gefnogi athrawon a chymorthyddion i ddatblygu eu sgiliau a'u hyder yn y Gymraeg.
- Monitro categorïau ieithyddol ysgolion a chyfrwng y ddarpariaeth addysgol er mwyn sicrhau parhad yng nghyfrwng addysg Gymraeg disgyblion wrth iddynt drosglwyddo o CA2 i CA4 a thu hwnt.

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A CHYHNWYSIAD

Pwrpas y gwasanaeth ADY a CH yw:

- Cefnogi datblygiad darpariaeth ADY o ansawdd mewn lleoliadau addysgol.
- Adnabod anghenion ychwanegol yn gynnar ym mywyd y plentyn a sicrhau ymyrraeth briodol;
- Ymyrryd yn gynnar ac yn addas pan fo problemau yn dod i'r amlwg;
- Gweithio yn integredig ac aml-asiantaethol, gan rannu gwybodaeth a chyd-gynllunio ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr gydag ADY;
- Sicrhau fod sgiliau a dealltwriaeth y gweithlu yn cael eu datblygu yn gyson;
- Sicrhau cyfathrebu clir gyda'r plant, pobl ifanc a'r teuluoedd sy'n derbyn darpariaeth.
- Mae'r uchod yn cyfrannu ar y cyd gyda'r darparwyr addysg, ein bod yn cydymffurfio gyda'r Ddeddfwriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (2018) sydd wedi dod yn fyw ym mis Medi 2021.

Mae'n bartneriaeth ar y cyd â Chyngor Môn ers Medi 2017.

Nodweddion da:

- System Cynllun Datblygu Unigol electroneg erbyn hyn mewn defnydd gan bob ysgol ers dwy flynedd, yn dilyn cyfnod peilota llwyddiannus. Mae'r system yn hwyluso gwaith yr ysgolion a'r gwasanaeth yn sylweddol, ac yn parhau i gael ei ddatblygu ymhellach.
- Prosiect Ysgolion sy'n Meithrin yn parhau i weithredu ac arddangos canlyniadau positif o fewn y cynradd ac uwchradd, yn ogystal â datblygiadau yn y maes hwn sydd yn cynnwys hyfforddi Cymhorthyddion ELSA (Emotional Literacy Support Assistants).
- Defnydd o system Meini Prawf newydd yn cael ei ymestyn ymhellach er mwyn gallu adrodd ar gynnydd plant yn ehangach, gan fod dangos cynnydd plant a phobl ifanc sydd ag ADY yn gofyn am ddulliau holistaidd.
- Nifer tribiwnlysoedd yn parhau yn isel iawn, gyda thribiwnlysoedd sydd yn ymwneud â darpariaeth o fewn ysgolion Gwynedd yn ffafriol o ran yr Awdurdod (h.y yn cadarnhau bod darpariaeth addas yn cael ei gyflwyno).
- Dangosyddion cynhwysedd ysgolion yn parhau i dangos bod ysgolion Gwynedd yn gynhwysol, er bod heriau pendant o gwmpas hyn yn sgil cyfnod pandemig - mae lefel gwaharddiadau, nifer disgyblion sydd mewn darpariaeth amgen, a niferoedd addysg gartref dewisol, a phresenoldeb, yn rhoi darlun cynhwysol iawn o gymharu â graddfeydd cenedlaethol.
- Mae'r cyfnod pandemig wedi bod yn hynod o heriol i ddysgwyr yn gyffredinol, ond yn enwedig dysgwyr gyda ADY a CH. Yn ystod arolwg Thematig Estyn o'r ddarpariaeth gafodd ei gynnig i ddysgwyr bregus, bu canmoliaeth i waith y tîm yn nghyd-destun y gynhaliaeth a gafodd ei ddarparu i ysgolion, rhieni a dysgwyr.

Blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf:

- Gyda'r newid Deddfwriaethol wedi dod i rym, a hynny yn raddol dros gyfnod o dair blynedd (hyd at Medi 2024) rydym yn blaenoriaethu'r canlynol:
 - Parhau i ddatblygu ac adeiladu ar gysondeb darpariaeth. Hyn yn cynnwys adolygu'r dull o ddyrannu cyllid ADY i ysgolion er mwyn sicrhau'r ddarpariaeth orau ar gyfer dysgwyr gydag ADY.
 - Parhau i ddatblygu ansawdd Cynlluniau Datblygu Unigol, a sicrhau fod y dysgwyr yn ganolog i'r broses.
 - Sicrhau cefnogaeth i ddarparwyr addysg er mwyn ymateb i ofynion newydd y ddeddfwriaeth

- Parhau i gryfhau a symleiddio llwybrau darpariaeth 0-3 oed ac 16-25 oed, ac ymateb i'r gofynion o'r newydd yn yr oedrannau yma.
 - Cryfhau'r cyd-weithio aml-asiantaethol ar gyfer darparu effeithiol.
- Bydd y Gwasanaethau hefyd yn parhau i flaenoriaethu'r canlynol ar gyfer cryfhau'r ddarpariaeth:
 - Dulliau tracio cynnydd ac effeithiolrwydd ymyraethau o fewn y CDU ar-lein, trwy ddefnyddio'r dull cofnodi cynnydd a meini prawf diwygiedig.
 - Cryfhau'r model darpariaeth cynnal ymddygiad yn y sector uwchradd.
 - Cynllun cyfathrebu clir ar gyfer ysgolion o gwmpas prosesau paneli cymedroli a dyraniad cyllid.
- Parhau i ymateb yn effeithiol i'r gofynion yn sgil argyfwng COVID-19

DIOGELU

Pwrpas

- Diogelu lles plant a phobl ifanc Gwynedd.
- Sicrhau bod pob plentyn yn teimlo'n saff yn ysgolion a chanolfannau addysg y Cyngor.
- Sicrhau bod pawb sydd yn gweithio ym maes addysg yn y Sir yn dilyn Gweithdrefnau Diogelu Plant Cymru 2020.

Nodweddion da

- Ysgolion Gwynedd wedi derbyn gwybodaeth am y Gweithdrefnau Diogelu Plant Cymru a gafodd eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru yn Ebrill 2020. Mae'r gweithdrefnau newydd wedi eu cyflwyno'n ddigidol ar ffurf "AP". Mae staff allweddol yr adran ac ysgolion Gwynedd wedi derbyn hyfforddiant sylfaenol ar y gweithdrefnau drwy ddarpariaeth gan NSPCC Cymru drwy gytundeb gyda Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru.
- Mae'r adran wedi sicrhau presenoldeb ymhob cyfarfod Rhan 5 lle'r oedd honiadau yn erbyn staff o fewn ysgolion Gwynedd. Mae'r niferoedd wedi gostwng yn ystod 2019 /20 gyda nifer fach iawn yn ymwneud â staff yr Adran Addysg yn uniongyrchol.
- Adran Addysg Gwynedd wedi creu pecyn hyfforddi newydd yn y Gymraeg ar gyfer Personau Dynodedig mewn ysgolion a chanolfannau addysg ar y cyd â Grŵp Diogelu Mewn Addysg Llywodraeth Cymru. Mae'r cwrs wedi ei gyflwyno yn 2020 yng Ngwynedd ac ar ôl ei arfarnu a derbyn adborth ar addasrwydd y cyflwyniad, bydd yn cael ei gyflwyno yn rheolaidd yn ystod 2021.
- Mae'r adran addysg a gwasanaethau Dysgu a Datblygu'r Cyngor wedi cyd-weithio i ddatblygu pecyn hyfforddiant ym maes trais domestig. Mae'r pecyn Gofyn a Gweithredu wedi ei ddatblygu ar y cyd ac wedi ei gyflwyno i staff yr Adran Addysg yn fisol yn ystod 2020 a 2021.
- Hyfforddiant mewn ymateb yn gadarnhaol i ymddygiad amhriodol gôr-rywiol, (Brook), wedi ei ddarparu i ysgolion cynradd ac uwchradd yn ystod 2020 gan wasanaeth newydd Emrallt, Gwasanaethau Plant , Cyngor Gwynedd.
- Mae cyfran uchel o staff yr Adran Addysg a staff ysgolion wedi cyd-weithio gyda staff Gwasanaethau Plant i dderbyn hyfforddiant ym maes gwella ymarfer yr Adran wrth baratoi ar gyfer Cynadleddau Achos a Grwpiau Craidd. Mae'r cynllun yma yn parhau i gael ei gyflwyno yn 2021 a 2022.

Blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf:

- Sicrhau bod pawb sydd yn gweithio ym maes addysg yng Ngwynedd wedi derbyn hyfforddiant sylfaenol ar becyn newydd ar gyfer Person Dynodedig mewn ysgol mewn ymateb i ganllawiau newydd ar ddiogelu plant mewn addysg.
- Ail-sefydlu trefn o ymweliadau gwirio ansawdd blynyddol o drefniadau diogelu pob ysgol yng Ngwynedd yn dilyn cyfnodau clo yn ystod 2020 a 2021.
- Darparu cyrsiau "Gofyn a Gweithredu" ar gyfer holl staff addysg ac ysgolion Gwynedd. Mae'r rhaglen yma yn mynd rhagddi yn dda yng Ngwynedd ar hyn o bryd.
- Sicrhau bod y polisi diogelu cyfredol gan holl ysgolion Gwynedd yn unol â'r Gweithdrefnau Diogelu Plant Cymru a dogfen "Cadw Dysgwyr yn Ddiogel" 2020.
- Sicrhau bod ysgolion yn cael eu paratoi'n well ar gyfer cyfrannu'n effeithiol mewn cynadleddau achos, cyfarfodydd grŵp craidd, a chyfarfod Adran 5 yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Plant Cymru 2020.

BLYNYDDOEDD CYNNAR

Mae'r Uned Blynyddoedd Cynnar yn cynllunio i sicrhau bod yr Awdurdod yn cyflawni'r gofynion statudol o sicrhau lle meithrin i bob plentyn o'r tymor yn dilyn ei pen-blwydd yn 3 oed. O Fedi 2021 mae'r ddarpariaeth addysg feithrin yn cael ei gynnig mewn 58 lleoliad (dau ohonynt ar gau am gyfnod) ar draws y sir. Bellach, mae'r holl leoliadau yn aelodau o'r Mudiad Meithrin ac yn cael eu monitro'n rheolaidd.

Nodweddion da:

- Athrawon Ymgynghorol Cyfnod Sylfaen wedi cyflwyno hyfforddiant i'r holl leoliadau ar
 - Fagiau cyswllt cartref – llythrennedd corfforol
 - Egwyddorion y Cyfnod sylfaen, cynllunio, asesu, Y Proffil a hunan werthuso (Arweinyddion newydd)
 - Egwyddorion y cyfnod sylfaen, cynllunio, asesu, Y Proffil a hunan werthuso (Cymhorthyddion (dewisol))
 - Uwch Athrawon wedi mynychu hyfforddiant Ffordd Gwynedd
- Cydlynedd ADY Blynyddoedd Cynnar wedi cyflwyno hyfforddiant i'r holl leoliadau ar ADYaCH (y cod arfaethedig) ac i staff mewnol.
- Mae pob un lleoliad sydd wedi derbyn arolygiad ar y cyd (AGC/Estyn) ers Ionawr 2019 wedi derbyn barn 'da' ar gyfer pob thema, gydag ambell adroddiad yn cyfeirio at agweddau o ragoriaeth o fewn cynnwys yr adroddiad.
- Adolygwyd y trefniadau o ran y Grŵp Ansawdd a gwnaethpwyd y rhan fwyaf ohonynt yn rhithiol.
- Lleoliadau wedi cychwyn creu Proffiliau Un Tudalen ar gyfer pob plentyn ADY ac yn dilyn y trefniadau newydd ynghlwm gyda'r ddeddfwriaeth newydd.
- Athrawon Ymgynghorol wedi bod yn rhan o weithdy yn cyflwyno adnoddau effeithiol i gefnogi anghenion plant ifanc i bob un lleoliad.
- Agorwyd lleoliad gofal plant ac addysg feithrin newydd o dan ofalaeth Meithrinfa Ffalabalam yn Ysgol y Garnedd, Bangor gydag arian cyfalaf y Cynnig Gofal Plant.
- Parhau i rannu arferion da rhwng athrawon Dechrau'n Deg a'r athrawon Cyfnod Sylfaen.
- Uwch Athrawes Cyfnod Sylfaen wedi arolygu mewn un lleoliad arall ac yn mynd i gynnal ymweliad ymgysylltiol mewn dau leoliad arall cyn diwedd 2021.
- Y tîm wedi rhannu dyletswyddau arbenigeddau, a hyn wedi gwreiddio yn ystod y cyfnod.
- Mae 10 lleoliad wedi ymrwmo i weithio ar gynllun Croesi'r Bont gan y Mudiad Meithrin.
- Lleoliadau bellach yn ymgysylltu â defnyddio taflenni cynllunio sy'n caniatáu iddynt ddilyn trywydd y plentyn a chofnodi arsylwadau sy'n nodi'r addysgu sydd wedi digwydd.
- Dros y cyfnod pandemig mae'r athrawon wedi addasu i gynnal lleoliadau'n rhithiol. Dros y cyfnod bu modd rhannu arfer dda, gwybodaeth am hyfforddiant, cynnig canllawiau ar gyfer ail-agor yn ddiogel- drwy edrych ar les y staff, plant a'r rhieni a chynnig cefnogaeth o ran asesiadau risg.
- Cafwyd cyswllt rheolaidd gyda theuluoedd plant ADY Gwynedd yn ystod y cyfnod clo i roi cefnogaeth a chynhaliadaeth iddynt yn sgil y ffaith bod nifer sylweddol o leoliadau meithrin wedi cau.
- Gwnaethpwyd pecynnau o weithgareddau yn ystod y cyfnod clo ar gyfer y lleoliadau i gynnig i rieni adref a dosbarthwyd hyn fel syniad y dydd ar dudalennau Facebook / Hwb Teuluoedd Gwynedd. Lluniwyd bagiau cyswllt cartref ychwanegol ar themâu amrywiol fel Byd Bach a Cherdd.

- Safle HWB Athrawon Ymgynghorol Gwynedd wedi ei sefydlu ond yn cael trafferthion o ran y trwyddedi logio mewn.
- Dosbarthwyd laptop ac ipad i bob lleoliad meithrin.
- Dosbarthwyd grantiau cyfalaf adfer COVID i 4 darpariaeth nas cynhelir.
- Dosbarthwyd grantiau cymorth am gostau uwch oherwydd Covid i 31 darpariaeth
- Dosbarthwyd grantiau cymorth am golled incwm a chostau hunan-ynysu i 3 ddarpariaeth
- Swyddog Cynorthwyol wedi trosglwyddo drosodd o'r Mudiad Meithrin i'r tîm Blynyddoedd Cynnar

Blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf:

- Datblygu arbenigeddau tîm ymhellach gan gynnwys cyflwyno hyfforddiant ac arfer dda i'r sector yn rhithiol e.e. llythrennedd corfforol.
- Cael y lleoliadau addysg feithrin yn ôl i normal yn dilyn y pandemig a hyrwyddo pwysigrwydd yr addysg feithrin cyfnod sylfaen cynnar gyda theuluoedd Gwynedd.
- Dechrau ymbaratoi lleoliadau ar gyfer dyfodiad y Cwricwlwm i Gymru – Cwricwlwm am Oes drwy gyflwyno ieithwedd y pedwar diben.
- Cyflwyno'r 'enabling steps' yn y Gwanwyn pan fydd y ddogfen wedi ei chyhoeddi.
- Parhau i ddiweddarau lleoliadau ar y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.
- Parhau i gefnogi'r gwaith o ran buddsoddiadau cyfalaf y Llywodraeth.

Y TÎM MODERNEIDDIO ADDYSG

Mae gwaith moderneiddio addysg y Sir wedi parhau i gyfrannu'n llwyddiannus at y gyfundrefn addysg ac wedi denu dros £69m ers 2012. Mae'r Tîm Moderneiddio Addysg yn gyfrifol am sicrhau bod y gwaith cynllunio ar gyfer darparu addysg yn alinio gydag anghenion addysg y Sir a'r cwricwlwm ar gyfer y dyfodol.

Mae'r Rhaglen yn un uchelgeisiol iawn sydd yn anelu i drawsnewid y ffordd y mae plant a phobl ifanc yn cael mynediad i ysgolion o safon uchel gydag amgylchedd ddysgu sy'n cefnogi addysg ragorol. Mae'r Cyngor hefyd yn awyddus i ddatblygu cyfundrefn addysg fydd yn cyfoethogi profiadau dysgu.

Bwriad yr Adran Addysg yw cynllunio'n strategol fel bod y math iawn a'r nifer o ysgolion wedi'u lleoli yn y mannau cywir, yn ogystal ag uwchraddio safon adeiladau ysgolion i greu ystâd sydd yn addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Bydd y Rhaglen yn parhau gydag ymroddiad llawn i wireddu'r weledigaeth bresennol i *"gynnig addysg o'r ansawdd uchaf posibl fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant y Sir a'u galluogi i ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn."*

Prif nodau'r Rhaglen ydy sicrhau bod y rhaglen waith bresennol yn parhau i gyrraedd y meini prawf a osodwyd i:

- gyfrannu at wireddu amcanion yr egwyddorion addysg addas i bwrpas i sicrhau cyfundrefn o ysgolion uwchradd hyfyw, mwy o amser digyswllt i benaethiaid cynradd a dim mwy na dau ystod oedran o fewn yr un dosbarth yn y cynradd;
- weithredu proses o ymgynghori gyda rhieni, staff, llywodraethwyr a rhan-ddeiliaid yn unol ag anghenion y broses statudol, gyda chyfathrebu clir;
- weithredu trefn effeithiol ar gyfer cyfathrebu gydag adrannau perthnasol y Cyngor, monitro a gwerthuso gweithgareddau;
- ddarparu nodau'r Rhaglen i sicrhau amodau arweinyddiaeth sy'n rhoi amser digonol i benaethiaid arwain, amgylchedd dysgu'r plentyn a chyflwr adeiladau gyda'r amodau gorau posibl, pellter teithio rhesymol i blant a rheolaeth fwy effeithiol o'r adnoddau addysgol yn cynnwys lleihau cost y pen er mwyn sicrhau gwerth gorau am arian;
- sicrhau cynnydd yn y broses o gwblhau'r gwaith adeiladu a sefydlu'r ysgolion sydd yn rhan o'r band cyllidol cyntaf sef Band A ac ymhellach Band B;
- gwblhau gwaith cefndirol a diweddarau data craidd y maes i fedru darparu gwybodaeth angenrheidiol i uwch swyddogion er mwyn medru ymateb yn rhagweithiol i sefyllfaoedd fel maent yn codi.

Blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf:

- Cwblhau prosiect Bangor sydd yn cynnwys buddsoddiad gwerth £12.7 miliwn. Eisoes mae adeilad newydd Ysgol y Garnedd wedi agor yn Tachwedd 2020 gyda chapasiti o 420 gan allu cynnig lle i ddisgyblion ysgolion Coedmawr a Glanadda yn ddarostyngedig ar ddewis rhieni. Mae'r gwaith o gynyddu capasiti Ysgol y Faenol i 315 ac i wella addasrwydd a chyflwr yr adeilad tra'n gwella'r adnoddau cymunedol yn parhau, ac anelir i'w gwblhau erbyn diwedd Tymor y Gwanwyn 2022.
- Yn dilyn y penderfyniad i fabwysiadu'r egwyddorion addysg addas i bwrpas, cefnogi gwaith yr Adran Addysg i wireddu'r weledigaeth i ddatblygu'r gyfundrefn er mwyn sicrhau addysg o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc Gwynedd ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.
- Yn dilyn penderfyniad Cabinet ar 10 Mawrth 2020, parhau i gynna trafodaethau anffurfiol ar addysg ôl-16 yn Arfon, er mwyn sicrhau tegwch a chefnogaeth gref i bob person ifanc yn y sir i lwyddo a gwireddu eu potensial.

- Yn dilyn penderfyniad y Cabinet yn Ebrill 2019 parhau â'r bwriad o adeiladu ysgol newydd yng Nghricieth.
- Parhau i weithredu un o brosiectau Band B i wella cyflwr ac addasrwydd adeiladau 30 o ysgolion y Sir, gyda'r wedd gyntaf a'r ail o'r prosiect yn mynd rhagddo ar hyn o bryd a chyflwyno ceisiadau pellach yn flynyddol.
- Cyflwyno achosion busnes llwyddiannus i Lywodraeth Cymru i ddenu'r arian cyfatebol ar gyfer y prosiectau sydd wedi eu cynnwys ym Mand B.
- Cydweithio gydag adrannau perthnasol i wireddu cynlluniau ychwanegol yn ymwneud ag elfennau blynyddoedd cynnar, cymunedol a'r iaith Gymraeg.
- Ymgymryd â phrosesau i fonitro'r buddion yn dilyn gwireddu'r prosiectau i asesu os ydynt wedi eu cwblhau yn llwyddiannus. Bydd gofyn sicrhau bod yr holl weithdrefnau angenrheidiol yn eu lle i fonitro'r buddion ac yn cael eu nodi'n barhaus.

CONSORTIWM ADDYSG ÔL-16 GWYNEDD AC YNYS MÔN

Mae Cyngor Gwynedd yn bartner strategol mewn fframwaith Consortiwm sydd â throsolwg cyflawn o faes addysg ôl-16 ar draws siroedd Gwynedd ac Ynys Môn. Ynghyd â Gwynedd, sy'n bartner arweiniol, mae 3 phartner strategol cyflawn arall sef Cyngor Ynys Môn, Grŵp Llandrillo Menai ac ysgolion uwchradd yr ardal sydd â chweched dosbarth. Mae'r bartneriaeth hon yn caniatáu i benderfyniadau strategol lefel uchel gael eu gwneud ar bob agwedd sy'n effeithio ar addysg ôl-16.

Mae gwaith y Consortiwm yn cwmpasu:

- Hwyluso rhwydwaith o ddarpariaeth a chysiau ôl-16 o safon mewn lleoliadau dysgu ar draws ardal y Consortiwm
- Hwyluso trafndiaeth ar gyfer y cyrsiau
- Rheoli a chydlynu rhwydwaith 14-19 ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn
- Arwain ar gynllun Seren i ymestyn profiadau i ddysgwyr mwyaf abl a thalentog yn yr ôl-16 a hefyd yn CA3 ar ran y ddau Awdurdod
- Hwyluso grŵp proffesiynol o benaethiaid chweched dosbarth
- Hyrwyddo a chyfrannu'n strategol at waith STEM Gogledd
- Cydweithio gyda Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru er mwyn adnabod llwybrau gyrfaol yn lleol ac ar draws y rhanbarth.

Yn ogystal â sicrhau cysondeb, llwybrau clir ac ansawdd ragorol i'r dysgwyr gan osgoi unrhyw ddyblygu o ran darpariaeth a systemau, mae'r fframwaith hefyd yn caniatáu rhannu'r gost o gyflogi staff i arwain ar, ac i weinyddu'r holl elfennau perthnasol.

Caiff gwaith y Consortiwm ei fonitro gan Fwrdd Arweiniol sy'n cynnwys cynrychiolaeth o Brif Swyddogion y Sefydliadau Partner.

CYNLLUN TRAC

Pwrpas

Mae TRAC yn gynllun ar draws chwe sir Gogledd Cymru. Mae'r cynllun yn anelu i atal plant a phobl ifanc bregus rhag datgysylltu o addysg a thrwy hynny leihau'r tebygolrwydd eu bod yn segur ac yn ddi-waith yn y dyfodol. Caiff ei ariannu gan Ewrop gyda chyfanswm gwerth y cynllun ar draws y rhanbarth yn £39.6m. Mae'r cynllun ar waith ers Medi 2015 a bydd yn dod i ben ar 31 Gorffennaf 2022.

Cyfanswm gwerth y cynllun yng Ngwynedd yw £4.6M (gyda £3.3M yn dod o Ewrop â'r Cyngor yn darparu amser swyddogion cyfwerth a £1.3M i gyd-ariannu'r cynllun) ac anelwn i gefnogi o leiaf 1,340 o blant a phobl ifanc cyn i'r cynllun ddod i ben.

Nodweddion da:

- Cyflogi 14 aelod o staff (drwy arian grant) i gefnogi disgyblion bregus drwy ddarparu ystod o ymyraethau amrywiol sydd yn ategu *ond nid yn dyblygu'r* ddarpariaeth addysg prif ffrwd, gan ganolbwyntio ar godi dyheadau'r plant a phobl ifanc sydd wedi eu cyfeirio at y cynllun a'u cefnogi i ail-gysylltu gyda'u haddysg.
- Bod yn greadigol yn y ddarpariaeth gan feddwl 'tu allan i'r boc's ynglŷn â sut y gellir goresgyn rhwystrau pob disgybl i ymgysylltu â'u haddysg.
- Llunio ddarpariaeth sydd yn unigryw i'r unigolyn a gyda'r disgybl yn ganolog.
- Y gallu i ddatblygu ac adeiladu perthnasau effeithiol gyda'r disgyblion.
- Bod yn gyson a thryloyw ac yn amyneddgar; gan amlaf mae gan yr unigolion ystod o heriau cymhleth yn eu bywydau a all amharu ar ein gallu i lwyddo.
- Cefnogi'r ddarpariaeth mae'r disgyblion yn ei dderbyn gan wahanol asiantaethau (megis yr Adran Plant, Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc ayyb).
- Cefnogaeth ddwys dros gyfnod penodol i gefnogi disgyblion bregus ym Mlwyddyn 6 i drosglwyddo'n llwyddiannus i'r Uwchradd.(Ar waith ers Hydref 2019).
- Cydweithio hefo eraill i adnabod y gefnogaeth sydd ei hangen, gan TRAC (ac eraill) i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i ragolygon y disgybl i'r dyfodol.

Canlyniadau:

- Hyd at ddiwedd Hydref 2021 roedd 1,104 o ddisgyblion wedi derbyn cefnogaeth gan TRAC Gwynedd. Gydag ystod o ganlyniadau wedi eu cyflawni o symud ymlaen i waith neu hyfforddiant, gwella presenoldeb ac ymddygiad, a chefnogaeth i bobl ifanc gyda phroblemau iechyd meddwl dwys.
- Yn y flwyddyn academaidd 2020/21:

- Disgyblion wedi eu cefnogi (Blynyddoedd 7 i 11)(cyfeiriadau newydd)	81
- Disgyblion wedi eu cefnogi (Blwyddyn 6 /cyfnod trosglwyddo):	86
- Disgyblion yn gadael y cynllun yn llai tebygol o fod yn segur (nid mewn addysg, gwaith neu gyflogaeth):	90
- Disgyblion yn ennill cymhwyster BTEC Lefel 1 / 2	39

Blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf:

- Parhau i ddarparu a chefnogi'r disgyblion bregus sydd wedi eu hadnabod i'r cynllun.
- Parhau y cynnig o gwricwlwm amgen i ysgolion drwy unedau achrededig Agored Cymru.
- Bod yn rhagweithiol o ran hyrwyddo'r gwaith sydd yn cael ei gyflawni.
- Gweithredu ar strategaeth ymadael y cynllun (sydd yn dod i ben yn Gorffennaf 2022) drwy greu model cynaliadwy i drosglwyddo'r ddarpariaeth i wasanaethau eraill o fewn yr Adran Addysg.
- Mapio etifeddiaeth TRAC a sut gall yr Adran barhau i ddarparu'r model drwy brif ffrydio i wasanaethau sefydlog.
- Cwblhau adroddiad sydd yn gwerthuso effaith y cynllun yn lleol a llunio cynllun busnes ar gyfer olynnydd i'r cynllun os bydd modd.

ARWEINYDDIAETH

Pwrpas

Nod y cynllun arweinyddiaeth yw galluogi fod gan holl arweinwyr Gwynedd y modd i sicrhau fod pob plentyn o dan eu gofal yn medru cyflawni ei lawn botensial. Mae'r Awdurdod wedi adnabod yr angen *"i weithio ar y cyd i greu diwylliant sy'n galluogi arweinwyr i ffynnu; ac yn medru ysbrydoli a dylanwadu ar blant ar bob lefel"*.

Nodweddion da:

- Mae pwyslais arbennig yn cael ei roi i sicrhau cyfundrefn sydd wedi ei chynllunio a'i datblygu i sicrhau arweinwyr priodol ar bob lefel.
- Mae pwyslais arbennig yn cael ei roi i sicrhau cysondeb ar gyfer profiad a chyfleoedd gorau i ddisgyblion Gwynedd.
- Mae pwyslais arbennig yn cael ei roi i sicrhau dulliau effeithiol sy'n datblygu arweinwyr presennol.
- Mae pwyslais arbennig yn cael ei roi i sicrhau fod amodau penodol mewn lle i alluogi arweinwyr i ffynnu.

Cymhelliant

Bu i'r Adran fuddsoddi mewn prosiect peilot Cymhelliant a Mentora mewn Addysg i roi cyfle i benaethiaid gael myfyrio ar eu profiadau gyda chymhellydd proffesiynol. Bu'r rhaglen yn rhedeg drwy gydol y pandemig gan roi cyfle i benaethiaid ac aelodau o dimau rheoli ysgolion gael cyfle i drafod a myfyrio gyda chymhellwyr o amrywiol broffesiynau a diwydiannau a hynny mewn cyfnod digynsail o ran pwysau gwaith. Roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn.

Rhodddwyd cyfle hefyd i benaethiaid gael eu hyfforddi i ennill cymhwyster ôl radd mewn cymell a mentora wedi ei ariannu'n llawn. Manteisiodd 7 pennaeth ar y cyfle, ac maent erbyn yn wedi cwblhau'r radd yn llwyddiannus ac wedi dod yn gymhellwyr proffesiynol eu hunain. Bydd hyn yn ychwanegu at y pŵl o gymhellwyr Cymraeg sydd ar gael yng Ngwynedd.

Erbyn hyn mae'r cynllun hyfforddiant i arweinwyr mewn ysgolion wedi esblygu yn gontiniwm o ddysgu proffesiynol, syn cael ei gynnig yn ranbarthol ac mae'n cynnwys y canlynol:

1. Rhaglen Ddatblygu Arweinyddiaeth Ganol

Mae'r rhaglen yn hyrwyddo arweinyddiaeth effeithiol iawn trwy hunan arfarnu a myfyrio, gan archwilio'r berthynas rhwng arweinyddiaeth, ysgolion llwyddiannus a'r gymuned ehangach drwy;

- ddatblygu dealltwriaeth o'r rôl
- ddatblygu ymhellach eu dealltwriaeth o'r agenda diwygio cenedlaethol
- ddatblygu eu harfer yn unol â'r safonau arweinyddiaeth ffurfiol
- baratoi ar gyfer ymgysylltiad effeithiol gydag elfennau pwrpasol o wybodaeth arbenigol a sgiliau; MDPHau, ADY, Cymraeg, ysgolion ffydd, ysgolion bach ac ati.

2. Rhaglen Ddatblygu Genedlaethol ar gyfer Uwch Arweinwyr

Eto, gyda ffocws penodol ar hunan arfarnu a myfyrio mae'r rhaglen hon yn;

- Datblygu dealltwriaeth o rôl uwch arweinydd ymhellach
- Datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau y dylai uwch arweinydd effeithiol eu gwybod a gallu eu mabwysiadu

- Cael cyfle i ddatblygu'r ymddygiadau arweinyddiaeth sy'n ofynnol ar gyfer uwch arweinydd effeithiol
- Datblygu eu dealltwriaeth o'r agenda diwygio cenedlaethol ymhellach
- Datblygu eu harfer o fewn y safonau arweinyddiaeth ffurfiol.

3. Rhaglen Genedlaethol i Ddatblygu Darpar Benaethiaid – Paratoi ar gyfer CPCP 2021-2022

Mae'r rhaglen hon ar gael i bob arweinydd ysgol profiadol sy'n credu ei fod yn arddangos cyrhaeddiad yn erbyn y Safonau Proffesiynol ar gyfer Dysgu & Arweinyddiaeth ac sy'n ystyried prifathrawiaeth fel cam nesaf realistig.

Bydd yn adeiladu ar brofiad blaenorol, a hynny er mwyn meithrin:

- eu dealltwriaeth o rôl pennaeth effeithiol
- eu sgiliau a'u priodoleddau trwy hunan-adolygu yn erbyn y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth
- eu dealltwriaeth a'u gallu i gymhwyso amrywiaeth o sgiliau arweinyddiaeth mewn modd effeithiol
- eu sgiliau cydweithredu trwy gymryd rhan effeithiol mewn rhwydweithiau cyfoedion
- eu gwybodaeth a'u sgiliau ar gyfer datblygu eu hysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu a sicrhau llwyddiant yr agenda ddiwygio genedlaethol

Bydd y Rhaglen yn galluogi'r cyfranogwyr i fyfyrion ar eu harfer proffesiynol eu hunain, ac i sicrhau eu bod wedi paratoi'n dda wrth ymgeisio i ymgymryd ag asesiad ffurfiol ar gyfer y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP).

4. Rhaglen Datblygu Penaethiaid Newydd eu Penodi a Phenaethiaid Dros Dro

Rhaglen sy'n cefnogi penaethiaid newydd a phenaethiaid dros dro wrth eu gwaith:

- Mae wedi ei chynllunio yn unol â'r Model Dysgu Proffesiynol Rhanbarthol
- Mae'r cynnwys yn seiliedig ar y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth, Datblygu Ysgolion yng Nghymru fel Sefydliadau sy'n Dysgu ac Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl
- Mae hyd y rhaglen a dilyniant y gweithgareddau dysgu yn gyson drwy Gymru
- Mae disgwyliadau cyffredin am gynnydd cyfranogwyr a sut bydd hyn yn effeithio ar eu harfer arweinyddol

5. Rhaglen Datblygu Penaethiaid Profiadol

Rhaglen ar gyfer penaethiaid sydd eisoes yn brofiadol a chyfle iddynt;

- Fyfyrio ar eu dull arweinyddiaeth eu hunain a sut mae eu harweinyddiaeth yn effeithio ar eraill
- Fyfyrio ar effaith ystod o ddulliau arweinyddiaeth
- Ddeall theori newid a myfyrio ar sut mae hynny'n effeithio ar eu harweinyddiaeth ar y daith ddiwygio drawsffurfiannol
- Gydweithio ag eraill i arwain eu hysgolion yn effeithiol a chael effaith gadarnhaol ar arweinyddiaeth ar draws Cymru
- Wreiddio diwylliant ac ymarfer arloesi priodol ar draws a thu hwnt i'w hysgolion

Blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf:

- Sicrhau bod yna blethu amlwg rhwng y cynllun datblygu arweinyddiaeth hwn a'r egwyddorion a fabwysiadwyd gan y Cabinet, er mwyn sicrhau bod gennym drefniadau i ddatblygu ac adnabod arweinwyr ar gyfer ein cyfundrefn bresennol ac i'r dyfodol.

UNED DDATA ADDYSG

Pwrpas Uned Ddata Addysg Gwynedd a Môn yw sicrhau cefnogaeth i'r Adran Addysg drwy ddarparu isadeiledd data a gwybodaeth o ansawdd uchel sy'n gyrru penderfyniadau a pherfformiad.

Nodweddion da:

- Mae'r broses o gyflwyno ceisiadau mynediad neu drosglwyddo ysgol wedi trawsnewid i ddefnyddio system FFOS yn hytrach na ffurflen ar wefan. Golyga hyn fod cais mynediad i ysgolion rŵan yn dilyn yr un trywydd a ceisiadau am Wasanaeth Cyngor Gwynedd, ac yn broses ddi-bapur.
- Cydweithio efo'r Uned TGCh a'r Ganolfan Fusnes Addysg i drosglwyddo'r ffurflen casglu gwybodaeth SIMS yn electroneg. Mae hyn yn weithredol ers mis Ebrill 2021.
- Elfen PEPs o'r system CDU yn weithredol.
- Ymateb i her COVID-19 drwy ddatblygu adroddiadau newydd i gwrdd ac anghenion yr Adran Addysg
- Cyflwyno adroddiadau Presenoldeb yn wythnosol yn ogystal a rhai mwy manwl pan fo'r gofyn
- Darparu a Chyflwyno adroddiadau dadansoddi canlyniadau TGAU a Lefel A
- Cadeirio Grŵp Rhanbarthol a Bwrdd Prosiect sy'n arwain ar ddod o hyd i system rheoli gwybodaeth Awdurdod ar gyfer y rhanbarth.
- Cyfrannu tuag at gyflawni gofynion newydd y Cyngor yng nghyd-destun herio perfformiad mesurau'r Adran Addysg.
- Cefnogi'r Ganolfan Fusnes gyda ymatebion PLASC a SWAC
- Cwblhau ymatebion statudol (PLASC, SWAC, Casgliad data ôl-16) o fewn yr amserlen

Blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf:

Oherwydd ansicrwydd o gwmpas COVID-19 mae'n anodd gosod blaenoriaethau cadarn, felly, yn y tymor byr gobeithir gyflawni'r canlynol:

- Gwaith pellach i sicrhau fod ein data yn gyfredol a o safon uchel.
- Sicrhau gwell defnydd o 'Transport ONE' er mwyn sicrhau fod y gwybodaeth sy'n cael ei echdynnu yn lleihau'r angen i ddefnyddio taenlenni drwy'r adeg.
- Gweithio gyda'r Ganolfan Fusnes i gyflwyno ffurflenni casglu data SIMS yn cael ei trosglwyddo ar lein yn effeithiol ac yn cael ei mewnosod erbyn mis Medi 2021.

GWASANAETH CEFNOGI LLYWODRAETHIANT YSGOLION

Pwrpas y gwasanaeth Cefnogi Llywodraethiant Ysgolion yw:

- Darparu cefnogaeth ac arweiniad i benaethiaid, llywodraethwyr a chlercod llywodraethwyr ysgolion Gwynedd
- Cynnal rhaglen hyfforddi i lywodraethwyr
- Paratoi deunyddiau hyfforddi/arferion da a gohebiaeth i lywodraethwyr a phenaethiaid
- Cefnogi Cyrff Cysgodol ysgolion newydd

Nodweddion da:

- Cynnig cynhaliaeth a chefnogaeth i Gyrff Llywodraethol a'u hysgolion yn ôl y gofyn;
- Parhau i wella ansawdd gwaith y llywodraethwyr ar gyfer herio penaeithiaid fel eu bod yn deall ystyr data a deall gwir sefyllfa safonau mewn ysgol.
- Datblygu rôl y llywodraethwyr i ymgymryd â rôl fwy strategol yn y cyfarfodydd ynghyd ag annog hunan arfarnu gwaith y llywodraethwyr a hybu'r defnydd o'r drefn hunan arfarnu cenedlaethol.
- Gallu cynnig hyfforddiant mandadol ac ychwanegol mewn dull rhithwir yn sgil cyfyngiadau Covid ac adborth i'r ymgynghoriad ar hyfforddiant.
- Cynorthwyo Cyrff Llywodraethol i gyflawni eu rôl statudol a chynghori a gweithredu fel llinell gymorth mewn materion llywodraethol i benaethiaid a llywodraethwyr gan gynnwys y broses ormodedd, cwynion ayb.

Blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf:

- Gweithredu ymhellach ar ganfyddiadau'r ymgynghoriad â wnaed yn 2020 ynghylch hyfforddiant i Lywodraethwyr yn benodol gan ddatblygu hyfforddiant electroneg (fidios ac ati) ar gyfer rhai pynciau, a chynyddu'r ystod o hyfforddiant sydd ar gael.
- Uwchraddio'r system Bas Data Llywodraethwyr a chydweithio gyda TG er mwyn hybu hunan wasanaeth ar gyfer y Bas Data fel bod clercod llywodraethol yr Awdurdod yn gallu mewnbynnu gwybodaeth yn uniongyrchol.
- Cydweithio â'r adran TGCh i sefydlu adran i Lywodraethwyr ar HWB (LIC) a sicrhau bod gan Lywodraethwyr gyfrif HWB.
- Rhesymoli rhestr Polisiau Ysgolion a sicrhau bod templedi cyfredol ar gael ar yr HWB.
- Datblygu pecyn o dempledi Dogfennau Statudol a ddylai fod gan ysgolion.

UNED CONTRACTAU A CHYFLOGAU

Pwrpas

Mae'r Uned yn darparu amrywiaeth o waith cefnogol i holl ysgolion y sir. Mae hyn yn amrywio o roi cyngor ac arweiniad parthed telerau ac amodau gwaith staff ysgolion i benaethiaid, llywodraethwyr a swyddogion y sir, prosesu amserlenni ar gyfer tâl, creu cytundebau, gwirio cefndir troseddol pob aelod o staff, cynghori athrawon ynglŷn â'u pensiwn a phrosesu taliadau diswyddo.

Nodweddion da:

- Staff ein hysgolion yn parhau i dderbyn eu tâl yn gywir ac ar amser yn fisol
- Fel adran ein bod yn parhau i gadw at lefel gwasanaeth sydd yn deg ac yn gyson i bob ysgol drwy ddilyn yr amserlen waith drwy gydol y flwyddyn addysgol.
- Cael cytundebau holl staff ysgolion allan yn unol â'r gofynion statudol, sef o fewn wyth wythnos o gychwyn mewn swydd.

Blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf:

- Diweddaru a diwygio rhestr athrawon llanw ar system ONE ar gyfer creu app 'llogi' athrawon llanw i mewn i ysgolion. Gan fod y rhestr llanw wedi ei diwygio rydym yn parhau i'w ddiweddaru fel y mae ceisiadau newydd yn dod mewn yn barod ar gyfer yr 'app'.
- Symud i drefn electronig o storio ffeiliau personol staff. Rydym wedi creu ffeil electroneg ar gyfer pawb yn iGwynedd erbyn hyn. Mae pawb sydd wedi cychwyn ers 01.09.2020 gyda ffeil electroneg yn unig. Rydym wedi trosglwyddo ffeil pob staff ategol/cymorthyddion Ysgolion cynradd o bapur i electroneg ac yn bwriadu symud ymlaen i wneud yr un peth gyda'r Uwchradd a holl Athrawon y Sir dros y misoedd nesaf.
- Parhau i annog penaethiaid i wneud yn siŵr bod pob staff dysgu a chymorthyddion cefnogaeth dysgu wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Gweithlu Addysg ac wedi cwblhau'r broses DBS cyn eu bod yn cychwyn mewn ysgol. Rydym yn parhau i annog hyn. System electronig o wirio DBS wedi rhoi mewn lle ac felly bydd hyn yn hwyluso'r sefyllfa.
- Cydweithio gyda'r Uned Adnoddau Dynol ar greu datganiad electroneg ar gyfer Athrawon. Gyda datganiad wedi creu erbyn hyn bydd angen ei roi heibio'r undebau er mwyn cael eu sêl bendith i weithredu arno cyn cyntaf bo modd.

GWASANAETH ARLWYO A GLANHAU

Pwrpas

Darparu bwyd maethlon ac iachus i ddisgyblion Ysgolion Gwynedd a chadw'r sefydliadau addysgol yn lan a diogel er mwyn cynorthwyo'r disgyblion gyrraedd eu potensial.

Nodweddion da y gwasanaeth

- Bwydlen cinio ysgolion cynradd ac arbennig yn cydymffurfio gyda 'Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth)(Cymru) 2013'
- Bwydlen cinio ysgolion Uwchradd yn gweithio tuag at gydymffurfio gyda 'Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Gofynion a Safonau Maeth) (Cymru) 2013'
- Cynnal sesiynau blasu/maeth o fewn ysgolion i annog mwy o ddisgyblion i fwyta cinio ysgol
- Cynnig i rieni sydd yn darparu bocs bwyd i'w plant os ydynt eisiau cinio rai dyddiau o'r wythnos
- Cynnig cinio themâu rheolaidd i'r ysgolion
- System talu ar lein i rieni sydd yn hwyluso ffordd i dalu am wahanol wasanaethau i ysgolion megis cinio, tripiâu, gwersi offerynnol ayb
- Cynnig i bob ysgol ble mae cynllun gofal 30 awr yn weithredol gan gylch meithrin i gynnig cinio ysgol fel rhan o'r ddarpariaeth
- Cadw ysgolion yn lân ac yn ddiogel
- Cefnogi Ysgolion Uwchradd i fynd yn ddi-arian drwy gyflwyno system di-arian cinio

Blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf

- Cydweithio efo ysgolion i fynd yn gwbl ddi-arian
- Parhau i annog rhieni ddewis cinio ysgol ar gyfer eu plant
- Cynorthwyo ysgolion i ostwng lefelau dyledion cinio rhieni
- Gweithredu ar ddarparu pecyn bwyd ar dripiâu i ysgolion
- Adolygu'r galw am ddarpariaeth clybiau brecwast mewn ysgolion cynradd
- Yn dilyn cyhoeddiad y Llywodraeth i ddarparu cinio am ddim i ddisgyblion cynradd, bydd angen asesu anghenion y gwasanaeth i gwrdd ar gofyn.

CLUDIANT

Trefnu cludiant i ddisgyblion Gwynedd i sefydliadau addysgol sydd yn rhoi mynediad iddynt at addysg i gyrraedd ei potensial.

Nodweddion da y gwasanaeth:

- Cludiant wedi ei drefnu i holl ddisgyblion sydd yn deilwng
- Cludiant wedi ei drefnu i fyfyrwyr ôl 16 oed
- Y gallu i brynu tocyn teithio ôl 16 oed drwy ddebyd uniongyrchol
- Y gallu i brynu e-docyn teithio ôl 16
- Fforwm defnyddwyr ôl 16 oed yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn
- Polisi Cludiant Gwynedd yn cydymffurfio gyda 'Mesur Teithio gan Ddysgwyr Cymru 2008'
- Ymestyn tocyn teithio ôl 16 oed i gynnwys myfyrwyr dros 19 oed

Blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf:

- Adolygu y trefniadau ar gyfer y tocyn teithio ol-16
- Sicrhau effeithlonrwydd y gwasanaeth drwy adolygu meini prawf a systemau presennol

CANOLFAN FUSNES ADDYSG

Pwrpas y Ganolfan Fusnes Addysg yw cefnogi rheolaeth effeithiol Ysgolion Gwynedd.

Mae'r Ganolfan yn cefnogi 80 o ysgolion cynradd drwy ddarparu gwasanaethau yn unol â'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth sydd yn bodoli rhwng yr ysgolion a'r Ganolfan.

Rhoddir cefnogaeth ar gyfer amrywiaeth o feysydd yn y maes rheolaeth ysgol.

Nodweddion da:

- Drwy gymorth y grant ysgolion bach a gwledig 2020/21 bu'n bosibl parhau gyda'r gefnogaeth weinyddol ychwanegol a ddarperir i Benaethiaid allan yn yr ysgolion yn ogystal â darparu'r cynllun ateb galwadau ffôn ar ran rhai ysgolion.
- Archebion gan ysgolion ar gyfer prynu nwyddau/gwasanaethau drwy gerdyn credyd y Ganolfan Fusnes Addysg wedi cynyddu dipyn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf sy'n dangos bod yr ysgolion yn cael budd o'r gwasanaeth.
- Tîm y Ganolfan Fusnes Addysg wedi bod yn rhoi cymorth i ysgolion drwy ddarparu adroddiadau cyson ar gyfer manylion cyswllt disgyblion a staff i rannu gyda thîm olrhain diogelu (Track & Trace) pan fo achosion o COVID-19.

Blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf:

- Parhau i gyflwyno cardiau credyd i ysgolion uwchradd ac ysgolion cynradd mawr sydd efo gweinyddwyr yn yr ysgolion i gefnogi'r drefn.
- Parhau i weithio'n agos gyda'r Tîm Caffael i roi gwerth gorau i ysgolion ar gytundebau Caffael.
- Parhau i adnabod a gwella gwasanaethau sydd yn mynd i gyfrannu tuag at leihau baich gwaith Penaethiaid.
- Datblygu ymhellach trefn effeithiol ac effeithlon ar gyfer archebu a thalu am nwyddau a gwasanaethau Ysgolion.
- Datblygu mewnwyd ar gyfer y Ganolfan Fusnes Addysg ar yr HWB ar gyfer cyfathrebu, rhannu gwybodaeth ac ymarferion da gydag ysgolion.
- Datblygu ymhellach y tîm gweinyddwyr sy'n mynd allan i weinyddu i ysgolion.

TECHNOLEG GWYBODAETH

Pwrpas

Er nad oes uned benodol o fewn yr Adran Addysg sydd yn delio â materion technoleg gwybodaeth, mae gwaith sylweddol wedi ei gwblhau'n y maes allweddol hwn mewn cydweithrediad â'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth Corfforaethol. Mae'r gwaith yn y maes wedi ei selio ar ein Strategaeth Addysg Ddigidol gyda'r pwrpas clir o gefnogi addysg drwy dechnoleg.

Nodweddion da:

- Strategaeth Addysg Ddigidol wedi ei chymeradwyo sydd yn amlygu sut y byddwn yn ymateb i'r her o gefnogi addysg drwy dechnoleg.
- Wedi cytuno ar drefniadau cynnal a chadw gwydn i'r dyfodol.
- Wedi cytuno ar gynllun i gyd-ariannu a diweddarau'r dyfeisiadau ar ddiwedd eu hoes.
- Rhwydweithiau ysgolion Gwynedd wedi eu huwchraddio i gyfarfod â safonau cenedlaethol
- Dros 6,000 o ddyfeisiadau wedi eu darparu yn ystod tymor yr haf.
- Dros 6,000 o ddyfeisiadau ychwanegol wedi ei prynu.
- Wedi symud systemau e-bost ysgolion i system Hwb.
- Wedi symud systemau storio data ysgolion cynradd i system cwmwl.
- Cynllun hyfforddi proffesiynol wedi cychwyn o dan arweiniad GwE.

Blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf:

- Sefydlu strwythur ar gyfer uned fewnol newydd ar gyfer cynnal a chadw dyfeisiadau.
- Penodi i'r strwythur cefnogi newydd.
- Cytuno ar raglen waith gydag ysgolion unigol fydd yn cynnwys pryd a sut y bydd y cyflenwad llaw o ddyfeisiadau yn cyrraedd yr ysgolion.
- Sicrhau defnydd llawn a chyson o'r dyfeisiadau ar draws ein ysgolion.
- Sicrhau bod ysgolion â gweledigaeth glir ar bwysigrwydd meithrin sgiliau digidol
- Sicrhau bod ysgolion â chynlluniau gweithredu clir i feithrin sgiliau digidol ar draws y cwricwlwm.



Adroddiad Blynyddol GWÉ

2020-2021



Tud. 66



CYNNWYS

1. Cefndir a chyd-destun
2. Rhaglen Waith GwE
3. Prif effaith gwaith GwE yn ystod pandemig Covid-19
4. Adolygiad thematig Estyn: Cymorth awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ysgolion ac UC Dau i ymateb i COVID-19
5. Ymateb GwE i argymhellion Estyn o'r adroddiad thematig
6. Cymorth yn ystod y pandemig sydd wedi darparu pwyntiau twf i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd
7. Materion busnes
8. Blaenoriaethau'r Cynllun Busnes ar gyfer 2021-2022

Dogfennau ategol:

- **Atodiad 1:** Adroddiad Estyn: 'Cymorth awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ysgolion ac UC Dau i ymateb i COVID-19'
- **Atodiad 2:** Llythyr Estyn: 'Gwaith GwE i gefnogi ysgolion ac UC: Mawrth-Awst 2020/0 fis Medi 2020'
- **Atodiad 3:** 'Y Daith at 2022a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2020 ac a gyd-luniwyd gan Estyn, y pedair rhanbarth a Llywodraeth Cymru
- **Atodiad 4:** Llinell amser Dysgu Proffesiynol y Cwricwlwm i Gymru
- **Atodiad 5:** Y Daith Ddiwygio - Papurau Procio
- **Atodiad 6:** Gweithgareddau wedi'u dogfennu ac amser a dreuliwyd
- **Atodiad 7:** Data Cynllun Busnes (2021-2022)
- **Atodiad 8:** Cefnogaeth i raddau a bennir gan ganolfannau
- **Atodiad 9:** Cefnogaeth ychwanegol i Rwydweithiau Uwchradd
- **Atodiad 10:** Adroddiad Arfarnu Haf 2021

1. CEFNDIR A CHYD-DESTUN

Mae'r ymateb i COVID-19 wedi newid ein bywydau yn aruthrol. Yn y cyd-destun heriol hwn, amharwyd yn sylweddol ar y system addysg ac ysgolion. Ar 23 Mawrth 2020, newidiwyd pwrpas ysgolion, i gefnogi plant gweithwyr allweddol a rhai dysgwyr bregus ar yr un pryd â chefnogi pob dysgwr i aros yn ddiogel a dal ati i ddysgu gartref.

Ar 3 Mehefin 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LIC) y byddai ysgolion yn ailagor yn raddol o 29 Mehefin, 2020 er mwyn rhoi cyfle i bob disgybl "ddod i'r ysgol, dal ati i ddysgu a pharatoi". Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chanllawiau Dysgu [<https://llyw.cymru/canllawiau-ar-ddysgu-mewn-ysgolion-lleoliadau-coronafeirws>] i gynnig cyngor ar y dysgu a'r addysgu fyddai'n digwydd mewn ysgolion a lleoliadau am weddill tymor yr Haf ac i gefnogi ymarferwyr wrth iddynt baratoi ar gyfer tymor yr Hydref.

Ar 9 Gorffennaf, 2020 cadarnhaodd y Gweinidog Addysg y byddai pob disgybl yn dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi ac y byddai'n ofynnol i ysgolion ddychwelyd yn llawn erbyn 14 Medi. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau dysgu pellach [<https://llyw.cymru/canllawiau-ar-ddysgu-mewn-ysgolion-lleoliadau-coronafeirws>] ar gyfer tymor yr Hydref, oedd yn rhoi set gyffredin o flaenoriaethau ar gyfer dysgu i ysgolion a phartneriaid cefnogi, waeth beth yw lefel y gweithredu mewn ymateb i COVID-19.

Yn ystod Tymor yr Hydref, roedd yr effaith ar ysgolion yn amrywio'n sylweddol ar draws y rhanbarth. Mewn rhai ysgolion roedd blynyddoedd cyfan yn gorfod hunan-ynysu gartref yn rheolaidd am gyfnod estynedig, tra bo eraill yn gallu agor i bob disgybl drwy gydol y tymor.

Ar 4 Ionawr 2021, yn sgil cyflwyno ail gyfnod clo, parhaodd yr ysgolion ar gau i bob plentyn ar wahân i blant gweithwyr allweddol a rhai dysgwyr bregus, a gwelwyd ysgolion yn darparu dysgu o bell am ran fwyaf Tymor y Gwanwyn.

Yn yr wythnos yn cychwyn 22 Chwefror 2021, dechreuodd plant dan 7 oed yn y Cyfnod Sylfaen yn ôl yn yr ysgol, efo plant ysgolion cynradd eraill a myfyrwyr uwchradd hŷn (Blynyddoedd 11 ac 13) yn dychwelyd i'r ysgol ar 15 Mawrth 2021. O 12 Ebrill 2021, dychwelodd ysgolion cynradd, arbennig ac uwchradd a'r Unedau Cyfeirio Disgyblion (UCD) i ddarparu darpariaeth ar y safle i bob dysgwr.

Mae Adroddiad Blynyddol GwE yn amlinellu sut mae GwE wedi ail bwrpasu amryw o weithiau yn ystod pandemig COVID i ddarparu gwasanaethau a chymorth i'w holl gymunedau ysgolion a sut mae wedi ymateb i'r argymhellion a gyflwynodd Estyn i awdurdodau lleol a'r consortiwm rhanbarthol yn eu hadroddiad thematig. Disgrifia hefyd sut mae ysgolion yn cael eu cefnogi i weithredu'r daith ddiwygio a pharatoi am y cwricwlwm newydd ac mae'n adnabod blaenoriaethau strategol a rhanbarthol ar gyfer 2021-22.

2. RHAGLEN WAITH GWE A CHEFNOGAETH I YSGOLION YN YSTOD PANDEMIG COVID

Mae staff yr Awdurdodau Lleol a GwE wedi addasu eu gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth effeithiol i'w holl gymunedau ysgolion yn ystod pandemig COVID. Yn ystod y cyfnod hynod anodd hwn, mae GwE wedi aros yn dryw i'w weledigaeth a'i werthoedd fel sefydliad sy'n parhau i ddysgu. Wrth wraidd y gwaith gydag ysgolion a phartneriaid y bu themâu trawsliniol Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), sef Ymddiriedaeth, Meddwl Gyda'n Gilydd, Amser a Thechnoleg.

Mae'r gwasanaeth yn ei gyfanrwydd wedi ailgyfeirio sawl tro yn ystod y cyfnod hwn er mwyn bodloni anghenion yr ystod o randdeiliaid. Mae'r gallu i fod yn hyblyg ac ystwyth a chydweithio yn effeithiol mewn gwahanol dimau, a hynny'n draws sector yn aml, wedi cael effaith sylweddol ar ymddygiad sefydliadol ac argraffiadau allanol. Wrth wraidd yr ailgyfeirio y bu'r angen i sicrhau bod lles arweinwyr ysgolion, eu staff a'u dysgwyr o'r pwys mwyaf wrth wneud penderfyniadau a sicrhau y gall y gwasanaeth gyfeirio'n gywir y lefel briodol o gefnogaeth, boed hynny'n gefnogaeth weithredol neu broffesiynol. Croesawyd cyswllt rheolaidd ag arweinwyr ysgolion, a chyfrannodd hyn at Benaethiaid yn teimlo y gallent droi at gyd-weithiwr proffesiynol i rannu materion heriol, a dod o hyd i ddatrysiadau i fynd i'r afael â materion dydd i ddydd. Roedd y rhain yn cynnwys trafodaethau gweithredol ar agor ysgolion yn ddiogel yn ogystal â thrafodaethau proffesiynol am ddysgu o bell a dysgu cyfunol.

Mae cyfarfodydd staff wythnosol wedi cyfrannu at ddull cyson o sicrhau negeseuon cyffredin i athrawon ac arweinwyr ysgolion. Bu pwyslais cryf ar foddelu ymddygiad priodol a chefnogol drwy gydol y cyfnod. Mae hyn wedi cynnwys cyswllt rheolaidd iawn â Phenaethiaid i sicrhau eu bod yn cael y gefnogaeth briodol i weithredu'n effeithiol, a hefyd fel cyfrwng i gefnogi eu llesiant. Darparwyd rhagor o gefnogaeth ar gyfer lles uwch arweinwyr trwy gyfres o weithdai a gweminarau a fydd yn cefnogi eu gwytnwch yn ystod y cyfnod anodd hwn. Cynhaliodd staff GwE ymweliadau bugeiliol wyneb yn wyneb ar ran yr Awdurdodau Lleol yn ystod Tymor yr Hydref ac hefyd wrth i ysgolion ail-agor yn Nhyrnor y Gwanwyn 2021 wedi'r ail gyfnod clo.

Mae GwE yn ystyried ei hun fel sefydliad partneriaeth, yn enwedig gyda'r Awdurdodau Lleol ac yn fwy byth yn ystod y cyfnod clo ac wrth symud ymlaen. Mae GwE wedi gweithio'n effeithiol efo Llywodraeth Cymru ar bolisi a pharhad dysgu. Mae hefyd wedi gweithio'n gyson gyda'r rhanbarthau eraill ac Estyn ar baratoi canllawiau ac adnoddau ar gyfer dysgu o bell a dysgu cyfunol ac i roi cyngor ar asesu ffurfiannol ac asesu parhaus. Cryfhawyd y berthynas waith rhwng y grwpiau hynny gan drafodaethau proffesiynol a chadarnhaol, gan sicrhau bod rhanddeiliaid yn derbyn cyngor ac adnoddau o safon uchel.

Un o brif gryfderau'r gwaith ar draws gogledd Cymru fu'r negeseuon cyson gan y chwe awdurdod lleol trwy eu deilyddion portffolio addysg gwleidyddol a'r cyfarwyddwyr sy'n gweithio gyda GwE er sicrhau un neges gyffredin i ysgolion gogledd Cymru. Nid ysgolion yn unig sydd wedi croesawu'r negeseuon cyson hyn, ond fe'u croesawyd hefyd gan undebau athrawon ac undebau eraill, sydd oll wedi gwerthfawrogi'r eglurder a'r gefnogaeth i'w haelodau staff. Un enghraifft o hyn yw'r grŵp gweithredol o staff awdurdod lleol a rhanbarthol yn gweithio ar ac yn datblygu polisi asesiadau risg, cyngor a chanllawiau, a chreu dangosfwrdd rhanbarthol sy'n sylfaen gadarn i bob ysgol allu ailagor gyda risgiau wedi'u hadnabod, a'u rheoli a'u cefnogi yn lleol.

Mae'r chwe awdurdod lleol a GwE wedi cydymdrechu a gweithredu ar y cyd i gefnogi ysgolion trwy gydol pandemig COVID. Roedd hyn i'w weld yn glir yn y dull rhanbarthol cyson o ddatblygu fframwaith cefnogol i sicrhau bod gan holl ysgolion y rhanbarth y polisiau priodol ar waith, ynghyd ag asesiad risg cynhwysfawr, er mwyn creu amgylchedd

diogel i groesawu'r plant yn ôl i ysgolion.

Roedd y fframwaith yn cynnwys adnoddau i gefnogi gwaith cynllunio ar gyfer:

1. Gofynion iechyd a diogelwch
2. Trefniadau safle a chyfleusterau
3. Cludiant
4. Trefniadau staffio
5. Dysgu ac addysgu cyfunol
6. Cynhwysiant a chymorth i ddisgyblion
7. Tasgau rheolaethol allweddol.

Bu gwaith tîm, gweithio ar y cyd a chydweithredu wrth wraidd y gwaith gydag ysgolion. Mae pob ysgol yn y rhanbarth yn rhan o glwstr neu fforwm, lle gallant ddod ynghyd i drafod materion gweithredol yn ogystal â rhannu arfer orau mewn dysgu o bell a dysgu cyfunol. Bu'r cydweithio hwn, a hwylusir gan staff GwE, yn llwyddiannus iawn, ac mae'n gosod sylfaen gadarn iawn i waith yn y dyfodol a'r berthynas waith ar draws y rhanbarth.

Un agwedd nodedig ar y gwaith hefyd fu natur benodol a phwrpasol y cymorth i athrawon ac ysgolion. Mae GwE wedi gweithio ar gryfderau unigolion o fewn y tîm a'u hadleoli, lle maen nhw wedi sicrhau'r effaith orau un yn eu rolau wrth gefnogi awdurdodau lleol unigol, ysgolion, clystyrau a rhwydweithiau pwnc a chyfnod allweddol. Mae'r ddarpariaeth bwrpasol hon, sy'n seiliedig ar egwyddorion cryf cydweithio, cyfnewid, rhannu a datblygu'r arferion gorau, yn egwyddor ddysgu allweddol y byddwn ni'n parhau i'w datblygu wrth i ni esblygu'r gwasanaeth.

Mae cymorth clir wedi'i dargedu i ysgolion a oedd yn destun pryder cyn y cyfnod clo, er mwyn eu helpu drwy'r cyfnod anodd hwn. Bu hyn ar sawl lefel, gan gynnwys cymorth rhwydwaith, cymorth ar gyfer uwch arweinyddiaeth ac arweinyddiaeth ganol yn yr ysgolion hynny a chymorth gyda darparu dysgu o bell a dysgu cyfunol. Cefnogwyd mewn amrywiol ffyrdd yr ysgolion hynny sydd wedi cael y cyfnod clo a'r cyfnod dilynol yn anodd oherwydd bod staff yn gorfod hunan ynysu. Mae hyn wedi cynnwys modelu deunyddiau enghreifftiol, gweminarau, rhannu deunyddiau ac adnoddau. Yn ogystal, staff GwE yn arwain yn uniongyrchol neu'n addysgu yn uniongyrchol mewn ysgolion, neu'n darparu dysgu o bell ar gyfer dysgwyr.

Neilltuwyd llawer o amser ac egni i gysylltu ag arbenigwyr rhyngwladol ac ymchwilio i arferion rhyngwladol er mwyn dysgu egwyddorion dysgu o bell a dysgu cyfunol effeithiol a'u sefydlu. Mae trafodaethau efo cyd-weithwyr rhyngwladol, gan gynnwys Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) wedi dyfnhau'r meddwl o fewn y sefydliad. Mae GwE wedi rhoi cymorth ymarferol i arweinwyr iddynt allu ystyried eu cynllunio strategol ysgol gyfan ar gyfer darpariaeth dysgu o bell a dysgu cyfunol, ac iddynt allu mireinio a gwerthuso eu darpariaeth sy'n newid, ac ystyried cynllunio ar gyfer amrywiol sefyllfaoedd ble gall disgyblion fod yn yr ysgol ac/ neu gartref yn ystod y flwyddyn academiaidd hon. Mae hyn wedi cefnogi ysgolion i gael trosolwg strategol gwell o'u darpariaeth.

Mae GwE hefyd wedi cefnogi ysgolion i werthuso ansawdd eu darpariaeth dysgu cyfunol a dysgu o bell, drwy rannu enghreifftiau ac astudiaethau achos lleol o ddarpariaeth effeithiol i leihau amrywiad ble mae hynny'n bod. Datblygodd ffrydio byw yn dda a chyfoethogodd y profiad dysgu cyfunol. Buan y daeth ysgolion i sylweddoli y bydd COVID yma am gyfnod hwy ac maent bellach yn cynllunio'n fwy strategol ac effeithiol. Wrth i ysgolion a lleoliadau fagu hyder i gyflwyno dysgu o bell, maent mewn sefyllfa well i addasu eu prosesau a'u hadnoddau hunan arfarnu i fonitro, gwerthuso, adolygu ac addasu'r ddarpariaeth, os yw'n briodol.

Mae arweinwyr ysgolion yn cydnabod mai un o'r heriau mwyaf gyda dysgu o bell a dysgu cyfunol yw sicrhau bod gan staff a disgyblion y sgiliau a'r adnoddau angenrheidiol wrth law. Bu'n rhaid uwchsgilio rhai aelodau staff yn gyflym er mwyn symud at lwyfannau digidol. Mae ysgolion wedi manteisio ar ystod o ddysgu proffesiynol gan y consortia rhanbarthol ar ddefnyddio technoleg ddigidol i gefnogi'r dysgu. Bu hyn yn gyfle hefyd, gan fod nifer uwch o ymarferwyr bellach yn gallu defnyddio gwahanol fathau o dechnoleg yn hyderus i gefnogi'r dysgu.

Mae llawer o ysgolion yn cydnabod y bu ymgysylltiad rhieni yn ffactor allweddol wrth sicrhau darpariaeth dysgu o bell/dysgu cyfunol effeithiol. Bu GwE a'r Awdurdodau Lleol yn darparu ystod o ganllawiau i gefnogi ysgolion i wella ymgysylltiad rhieni, gan gynnwys rhannu arferion da.

Mae llawer o ysgolion hefyd yn cydnabod bod heriau gweithredol parhaus, a'r rheiny'n newid o ddydd i ddydd. Rhaid cynllunio ar gyfer llw o sefyllfaoedd gan gynnwys carfanau o ddysgwyr yn hunan-ynysu neu grwpiau bach o ddysgwyr/unigolion ac aelodau staff yn hunan-ynysu. Ceir llawer o enghreifftiau o sut y mae ysgolion yn rheoli'r sefyllfaoedd dyrys hyn yn dda iawn, gyda strategaethau ysgol gyfan pendant. Mae GwE a'r Awdurdodau Lleol yn parhau i gefnogi ysgolion, gan ddefnyddio clystyrau a rhwydweithiau ysgolion i gefnogi ei gilydd a rhannu adnoddau a strategaethau.

Mae GwE hefyd wedi defnyddio dull cyflymu dysgu rhanbarthol, gan weithio ar dair haen sy'n cynnwys cymorth cyffredinol dan arweiniad y consortiwm, cymorth wedi'i dargedu dan arweiniad y consortia a'r awdurdod lleol ar y cyd, a'r awdurdod lleol yn gyfrifol am gymorth aciwt. Datblygwyd y gwaith hwn ar sail dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan weithio'n agos gyda Phrifysgol Bangor a staff rhanbarthol i sicrhau ystod o adnoddau o safon uchel i gefnogi lles corfforol ac emosiynol yn ogystal â llythrennedd a rhifedd. Mae'r rhain ar gael i bob dysgwr o bob oedran ym mhob ysgol. Bydd dangosfwrdd rhanbarthol yn dangos effaith y gwaith hwn, a fydd yn cynnwys yr holl grantiau sydd ar gael i ysgolion gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

Yn ystod y flwyddyn academaidd hon, mae GwE wedi darparu cyfleoedd i ysgolion ffurfio cynghreiriau neu weithio mewn clystyrau parod er mwyn mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth a chynnig dulliau darparu eraill er mwyn bodloni unrhyw senarios clo yn y dyfodol. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys:

- Adnabod, datblygu a rhannu adnoddau dysgu cyfunol o fewn y clwstwr/gynghrair ac â chlystyrau/cynghreiriau rhanbarthol eraill;
- Sicrhau bod yr holl adnoddau a adnabwyd ac a ddatblygwyd yn cael eu cyflwyno drwy'r Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant i'w cynnwys ar Ganolfan Cefnogaeth GwE;
- Cefnogi ysgolion yn y clwstwr gyda'u darpariaeth i ymateb i unrhyw 'senarios cyfnod clo' yn y dyfodol;
- Blaenoriaethu cymorth ychwanegol ar gyfer y sector uwchradd wrth baratoi ar gyfer dyfarnu graddau arholiad yn Haf 2021.

Mae gan ysgolion rhanbarth GwE gasgliad sylweddol o adnoddau ar gyfer pob grŵp oedran. Mae'r adnoddau ar gael ar Ganolfan Cefnogaeth GwE:

<http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru>

Mae Cynnig Proffesiynol GwE am y flwyddyn academaidd hon wedi'i symleiddio, ac yn canolbwyntio ar 5 prif faes: Llesiant, Y Daith Ddiwygio, Datblygu'r Gweithlu, Cyflymu Dysgu a Dysgu Digidol. Yn ogystal, bydd GwE yn parhau i hwyluso gweithio clwstwr i gefnogi datblygiad Cwricwlwm i Gymru, Trawsnewid ADY a'r Gymraeg.

<https://www.gwegogledd.cymru/dysgu-proffesiynol/>

3. PRIF EFFAITH GWAITH GWE YN YSTOD PANDEMIG COVID-19

Amlinellir prif effaith gwaith GwE yn ystod pandemig Covid-19 isod:

- Cyd-ymdrech a gweithredu rhanbarthol effeithiol rhwng y chwe awdurdod lleol a GwE.
- Mae cydweithio wedi sicrhau llywodraethiant gadarn a chysondeb rhanbarthol o ran y cymorth, y negeseuon a'r canllawiau a roddir i ysgolion.
- Mae cydweithredu fwy cadarn rhwng cymheiriaid ar lefel clwstwr/fforwm wedi sicrhau cyfeiriad a meddwl strategol a lunnir ar y cyd, ac sy'n effeithiol.
- Dull rhanbarthol a lleol clir mewn lle ar gyfer addasu'r gwasanaeth a'i ysgolion yn effeithiol.
- Mae ysgolion yn wybodus ac yn hyderus bod cymorth effeithiol ar gael os oes angen.
- Cefnogi lles arweinwyr ysgolion trwy gyfathrebu clir a rheolaidd.
- Rhoi canllawiau clir ar sut i flaenoriaethu a threfnu dysgu o bell a dysgu cyfunol.
- Darparu canllawiau ac adnoddau cydlynol i ysgolion i gefnogi lles, ymgysylltiad a dysgu dysgwyr bregus yn effeithiol.
- Rhannu'r arferion gorau ar draws ysgolion a chlystyrau, hynny yw, ymgysylltu â dysgwyr a theuluoedd amharod, llwyfannau digidol a systemau cyfathrebu, modelau dysgu cyfunol, ac ati.
- Mae ysgolion a lleoliadau wedi datblygu ar amryw o bwyntiau twf i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd. Yn gyffredinol, mae ganddynt:
 - broffesiwn addysgu sy'n fwy medrus ac yn gallu addasu;
 - mwy o ffocws a phwyslais ar les dysgwyr a staff;
 - gwell cymhwysedd digidol ymysg staff, disgyblion a rhieni;
 - dull dysgu ac addysgu mwy cyfunol;
 - partneriaethau gwell efo rhieni.

Dyma ddeilliannau eraill ac effaith:

- Darparu cyfathrebu effeithiol drwy gyfrwng un pwynt cyswllt (Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant) ar gyfer arweinwyr ysgolion, a'u bod yn medru cael gafael ar gymorth yn rhwydd.
- Mae ysgolion wedi gallu aros ar agor i weithwyr allweddol os oes diffyg staff.
- Mae ysgolion yn wybodus ac yn hyderus bod cymorth ar gael os oes angen. Cefnogi lles arweinwyr ysgolion trwy gyfathrebu rheolaidd.
- Cyd-ddealltwriaeth o bwysigrwydd lles disgyblion, rhieni ac aelodau staff.
- Canllawiau clir ar sut i flaenoriaethu a threfnu Dysgu o Bell a Dysgu Cyfunol.
- Mae gan ysgolion fynediad i doreth o adnoddau o safon uchel, adnoddau y gallant gyfeirio atyn nhw wrth baratoi ar gyfer dysgu o bell a dysgu cyfunol.
- Modelau dysgu o bell/dysgu cyfunol cynhwysfawr ar gael i ysgolion eu defnyddio, eu haddasu neu gyfeirio atyn nhw. Mae hyn, yn ei dro, wedi sicrhau arweinyddiaeth fwy cadarn a gwell cydbwysedd o ran gwaith y gellir ei gwblhau gartref.
- Dull cydlynol o gefnogi ysgolion, sydd wedi arwain at well cysondeb ac ansawdd o ran dysgu o bell a dysgu cyfunol yn y rhanbarth.
- Rhannu'r arferion gorau ar draws ysgolion, hynny yw, ymgysylltu â dysgwyr a theuluoedd amharod, llwyfannau digidol a systemau cyfathrebu, ac ati.

- Defnydd mwy cadarn o DGCh, i alluogi cyfathrebu effeithiol rhwng ysgolion, o fewn ysgolion a chyda rhanddeiliaid ysgolion.
- Uwchsgilio staff ysgolion drwy ddefnyddio llwyfan ddigidol ar gyfer datblygiad proffesiynol.
- Rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf ag AauLI a rhoi cymorth amserol i unrhyw ysgol.
- Ar y cyd â'r ALI, sicrhau bod y broses o benodi ymgeiswyr am swyddi arweinyddiaeth mewn ysgolion yn briodol a theg.
- Swyddogion GwE/ALI yn rhannu negeseuon cyson ag ysgolion.
- Cydweithredu mwy cadarn rhwng cymheiriaid ar lefel clwstwr trwy ddull digidol, sy'n sicrhau meddwl strategol ar y cyd.
- Cydweithredu mwy cadarn rhwng swyddogion yr awdurdod lleol a GwE.
- Dull rhanbarthol a lleol clir yn weithredol ar gyfer addasu ysgolion at wahanol ddibenion.
- Rhannu negeseuon allweddol yn effeithiol â staff ysgolion er mwyn sicrhau cysondeb ac eglurder.
- Mwy o gydweithredu rhwng y rhanbarthau a rhanddeiliaid eraill.
- Gwell dealltwriaeth o negeseuon allweddol a ffrydiau gwaith.
- Arweinwyr ysgolion yn fwy ymwybodol o strategaethau effeithiol i sicrhau parhad busnes ysgol.
- Datblygu Dysgu Proffesiynol o ansawdd uchel, i fod yn barod ar gyfer anghenion y dyfodol.
- Eglurder i Athrawon sydd Newydd Gymhwysu o ran cwblhau eu blwyddyn sefydlu.
- Gwaith partneriaeth cadarn gyda Phrifysgol Cymru i sicrhau bod y system benodi ar gyfer flwyddyn nesaf yn glir i fyfyrwyr ar y cwrs hyfforddiant cychwynnol i athrawon.
- Gwaith partneriaeth cadarn gyda CaBan i sicrhau mwy o gyfleoedd ar gyfer gwaith ymchwil a chydabod rhagoriaeth mewn ysgolion.

4. ADRODDIAD THEMATIG ESTYN 'CYMORTH AWDURDODAU LLEOL A CHONSORTIA RHANBARTHOL I YSGOLION AC UCDAU I YMATEB I COVID-19'

Yn fuan yn nhymor yr Hydref, aeth Llywodraeth Cymru ar ofyn Estyn i gynnal adolygiad o waith awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn cefnogi eu cymunedau dysgu mewn ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion (UCD) o fis Mawrth hyd at fis Hydref 2020.

Ym mis Ionawr 2021, cyhoeddodd Estyn adroddiad thematig dan y teitl 'Cymorth awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ysgolion ac UCDAu i ymateb i COVID-19'. Ceir yr adroddiad llawn yn Atodiad 1.

Hefyd, cafodd GwE lythyr yn amlinellu deiliant y gwaith hwn yn y rhanbarth. Mae'r llythyr hwn wedi'i gynnwys yn Atodiad 2.

Dyma argymhellion i Lywodraeth Cymru weithio gyda chonsortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, a phartneriaid a darparwyr eraill i:

A1: Ymateb ar frys i fynd i'r afael a'r rhwystrau i ddysgu o adre, yn enwedig lle mae'r rhain yn ymwneud a diffyg mynediad i gyfrifiaduron neu gyswllt â'r we;

A2: Gwella ansawdd y profiadau dysgu o bell a dysgu cyfunol i ddisgyblion trwy gefnogi addysgu mwy effeithiol ar draws ac o fewn ysgolion ac UCDAu;

A3: Datblygu dulliau cydlynol i wella cynnydd ym medrau llythrennedd, rhifedd a medrau personol a chymdeithasol disgyblion bregus y mae'r pandemig wedi effeithio'n anghymesur arnynt, er enghraifft disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim;

A4: Sefydlu strategaeth i fonitro ac i fynd i'r afael ar effaith hirdymor y pandemig ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl disgyblion;

A5: Creu cyfleoedd i bwysu a mesur a gwerthuso effaith polisiau ac arferion a ddatblygwyd yn ystod y cyfnod hwn i lywio ffyrdd o weithio yn y dyfodol a dylunio'r cwricwlwm.

5. YMATEB GwE I ARGYMHELLION ESTYN O'R ADRODDIAD THEMATIG

Yn ystod Tymor y Gwanwyn (Ionawr 2021 - Ebrill 2021), mae GwE wedi rhoi sylw i argymhellion Estyn a amlinellir yn Adran 4 uchod. Ceir crynodeb o'r gwaith isod.

A1: Ymateb ar frys i fynd i'r afael a'r rhwystrau i ddysgu o adre, yn enwedig lle mae'r rhain yn ymwneud a diffyg mynediad i gyfrifiaduron neu gyswllt â'r we

Mae Awdurdodau Lleol wedi gweithio efo ysgolion i alluogi pob dysgwr i gael mynediad i addysg o bell yn ystod y cyfnod hwn. Bodlonwyd heriau mynediad i ddysgwyr i raddau helaeth gan ymrwymiad, creadigrwydd a dyfalbarhad ysgolion. Mae ysgolion wedi benthycu nifer sylweddol o gliniaduron/Raspberry Pis/donglau di-wifr i ddysgwyr heb adnoddau o'r fath gartref, ac wedi sicrhau grantiau neu ddefnyddio rhoddion i helpu i lenwi bylchau pan fo angen. Maent hefyd wedi ailosod eu disgwyliadau o ran yr amserlen er mwyn cefnogi dulliau anghydamserol/wedi'u recordio, a hynny er mwyn i fwy nag un defnyddiwr o'r un aelwyd allu defnyddio dyfais. Lle bo angen, dosbarthwyd copïau papur o waith yn ystod y cyfnod clo. Mae'r dulliau hyn wedi cael effaith sylweddol ar ymgysylltiad rhai dysgwyr.

A2: Gwella ansawdd y profiadau dysgu o bell a dysgu cyfunol i ddisgyblion trwy gefnogi addysgu mwy effeithiol ar draws ac o fewn ysgolion ac UC'Dau

Darpariaeth dysgu o bell a chyfunol

- Mae GwE wedi cefnogi ysgolion i wneud defnydd effeithiol o ganllawiau dysgu cyfunol a chwricwlwm adferiad er mwyn cynllunio arferion adalw a dysgu newydd wrth ddychwelyd i ddysgu ac addysgu wyneb-yn-wyneb.
- Mae cyfarfodydd rheolaidd gyda Phenaethiaid (yn unigol) a thrwy fforymau Penaethiaid wedi esgor ar, ac annog, arferion myfyriol, a rhannu arferion a syniadau.
- Rhoddwyd cymorth unigol i nifer o uwch arweinwyr a phenaethiaid adrannau - yn enwedig os yw arweinwyr yn newydd - ac i athrawon yn yr awdurdod, gan gynnwys ANG. Cyfarfodydd rhwydweithio - athrawon y Cyfnod Sylfaen/arweinwyr Llythrennedd a Rhifedd/arweinwyr cwricwlwm/penaethiaid pwnc/penaethiaid Chweched Dosbarth - fe'u croesawyd a buont o les i bawb. Darperir cymorth mentora hefyd i nifer o arweinwyr mewn ysgolion.
- Derbyniodd pob ysgol ddogfennau canllaw ar Ddysgu o Bell i gefnogi Penaethiaid ac athrawon wrth gynllunio dysgu o bell fel rhan o'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr, i helpu ysgolion i reoli disgwyliadau rhieni a rhanddeiliaid, i gefnogi ysgolion i wneud y defnydd gorau o ddysgu byw ac i alluogi ysgolion i arfarnu arferion dysgu o bell ac adrodd i randdeiliaid, gan gynnwys cyrff llywodraethu.
- Derbyniodd pob ysgol ganllawiau i reoli ar ddysgu o bell. Lluniwyd y dogfennau hyn ar y cyd rhwng ysgolion a swyddogion GwE/ALL.
- Roedd trafodaethau wythnosol â Phenaethiaid mewn rôl fugeiliol yn cynnwys trafodaethau am ddysgu cyfunol a dysgu o bell.
- Roedd rhannu adnoddau dysgu cyfunol yn golygu bod YCG yn gweld yr adnoddau ac yn rhoi adborth ar ansawdd

y gwaith.

- Cafodd ambell YCG wahoddiad i fynychu gwersi byw gyda dysgwyr.
- Mae GwE wedi adrodd i'r Cyd-bwyllgor ac i amryfal bwyllgorau craffu ALI trwy gydol y cyfnod, gan ddwyn ynghyd arfarniad o'r ddarpariaeth yn ystod y cyfnod.
- Mae rhaglen waith bresennol Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant GwE ers mis Mawrth 2021 wedi bod yn seiliedig ar gyd-arfarnu'r ddarpariaeth yn ystod y cyfnod clo, dychwelyd i ysgolion a chanfod anghenion datblygu sydd wedi codi yn ystod y cyfnod.

Cryfderau a diffygion yn y ddarpariaeth dysgu o bell a dysgu cyfunol i ddisgyblion

- Mae'r cryfderau a nodwyd yn cynnwys defnyddio technoleg ddigidol i alluogi dysgu i ddigwydd, cydweithio gan gynnwys rhannu adnoddau ac arferion, partneriaethau efo rhieni a datblygu gwahanol fathau o addysgeg dros y cyfnod.
- Bu cydweithio o fewn ysgolion ac ar draws ysgolion hefyd yn gryfder mawr dros y cyfnod. Er gwaethaf gorfod gwneud cryn addasiadau i arferion gweithredol oherwydd Covid, mae ysgolion yn parhau i fod yn fyfyrion iawn yng nghyd-destun eu cynlluniau a'u camau gweithredu, gan goleddu'n llawn ac addasu ffiniau er mwyn gwella ymhellach. Mae gweithio Cynghrair/Clwstwr ac Adolygu gan Gymheiriaid oll yn dangos ymrwymiad ysgolion i dynnu ar arferion da a datblygu sylfaen gryfach ar gyfer sefydliadau sy'n dysgu ac ysgolion sy'n hunan wella.
- Mae Cynghreiriau Uwchradd wedi nodi Dysgu ac Addysgu fel blaenoriaeth - cydweithio i ddatblygu addysgeg effeithiol yn y dosbarth; technolegau deallus a dysgu ar-lein ac wyneb-yn-wyneb; ac adborth ac asesu. Mae GwE yn hwyluso'r cyfarfodydd fforwm Dysgu ac Addysgu, a hyd yma ysgolion wedi rhannu arferion/adnoddau effeithiol a nodi camau nesaf ar gyfer datblygu'r cydweithio a'r ddarpariaeth mewn ysgolion. Mae'r cydweithio hwn wedi sicrhau mwy o gysondeb yn y ddarpariaeth ar draws yr awdurdod.
- Mae meysydd y mae ysgolion wedi'u cael yn anodd yn cynnwys cysondeb o ran ymgysylltiad dysgwyr. Bu hyn yn amrywiol o fewn ac ar draws ysgolion, ac mae wedi cyfyngu ar gynnydd dysgwyr lle bu ymgysylltiad yn isel. Mae offer TG, meddalwedd a caledwedd fel ei gilydd, hefyd wedi cyfyngu ar y ddarpariaeth ac ar gynnydd mewn rhai achosion. Lle bu'r ddarpariaeth yn anghyson, mae YCG wedi gweithio gyda'r ysgol i sicrhau bod gan athrawon adnoddau i ddarparu addysg ar gyfer dysgwyr.
- Mae lefelau ymgysylltu wedi codi dros yr ail gyfnod clo.
- Lle nad oedd pethau mor llwyddiannus, cysondeb, capasiti'r seilwaith, sicrhau parhad adborth.

Cefnogi ysgolion i ddatblygu strategaethau dysgu ac addysgu sydd yn datblygu gwydnwch disgyblion i ddysgu ac yn datblygu eu sgiliau annibynnol

- Yn ystod y cyfnod hwn, yn fwy nag erioed, mae ysgolion wedi gorfod sicrhau cyfleoedd dysgu parhaus i bob aelod staff er mwyn sicrhau eu bod yn gallu darparu dysgu o bell effeithiol a defnyddio technoleg yn greadigol i hwyluso'r dysgu o bell hwn. Trwy'r Grant Dysgu Proffesiynol mae athrawon wedi ymgymryd â dysgu proffesiynol perthnasol ac amserol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf er mwyn sicrhau dealltwriaeth gadarn o'r hyn yw dysgu o bell effeithiol. Mewn rhai ysgolion mae hyn wedi cynnwys cyfarfodydd clwstwr wythnosol, fforymau Penaethiaid, hyfforddiant pwnc benodol a datblygu modelau dysgu o bell o fewn timau neu ar draws clystyrau.
- Yn ystod y cyfnod clo, cafwyd cyfleoedd i ysgolion weithio fel sefydliadau sy'n dysgu er mwyn cryfhau a datblygu'r 4 thema drawsliniol sef Amser, Meddwl Gyda'n Gilydd, Ymddiriedaeth a Thechnoleg. Gwelwyd hyrwyddo dysgu mewn tîm a chydweithio ymhlith ysgolion ac aelodau staff er mwyn sicrhau bod ysgolion yn

gallu darparu dysgu o bell effeithiol i'w myfyrwyr.

- Mae Dysgu Proffesiynol wedi parhau yn ystod y cyfnod hwn. Enghreifftiau o hyn yw'r DP a ddarparwyd gan Dîm y Cyfnod Sylfaen a oedd yn cynnwys:

Hyfforddiant Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu i ANG, gyda phrif ffocws y sesiwn ar ddarllen

- Sut ydym ni'n addysgu darllen?
- Strategaethau i hyrwyddo 'Mwynhau Darllen'.
- Beth yw uwch sgiliau darllen?
- Syniadau ar gyfer tasgau darllen heriol yn y ddarpariaeth wedi'i chyfoethogi a'r ddarpariaeth barhaus.

Darparwyd unrhyw ddysgu proffesiynol pellach ar ddatblygu sgiliau mathemategol, rhifyddol a rhifedd ar draws pob maes dysgu a darpariaeth ar gais clystyrau ac ysgolion risg uchel/mewn categori statudol/categori gweithgarwch dilynol gan Estyn. Roedd dysgu proffesiynol pellach yn cynnwys 'Rôl yr Oedolyn' ar gyfer ymarferwyr sydd yn hwyluso'r dysgu yn y CS. Ffocws hyn oedd:

- Cwestiynu effeithiol e.e. Cwestiynu sydd yn annog plant i fyfyrwyr ac i ddatblygu eu huwch sgiliau meddwl a'u sgiliau llafaredd
- Strategaethau effeithiol i hybu a datblygu dysgwyr annibynnol

- Tra bod ffocws o hyd ar yr heriau logistaidd, mae Penaethiaid yn awyddus i ddal ati i ddatblygu agweddau ar ddysgu ac addysgu. Mae cynlluniau 'Cynghrair Uwchradd' a chynlluniau Clwstwr Cynradd wedi'u cwblhau, a bu rhwydweithio fel hyn yn strategaeth werthfawr ar gyfer rhannu arferion gorau. Mae UDauA ysgolion hefyd wedi gweld hyfforddiant Adolygu gan Gymheiriaid Rhaglen Partneriaeth Ysgolion yr EDT yn hynod o werthfawr o ran cefnogi arfarnu.
- Fel Consortiwm rydym wedi sicrhau ein bod wedi hybu defnyddio Cynllunio Dysgu Anghydamserol o Bell [RALD] trwy ein bwletin wythnosol. Rydym hefyd wedi trefnu bod sawl un o'n hymgynghorwyr pwnc yn gweithio gydag ysgolion uwchradd er mwyn treiddio'n ddyfnach i'r Modiwlau RALD a datblygu enghreifftiau o arferion effeithiol a fydd yn ymddangos ar ein gwefan newydd. Mae gennym 25 adnodd hyd yma, sy'n cynnwys cyflwyniadau PowerPoint, fideos, Podlediadau a Fodlediadau gan athrawon a myfyrwyr.
- Gwelwn gynllunio dysgu anghydamserol a dysgu cydamserol fel rhan annatod o ddysgu ac addysgu wrth symud ymlaen, a byddwn yn ceisio uwchsgilio un ymarferydd o bob dalgyllch a fydd wedyn yn rhaeadru'r dysgu i ysgolion.

Coping with any future periods where blended and distance learning may be necessary

Ymdopi gydag unrhyw gyfnodau maes o law ble gall fod angen darparu dysgu cyfunol a dysgu o bell

- Yn y sector cynradd, mae Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant wedi gweithio'n agos efo'u clwstwr cyswllt, yn hwyluso cydweithio ar addysgeg ddothbarth effeithiol, adborth ac asesu a defnyddio technoleg i gyfoethogi'r ddarpariaeth yn ystod y cyfnod hwn. Mae ysgolion wedi arfarnu eu bod mewn sefyllfa gryfach o lawer i ddarparu addysg yn ystod yr ail gyfnod clo, a bod ganddynt y prosesau a'r adnoddau mewn lle i wneud hynny'n effeithiol os bydd cyfnod clo arall.
- Mae Cynghreiriaid a Chlystyrau wedi rhannu adnoddau dysgu cyfunol â'i gilydd, o fewn cynghreiriaid a chlystyrau yn y lle cyntaf ac yna trwy gyfrwng yr adnodd rhanbarthol. Cefnogwyd hyn hefyd trwy gyfnewid syniadau am gynnydd mewn dysgu cyfunol, dulliau dysgu ac addysgu yn y pandemig gan gynnwys asesu a phrofiadau o ddulliau dysgu proffesiynol hyblyg ac effeithiol. Gellir dod o hyd i'r adnoddau hyn yn adran adnoddau ysgol-i-ysgol Canolfan Cefnogaeth GwE - Canolfan Cefnogaeth Ranbarthol. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gydag

ysgolion i'w cefnogi i arfarnu'r ddarpariaeth a'u gweithgareddau sicrhau ansawdd - adnabod cryfderau, meysydd i'w datblygu a chynllunio cyfleoedd DP ar gyfer staff. Mae ysgolion wedi casglu arferion da a'u rhannu ar draws yr ysgol, er enghraifft adnoddau ar yriant a rennir, gwefan i staff a dysgu ar-lein, athrawon yn creu astudiaeth achos o arferion gorau, sesiynau galw i mewn wythnosol i athrawon rannu arferion da a heriau, cynllunio HMS i ddatblygu sgiliau digidol a hyder staff.

- Dyma ddata y ganolfan adnoddau hyd at ddiwedd mis Ebrill:

	ADNODDAU WEDI'U CYHOEDDI	ADNODDAU HEB EU CYHOEDDI
CS	35	56
CA2	75	73
CA3	52	14
CA4	75	41
CA5	5	2

- Edrych ar dudalennau ers lansio - 20,000
- Nifer yr adnoddau sydd wedi'u lawrlwytho ers lansio - 3,400
- Y dudalen fwyaf poblogaidd - adnoddau Ysgol i Ysgol CA2

A3: Datblygu dulliau cydlynol i wella cynnydd ym medrau llythrennedd, rhifedd a medrau personol a chymdeithasol disgyblion bregus y mae'r pandemig wedi effeithio'n anghymesur arnynt, er enghraifft disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim

Rhoddwyd cyngor ac arweiniad i ysgolion i'w cefnogi wrth iddynt ddefnyddio cyllid ychwanegol i gefnogi disgyblion y mae'r pandemig wedi effeithio ar eu sgiliau

Mae gan gyllid GDD ychwanegol y consortia arian ar gyfer cymorth i ysgolion/lleoliadau mewn tri chategori:

1. Addysgu a strategaethau ysgol gyfan
2. Cymorth wedi'i dargedu i gyflymu dysgu a chefnogi grwpiau allweddol o ddysgwyr
3. Strategaethau ehangach (gan gynnwys cefnogi rhieni a gofawyr)

Roedd ffocws y model uchod ar y 'cyffredinol' ac 'wedi'i dargedu' (gan ddefnyddio data PYD/PMG fel ffynhonnell i dargedu ysgolion/lleoliadau).

1. Creu adnoddau llythrennedd a chyfieithu strategaeth Geiriau Amllder Uchel a strategaeth Rapid Reading.
2. Dal i Fyny Rhifedd - Trosglwyddo cardiau SAFMEDS cyfnod allweddol 2 i ap CRAM i holl ddysgwyr y rhanbarth gael mynediad/trosglwyddo deunyddiau mathemateg cyfnod allweddol 3 i gardiau SAFMEDS ac ap CRAM.
3. Rhaglen Gyffredinol Dal i Fyny Llythrennedd - gweler cymorth wedi'i dargedu
4. Adnoddau a rhaglenni Iechyd a Lles Cyffredinol
5. Peilot RADY - Targedwyd ysgolion mewn ardaloedd ble roedd niferoedd uchel o Ddysgwyr PYD/Bregus.
6. Mae gan bob ysgol/lleoliad fynediad i Feddwl yn Wahanol am ddysgwyr difreintiedig fel rhan o'r cynnig Dysgu Proffesiynol.

Strategaethau Ehangach

1. **SEAL** - Mewn perthynas ag lechyd a Lles cyffredinol, prynwyd trwydded SEAL i bob lleoliad ac ALL yn y rhanbarth. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi defnyddio'r adnodd hwn.
 2. **Ysgolion sy'n Ystyriol o Drawma/Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod** - mynychodd dros 1500 y sesiwn ac mae Carfan 5 y Diploma 10-diwrnod ar fynd ar hyn o bryd. Hefyd, mae un ysgol sydd â'r nifer uchaf o PYD yn gweithio tuag at feincnod/gwobr Ysgolion sy'n Ystyriol o Drawma.
 3. **Talk boost** - mae YCG a staff ALL wedi'u huwchsgilio mewn Ymyraethau Blynyddoedd Cynnar i ddatblygu Lleferydd ac iaith trwy'r cymorthyddion dosbarth.
 4. **CYNORTHWYWR CYMORTH LLYTHRENNEDD EMOSIYNOL (ELSA)** - rydym hefyd wedi cynyddu'r hyfforddiant ELSA gan ein grŵp ADY/Cynhwysiant rhanbarthol i dargedu lleoliadau nad oes ganddynt aelodau staff sydd wedi cael hyfforddiant/neu gynyddu capasiti. Bydd hyn yn cynnwys yr hyfforddiant, adnoddau yn y ddwy iaith a goruchwyliaeth barhaus gan y Tîm Seicoleg Addysg ym mhob ALL. Mae pob ysgol a lleoliad wedi manteisio ar y cynnig drwy'r ALL.
- Mewn llawer o ysgolion neilltuwyd y grant Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau i gefnogi sgiliau llythrennedd a rhifedd disgyblion.

Mae staffio ychwanegol yn sgil y grant hwn wedi hwyluso grwpiau llai neu ymyraethau pellach wedi'u targedu ar draws bob cyfnod allweddol. Mae ysgolion wedi penodi Cymorthyddion Dysgu ychwanegol i weithio gyda dysgwyr ar llythrennedd a rhifedd a chefnogi dysgwyr bregus sydd yn mynychu hwb yr ysgol. Nodir grwpiau ymyrraeth bach, a chynigir cymorth wedi'i dargedu mewn grwpiau a dynnir allan. Mae nifer y rhaglenni dal i fyny llythrennedd a Rhifedd a gyflwynir gan gymorthyddion dysgu sydd wedi cael hyfforddiant wedi cynyddu, a hynny er mwyn cynnwys rhagor o ddisgyblion (gan ganolbwyntio ar sgorau safonedig). Mae ceisio cyflwyno hyn o bell wedi bod yn anoddach nag addysgu dosbarth cyfan. Mae adborth gan ddysgwyr a rhieni yn dangos yn glir y croesewir y ddarpariaeth ychwanegol hon.

- Mae ysgolion wedi mynychu ystod o gyfleoedd Dysgu Proffesiynol, gan gynnwys sesiynau byw o bell a gweminarau ar-lein yn cyflwyno ystod o strategaethau ac adnoddau. Rhoddwyd pecyn cymorth cydlynol mewn lle i ysgolion i'w helpu i wella ansawdd yr addysgu a datblygu deilliannau dysgwyr i'r eithaf, yn enwedig dysgwyr bregus. Ffocws yr adnoddau hyn yw gwella'r agweddau a ganlyn:
 - ✓ Darllen sylfaenol a rhuglder darllen
 - ✓ Darllen a deall a sgiliau geirfa
 - ✓ Rhifedd sylfaenol a sgiliau rhuglder rhifedd
 - ✓ Gwella strategaethau dysgu ac adolygu disgyblion
 - ✓ Mae rhai o'r strategaethau a'r deunyddiau cymorth wedi'u llunio'n benodol i'w defnyddio yn yr ysgol ac i rieni eu defnyddio gartref i gefnogi eu plentyn i ddysgu.
- Mae hyn wedi sicrhau UDauA sydd yn wybodus ynghylch sut orau i gefnogi'r Dysgu a'r Addysgu i gefnogi sgiliau llythrennedd a rhifedd disgyblion bregus yn ogystal â'u sgiliau personol a chymdeithasol. Mae hefyd wedi sicrhau uwchsgilio staff Addysgu/cymorth i adnabod anghenion llythrennedd a rhifedd pob dysgwr ac/ar yr un pryd â hybu dysgu annibynnol. Gellir dod o hyd i'r adnoddau yma ar y ganolfan cefnogaeth ranbarthol - Canolfan Cefnogaeth GwE
- Mae GwE wedi cefnogi ysgolion a gwblhaodd brofion cenedlaethol yn ystod tymor yr hydref. Fe'u cefnogwyd i ddadansoddi'r data ac i gynllunio arferion yn seiliedig ar dystiolaeth.
- Mae Cynghreiriau Uwchradd a Chlystyrau Cynradd wedi rhannu arferion effeithiol ar ddatblygu sgiliau cymdeithasol a rhyngweithio disgyblion yn ystod gwersi sydd yn cael eu ffrydio yn fyw, er enghraifft adnoddau

digidol rhyngweithiol, defnyddio ystafelloedd trafod yn effeithiol, ymgyrch ysgol gyfan 'rho dy gamera ymlaen'.

Ysgolion penodol neu garfanau o ddisgyblion yr effeithiwyd yn anghymesur arnynt

Rydym wedi gweithio'n agos gyda phob ALL i sicrhau bod gan Blant Mewn Gofal (PMG) fynediad i adnoddau digidol gyda thystiolaeth o ddeialog barhaus gyda LIC a'i effaith. Roedd y bwrsari unigol GDD PMG ar gael i gefnogi unrhyw fylchau a nodwyd/cymorth ychwanegol oedd ei angen. Hefyd, mynychodd lawer o staff nad ydynt yn addysgu (megis Gweithwyr Cymdeithasol/Gweithwyr Cymdeithasol Addysg) rhywfaint o'r cynnig Dysgu Proffesiynol ar arferion sy'n ystyriol o drawma. Roedd y model GDD PMG clwstwr yn hyblyg o ran sut oedd ysgolion/clwstwr yn defnyddio'r grant, a defnyddiwyd peth o'r arian i gynyddu 1:1 a sesiynau Therapi Chwarae/ELSA/Cyfeillion. Addaswyd hefyd y cynnig Dysgu Proffesiynol i Athrawon Dynodedig i gefnogi'r dysgu o bell a'r trosglwyddo yn ôl i ysgolion.

- Mae ysgolion wedi addasu eu darpariaeth a'r amserlen ar sail holiaduron disgyblion a rhieni. Trefnwyd sesiynau pellach i diwtoriaid bugeiliol gyfarfod â disgyblion mewn grwpiau bach i gynnig rhyngweithio cymdeithasol rhwng cymheiriaid a thrafod beth sydd wedi gweithio'n dda a'r rhwystrau i ddysgu ar-lein.
- Mewn ysgolion Uwchradd mae'r defnydd o dracio data ac ymyrraeth wedi gwella trwy ddefnyddio'r pecynnau data 4Matrix newydd a waliau data. Cynhelir sgysrsiau rheolaidd am ddysgwyr a'u cynnydd, ac mae hyn yn galluogi ymyrraeth wedi'i thargedu.
- Ble bu ymgysylltiad teuluol/dysgwyr yn isel, cyfyngedig fu cynnydd dysgwyr o gartrefi di-Gymraeg sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg, neu bu peth llithro'n ôl. Mae GwE wedi gweithio'n agos gyda chyd-weithwyr ALL i gynhyrchu adnoddau, darparu cymorth a chynllunio adferiad. Mae hyn yn cynnwys penodi arweinydd newydd ar gyfer y Gymraeg o fewn GwE er mwyn sicrhau cynllunio cadarn i gefnogi adferiad a chryfhau'r cydweithio rhwng swyddogion GwE ac AauLI wrth gefnogi ysgolion.
- Mae sicrhau anghenion disgyblion MATH wedi aros ar agenda ysgolion trwy gyfrannu at bosteri gwybodaeth ar y cyd â'r consortia eraill ac arnynt awgrymiadau i helpu dysgwyr, rhieni, ymarferwyr a disgyblion gyda dysgu cyfunol. Targedir grwpiau bach ar gyfer ymyrraeth ar ôl ysgol er mwyn cyflawni graddau A*-A. Gwnaed y gwaith hwn ar y cyd â hyfforddiant gan GwE. Mae cyflwyno Mathemateg Ychwanegol i'r disgyblion mwyaf abl wedi annog datblygiad y sgiliau lefel uwch sydd eu hangen ar gyfer A*-A.
- Mae cynlluniau gwaith yng nghyfnod allweddol 3 yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau ymgysylltiad a herio pob grŵp gallu, gan ddefnyddio'r strategaethau dysgu ac addysgu newydd a amlygwyd yn yr hyfforddiant gan GwE.
- Mae GwE wedi cefnogi ysgolion a gwblhaodd brofion cenedlaethol yn ystod tymor yr hydref. Fe'u cefnogwyd i ddadansoddi'r data ac i gynllunio arferion yn seiliedig ar dystiolaeth.
- Mae strwythurau cadarn mewn lle i fonitro ymgysylltiad disgyblion yn ystod dysgu ar-lein - presenoldeb, rhyngweithio a chwblhau gwaith. Mae ysgolion yn cysylltu â theuluoedd pan fo pryderon ac yn cefnogi dysgwyr sydd â gorbryder personol a chymdeithasol.

Effaith ar feysydd sgiliau penodol

Trwy arfarnu ar y cyd ag ysgolion, gwelir bod yr effaith ar sgiliau dysgwyr yn amrywiol ar draws y rhanbarth. Ble bu ymgysylltiad dysgwyr yn isel, gwelwyd effaith ar sgiliau sylfaenol disgyblion yn ogystal â'u sgiliau cymdeithasol a'u parodrwydd i ddysgu. Rhoddwyd y cymorth Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau [RRRS] mewn lle i gefnogi ysgolion gyda Llythrennedd a Rhifedd. Sefydlwyd y prosiect Dysgu Iaith a Llythrennedd o Bell (Remote Instruction of Language and Literacy [RILL]) i gefnogi ysgolion i aildanio dysgu a datblygu sgiliau sylfaenol, yn enwedig gyda dysgwyr bregus. Mae'r prosiect yn gwbl ddwyieithog ac wedi'i dreialu gyda 15 ysgol gynradd ar draws y rhanbarth. Fe'i cyflwynir yn rhanbarthol o'r tymor hwn ymlaen i bob ysgol gynradd, gyda gwahoddiad i ddysgwyr bregus ymgysylltu. Bydd

dau swyddog ymchwil yn ein galluogi i hyfforddi ysgolion yn y rhanbarth sydd â diddordeb a rhoi mynediad iddynt i'r rhaglen, cynnig cymorth parhaus a sesiynau gweithredu galw-i-mewn, cynnig cymorth ychwanegol i dargedu disgyblion/teuluoedd dros wyliau'r haf a monitro ac arfarnu effaith y rhaglen.

Mae cymorth ychwanegol i ysgolion yn y pynciau craidd yn cynnwys:

Mathemateg

- Datblygu adnoddau, canllawiau a chefnogaeth ar gyfer cyflymu dysgu - gan ganolbwyntio ar strategaethu yn seiliedig ar dystiolaeth i wella rhuglder ac adalw sgiliau rhifedd sylfaenol, a sicrhau bod adnoddau ar gael i bawb ac yn addas ar gyfer dysgu cyfunol.
 - ✓ rhannu trosolwg mewn cyfarfodydd Penaethiaid Mathemateg a Chydlynwyr Rhifedd.
 - ✓ darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol i athrawon a chymorthyddion dysgu ar ffurf gweminarau ar-lein.
 - ✓ cymorth ysgol 'un i un' unigryw i fynd i'r afael ag anghenion penodol.
- Cyfarfodydd bob hanner tymor i Benaethiaid Mathemateg, ble defnyddiwyd amser i rannu canllawiau Dysgu o Bell a Dysgu Cyfunol GwE, gan gynnwys modelau pwnc benodol enghreifftiol o gynllunio effeithiol a strategol ar gyfer dysgu cyfunol, rhannu arferion gorau yn y rhanbarth a hwyluso trafodaethau ar strategaethau Dysgu ac Addysgu effeithiol ac ymarferol.
- Trefnu cyfleoedd dysgu proffesiynol ychwanegol ar gyfer athrawon Mathemateg:
 - ✓ Gweithdy ar-lein 'Addysgu Mathemateg i ddosbarthiadau gallu cymysg': ffocws ar rannu arferion da, canfyddiadau ymchwil, adnoddau a strategaethau ymarferol sy'n canolbwyntio ar wahaniaethu a sicrhau lefel briodol o her i bawb.
 - ✓ Gweithdy ar-lein 'Dysgu o Bell mewn Mathemateg': darparwyd gan ymarferydd blaenllaw yn y rhanbarth, gan ganolbwyntio ar ddefnyddio llwyfannau ar-lein yn effeithiol ar gyfer addysgu anghydamserol a chydamsferol, rhannu a modelu strategaethau ymarferol i ennyn diddordeb pob dysgwr a defnyddio asesu ar gyfer dysgu i lywio'r cynllunio i'r cyfeiriad cywir.
- Rhoi rhaglen gymorth mewn lle i gefnogi athrawon newydd gymhwyso yn ystod y pandemig.
- Cyfarfod rhwydwaith penodol i athrawon mathemateg sydd yn cychwyn eu gyrfa: gan ganolbwyntio ar rannu adnoddau ymarferol, canllawiau a chyfleoedd DPP ychwanegol. Hwyluso trafodaethau ar rannu arferion da a chynllunio i'r dyfodol.

Saesneg

- Darparu hyfforddiant pwnc benodol yn canolbwyntio ar gyflwyno agweddau ar y cwricwlwm Saesneg o bell - llafaredd ac ysgrifennu.
- Nodwyd bod arferion adalw effeithiol yn agwedd hanfodol ar addysgu o bell er mwyn asesu dysgu blaenorol a gwneud cysylltiadau. Sesiwn hyfforddiant yn agored i holl athrawon Saesneg y rhanbarth a sefydlu fforwm i rannu arferion gorau.
- Darparu cymorth unigryw i ysgolion gyda chyflwyno elfennau allweddol y cwrs TGAU Saesneg/Llenyddiaeth o bell. Ffocws y gwaith hwn oedd cefnogi datblygiad cynlluniau dysgu ac adnoddau addysgu.
- Nodwyd astudiaethau achos arfer orau mewn Saesneg a'u rhannu'n rhanbarthol.
- Rhoi rhaglen gymorth mewn lle i gefnogi athrawon newydd gymhwyso yn ystod y pandemig. Rhaglen saith wythnos/sesiynau ymarferol yn canolbwyntio ar ddysgu ac addysgu effeithiol, yn enwedig o bell.
- Datblygu Rhaglen Ymyrraeth Lythrennedd ar sail anghenion ac adborth gan ysgolion uwchradd. Pecyn adnoddau dwy haen a chynhwysfawr i gefnogi athrawon a chymorthyddion dysgu i ddatblygu sgiliau llythrennedd dysgwyr a

nodir. Defnyddir y rhaglen yn eang ar draws y rhanbarth/rhaglen o ddysgu proffesiynol i gefnogi cymorthyddion dysgu.

- Darparu hyfforddiant unigryw i ysgolion sydd â niferoedd uchel o ddysgwyr bregus, gan ganolbwyntio ar gyflymu sgiliau llythrennedd.
- Datblygu'r wefan Herio a fideos cyfarwyddol i gyfnod allweddol 4 i gefnogi dysgwyr. Gellir cael mynediad i'r rhain drwy ap neu drwy'r wefan.
- Cyflwyno peilot darllen unigryw i 10 ysgol uwchradd yn y rhanbarth. Targedwyd ysgolion â'n niferoedd uchaf o ddysgwyr PMG/PYD. Mae 'Building Reading Power' yn rhaglen beilot gyda'r nod o wella sgiliau darllen darllenwyr sydd yn cael trafferthion ac sydd hefyd yn dangos diffyg cymhelliant a diddordeb. Mae ysgolion sydd yn rhan o'r rhaglen wedi derbyn adnoddau ymarferol yn ogystal â rhaglen o ddysgu proffesiynol sydd yn canolbwyntio ar addysgu darllen yn effeithiol; datblygu rhuglder; gwella ymgysylltiad a chryfhau arferion darllen gartref. Yn ogystal ag uwchsgilio athrawon dosbarth, rydym ni hefyd yn gweithio gyda chymorthyddion dosbarth ac Anogwyr Dysgu. Mae Prifysgol Bangor yn cydweithio â GwE ar y prosiect hwn er mwyn monitro ac arfarnu effaith y peilot. Os yw'n llwyddiannus, fe'i rhennir yn rhanbarthol.

Gwyddoniaeth

- Datblygu canllawiau dysgu cyfunol ac enghreifftiau wedi'u modelu, a rannwyd â Phenaeithiaid Gwyddoniaeth mewn cyfarfodydd rhwydwaith ac ag adrannau unigol.
- Datblygu llyfrynnau TGAU i gefnogi dysgwyr heb fynediad digidol - rhannu â phob adran.
- Modelu cwisiau a threfnwyr gwybodaeth ar-lein i asesu cynnydd disgyblion - gydag adrannau allweddol.
- Cyd-lunio cynlluniau dysgu i'w darparu ar-lein.
- Datblygu ymhellach gwefan www.tanio.cymru a chreu adnoddau a ddefnyddiwyd gan athrawon a disgyblion ar draws y rhanbarth.
- Rhoi rhaglen gymorth mewn lle i gefnogi athrawon newydd gymhwyso yn ystod y pandemig.
- Cyd-greu adnoddau a chynllun hyfforddi â'r arweinydd llythrennedd er mwyn datblygu darllen a llafaredd mewn Gwyddoniaeth. Defnyddiwyd y rhain mewn ysgolion allweddol i gefnogi datblygiad sgiliau.
- Cynhyrchu a rhannu llyfrynnau gwaith gwahaniaethol i ddisgyblion TGAU yn nodi gwybodaeth allweddol, terminoleg ac ati.
- Datblygu deunyddiau asesu hwylus (oedran darllen is a llai cymhleth)/cwestiynau arholiad i gefnogi dysgwyr sydd â sgiliau llai datblygedig - rhifedd a llythrennedd.
- Datblygu deunyddiau atodol ac enghreifftiau wedi'u modelu i ddatblygu sgiliau rhifedd mewn Gwyddoniaeth a'u rhannu ag adrannau allweddol. Darparu hyfforddiant i gefnogi athrawon gyda gwahaniaethu a chyflwyno'r rhifedd.

Cymraeg

- Cynhaliwyd gweithdai penodol i Benaethiaid Adrannau Cymraeg y rhanbarth ar ddulliau dysgu ac addysgu iaith cyfunol
- Cynhaliwyd gweithdy o'r enw 'Datblygu iaith a'r meddwl creadigol trwy ddysgu ac addysgu'n gyfunol' fel rhan o gynnig dysgu proffesiynol GwE.
- Cynhaliwyd cyfres o weithdai 'Be' sy'n bosib (GwE) i hybu'r defnydd o adnoddau digidol Google for Education ac eraill (ar lwyfan ddigidol Hwb). Bu'r gweithdai hyn yn boblogaidd iawn efo athrawon cynradd ac uwchradd ar draws y rhanbarth.

- Darparwyd cymorth penodol i adrannau Cymraeg ddatblygu eu hadnoddau a'u defnydd rhyngweithiol o'u llwyfannau digidol fel bod modd iddynt dargedu carfanau penodol o ddisgyblion yn gyflym.
- Anogwyd aelodau Adrannau Cymraeg i weithgorau cenedlaethol CA3, CA4 a CA5 i ddatblygu adnoddau dysgu ac addysgu arloesol i'w rhannu'n genedlaethol drwy lwyfan Hwb.
- Crëwyd adnoddau 'Dysgu Carlam - y Gymraeg' yn benodol er mwyn cefnogi ymyraethau ysgol gyfan mewn llythrennedd.
- Sefydlwyd cynllun 'Y Gymraeg ar Garlam' fel bod cydlynwyr llythrennedd a Phenaeithaid Adrannau Cymraeg y rhanbarth yn gallu rhannu adnoddau i gefnogi ymyraethau sydd yn targedu sgiliau llythrennedd trawsgwricwlaidd.

Wrth ymateb i'r angen i gefnogi a datblygu sgiliau llafaredd dysgwyr, gwnaed cais llwyddiannus i Lywodraeth Cymru i ddatblygu cynllun llafaredd 'Ein Llais Ni' (ar sail cynllun 'Dy Lais Di' a dreialwyd yn lleol). Rhennir y cynllun hwn a'i wreiddio ar draws y rhanbarth.

Sut ydym ni'n roi sylw i'r mater hwn yn ein cynlluniau a'n polisiau hirdymor

O ran Iechyd a Lles, dyma'r meysydd tystiolaeth allweddol o ysgolion/lleoliadau:

- Ailsefydlu grwpiau cyfeillgarwch a pherthnasoedd
- Strwythur a Threfn
- Targedu Iechyd Corfforol - nid yw rhai dysgwyr wedi gwneud dim gweithgarwch corfforol
- Cynnydd yn nifer y dysgwyr gorbryderus
- Patrymau cysgu a phresenoldeb
- Iaith a Lleferydd yn y blynyddoedd cynnar
- Bwlch digidol o ran mynd i'r afael â thlodi ymhlith disgyblion/teuluoedd.
- Ymgysylltu pellach â rhieni/gofalwyr
- Datblygu dysgwyr annibynnol.
- Rhagor o geisiadau am gwrsela mewn ysgolion, gyda rhai ysgolion yn datgan bod angen rhagor o gwrselwyr mewn ysgolion a CAMHS.

Mae angen corffori'r uchod yn y cwricwlwm ac mewn cynllunio.

Dengys Cynlluniau Busnes 2021-2022 bod yr agwedd hon yn rhan bwysig o'n hamcanion strategol a'n blaenoriaethau rhanbarthol (gweler Adran 8)

A4: Sefydlu strategaeth i fonitro ac i fynd i'r afael ar effaith hirdymor y pandemig ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl disgyblion

- Mae GwE yn sicrhau bod y Fframwaith ar wreiddio dull lles emosiynol a meddyliol ysgol gyfan yn greiddiol i'n gwaith gydag ysgolion. Yn un o gyfarfodydd y partneriaid allweddol rhanbarthol yn ddiweddar, cytunwyd ar Lywodraethiant ac atebolrwydd y fframwaith wrth symud ymlaen.
- Mae GwE hefyd wedi bod yn gweithio'n agos gydag arweinwyr Llesiant/Ysgolion Iach ar draws y rhanbarth er mwyn sicrhau bod ein dull gweithredu yn gyson wrth gefnogi ysgolion. Rydym wrthi'n mapio Iechyd a Lles cyffredinol GwE/ALI ar draws y rhanbarth, a dylai hwn fod ar gael cyn hanner tymor.
- Wythnos o weithdai GDD: Effaith ac Arferion yn Seiliedig ar Dystiolaeth - cynhaliwyd rhwng 22 a 26 Mawrth.

Cafwyd presenoldeb da o blith ymarferwyr ysgolion a phartneriaid addysgol. Roedd yr wythnos ddysgu a rhannu hon yn dathlu ac yn rhannu gwaith o bob cwr o Gymru ar y ddarpariaeth a chynnydd dysgwyr difreintiedig trwy wariant GDD wedi'i dargedu. Roedd yr wythnos wedi'i chynllunio i dynnu sylw at bwysigrwydd cyplysu'r GDD ag ymyriadau sy'n seiliedig ar ymchwil a datblygiad mewn arferion Dysgu ac Addysgu er mwyn helpu'r dysgwyr difreintiedig a chymryd rhan mewn dysgu wyneb-yn-wyneb. Yn ystod yr wythnos trefnwyd ystod o weithdai dysgu proffesiynol, trafodaethau a sgysiau gan y consortia, ysgolion a lleoliadau a phartneriaid proffesiynol. Mae'r rhain ar gael ar lwyfan HWB ac mae 18 awr o ddysgu proffesiynol i ysgolion/leoliadau:

https://www.gwegogledd.cymru/wp-content/uploads/2021/03/Rhaglen-GDD-_-PDG-Focus-Week-Programme.pdf

- Mae'r Cyfarwyddwyr Addysg ar draws y rhanbarth wedi nodi bod ymgysylltiad rhieni yn flaenoriaeth ranbarthol. Sefydlwyd grŵp rhanbarthol gyda chynrychiolaeth o bob awdurdod i edrych ar strategaeth i helpu rhieni/gofalwyr i gefnogi eu plant i ddysgu. Rydym wedi gweithio'n agos gyda Mike Gershon, sy'n awdur mwy na 40 o lyfrau ar addysgu, dysgu ac addysgu gan gynnwys nifer o werthwyr gorau, ar gyflwyno adnoddau addysgu ar-lein dwyieithog i gefnogi rôl rhieni/gofalwyr wrth helpu eu plant i ddysgu. Mae'r adnoddau a'r wefan a ddatblygwyd gan Mike Gershon yn fan cychwyn cadarn er mwyn cefnogi rhieni, ac rydym wedi bod yn gweithio efo Mike i sicrhau bod y wefan yn ddwyieithog ac ar gael yn rhad ac am ddim i bob rhiant yng ngogledd Cymru.
- Mae GwE hefyd wedi gweithio gyda phartner allanol (arbenigwr mewn lles, newid a gwytnwch) i gynnal cyfres o weithdai llesiant 'Gofalu amdana fi'n hun' ar gyfer staff ysgolion a'r ALL. Mae'r sesiynau yn edrych ar ystyr llesiant a sut y gallwn greu agwedd gytbwys at fywyd a gwaith. Defnyddiwyd y gweithdai hyn mewn sefyllfaoedd grŵp neu gan unigolion. Yn ogystal â darparu gwybodaeth ac awgrymiadau ar lesiant a gwytnwch, fe'u cynlluniwyd i roi amser a lle i'r gweithlu i ystyried pa mor barod ydyn nhw i wynebu heriau ar y tu allan sydd yn newid mor gyflym.

Mae'r pedwar gweithdy yn canolbwyntio ar wahanol agwedd ar lesiant:

Sesiwn 1: Deall fy Ngwytnwch a'm Adwaith i Newid - <https://youtu.be/tDkLAaEoFjs>

Sesiwn 2: Yr Allweddi i Wytnwch - Datblygu Gweledigaeth a Phwrpas - https://youtu.be/nuRVri_M7c8

Sesiwn 3: Yr Allweddi i Wytnwch - Datblygu Deallusrwydd Emosiynol - https://youtu.be/vudqzc_jnMw

Sesiwn 4: Byw'n Iach - <https://youtu.be/37z5H73oelg>

Mae pob gweithdy yn para 45-60 munud gan gynnwys amser ar gyfer myfyrio personol/grŵp, a gellir eu defnyddio fel cyfres o weithdai neu ar wahân, fel sesiynau unigol.

- Mae sawl arweinydd ysgol wedi cael cynnig 'lle i fyfyrion' a gweithio gyda mentor allanol i drafod unrhyw agwedd ar ei lesiant. Mae nifer o Benaethiaid yn y rhanbarth wedi manteisio ar y cynnig hwn ac wedi rhoi adborth cadarnhaol ar y broses.

Effaith y pandemig ar iechyd meddwl disgyblion

Mae ysgolion a lleoliadau wedi defnyddio ystod o fesurau/arolygon llesiant i gasglu tystiolaeth ar iechyd meddyliol dysgwyr. Mae AauLI ac ysgolion wedi defnyddio arolwg Coronafeirws a Fi Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru i dargeddu ymhellach feysydd allweddol o fewn eu cwricwlwm. Er enghraifft, mae rhai ysgolion wedi defnyddio graddfa Iechyd Meddwl 'Edinburgh Warwick'. Mae ysgolion eraill wedi gweithredu arolwg I wish my Teacher Knew i gael dysgwyr i fyfrio a symud ymlaen.

Mae rhai ysgolion wedi defnyddio ymyrraeth Gwneud Llun a Siarad gyda PMG fel athroniaeth meta-emosiwn i fyfrio ar deimladau a datblygu llythrennedd emosiynol. Gweithiodd Ymgynghorydd Drama gyda dysgwyr blynyddoedd 7-9 mewn ysgol arall i drafod effaith cau'r ysgol ar iechyd meddwl trwy gyfrwng gweithdy celf.

Mae GwE hefyd wedi gweithio efo elusen Mental Health UK i gefnogi rhoi rhaglen iechyd meddwl BLOOM ar waith ar draws y rhanbarth. Mae'r adnodd cwricwlwm ar gael yn Gymraeg a Saesneg, gan dargeddu dysgwyr yng nghyfnod allweddol 4 ac Ôl-16. Mynychodd fwy na hanner yr ysgolion uwchradd y sesiynau ac roedd sesiynau'n benodol trwy gyfrwng y Gymraeg. Aeth un ysgol ati i weithredu'r rhaglen gyda'r Chweched Dosbarth gyda ffocws ar:

- Ddatblygu Gwytnwch
- Straen Arholiadau a rheoli pwysau
- Pwysau cymdeithasol
- Cyfeillgarwch

Darparwyd cymorth i ysgolion hyd yma i'w helpu nhw roi sylw i anghenion disgyblion

Mae GwE wedi cefnogi staff bugeiliol unigol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Bu'r ffocws ar uwchsgilio staff mewn dulliau cyffredin o gefnogi iechyd, lles a iechyd meddwl dysgwyr. Mae enghreifftiau yn cynnwys cynnydd yn nifer yr ysgolion sydd wedi cael mynediad i ddysgu proffesiynol Ysgolion sy'n Ystyriol o Drawma/Chwarae Perthynol a hefyd rheoli gorbryder mewn plant. Rydym hefyd wedi addasu ein cynnig dysgu proffesiynol i'r Person Dynodedig i gynnwys adran ar strategaethau effeithiol.

Mae ysgolion hefyd wedi defnyddio'r adnoddau SEAL yn ogystal â'n hadnoddau yn y ganolfan cefnogaeth.

Roedd a wnelo'r wythnos ffocws ar GDD hefyd â chefnogi dysgwyr bregus a strategaethau i ysgolion eu defnyddio.

Targedodd GwE 50 ysgol ar draws y rhanbarth i gymryd rhan ym mheilot Adoption Cymru/LIC o ran cynnig dysgu proffesiynol ac aelodaeth i ysgolion.

A5: Creu cyfleoedd i bwysu a mesur a gwerthuso effaith polisiâu ac arferion a ddatblygwyd yn ystod y cyfnod hwn i lywio ffyrdd o weithio yn y dyfodol a dylunio'r cwricwlwm.

Yn ystod cyfnod COVID, mae GwE wedi myfyrio'n barhaus ar effeithiolrwydd y gwaith. Defnyddiwyd adnoddau mewnlol ac allanol i sicrhau bod gennym ni bersbectif cytbwys ar ansawdd y gwaith. Mae hyn wedi cynnwys gweithio gyda'r Education Development Trust a Steve Munby i ddatblygu'r sefydliad a chynllunio seilwaith y dyfodol. Mae GwE hefyd wedi gweithio gyda'r Athro Graham Donaldson pob wythnos ers dechrau Gwanwyn 2021 i ddatblygu ei staff er mwyn iddynt allu cefnogi ysgolion yn effeithiol efo'r cwricwlwm newydd.

Adroddiadau i Gyd-Bwyllgor GwE:

- Trosglwyddo yn ôl i'r ysgol
- Llesiant
- Adnoddau dysgu cyfunol
- Model ailddechrau dysgu ar gyfer Gogledd Cymru
- Rhaglen waith a blaenoriaethau rhanbarthol GwE
- Cymwysterau
- Adroddiad Blynyddol 2019-20
- Dysgu Proffesiynol - cynnig GwE i ysgolion Tymor yr Haf 2020
- Rhaglen Dysgu Carlam
- Trawsnewid ADY
- Ysgolion mewn categori
- Monitro'r gyllideb
- Cyllideb Flynyddol
- Cefnogi Ysgolion
- Y Daith Ddiwygio a Dysgu Proffesiynol
- Dysgu o Bell ac ymgysylltiad rhieni/gofalwyr
- Datblygu rhaglenni Dysgu Carlam ar gyfer y Gymraeg
- Adolygiad Thematig Estyn
- Trefniadau Llywodraethu: Archwiliad Mewnol
- Adroddiadau Archwiliad Mewnol
- Cofrestr Risg

Mae rhaglen waith bresennol YCG gydag ysgolion yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth i hunan arfarnu darpariaeth yr ysgol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn yn cynnwys arfarnu effaith cymorth GwE yn ystod y cyfnod a hefyd anghenion cymorth ysgolion a chlystyrau i'r dyfodol. Mae'r blaenoriaethau rhanbarthol a'r meysydd ar gyfer gwelliant wedi'u gwreiddio'n gadarn ar ganfyddiadau'r prosesau hunan arfarnu mewnol, adolygiadau allanol o'n harferion presennol a chyfeiriad ein taith, a thrwy ymgynghori â Phenaeithaid a'r Awdurdodau Lleol (gweler Adran 8 ar flaenoriaethau Cynllun Busnes 2021-22).

Yn Adran 6 isod, nodir y gwersi a ddysgwyd o gychwyn y pandemig er mwyn llywio dulliau gweithio yn y dyfodol a chefnogi ysgolion gyda'r cwricwlwm newydd.

6. CYMORTH YN YSTOD Y PANDEMIG SYDD WEDI DARPARU PWYNTIAU TWF I BARATOI AR GYFER Y CWRICWLWM NEWYDD

Mae'r ymateb i COVID-19 wedi effeithio'n sylweddol ar ysgolion, wrth gwrs, ac mae'n debyg ei fod wedi tarfu ar rai o'u cynlluniau i baratoi at y cwricwlwm newydd a'i weithredu. Mae'r rhaglen ddiwygio addysg yng Nghymru, sydd yn seiliedig ar y Cwricwlwm i Gymru (CiG) newydd yn rhoi ffordd gadarnhaol i symud ymlaen wrth i gyfyngiadau'r flwyddyn ddiwethaf gael eu llacio. Mae nifer o syniadau arweiniol wrth wraidd hyn:

- Dylai'r cwricwlwm a'r dysgu, yr addysgu a'r asesu sydd yn gysylltiedig lifo o'r pedwar diben clir a gytunwyd yn genedlaethol ac a ddilyni'r lleol.
- Dylai'r dibenion hynny alluogi ein plant ifanc i fod yn: ddysgwyr uchelgeisiol, galluog; yn gyfranwyr mentrus, creadigol; yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus; yn unigolion iach, hyderus.
- Dylai'r dysgu ddatblygu'n raddol tuag at y pedwar diben hynny yn ystod amser pobl ifanc mewn addysg yn yr ysgol.
- Dylai athrawon ac ysgolion gael mwy o ryddid i gyflawni'r dibenion hynny mewn ffyrdd sydd yn gallu bodloni anghenion a nodweddion y bobl ifanc a'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu.

Mae rhai goblygiadau pwysig yn deillio o'r syniadau sylfaenol hyn:

- Dylai fframwaith y cwricwlwm cenedlaethol sefydlu cysondeb yn genedlaethol o ran pwrpas a gweithredu, gan adael lle i wneud penderfyniadau yn lleol am agweddau allweddol ar ddysgu ac addysgu.
- Dylai'r cwricwlwm fod yn broses ble mae cydweithio rhwng athrawon, ysgolion a buddiannau ehangach.
- Ni ddylai atebolrwydd lesteirio ansawdd na chulhau cwrpas y dysgu. Ble bynnag bosibl, dylai wella ansawdd nid sicrhau ansawdd cul.
- Dylid barnu llwyddiant y rhaglen ddiwygio yn erbyn y graddau y mae'n arwain at ddysgu gwell a mwy perthnasol i bobl ifanc, ac i safonau cyflawniad uchel. Dylai ansawdd y dysgu a natur safonau ymwneud â'r graddau y mae'r dibenion cytûn yn cael eu cyflawni yn ymarferol i'r holl bobl ifanc.

Yn naturiol, mae effaith y pandemig wedi dylanwadu ar sut y gall ysgolion a lleoliadau symud ymlaen â'r diwygio. Mae angen iddynt ail-sefydlu perthnasedd y 4 diben arweiniol i bobl ifanc Cymru. Mewn amryw o ffyrdd, mae'r pandemig wedi golygu bod y pedwar diben hynny yn fwy perthnasol nag erioed o'r blaen wrth i ysgolion geisio meithrin hyder eu pobl ifanc ac ail danio eu hawydd i ddysgu. Bu'n rhaid i ysgolion feddwl yn ddwys am yr hyn sydd yn bwysig o ran dysgu mewn cyfnodau o darfu ar addysg, ac mae pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru yn ymdopi'n dda â'r prawf hwnnw. Gyda'r pandemig, bu'n rhaid newid natur y dysgu a'r addysgu, yn enwedig felly y ffyrdd y gall technoleg ddigidol gynyddu'r cyfleoedd i ddysgu'n fwy annibynnol.

Sut y parheir i gefnogi ysgolion a lleoliadau ar eu taith tuag at weithredu'r cwricwlwm newydd o fis Medi 2022

Mae ein blaenoriaethau rhanbarthol ar gyfer 2021-22 yn gyfuniad o wella darpariaeth ysgol, arweinyddiaeth a deilliannau yn ogystal â chyflawni'r daith ddiwygio a'r cwricwlwm newydd. O ran y daith ddiwygio, rydym wedi gweithredu'n integredig ym mhob agwedd ar ein gwaith o'r cychwyn cyntaf. Ni all yr un elfen o'r daith ddiwygio fod ar wahân. Caiff ei gweld o safbwynt anghenion dysgwyr a gwaelodlin ysgolion a chlystyrau unigol i gyflawni newid yn unol â disgwyliadau cytûn.

Y pedwar diben yn y canllawiau 'Cwricwlwm i Gymru' ddylai fod y man cychwyn a'r uchelgais i ysgolion wrth iddynt baratoi i ddylunio'r cwricwlwm newydd a chefnogi eu dysgwyr i fod yn:

- Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sydd yn barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;
- Cyfranwyr mentrus, creadigol sydd yn barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith;
- Dinasyddion egwyddorol, gwybodus sydd yn barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd;
- Unigolion iach, hyderus sydd yn barod i fyw gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Bwriad y blaenoriaethau rhanbarthol yw cefnogi ysgolion a lleoliadau wrth iddynt weithio tuag at y pedwar diben hynny. Mae'r holl waith rhanbarthol yn cyd-fynd â'r ddogfen 'Y Daith at 2022' a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2020 ac a gyd-luniwyd gan Estyn, y pedair rhanbarth a Llywodraeth Cymru (gweler Atodiad 3). Noda'r ddogfen hon gyfres o gamau yr aiff ysgolion drwyddynt wrth iddynt baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru newydd. Mae'r rhain yn cynnwys ymgysylltu, dylunio, treialu a chynllunio ac yna gwerthuso a pharatoi i'w gyflwyno am y tro cyntaf.

Yn rhan o'r gefnogaeth i ysgolion ar gyfer Y Cwricwlwm i Gymru newydd, mae GwE wedi gweithio gyda'r consortia rhanbarthol eraill i ddatblygu cynnig dysgu proffesiynol sydd yn cyfuno pob agwedd ar y diwygio ehangach, gan gynnwys Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu. Y Gymraeg (tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050) a'r Bil Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol Bwriad y cynnig hwn ar draws y rhanbarth yw cefnogi holl ymarferwyr ysgolion, a chanolbwyntir yn y lle cyntaf ar Uwch Arweinwyr efo'r themâu hyn:

- Arwain Newid
- Arweinyddiaeth ar gyfer y Cwricwlwm newydd
- Datblygu gweledigaeth a rennir
- Cynllunio ar gyfer newid cwricwlwm - i gynnwys dylunio'r cwricwlwm, cynnydd ac asesu
- Arwain Addysgeg
- Creu amser a lle i ddysgu'n broffesiynol

Bwriadwyd i'r cynnig dysgu proffesiynol hwn ddechrau yn rhyddor y Gwanwyn 2020, ond rhoddwyd saib arno oherwydd blaenoriaethau Covid-19 yn naturiol. Wrth drafod â Phenaethiaid ar draws GwE, ail-gydiwyd yn y dysgu proffesiynol yn rhithiol ym mis Ionawr 2021 gyda'r sesiwn ar Arwain Newid. Amlinellir y gyfres o ddysgu proffesiynol sydd ar gael i ysgolion yn Atodiad 4. Mae'r sesiynau hyn ar draws y rhanbarth yn rhai clwstwr ac yn galluogi i grwpiau llai o ysgolion cynradd, a'u hysgol uwchradd leol, i drafod y Cwricwlwm i Gymru newydd ar draws y continwwm 3 i 16. Ar draws y rhanbarth, bu 832 o uwch arweinwyr ar y sesiynau Arwain Newid hyn. Er mwyn cydnabod y ffaith bod ysgolion yn ail agor i bob dysgwr ym mis Mawrth a mis Ebrill, rhoddwyd saib ar y sesiynau Dysgu Proffesiynol unwaith eto ym mis Mawrth 2021.

Yn dilyn trafodaethau efo'r Cyfarwyddwyr Addysg drwy Fwrdd Rheoli GwE, cynhaliwyd cyfres o weithdai ymgynghori ym mis Ebrill 2021 ym mhob Awdurdod Lleol i wrando ar farn Penaethiaid ar y cynnig dysgu proffesiynol a'r ffordd orau i ail-gydio. Bu dros 300 o Benaethiaid yn rhan o'r ymgynghori.

Yn ôl y sylwadau:

- Penaethiaid cynradd ac uwchradd yn cydnabod pwysigrwydd parhau i gydweithio ar draws y sectorau i gefnogi'r continwwm 3 i 16;
- Mae'r holl arweinwyr yn cydnabod pwysigrwydd cynnal momentwm y dysgu proffesiynol ond maent yn cydnabod her yr amseriad oherwydd y pwysau a'r heriau ar hyn o bryd;
- Arweinwyr yn awyddus i weithio gyda GwE er mwyn cael cyfraniad arbenigwyr allanol lle bo'n briodol;
- Arweinwyr yn cydnabod bod hyblygrwydd wrth fynd i'r afael â'r cynnig dysgu proffesiynol yn allweddol er mwyn sicrhau ymgysylltiad effeithiol.

Er mwyn cefnogi'r ail-gydio â'r gwaith Cwricwlwm i Gymru, trefnwyd sesiwn cynllunio arweinyddiaeth arall ar gyfer pob clwstwr unigol ar draws y rhanbarth i feithrin cynhwysedd clystyrau i gydweithio ar draws gofynion y daith ddiwygio yn ei chyfarwydd a ffurfio cynllun gweithredu cytûn i bob clwstwr. Yn rhan o hyn, mae pob Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant wedi hwyluso sesiynau ble mae ysgolion mewn clwstwr yn cael cyfle i gydweithio er mwyn cynllunio'n strategol i weithredu'r cwricwlwm. Bu mabwysiadu dull gweithredu hyblyg a sensitif o ran amseriad y sesiynau hyn yn agwedd allweddol ar y trafodaethau rhwng GwE, yr awdurdod lleol ac ysgolion. Adnabuwyd gweithgareddau i gefnogi'r paratoadau ar gyfer y cwricwlwm newydd ar lefel ysgol a chlwstwr mewn Cynlluniau Datblygu Ysgol.

Dyma enghreifftiau o weithgareddau sydd wedi'u cynllunio mewn ysgolion:

- adnabod rhagor o gyfleoedd i uwch arweinwyr weithio ar ddatblygu gweledigaeth a rennir;
- cydweithio ar draws ysgolion i ddatblygu dulliau gweithredu cyffredin o ran dysgu ac addysgu a rhannu iaith gyffredin;

- adnabod cyfleoedd i athrawon gydweithio i ddatgloi a gwneud synnwyr efo’i gilydd o fewn *Maes Dysgu a Phrofiad penodol*.

Defnyddio technoleg i gyd-ddatblygu cynlluniau datblygu a gwefannau i sicrhau bod y ddeialog yn parhau a bod Uwch Arweinwyr yn gallu parhau â’r gwaith hwn, yn sgil trafodaethau yn ôl ar lefel ysgol unigol.

Yn ogystal â’r cynnig Dysgu Proffesiynol, mae cymorth ychwanegol ar gael gan GwE i ysgolion wrth iddynt baratoi ar gyfer y *Cwricwlwm i Gymru newydd*. Gellir cael y cymorth hwn ar lefel clwstwr ac ysgol unigol, gan gynnwys cymorth unigryw ble bydd angen.

Mae cymorth pellach ar gael i ysgolion gan gynnwys cyfres o ‘Bapurau Procio’ sydd wedi’u hysgrifennu gan dîm GwE, yn rhan o’r sesiynau diwygio wythnosol efo’r Athro Graham Donaldson. Rhannwyd a mireiniwyd y papurau hyn, sydd yn edrych ar agweddau allweddol ar daith ddiwygio’r cwricwlwm gan gynnwys arweinyddiaeth, gweledigaeth, addysgeg, asesu a dylunio’r cwricwlwm, drwy ymgynghori â phartneriaid ehangach yr Awdurdodau Lleol, Estyn a Phrifysgol Bangor. Gwahoddwyd yr holl uwch arweinwyr i ddod i weminar ym mis Mai 2021 i egluro a rhannu’r gwaith hwn ar y Papurau Procio. Mae’r rhain i’w gweld yn *Atodiad 5*.

Wrth symud ymlaen, bydd cefnogi ysgolion i ddatblygu rhwydweithiau ar draws y chwe Maes Dysgu a Phrofiad (MDaPh) yn allweddol. Yn rhan o flaenoriaethau’r cynllun busnes, bydd GwE yn gwahodd ac yn hwyluso cyfleoedd i ymarferwyr ysgolion weithio gyda chymheiriaid i ystyried dylunio a chynllunio’r cwricwlwm o fewn ac ar draws y MDaPh i fodloni anghenion pob dysgwr i gyflawni pedwar diben y cwricwlwm newydd.

Mae gweithio mewn partneriaeth gyda phartneriaid mewn Sefydliadau Addysg Uwch yn flaenoriaeth arall i’r rhanbarth wrth i GwE gefnogi ysgolion i ddatblygu rôl ymholi o fewn y Cwricwlwm i Gymru newydd. Mae’r gwaith hwn yn agwedd bwysig ar waith ehangach ar ddatblygu dysgu ac addysgu effeithiol sydd, yn ei dro, yn adeiladu ar y gwaith i ddatblygu asesu ar gyfer dysgu. I’r perwyl hwn, bu GwE yn gweithio gydag ysgolion ar draws y rhanbarth dros y tair blynedd diwethaf i ddatblygu a rhannu arferion effeithiol mewn asesu ffurfiannol gan ddefnyddio dysgu ar sail tystiolaeth. Mae 360 o ysgolion ar draws y rhanbarth yn cymryd rhan yn y gwaith hwn.

Wrth gefnogi ysgolion gyda’u parodrwydd i weithredu’r cwricwlwm ym mis Medi 2022, mae GwE yn gweithio gydag ysgolion a phartneriaid ehangach i ddatblygu ystod eang o ddangosyddion ansoddol a fydd yn rhoi modd i ysgolion fyfyrion ar sut maent yn gweithredu pedwar diben y cwricwlwm newydd. Ar ben hynny, mae gan ysgolion fynediad at gyfres o gerrig milltir o fewn system rheoli gwybodaeth y rhanbarth sydd yn rhoi modd iddynt fyfyrion ar eu cynnydd. Cyn y cyfnod clo cyntaf ym mis Mawrth 2020, nododd fwy na 90% o ysgolion eu bod nhw naill ai ar drac, neu well, o ran eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth o fframwaith y cwricwlwm newydd. Nododd bron i bob ysgol eu bod nhw’n rhannol ar drac, neu well, o ran ymgysylltu a chymryd rhan mewn gwaith clwstwr i baratoi am y cwricwlwm newydd

7. MATERION BUSNES

Datblygu staff

Mae cysondeb ac ansawdd yr her a'r cymorth i ysgolion yn dda. Mae hyfforddiant, cymorth a thrafodaethau yn sicrhau bod gwybodaeth a dealltwriaeth Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant o ddatblygiadau cenedlaethol a lleol, a goblygiadau hyn i'w rôl, yn dda.

Mae prosesau Sicrhau Ansawdd yn parhau i ddatblygu ac esblygu yn unol â datblygiadau ac egwyddorion cenedlaethol. Cyflëir negeseuon a gwybodaeth yn glir ac yn rheolaidd i bob gweithiwr. Cynigir rhaglenni cefnogaeth generig, pwrpasol ac effeithiol. Mae cyfarfodydd tîm llawn a sector yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i gydweithio, ymgynghori a chyfrannu at drafodaethau a phenderfyniadau yn ymwneud â chyfeiriad gwaith GwE yn ystod cyfnod o newid sylweddol.

Rheoli Perfformiad ac Atebolrwydd

Mae'r fframwaith atebolrwydd clir a grymus yn gryfder allweddol yn GwE. Mae cynlluniau busnes manwl ar bob lefel o gynllunio yn mynd i'r afael â phob agwedd ar waith GwE ac yn nodi'n glir cyfraniad y gwasanaeth at yr agenda trawsnewid. Yn y cynlluniau, ceir meini prawf llwyddiant clir a cherrig milltir ar gyfer cyflawni'r amcanion hynny.

Ceir trefniadau hunan arfarnu manwl. Adolygir y cynlluniau pob chwarter, ble arfarnir cynnydd ac effaith. Mae staff, ar bob lefel, yn llawn ddeall eu cyfrifoldeb dros welliant parhaus ac atebolrwydd.

Mae gan bob Awdurdod Lleol gynllun busnes manwl sydd wedi'i gytuno rhwng y pennaeth gwasanaeth a'r ymgynghorydd craidd. Caiff cynnydd tuag at gyflawni'r deilliannau cytûn, ar lefel awdurdod lleol, ei fonitro pob chwarter a'i drafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd rhwng yr ymgynghorydd arweiniol a'r Awdurdod Lleol. Caiff materion parhaus eu cyfeirio at Uwch Arweinwyr GwE yn amserol.

Mae hunan arfarnu yn nodwedd gref yn GwE ac mae'r broses hunan arfarnu yn un gylchol a pharhaus. Rhoddir pwys mawr ar atebolrwydd ac adolygu parhaus, ac mae pwyslais cyson ar gynnydd yn unol â'r blaenoriaethau. O ganlyniad, mae arweinwyr GwE yn adnabod, yn fanwl gywir, meysydd ble mae perfformiad yn dda, a meysydd sydd angen eu datblygu neu ble mae elfen o risg o ran gwella'r profiadau a'r deilliannau addysgol i ddysgwyr.

Gwerth am Arian

Mae gan y consortiwm brosesau rheolaeth ariannol effeithiol ar waith. Mae cyfathrebu ac ymgynghori ynghylch trefniadau ariannol yn effeithiol, gyda staff GwE, yr awdurdod lleol lletyol a'r Cyd-Bwyllgor yn adolygu'r cyllid craidd a'r gwariant grant yn rheolaidd.

Mae dadansoddiad ariannol cadarn yn sail i gyflawni'r cynllun busnes. Mae cynllun ariannol tymor canolig a chynllun gweithlu yn cyd-fynd â'r cynllun busnes. Drwy ddefnyddio data yn gynyddol effeithiol i adnabod blaenoriaethau allweddol, cryfheir y cyswllt rhwng y broses cynllunio busnes a phenderfyniadau cynllunio ariannol gan fod y ffrydiau gwaith sy'n sail i'r cynllun busnes yn nodi'n glir yr adnoddau i'w defnyddio.

Lluniwyd fframwaith ffurfiol i asesu'r gwerth am arian ehangach a ddarperir gan GwE. Mae'r farn bellach yn gyson ar draws yr holl randdeiliaid ar sut y gellir mesur gwerth am arian gweithgareddau GwE o fewn strwythur ac amcanion y cynllun busnes.

Cofrestr Risg

Mae trefniadau trylwyr a chynhwysfawr ar waith i adnabod a rheoli, yn fanwl gywir, risgiau ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r gofrestr risg yn ddogfen fyw, a chaiff ei diweddarau'n gyson i adnabod risgiau sy'n cynyddu, neu risgiau na fernir sy'n lefel uchel mwyach. Fe'i hadolygir pob mis mewn cyfarfod uwch arweinyddol a bydd y Bwrdd Rheoli a'r Cyd-Bwyllgor yn adolygu'r gofrestr pob chwarter.

Trwy reoli'r risgiau i'r rhanbarth yn effeithiol, gall GwE gefnogi amcanion y rhanbarth, gwneud defnydd effeithiol o adnoddau a chyflawni'r deilliannau yn ôl y bwriad.

8. BLAENORIAETHAU'R CYNLLUN BUSNES 2021-2022

Mae'r blaenoriaethau rhanbarthol a'r meysydd ar gyfer gwelliant wedi'u gwreiddio'n gadarn ar ganfyddiadau'r prosesau hunan arfarnu mewnol, ac adolygiadau allanol o'n harferion presennol a chyfeiriad ein taith, a thrwy ymgynghori â Phenaethiaid a'r Awdurdodau Lleol. Rhydd y Cynllun Busnes sylw hefyd i flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol, sydd o fewn cylch gorchwyl GwE.

Yn ogystal, bydd GwE yn gweithio mewn partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol i gefnogi blaenoriaethau lleol ychwanegol, fel bo'n briodol. Rhydd ystyriaeth hefyd i safbwyntiau a blaenoriaethau partneriaid haen ganol eraill fel Estyn, Cymwysterau Cymru, CBAC, yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol (NAEL), Addysg Gychwynnol Athrawon (AGG) a Chyngor y Gweithlu Addysg.

Mae ein blaenoriaethau yn gyfuniad o wella darpariaeth, arweinyddiaeth a deilliannau mewn ysgolion, yn ogystal â chyflawni'r daith ddiwygio. O ran y daith ddiwygio, rydym wedi gweithredu'n integredig ym mhob agwedd ar ein gwaith o'r cychwyn cyntaf. Ni all yr un elfen o'r daith ddiwygio fod ar wahân. Caiff ei gweld o safbwynt anghenion dysgwyr a gwaelodlin ysgolion a chlystyrau unigol i gyflawni newid yn unol â disgwyliadau cytûn.

Mae GwE wedi annog ysgolion i gydweithio drwy rannu arferion a chyd-lunio meysydd sydd angen eu gwella a heriau'r daith ddiwygio. Rydym wedi buddsoddi mewn amrywiol fodelau clwstwr ac wedi annog ysgolion i ganfod ystod o bartneriaid priodol i gyflawni gwelliannau a newidiadau. Mae'r rhanbarth hefyd wedi edrych tuag allan am arferion da o ran adnabod modelau adolygu effeithiol gan gymheiriaid, yn ogystal ag annog ein hysgolion i ddatblygu ac esblygu eu harferion eu hunain. Cred GwE y dylai gwaith ymgysylltu â chymheiriaid gyd-fynd â'r dimensiynau a nodir yng nghyhoeddiad yr OECD *'What Makes a School a Learning Organisation'*

Rydym yn canolbwyntio ar gefnogi ac ar feithrin capasiti ar gyfer system sy'n hunan wella.

'Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant' yw Ymgynghorwyr Her bellach, ac mae hyn yn fwy na newid mewn enw yn unig - mae'n arwydd o benderfyniad i feithrin ymddiriedaeth gyda rhanddeiliaid allweddol a symud oddi wrth ddull 'o'r brig i lawr' o wella ysgolion, gan ddatblygu, yn hytrach, strategaeth fwy hir dymor, cefnogol a chynaliadwy.

Ar y cyd â rhanddeiliaid, mae GwE wedi datblygu strategaeth gefnogol a chynaliadwy yn yr hirdymor sydd yn llwyddo i feithrin cynhwysedd ar draws y rhanbarth i wynebu heriau y diwygio ehangach. Mae'r dull gweithredu integredig wedi canolbwyntio ar ddatblygu cyfleoedd cydweithredol ar draws clystyrau o ysgolion. Er mwyn cefnogi ysgolion ymhellach, mae GwE wedi datblygu'r cysyniad o greu cerrig milltir tymhorol drwy system rheoli gwybodaeth G6. Mae'r rhain oll yn rhoi cyfle i bob ysgol fyfyrto. Mae gweithgarwch ac effaith hyn yn cael ei rannu, a chaiff y camau nesaf eu hadnabod drwy drafodaeth broffesiynol barhaus efo YCG.

Bydd Dysgu Proffesiynol yn ganolog i sicrhau bod gan holl staff ysgolion yr wybodaeth broffesiynol a'r sgiliau i gyflawni'r diwygiadau addysg sydd yn mynd rhagddynt yng Nghymru. O ystyried disgwyliadau'r system a gweithio ar y cyd gyda phartneriaid, adnabuwyd fframwaith pendant ar gyfer themâu dysgu proffesiynol i ymarferwyr mewn ysgolion.

Dyma ein blaenoriaethau strategol ar gyfer gwelliant yn 2021-2022:

Ein hamcanion strategol	
1.	Cwricwlwm ac Asesu - Cefnogi cwricwlwm cenedlaethol ble mae tegwch a rhagoriaeth yn ganolog ac sydd yn gosod safonau uchel i bob dysgwr
2.	Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel - gwella'r dysgu a'r addysgu yn ein hysgolion

Ein hamcanion strategol	
3.	Arweinyddiaeth - cefnogi arweinwyr ysbrydoledig sy'n cydweithio i godi safonau. Cynnwys darpar arweinwyr a rhwydweithiau proffesiynol
4.	Ysgolion cryf a chynhwysol yn ymroi i ragoriaeth, tegwch a llesiant
5.	Cefnogi system sy'n hunan wella - cefnogi system ble mae gan y proffesiwn addysg y sgiliau, y gallu a'r cynhwysedd i ddysgu a gwella eu harferion yn gyson
6.	Busnes - sicrhau bod gan GwE drefn lywodraethu gref a chefnogaeth fusnes a gweithredol effeithiol sy'n rhoi gwerth am arian.

Y pedwar diben a nodir yn y Cwricwlwm i Gymru ddylai fod y man cychwyn a'r uchelgais i ysgolion wrth iddynt baratoi i ddylunio'r cwricwlwm newydd a chefnogi eu dysgwyr i fod yn:

- Ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sydd yn barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- Cyfranwyr mentrus, creadigol sydd yn barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith;
- Dinasyddion egwyddorol, gwybodus sydd yn barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd;
- Unigolion iach, hyderus sydd yn barod i fyw gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Amlinellir blaenoriaethau'r rhanbarth ar gyfer 2021-22 isod a'u bwriad yw cefnogi ysgolion wrth iddynt weithio tuag at y pedwar diben hyn.

Cefnogir y blaenoriaethau hyn gan gynlluniau manwl y gwasanaeth, sydd yn amlinellu sut a phryd y bydd pob blaenoriaeth yn cael ei chyflawni ac yn gosod disgwyliadau o ran y camau nesaf wrth gyflawni'r daith ddiwygio. Hefyd, mae gan bob Awdurdod Lleol gynllun busnes manwl sydd wedi'i gytuno rhwng y pennaeth gwasanaeth a'r ymgynghorydd craidd.

1. Cwricwlwm ac Asesu - Cefnogi cwricwlwm cenedlaethol ble mae tegwch a rhagoriaeth yn ganolog ac sydd yn gosod safonau uchel i bob dysgwr.
1.1 - Y Daith Ddiwygio <ul style="list-style-type: none"> ➤ Darparu dysgu proffesiynol a chymorth ac arweiniad pwrpasol i ysgolion a lleoliadau i'w helpu nhw gyflawni'r Daith Ddiwygio, a pharatoi at y cwricwlwm newydd. ➤ Datblygu fframwaith ansoddol rhanbarthol er mwyn dangos ac arfarnu cynnydd ysgol mewn dull cyfannol.
2. Datblygu proffesiwn addysg o safon uchel - gwella'r dysgu a'r addysgu yn ein hysgolion
2.1 - Dysgu o Bell a Chynllunio'r Dysgu <ul style="list-style-type: none"> ➤ Cefnogi ysgolion a lleoliadau i sicrhau bod eu darpariaeth dysgu o bell yn addas i ddarparu profiad dysgu o safon uchel i'w disgyblion. ➤ Parhau i ddatblygu enghreifftiau wedi'u datblygu'n rhanbarthol - dulliau dysgu ac addysgu enghreifftiol fel rhan o ddysgu o bell. ➤ Cefnogi ysgolion a lleoliadau i arfarnu'r arferion presennol ar gyfer dysgu o bell a dysgu cyfunol, ac adnabod cryfderau a meysydd i'w datblygu. ➤ Cefnogi ysgolion a lleoliadau i arfarnu cynnydd disgyblion a gweld beth yw'r camau nesaf ymlaen i'w datblygiad.
2.2 - Y Gymraeg <ul style="list-style-type: none"> ➤ Rhoi cymorth i ysgolion a lleoliadau sydd yn cyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg fel Iaith Gyntaf i wella sgiliau Cymraeg Iaith Gyntaf eu dysgwyr, ac yn enwedig y rheiny o gartrefi di-Gymraeg.

3. Arweinyddiaeth - cefnogi arweinwyr ysbrydoledig sy'n cydweithio i godi safonau. Cynnwys darpar arweinwyr a rhwydweithiau proffesiynol
3.1 - Arweinyddiaeth <ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod gan bob sefydliad dysgu y gallu i arwain ar bob lefel er mwyn ysbrydoli, hyfforddi, cefnogi, rhannu arfer a chydweithio er sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni ei botensial. Sicrhau bod egwyddorion arweinyddiaeth wasgaredig yn cael eu gwreiddio ym mhob sefydliad dysgu ar draws y rhanbarth.
3.2 - Cefnogi'r broses gymwysterau <ul style="list-style-type: none"> Cefnogi ysgolion a lleoliadau i weithredu argymhellion y Bwrdd Dylunio a Chyflawni ar gyfer dyfarnu cymwysterau yn 2021 a 2022.

4. Ysgolion cryf a chynhwysol - yn ymroi i ragoriaeth, tegwch a llesiant
4.1 - Llesiant a Dysgu <ul style="list-style-type: none"> Parhau i weithio'n agos mewn partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol i ddarparu cymorth llesiant i ymarferwyr a dysgwyr mewn ysgolion a lleoliadau. Parhau i roi cymorth i arweinwyr ysgolion gydag ymgysylltiad grwpiau penodol o ddysgwyr bregus a difreintiedig, gan gynnwys y dysgwyr hynny ble cafodd cau'r ysgolion effaith anghyfartal arnynt. Cymorth hefyd i adnabod a chefnogi'r dysgwyr hyn.
4.2 - Strategaeth cymorth i rieni <ul style="list-style-type: none"> Datblygu strategaeth cymorth i rieni a rhoi arweiniad i helpu rhieni a gofalwyr ar sut orau i gefnogi eu plant i ddysgu.

5. Cefnogi system hunan wella - cefnogi system ble mae gan y proffesiwn addysg y sgiliau, y gallu a'r cynhwysedd i ddysgu a gwella eu harferion yn gyson
5.1 - Rhoi cymhelliant i gydweithio er mwyn hunan-wella <ul style="list-style-type: none"> Cryfhau ymhellach y diwylliant, yr ymddygiad, y systemau a'r prosesau er mwyn cymell arweinwyr ac athrawon i gyd-ymdrechu er sicrhau gwelliant ysgol. Parhau i weithio'n agos gydag ysgolion a lleoliadau er mwyn parhau i ddyfnhau'r gwaith cymheiriaid sydd eisoes wedi gwreiddio, ac adnabod agweddau y gallai ysgolion eu cynnig i ysgolion eraill er mwyn datblygu agweddau penodol ar Ddysgu Proffesiynol. Darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol i ddatblygu adolygiad gan gymheiriaid ymhellach.
5.2 - Ysgolion sy'n Achos Pryder <ul style="list-style-type: none"> Rhoi cymorth dwys i ysgolion uwchradd mewn categori statudol, a'r rheiny sy'n achosi pryder, i wella perfformiad. Rhoi cymorth unigryw i ysgolion a lleoliadau yn unol â blaenoriaethau gwella ysgolion sydd yn dangos y sefyllfa bresennol a sefyllfaoedd ysgolion a lleoliadau.
5.3 - Ysgolion yn datblygu a rhannu arferion llwyddiannus <ul style="list-style-type: none"> Rhoi mynediad at ystod o ddysgu proffesiynol yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, gan gynnwys mynediad at hyfforddi a mentora, ar gyfer pob ymarferydd addysg mewn ysgolion a lleoliadau sydd yn briodol i'w rôl a'u cyfrifoldeb yn unol â safonau proffesiynol. Parhau i weithio gyda chlystyrau/cynghreiriau yn y rhanbarth i gasglu ynghyd adnoddau dysgu cyfunol a'u rhoi mewn llyfrgell adnoddau ar-lein. Parhau i hwyluso gwaith clwstwr/cynghrair a chefnogi cymheiriaid i sicrhau bod y dysgu yn parhau, a bod yr arferion effeithiol a'r gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu gan ystod o ysgolion a lleoliadau, o safbwynt dysgu o bell a dysgu cyfunol.

6. Busnes
6.1 - Sicrhau bod gan GwE drefn lywodraethu gref a chefnogaeth fusnes a gweithredol effeithiol sy'n rhoi gwerth am arian.



Collaborating • Learning • Succeeding

- ☎ 0300 500 8087
- ✉ post@gwegogledd.cymru
- 💻 www.GwEGogledd.Cymru
- 🐦 @GwEGogleddCymru



Cymorth awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ysgolion ac UC Dau i ymateb i COVID-19

Adroddiad diweddarau o Fehefin i Dachwedd 2020

Ionawr 2021



Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ▲ ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ▲ ysgolion cynradd
- ▲ ysgolion uwchradd
- ▲ ysgolion arbennig
- ▲ unedau cyfeirio disgyblion
- ▲ ysgolion pob oed
- ▲ ysgolion annibynnol
- ▲ addysg bellach
- ▲ colegau arbenigol annibynnol
- ▲ dysgu oedolion yn y gymuned
- ▲ gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- ▲ addysg a hyfforddiant athrawon
- ▲ Cymraeg i oedolion
- ▲ dysgu yn y gwaith
- ▲ dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- ▲ yn adrodd i Senedd Cymru ac yn darparu cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- ▲ yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

Ⓜ Hawlfraint y Goron 2021: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen benodol/yr adroddiad penodol.

Cyflwyniad	1
Cefndir	1
Y prif ganfyddiadau	4
Argymhellion	6
Arweinyddiaeth	7
Gwneud penderfyniadau a llywodraethu	7
Cydweithio i gynorthwyo ysgolion ac UC Dau	8
Cyflawni blaenoriaethau cyfredol	9
Hyrwyddo dysgu	10
Cynorthwyo ysgolion ac UC Dau i ailagor	10
Nodi llithro yn ôl mewn dysgu a mynd i'r afael â hynny	11
Cefnogi sgiliau Cymraeg	13
Hyrwyddo profiadau cwricwlwm eang	14
Hyrwyddo dysgu o bell a dysgu cyfunol mwy effeithiol	16
Dysgu proffesiynol	18
Cefnogi disgyblion bregus	21
Paratoi er mwyn i ddisgyblion ddychwelyd ym mis Medi	21
Cefnogi lles	25
Cefnogi disgyblion bregus	29
Atodiad 1: Sail dystiolaeth	33
Atodiad 2: Adborth meintiol yr arolwg	34
Atodiad 3: Cyhoeddiadau Estyn	39
Atodiad 4: Llinell amser	41
Geirfa	46
Cyfeiriadau	47

Cyflwyniad

Ysgrifennir yr adroddiad hwn i ymateb i gais gan y Gweinidog Addysg am gyngor yng Ngorffennaf 2020. Mae'n cynnig trosolwg o'r ffordd y mae awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol wedi gweithio gydag ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion (UC Dau) i hyrwyddo dysgu a chefnogi disgyblion bregus yn ystod cyfnod COVID-19 rhwng Mehefin a Thachwedd 2020, sef y cyfnod pan oedd ysgolion yn ailagor yn dilyn y cyfnod clo. Mae'n cofnodi'r ffyrdd y mae awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol wedi addasu'u gwaith i ymateb i'r heriau yn deillio o COVID-19. Gwnaed y gwaith cyn i'r holl ysgolion ddychwelyd at ddysgu o bell ym mis Ionawr 2021, ond bydd yn fuddiol i lywio ffyrdd presennol o weithio.

Cynulleidfa fwriadedig yr adroddiad hwn yw swyddogion Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol, a staff mewn ysgolion ac UC Dau. Mae'n manteisio ar y sail dystiolaeth yn atodiad 1, gan gynnwys cyfweiliadau, adborth arolygon a thystiolaeth ddogfennol. O ganlyniad i gyfyngiadau yn gysylltiedig â COVID-19, nid oeddem yn gallu ymweld ag ysgolion ac UC Dau i gasglu tystiolaeth uniongyrchol am ansawdd y ddarpariaeth. Gellir gweld yr adborth meintiol o'r arolygon a gyhoeddwyd yn Atodiad 2. Hefyd, rhoddom adborth manwl i awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol unigol i ategu'u hunanwerthusiad nhw ar gyfer gwella. Mae'r adroddiad yn rhan o gyfres o gyhoeddiadau gan Estyn i rannu dysgu a chefnogi ymateb ac adferiad parhaus y system addysg (Atodiad 3).

Mae'r adroddiad yn cynnwys 'cameos' o awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Nid astudiaethau achos yw'r rhain, gan na allwn werthuso effaith y gwaith oherwydd y cyfyngiadau ar ein gweithgareddau o ganlyniad i COVID-19. Mae'r cameos wedi eu cynnwys i ddangos enghreifftiau o bwyntiau a godwyd yn yr adroddiad, gan roi blas o'r gwaith sydd wedi digwydd ledled Cymru.

Cefndir

Yn ei ragair i Adroddiad Blynyddol 2019-2020, dywedodd Meilyr Rowlands PAEM (Estyn, 2020, t.4), 'daeth misoedd olaf blwyddyn academiaidd 2019-2020 â heriau i addysg yng Nghymru nas gwelom mo'u tebyg mewn cenedlaethau. Cafwyd nifer o heriau, a'r rheiny'n rhai cymhleth ac annisgwyl. Newidiodd pandemig y COVID-19 fywydau pobl, cafodd effaith aruthrol ar economïau, ac amharwyd yn fawr ar systemau addysg ledled y byd ac yng Nghymru'. Mae ei ragair yn cynnig disgrifiad cychwynnol o'r modd y gwnaeth ysgolion a darparwyr addysg a hyfforddiant eraill ymdopi â'r cyfnod clo cychwynnol ac ymdrechu i gefnogi disgyblion a myfyrwyr a darparu parhad dysgu ar eu cyfer o bell. I gael rhagor o wybodaeth am y cyfnod clo cychwynnol hwn, gweler [Adroddiad Blynyddol 2019-2020](#).

Mae'r adroddiad thematig hwn yn canolbwyntio ar y cyfnod o ddiwedd tymor yr haf i ddiwedd yr hydref. Gellir gweld y llinell amser o ddiwyddiadau arwyddocaol yn ystod y cyfnod hwn yn Atodiad 4.

Ddiwedd Mehefin, roedd bron pob ysgol wedi ailagor i ddisgyblion er mwyn rhoi cyfle iddynt 'Ailgydio, dal i fyny a pharatoi ar gyfer yr haf, a mis Medi'. Yng Ngorffennaf ac Awst, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau i gynorthwyo ysgolion ag ailagor, ar gefnogi dysgwyr ac ar gefnogi dysgwyr agored i niwed (Llywodraeth Cymru 2020a, 2020b, 2020c). Ail-agorodd pob ysgol eu safleoedd ar gyfer eu holl ddisgyblion ym Medi, gyda chyfnod pontio cyn i'r holl ddisgyblion fod yn bresennol o 14 Medi 2020. Bron yn syth, dechreuodd ysgolion weld eu hachosion positif cyntaf o COVID-19 ymhlith disgyblion a staff oedd yn adlewyrch y cynnydd mewn achosion yn y cymunedau a chyhoeddwyd y cyntaf mewn cyfres o gyfyngiadau lleol i leihau ei drosglwyddiad. Bu'r cyfnodau hunanynysu yn amrywio o ddiwrnod i 14 diwrnod, yn dibynnu ar y rheswm a'r cyd-destunau unigol. Yn ystod y cyfnod hwn, bu'n ofynnol i ddisgyblion unigol, dosbarthiadau neu grwpiau blwyddyn cyfan hunanynysu ar adegau, gan arwain at yr angen am ddarpariaeth dysgu o bell. Fe wnaeth achosion positif o COVID-19 barhau i gynyddu a chyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyfnod clo byr am bythefnos, o 23 Hydref 2020 ymlaen. Cafodd ysgolion ac UC'Dau eu cau dros hanner tymor yn ystod wythnos gyntaf y cyfnod clo byr ac, yn ystod yr ail wythnos, aeth llawer o ddisgyblion oed uwchradd yn ôl i ddysgu o bell, gydag ysgolion cynradd yn ailagor ar gyfer dysgu wyneb yn wyneb.

Ddechrau Tachwedd, roedd tua 90% o ddisgyblion yn yr ysgol. Fe wnaeth cyfran y disgyblion yn yr ysgol ostwng i ryw 80% erbyn diwedd Tachwedd ac i ryw 70% erbyn canol Rhagfyr, gan fod gofyn i niferoedd cynyddol o ddisgyblion hunanynysu neu roedd eu hysgol ar gau oherwydd prinder staff. Tua diwedd y tymor, roedd mwy o rieni yn dewis peidio danfon eu plant i'r ysgol, er bod yr ysgol ar agor a bod 'na ddim angen i'w plentyn hunanynysu. Mae'r ffigurau cenedlaethol hyn yn cuddio amrywio sylweddol rhwng ysgolion ac ardaloedd awdurdodau lleol, oherwydd yn yr awdurdodau lleol yr effeithiwyd arnynt waethaf gan COVID-19, dim ond rhyw 50% o ddisgyblion oedd yn yr ysgol tua diwedd y tymor. Hefyd, mae'r ffigurau cenedlaethol yn cuddio amrywio sylweddol ar draws grwpiau oedran, gyda disgyblion oed ysgol uwchradd â'r presenoldeb isaf yn yr ysgol.

Mae cwmpas yr adroddiad thematig hwn yn cynnwys graddau'r cymorth a ddarparodd awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ysgolion ac UC'Dau yn ystod y cyfnod hwn. Er nad yw'r cwmpas yn cynnwys darparwyr ôl-16 na darparwyr cyn-ysgol, cyfeiriwn at agweddau ar waith y sectorau hyn lle y bo hynny'n ddefnyddiol. Canolbwyntiodd yr adroddiad ar ddwy agwedd yn benodol:

- Hyrwyddo dysgu – ansawdd y cynnig dysgu a sut mae canllawiau pellach a dysgu proffesiynol wedi ategu hyn?
- Cefnogi disgyblion bregus – sut gwnaeth yr awdurdod lleol dargedu gwasanaethau a chymorth at ddisgyblion bregus i'w helpu i ymhél â dysgu? Pa rwystrau sy'n bodoli o hyd?

Hefyd, ystyriom y gwaith cynllunio cynnar a gweithredu ar gyfer y grant 'Recriwtio, adfer, a chodi safonau: y rhaglen dysgu carlam' ar draws ysgolion ac UC'Dau, a'r camau nesaf ar gyfer y gwaith hwn.

Ar adeg ein hymgysylltiadau gydag ysgolion ym mis Hydref, ychydig bach iawn o ddisgyblion oedd angen derbyn dysgu cyfunol. Roedd rhan fwyaf o ddisgyblion yn gallu mynd i'r ysgol ac elwa o addysgu wyneb yn wyneb. Lle y bo angen i ddisgyblion ynysu neu warchod, roedd ysgolion yn darparu dysgu o bell tan eu bod yn dychwelyd. Byddai dull dysgu cyfunol yn cynnwys cynllun cydlynol, bwriadol ar gyfer dysgu'r disgyblion, gyda chyfuniad o ddysgu yn yr ysgol a gartref nad oedd ei angen yn y rhan fwyaf o ysgolion yn ystod tymor yr hydref.

Y prif ganfyddiadau

- 1 Mae awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol wedi gweithio'n agos gyda'i gilydd a Llywodraeth Cymru i ymateb i'r cyd-destun sy'n datblygu, a achoswyd gan y pandemig. Trwy Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (ADEW), mae uwch arweinwyr wedi cynnig cymorth da i'w gilydd ac wedi cydweithredu i greu dulliau ac adnoddau ar y cyd.
- 2 Rhoddodd awdurdodau lleol gymorth gwerthfawr i alluogi i'w hysgolion a'u UC Dau ailagor i'w holl ddisgyblion yn llwyddiannus ym mis Medi. Cryfderau penodol oedd y cymorth ymarferol o ran iechyd a diogelwch a chyfathrebu â rhieni a dysgwyr. Er enghraifft, pan yn briodol, gweithiodd awdurdodau lleol gyda phartneriaid iechyd a gofal i gefnogi asesiadau risg, gan gynnwys i ddisgyblion bregus, a datblygu pecynnau croeso oedd yn darparu gwybodaeth i rieni, gofalwyr a disgyblion. Croesawodd arweinwyr ysgol y cyfarwyddyd gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ganolbwyntio ar les disgyblion, a theimlont fod hyn yn briodol.
- 3 Yn ystod y cyfnod clo a thymor yr hydref, bu'n rhaid i wasanaethau awdurdodau lleol ymateb yn gyflym i gefnogi lles yr holl ddisgyblion, yn enwedig y disgyblion y gwyddant eu bod yn fregus. Lle'r oedd awdurdodau lleol eisoes yn cydweithio'n effeithiol ar draws gwasanaethau ac asiantaethau allanol, roedd hyn yn amlwg yn effeithlonrwydd eu hymateb i'r anghenion hyn. Mewn awdurdodau lleol eraill lle nad yw'r cydweithio wedi'i sefydlu cystal, mae'r pandemig wedi bod yn gatalydd i gryfhau gweithio ar y cyd. Hefyd, cyfrannodd y defnydd estynedig ar gyfathrebu digidol at weithio amlasiantaeth mwy effeithlon mewn awdurdodau lleol.
- 4 Yn ystod cyfnod clo tymor y gwanwyn a'r haf, bu'n rhaid i athrawon ymateb yn gyflym i'r angen i ddarparu deunyddiau dysgu o bell i ddisgyblion. Fe wnaeth y ddarpariaeth hon wella yn ystod tymor yr haf. Oherwydd bod angen o hyd i nifer o ddisgyblion ddysgu i ffwrdd o'r ystafell ddosbarth yn ystod tymor yr hydref, mae gwella ymhellach a gwreiddio ddarpariaeth dysgu o bell a chyfunol yn parhau'n flaenoriaeth. Mae consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol wedi datblygu canllawiau defnyddiol, rhestr arfer dda ac amrywiaeth o ddysgu proffesiynol. Fodd bynnag, mae goruchwyliaeth ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol o ansawdd y ddarpariaeth wedi'i thanddatblygu. Nid yw 22 y cant o'r athrawon a ymatebodd i'r arolwg o'r farn eu bod wedi cael digon o ddysgu proffesiynol i ategu'u dealltwriaeth o ddysgu o bell a dysgu cyfunol.
- 5 Mae profiadau dysgu'r disgyblion wedi amrywio'n helaeth ar draws ac o fewn ysgolion ers ailagor. Mae hyn yn rhannol oherwydd effaith amrywiol y pandemig mewn ardaloedd gwahanol a, hefyd, o ganlyniad i'r polisïau a'r arferion gwahanol y mae awdurdodau lleol wedi'u mabwysiadu o ran cysylltiadau agos, a'r ffyrdd gwahanol y mae ysgolion wedi trefnu grwpiau a charfannau o ddisgyblion. Mae'r ffactorau hyn wedi arwain at brofiadau dysgu anghyfartal i ddisgyblion sydd wedi cael y rhan fwyaf o'u haddysg yn nhymor yr hydref yn yr ysgol ac i'r disgyblion hynny sydd wedi cael eu haddysgu o bell am gyfnodau estynedig. Mae'r rhwystrau rhag dysgu gartref, a amlygwyd yn nhymor yr haf, gan gynnwys mynediad at dechnoleg ddigidol, yn parhau.

- 6 Yn ei Adroddiad Blynyddol diweddar, nododd y Prif Arolygydd 'er ymdrechion sylweddol gan ysgolion, awdurdodau lleol a'r llywodraeth ganolog i ddarparu cyfarpar a chymorth ychwanegol, roedd lleiafrif o ddygwyr dan anfantais oherwydd diffyg mynediad at gyfarpar cyfrifiadurol addas neu ddiffyg cysylltedd digonol'. Mae'r rhwystrau dysgu yn y cartref a nodwyd yn nhymor yr Haf, gan gynnwys mynediad i dechnoleg ddigidol yn parhau.
- 7 Mae'r pandemig eisoes wedi cael mwy o effaith ar rai grwpiau o ddisgyblion ac wedi mwyhau heriau a fodolai eisoes. Er enghraifft, mae arweinwyr ysgol wedi dweud wrthym fod disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gwneud cynnydd arafach yn eu dysgu na'u cymheiriaid yn ystod y cyfnod clo, gyda rhai disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol â'u medrau iaith a rhifedd yn wannach nag yr oeddent cyn i'r cyfnod clo ddechrau.
- 8 Mae'r pandemig wedi gwaethygu rhai heriau yr oedd awdurdodau lleol a chonsortia eisoes wedi bod yn gweithio gydag ysgolion i fynd i'r afael â nhw. Mae profiad disgyblion ledled Cymru o'r pandemig wedi bod yn wahanol iawn o ganlyniad i'w hamgylchiadau gartref. Mae'r cyfnod cau ysgolion a'r angen i ddisgyblion weithio gartref am gyfnodau yn ystod tymor yr hydref wedi amlygu'r angen i ddisgyblion allu gweithio'n annibynnol yn llwyddiannus ac i ysgolion ganolbwyntio ar gynorthwyo disgyblion i wella gwydnwch dysgu.
- 9 Mae awdurdodau lleol a chonsortia wedi cydnabod effaith tymor hwy bosibl y pandemig ar les plant a phobl ifanc. Mae pob un ohonynt wedi cynnig dysgu proffesiynol estynedig i staff ysgolion ac UC Dau ar gefnogi lles, gan gynnwys, profedigaeth a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Mae plant a phobl ifanc sydd eisoes yn wynebu heriau oherwydd profiadau niweidiol yn ystod plentyndod cyn y pandemig wedi wynebu heriau pellach. Efallai hefyd fod y pandemig wedi effeithio ar blant a phobl ifanc mewn amgylchedd teuluol sefydlog, gydag ychydig neu ddim profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Er enghraifft, gall amser i fwrdd oddi wrth ffrindiau oherwydd cyfnodau clo, cyfnodau o ynysu neu orfod aros mewn swigod caeth yn yr ysgol gael effaith niweidiol ar ddatblygiad cymdeithasol disgyblion ac ar eu hiechyd meddwl.
- 10 Gan amlaf, mae awdurdodau lleol wedi sicrhau bod prosesau statudol i ddisgyblion yn gysylltiedig ag anghenion addysgol arbennig (AAA), gan gynnwys asesiadau ac adolygiadau blynyddol, wedi parhau yn ystod tymor yr hydref. Lle y bu oedi, y rheswm fwyaf cyffredin oedd prinder yng nghapasiti gwasanaethau seicoleg addysg a gwasanaethau arbenigol eraill oherwydd absenoldeb staff neu oblegid yr heriau o ddarparu'r gwasanaeth o bell.
- 11 Mae swyddogion consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol wedi parhau i gefnogi cymhwysedd digidol athrawon ac arweinwyr ysgol yn ystod tymor yr hydref. Mae'r defnydd effeithiol cynyddol o gyfathrebu digidol wedi cael canlyniadau cadarnhaol o ran hwyluso rhyngweithiadau mwy chwim, effeithlon a chyson rhwng ac o fewn cymunedau dysgu ledled Cymru. Mae ysgolion ac arweinwyr UC Dau wedi gwerthfawrogi hyblygrwydd cyfleoedd dysgu proffesiynol ar-lein a ddarparwyd gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol.

- 12 Mae barn gymysg ymhlith arweinwyr ysgol ledled Cymru am effeithiolrwydd y cymorth a gawsant gan eu hawdurdod lleol a'u consortiwm gwella addysg rhanbarthol yn ystod y pandemig. Arweinwyr ysgol yn ne-orllewin Cymru sy'n fwyaf bodlon â'r cymorth a gawsant gan eu hawdurdod lleol ac arweinwyr ysgol yng ngogledd Cymru sy'n fwyaf bodlon â'r cymorth a gawsant gan eu consortiwm rhanbarthol.
- 13 Gwnaeth awdurdodau lleol addasiadau cynnar priodol i'r trefniadau llywodraethu, ond roedd ychydig awdurdodau lleol yn rhy araf yn aildechrau eu swyddogaethau craffu. Erbyn canol Gorffennaf, roedd y rhan fwyaf o gynghorau wedi dechrau cynnal cyfarfodydd Cabinet ar-lein, ond dim ond hanner y cynghorau a oedd wedi cynnal cyfarfodydd rhithwir o'u pwyllgorau craffu. O ganlyniad, nid oedd hanner y cynghorau wedi craffu ar benderfyniadau ynghylch ailagor ysgolion a darparu cymorth i ddysgwyr yn yr haf. Erbyn yr hydref, roedd Cabinetau pob cyngor yn cwrdd ar-lein ac roedd pwyllgorau craffu yn y rhan fwyaf o gynghorau yn cwrdd ar-lein hefyd.

Argymhellion

Argymhellion i Lywodraeth Cymru weithio gyda chonsortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, a phartneriaid a darparwyr eraill i:

- A1 Ymateb ar frys i fynd i'r afael a'r rhwystrau i ddysgu o adre, yn enwedig lle mae'r rhain yn ymwneud a diffyg mynediad i gyfrifiaduron neu gyswllt a'r we
- A2 Gwella ansawdd y profiadau dysgu o bell a dysgu cyfunol i ddisgyblion trwy gefnogi addysgu mwy effeithiol ar draws ac o fewn ysgolion ac UC Dau
- A3 Datblygu dulliau cydlynol i wella cynnydd ym medrau llythrennedd, rhifedd a medrau personol a chymdeithasol disgyblion bregus y mae'r pandemig wedi effeithio'n anghymesur arnynt, er enghraifft disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim
- A4 Sefydlu strategaeth i fonitro ac i fynd i'r afael ar effaith hirdymor y pandemig ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl disgyblion
- A5 Creu cyfleoedd i bwysu a mesur a gwerthuso effaith polisiau ac arferion a ddatblygwyd yn ystod y cyfnod hwn i lywio ffyrdd o weithio yn y dyfodol a dylunio'r cwricwlwm

Arweinyddiaeth

Gwneud penderfyniadau a llywodraethu

- 14 Mae awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol wedi gweithio'n agos gyda'i gilydd a Llywodraeth Cymru i ymateb i'r cyd-destun sy'n datblygu, a achoswyd gan y pandemig. Trwy Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru - ADEW - mae cyfarwyddwyr addysg wedi gweithio ar y cyd i gefnogi'i gilydd yn ystod y pandemig. Mae cyfarwyddwyr wedi lleihau'r baich arny'n nhw'u hunain, eu swyddogion a'u staff yn y consortia rhanbarthol trwy amlygu agweddau ar waith y gallant gytuno i gydweithio arnynt neu weithio arnynt ar ran ei gilydd. Mae ADEW wedi ategu gwaith cenedlaethol gyda Llywodraeth Cymru, er enghraifft canllawiau ar barhad dysgu.
- 15 Mae Archwilio Cymru wedi cyhoeddi sawl adroddiad ar y modd y mae'r pandemig wedi effeithio ar drefniadau llywodraethu cynghorau. Yn gynnar yn ystod y cyfnod clo cyntaf, bu'n rhaid i gynghorau ddefnyddio trefniadau llywodraethu brys, gan olygu, gan amlaf, mai 'uwch swyddogion y cyngor fyddai'n gyfrifol am benderfyniadau ynghylch sut y byddai cynghorau'n defnyddio arian cyhoeddus ac yn darparu gwasanaethau, mewn ymgynghoriad â nifer lawer llai o uwch gynghorwyr nag y byddai fel arfer yn ymwneud â gwneud penderfyniadau – a dim ond arweinydd y cyngor weithiau.' (Archwilio Cymru, 2020).
- 16 Roedd rhai cynghorau'n araf i ddefnyddio rheoliadau newydd a ddaeth i rym yn Ebrill 2020 a'i gwnaeth hi'n haws i gynghorau gyfarfod yn rhithwir. Fel y nododd Archwilio Cymru, 'Yn achos rhai o'r cynghorau hynny, nid oes cofnod cynhwysfawr ar gael ar-lein o'r penderfyniadau a wnaethpwyd ers dechrau'r cyfyngiadau. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i'r cyhoedd weld a deall y penderfyniadau a wnaethpwyd gan eu cyngor yn ystod y cyfyngiadau, a phwy sy'n atebol amdanynt' (Archwilio Cymru, 2020).
- 17 Erbyn canol Gorffennaf 2020, roedd y rhan fwyaf o gynghorau wedi dechrau cynnal cyfarfodydd y Cabinet ar-lein, ond dim ond hanner y cynghorau oedd wedi cynnal cyfarfodydd rhithwir o'u pwyllgorau craffu. O ganlyniad, nid oedd hanner y cynghorau wedi craffu ar benderfyniadau ynghylch ailagor ysgolion i'r holl ddisgyblion a darparu cymorth i ddysgwyr yn yr haf. Erbyn yr hydref, roedd Cabinetau pob cyngor yn cyfarfod ar-lein ac roedd pwyllgorau craffu yn y rhan fwyaf o gynghorau'n cyfarfod ar-lein hefyd.
- 18 Pan fydd penderfyniadau pwysig yn cael eu gwneud am wasanaethau addysg, dylai awdurdodau lleol fel arfer ystyried barn arweinwyr ysgol, ynghyd â rhanddeiliaid eraill, lle y bo'n berthnasol. Darganfu ein harolwg o arweinwyr ysgol ledled Cymru ym mis Hydref 2020 fod y mwyafrif ohonynt yn cytuno bod eu hawdurdod lleol yn eu cynnwys yn effeithiol mewn penderfyniadau am wasanaethau addysg lleol. Fodd bynnag, nid yw ychydig arweinwyr ysgol o'r farn eu bod yn cael eu cynnwys ddigon. Mae awdurdodau lleol wedi parhau i adeiladu ar yr amrywiaeth o fforymau sydd ganddynt gydag arweinwyr ysgol ac UCD i gyfathrebu, ymgynghori ac, mewn ychydig achosion, datblygu dulliau ar y cyd.

Gweithio gyda'i gilydd i gefnogi ysgolion ac UCDAu

- 19 Roedd arweinwyr ysgolion ac UCDAu yn ne orllewin Cymru yn fwy cadarnhaol o lawer am waith eu hawdurdod lleol nag yr oedd arweinwyr yn y tri rhanbarth arall am eu hawdurdod lleol. Er enghraifft, roeddent yn fwy cadarnhaol am amseroldeb cyngor ac arweiniad gan yr awdurdod lleol, pa mor dda roedd eu hawdurdod lleol yn cyfathrebu â nhw, a'r cymorth a roddwyd i alluogi'u hysgol neu UCD i ailagor yn llwyddiannus ym Medi. Hefyd, roeddent yn fwy cadarnhaol ynghylch pa mor dda roedd eu hawdurdod lleol yn eu cynnwys nhw mewn trafodaethau am wasanaethau addysg. De orllewin Cymru yw'r unig ranbarth lle y mae ymgynghorwyr her yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan awdurdodau lleol, yn hytrach na chonsortia rhanbarthol, a gall hyn, yn rhannol, esbonio pam mae arweinwyr yn fwy cadarnhaol yn y rhanbarth hwn.
- 20 Mae barn arweinwyr ysgol am y cymorth a gânt gan eu consortiwm rhanbarthol yn amrywio'n sylweddol. Cytunodd mwyafrif o arweinwyr fod GwE wedi rhoi cymorth ac arweiniad effeithiol i ategu dysgu yn eu hysgol neu UCD. Roedd bron i hanner o arweinwyr wedi cytuno mai dyma'r achos gydag EAS, ond lleiafrif yn unig gytunodd mai dyma'r achos gyda CSC ac ERW. Hefyd, cytunodd mwyafrif o arweinwyr fod GwE wedi darparu gwybodaeth ddefnyddiol am y gwahaniaethau rhwng dysgu o bell a dysgu cyfunol, ac ymagweddau atynt. Dim ond ychydig dros hanner o arweinwyr gytunodd mai dyma oedd yr achos gyda CSC ac EAS, a lleiafrif yn unig gytunodd mai dyma oedd yr achos gydag ERW.
- 21 Dywedodd ychydig dros hanner o arweinwyr ysgol wrthym eu bod o'r farn bod eu hawdurdod lleol yn poeni am eu lles. Mae hyn yn awgrymu bod lle i wella yn y berthynas rhwng rhai awdurdodau lleol a'u harweinwyr ysgol. Dywedodd mwyafrif o athrawon a'r rhan fwyaf o staff cymorth wrthym fod eu hysgol yn gofalu'n dda am les staff.
- 22 Yn ystod y cyfnod clo cyntaf, bu'n rhaid i wasanaethau awdurdodau lleol ymateb yn gyflym i gefnogi lles pob dysgwr, yn enwedig y dysgwyr hynny y gwyddant eu bod yn fregus. Lle'r oedd awdurdodau lleol eisoes yn cydweithio'n effeithiol ar draws gwasanaethau ac asiantaethau allanol, roedd hyn yn amlwg yn effeithlonrwydd eu hymateb i anghenion. Er enghraifft, ym Mhen-y-bont ar Ogwr, roedd 'model gwasanaeth cymorth cynnar bro' eisoes yn golygu bod timau amlddisgyblaeth yn gweithio o dair canolfan yn y sir, gan weithio'n integredig i gefnogi teuluoedd â phlant a phobl ifanc bregus. Roedd timau hyn mewn sefyllfa dda i weithio'n gydweithredol a chynnig cymorth yn ystod y pandemig. Mewn awdurdodau lleol lle nad yw cydweithredu wedi'i sefydlu cystal, mae'r pandemig wedi bod yn gatalydd i gryfhau gweithio ar y cyd. Er enghraifft, mae gwasanaeth seicoleg addysg Ynys Môn a Gwynedd wedi cydweithredu â'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed i ddatblygu ymagwedd newydd at gefnogi disgyblion sy'n absennol o'r ysgol oherwydd eu lles emosiynol.
- 23 Mae awdurdodau lleol wedi ceisio cynorthwyo arweinwyr ysgol i baratoi ar gyfer amrywiol senarios yn wyneb ansicrwydd ynghylch sut gallai'r pandemig effeithio ar ysgolion yn ystod yr hydref ac yn 2021. Yn ein harolwg, dywedodd mwyafrif o arweinwyr ysgolion ac UCDAu wrthym fod eu hawdurdod lleol yn darparu arweiniad effeithiol i'w cynorthwyo i ddatblygu cynlluniau hyblyg pe bai cynnydd sydyn pellach mewn heintiadau.

Cameo: Cynllunio Gwydnwch Busnes Ysgolion

Cyn i ysgolion weithredu'n fwy, gofynnodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth Teuluol Pen-y-bont ar Ogwr i bob ysgol, gan gynnwys yr UC'D, lunio cynllun gwydnwch busnes. Darparodd yr awdurdod lleol dempled ar gyfer y cynllun. Gofynnwyd i leoliadau ystyried amrywiaeth o senarios posibl a'r camau y byddent yn eu cymryd i sicrhau parhad dysgu. Fe wnaeth yr awdurdod lleol sicrhau ansawdd y cynlluniau a, lle bo angen, gofyn am eglurhad pellach. Roedd senarios posibl yn cynnwys: hunanynysu gan ddisgyblion, naill ai yn unigol neu fel grwpiau blwyddyn gyfan; hunanynysu gan staff; cynllunio i sicrhau parhad arweinyddiaeth. Gallai atebion posibl cynnwys cynllunio a mapio dysgu cyfunol yn strategol; datblygu gallu a chapasiti staff a disgyblion i ddefnyddio platfformau ar-lein i ategu dysgu cyfunol; llunio pecynnau dysgu brys a baratowyd ymlaen llaw i bob grŵp o ddisgyblion; defnyddio grant Recriwtio, adfer a chodi safonau Llywodraeth Cymru, a threfniadau cyflenwi.

Cyflawni blaenoriaethau cyfredol

- 24 Mae awdurdodau lleol wedi ceisio cynnal 'busnes yn ôl yr arfer' cymaint â phosibl wrth ddelio ag anghenion ychwanegol amrywiol ysgolion ac UC'Dau yn gysylltiedig â'r pandemig. Er enghraifft, lle bynnag y bo'n bosibl, mae gwaith wedi parhau i ad-drefnu ysgolion a gwella cyfleusterau ysgolion fel rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru. Heb os, mae'r baich gwaith sy'n gysylltiedig ag ymateb i'r pandemig wedi arafu cynnydd mewn rhai ardaloedd. Er enghraifft, ar ddiwedd Mawrth 2020, gadawodd Castell-nedd Port Talbot y consortiwm gwella ysgolion rhanbarthol, ERW, a rhoddodd tri o'r pum awdurdod lleol arall rybudd o'u bwriad i adael ar ddiwedd Mawrth 2021. Mae'r diffyg cynllun clir ar gyfer gwasanaethau gwella ysgolion yn ne orllewin Cymru o Ebrill 2021 ymlaen yn bryder sylweddol. Mae aelodau etholedig ac uwch swyddogion o bob awdurdod lleol yn y rhanbarth wedi bod yn araf i ddangos bod ganddynt weledigaeth a chynllun clir ar gyfer y modd y darperir gwasanaethau gwella ysgolion o ansawdd uchel, sy'n bodloni'u hanghenion, i ysgolion ac UC'Dau o Ebrill 2021 ymlaen.
- 25 Yn anochel, mae'r pandemig wedi tarfu ar y gweithgareddau cynllunio a dysgu proffesiynol, yn canolbwyntio ar baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, yr oedd ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol wedi'u cynllunio ar gyfer eleni. O fis Medi, yn wreiddiol, roeddem wedi bwriadu dechrau trafodaethau gyda phob ysgol yng Nghymru am eu gwaith paratoi cynnar i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru o Fedi 2022 ymlaen. Yn hytrach, fe wnaeth ein trafodaethau gydag ysgolion yn yr hydref ganolbwyntio'n bennaf ar sut maen nhw'n ymateb i'r pandemig. Er y tarfu ar ein gwaith paratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, yn ein hadroddiad blynyddol diweddaraf, nododd ein Prif Arolygydd fod y pandemig 'wedi cyflwyno'r angen a'r cyfle i ddarparwyr ddatblygu ac arloesi ... Gellid dadlau bod yr elfen o ailfeddwl a fynnodd y cyfnod clo gan ysgolion, law yn llaw ag ymgysylltiad dyfnach â theuluoedd a gwasanaethau cymorth, wedi rhoi ysgolion mewn lle gwell i gyd-greu gweledigaeth gyffredin gyda'r rhanddeiliaid hyn ar gyfer gwireddu'r Cwricwlwm i Gymru' (Estyn, 2020, t.9).

Hyrwyddo dysgu

Cynorthwyo ysgolion ac UC Dau i ailagor i'r holl ddisgyblion

- 26 Cyn mis Medi, dim ond ychydig o ddiwrnodau roedd llawer o ddisgyblion wedi'u treulio yn yr ysgol ers dechrau pandemig COVID-19 ym Mawrth, ac nid oedd rhai wedi treulio unrhyw amser o gwbl yn yr ysgol. Ym mis Gorffennaf, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (2020c) ganllawiau i ysgolion a lleoliadau i gynorthwyo â dychwelyd i'r ysgol yn llawn ym mis Medi. Amlinellodd hyn flaenoriaethau ar gyfer dysgu, gan bwysleisio iechyd a lles disgyblion a phwysigrwydd dysgu yn yr awyr agored. Sicrhodd swyddogion o awdurdodau lleol eu bod yn mabwysiadu'r un blaenoriaethau yn eu gwaith gydag ysgolion ar ddechrau tymor yr hydref. Cydnabu swyddogion awdurdodau lleol y pwysau ar arweinwyr ysgol wrth iddynt gynllunio i ailagor ysgolion a faint o'u hamser roedd angen iddynt ei neilltuo i faterion gweithredol, gan gynnwys cadw staff a disgyblion yn ddiogel. Er mwyn cefnogi penaethiaid, roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol wedi cloriannu'r canllawiau ar ddysgu a dwyn gwybodaeth berthnasol ynghyd mewn un lle, fel yng Nghaerfyrddin, lle sefydlodd swyddogion wefan y Porth at y diben hwn. Dywedodd llawer o'r penaethiaid a ymatebodd i'n harolwg eu bod wedi cael digon o gymorth gan eu hawdurdod lleol i'w helpu i ailagor eu hysgol neu eu UC yn llwyddiannus. Cytunodd llawer ohonynt fod eu hawdurdod lleol wedi darparu arweiniad mewn da bryd. Mae hyn yn gwrthgyferbynnu â'r hyn y dywedodd arweinwyr ysgol wrthym am yr arweiniad yn nhymhorau'r gwanwyn a'r haf, pan deimlai llawer ohonynt fod yr arweiniad wedi cyrraedd yn rhy hwyr a'u bod wedi gorfod rhoi prosesau ar waith i ategu dysgu'r disgyblion cyn cael arweiniad.

Cameo: Cynorthwyo disgyblion i ddychwelyd i'r ysgol

Datblygodd GwE fodel rhanbarthol yn unol ag arweiniad Llywodraeth Cymru, gydag awdurdodau lleol ac ysgolion, i sicrhau bod anghenion unigol disgyblion yn cael eu bodloni, gan ystyried eu cyd-destun lleol. Roedd y model yn gwerthuso parodrwydd a dull yr ysgol i sicrhau bod dysgu'n parhau i bob disgybl. Canolbwyntiodd ar dair elfen gydberthynol sy'n asesu ffitrwydd disgyblion i ddysgu. Mae'r rhain yn cynnwys eu lles emosiynol a meddyliol; eu hiechyd a'u ffitrwydd corfforol; a'u medrau craidd, sef rhifedd, llythrennedd, annibyniaeth a pharodrwydd ar gyfer dysgu newydd.

Nod y model oedd cynorthwyo ysgolion i helpu disgyblion i ddychwelyd i 'ffitrwydd dysgu' a hybu dysgu sy'n caniatáu i ddisgyblion barhau i wneud cynnydd. Mae sicrhau cydlyniant i ddisgyblion rhwng dysgu yn yr ysgol a dysgu o bell yn elfen allweddol arall o'r model, gan gynnwys datblygu dysgu priodol wrth ddatgymhwyso gofynion presennol y cwricwlwm dros dro.

- 27 Yn ystod gwyliau haf yr ysgol ac i mewn i dymor yr hydref, adeiladodd consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol ar waith a ddechreuwyd yn ystod y cyfnod clo cyntaf i ddarparu cymorth ac arweiniad i ysgolion i sicrhau parhad dysgu'r disgyblion.

Mewn rhai achosion, cafodd adnoddau a ddarparwyd yn gynt yn ystod y pandemig eu diwygio a'u diweddarau i'w gwneud hi'n haws i arweinwyr ac athrawon ysgol eu defnyddio nhw. Er enghraifft, yn EAS, gwrandawodd swyddogion yn ofalus ar farn penaethiaid am y rhestr o fideos yn enghreifftio arfer effeithiol roedd swyddogion wedi dechrau ei llunio ar ddechrau'r pandemig. Yn nhymor yr haf, roedd y rhestr yn ddefnyddiol i ysgolion gan ei fod yn dwyn ynghyd y canllawiau cenedlaethol a lleol ar ddysgu o bell mewn un lle. Wrth i lefel y deunyddiau gynyddu, roedd hi'n fwy anodd ac yn cymryd mwy o amser i staff ysgolion ddefnyddio'r adnodd, ac ymatebodd swyddogion yn dda i hyn trwy symleiddio'r cynnwys mewn adnodd haws ei ddefnyddio ar y we.

Cameo: Gwefan 'Cefnogi ein Hysgolion'

I ymateb i adborth gan randdeiliaid, mae EAS wedi creu gwefan newydd sy'n gartref i'w hadnoddau cymorth i ysgolion. Mae'n haws mynd o gwmpas y wefan newydd na'r rhestr a ddefnyddiodd y gwasanaeth yn flaenorol. Caiff adnoddau eu labelu'n glir ac mae'n hawdd pori drwyddynt. Mae'r wefan yn cynnwys adrannau ar bynciau gwahanol, fel llywodraethu, gwella'r ysgol, arweiniad ar ddefnyddio cyllid y grant dysgu carlam a chymorth â'r cwricwlwm. Hefyd, mae'r wefan yn cynnwys doleri i wefan newydd sy'n gartref i'r holl adnoddau'n ymwneud â dysgu o bell a dysgu cyfunol. Mae'r adnoddau hyn hefyd wedi'u trefnu'n glir o dan themâu ac mae nifer o enghreifftiau o astudiaethau achos a chyflwyniadau addysgiadol gan ysgolion, ynghyd â dolenni i adnoddau allanol defnyddiol. Er mwyn ei gwneud hi'n hawdd i arweinwyr ganfod unrhyw anodau newydd, caiff y rhain eu hamlygu bob wythnos mewn adran ar wahân, cyn cael eu symud i'r adran â'r thema berthnasol. Mae staff EAS yn darparu sesiynau rhagarweiniol ar-lein i'r gwefannau newydd. Mae'r sesiynau addysgiadol hyn, sy'n boblogaidd, yn benodol i sector ac ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yn ogystal ag arddangos y gwefannau, mae'r sesiynau hyn hefyd yn cynnwys dewis o sesiynau grŵp gyda chyflwyniadau gan ysgolion a chyfle i drafod mewn grwpiau bach.

Nodi llithro yn ôl mewn dysgu a mynd i'r afael â hynny

- 28 Yn gynnar yn nhymor yr hydref, dechreuodd arweinwyr ysgol gynllunio'r ffordd orau y gallent ddefnyddio cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y rhaglen 'Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau'. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (2020e) ganllawiau ar gyfer ysgolion i gynorthwyo â defnyddio'r grant, gan ddefnyddio gwaith sefydliadau cenedlaethol a rhyngwladol, gan gynnwys y Comisiynydd Plant a'r OECD, i nodi effaith y pandemig ar gynnydd disgyblion mewn dysgu. Er bod llawer o ddisgyblion heb wneud cymaint o gynnydd ag y gallent, roedd y llywodraeth yn cydnabod bod effaith y pandemig yn fwy ar rai grwpiau o ddisgyblion. Roedd y rhain yn cynnwys disgyblion mewn grwpiau blwyddyn sy'n paratoi ar gyfer arholiadau, disgyblion a oedd wedi pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, a disgyblion bregus a difreintiedig. Fe wnaeth awdurdodau lleol a rhanbarthau gynorthwyo ysgolion i gynllunio ar gyfer defnyddio'r grant. Er enghraifft, yn GwE, fe wnaeth swyddogion weithio gydag ysgolion i geisio sicrhau bod penaethiaid yn defnyddio'r cyllid mewn ffordd gynaliadwy a chysoni ei ddefnydd â blaenoriaethau lleol, gan gynnwys strategaeth y Gymraeg, er budd disgyblion yn y tymor hwy. Ledled Cymru, bu'n anodd i lawer o ysgolion recriwtio staff gan ddefnyddio'r grant gan eu bod yn ceisio

denu nifer gyfyngedig o bobl a oedd ar gael. Fe wnaeth ychydig ysgolion gyflogi athro neu gynorthwydd addysg ar y cyd a defnyddiodd llawer o ysgolion y cyllid i gynyddu oriau staff presennol. Mewn ysgolion llai, nid oedd y cyllid yn ddigon yn aml i allu helpu gyda recriwtio. Er ei bod hi'n rhy gynnar i ysgolion ac awdurdodau lleol fonitro effaith y grant ar fynd i'r afael â diffyg medrau disgyblion, mae gan swyddogion awdurdodau lleol a chonsortia gynlluniau ar waith i wneud hyn. Darparodd swyddogion yn awdurdod lleol Powys gyngor defnyddiol i lywodraethwyr ar sut i werthuso defnydd ysgolion o gyllid ar gynydd disgyblion.

- 29 Mae effaith y cyfnod clo cyntaf ar ddysgu a medrau disgyblion yn amrywio'n helaeth ledled Cymru. Yn eu hastudiaeth ar Waith Ysgol yn ystod y Cyfnod Clo, canfu ymchwilyr o UCL (Green, 2020) fod plant ledled y Deyrnas Unedig wedi treulio 2.5 awr y dydd, ar gyfartaledd, yn cymryd rhan mewn dysgu. Mae eu hymchwyl yn dangos bod 20% o ddisgyblion wedi cymryd rhan mewn dysgu am lai nag awr bob dydd a dim ond 17% weithiodd am fwy na phedair awr (Green, 2020, t.2). Mae hyn yn golygu bod bron pob disgybl ar draws y DU, rhwng Mawrth a Medi 2020, wedi treulio llawer llai o amser na'r arfer yn dysgu yn ystod y pandemig. Yng Nghymru, roedd nifer y disgyblion a wnaeth gymryd rhan mewn dysgu yn is na'r cyfartaleddau ar gyfer y DU. Canfu'r astudiaeth nad oedd 20% o ddisgyblion yn gwneud unrhyw waith ysgol gartref, neu eu bod yn gwneud llai nag awr y dydd (Green, 2020, t.19). Dim ond 15% o ddisgyblion oedd yn dysgu am bedair awr bob dydd (Green, 2020, t.19). Mae'r adroddiad yn amlygu anghydraddoldeb sylweddol yn gysylltiedig ag amddifadedd a grwpiau cymdeithasol. Mae ein canfyddiadau o alwadau ymgysylltu ag ysgolion yn ystod Hydref 2020 yn adlewyrchu'r canfyddiadau hyn. Dywed penaethiaid o ysgolion mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol fod athrawon wedi'i chael yn anos cael disgyblion a theuluoedd i ymgysylltu â dysgu yn ystod tymor yr haf. Adroddom ar y rhesymau dros hyn, gan gynnwys mynediad at dechnoleg ar gyfer dysgu a chymorth gan rieni, yn adran thematig Adroddiad Blynyddol 2019-2020 (Estyn, 2020).

Cameo: Aseu lefel ymgysylltiad dysgwyr ym Mro Morgannwg

Cyn ailagor i'r holl ddisgyblion, datblygodd swyddogion yr awdurdod lleol, ar y cyd ag CSC ac ysgolion, fatrics i aseu lefel ymgysylltiad disgyblion a'u lles. Trwy sgysrsiau a gynhaliwyd rhwng partneriaid gwella a phenaethiaid, casglwyd gwybodaeth gan 55 o 56 ysgol ym Mro Morgannwg. Fe wnaeth yr adroddiad defnyddiol grynhoi canfyddiadau allweddol, rhwystrau a heriau ysgolion, ac arfer effeithiol ar draws y rhanbarth, a gorffennodd drwy amlygu ffyrdd ymlaen. Mae'r wybodaeth a gasglwyd wedi cael ei defnyddio i lywio polisi lleol a rhannu arfer effeithiol ar draws yr awdurdod lleol trwy gasgliad o astudiaethau achos. Yn ogystal, darparwyd cefnogaeth i ysgolion i helpu cryfhau meysydd fel cynyddu ymgysylltiad disgyblion bregus.

- 30 Wrth i ddisgyblion ddychwelyd i'r ysgol ym Medi 2020, rhoddodd arweinwyr ac athrawon brosesau ar waith i nodi effaith cyfnod cau'r ysgolion ar ddysgu a medrau disgyblion. Defnyddiodd llawer o ysgolion asesiadau personol ar-lein cenedlaethol ar gyfer darllen a rhifedd gyda disgyblion ym Mlynnyddoedd 2 i 9 i ategu asesiadau athrawon eu hunain o fedrau disgyblion. Roedd nodi lefelau medrau disgyblion yn dilyn cyfnod cau'r ysgolion yn her arbennig i ysgolion uwchradd wrth i ddisgyblion

symud o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7. I helpu ysgolion nodi gwaelodlin ar gyfer y disgyblion hyn mewn ysgolion uwchradd ar draws rhanbarth y de ddwyrain, darparodd EAS gyllid i ysgolion i gynorthwyo ag asesu disgyblion. Ar y cyfan, dywed awdurdodau lleol fod medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion ar eu hól hi, ac yn gynnwys ym Mis Hydref dywed penaethiaid y bu effaith negyddol ar fedrau siarad a medrau cymdeithasol disgyblion iau yn y cyfnod sylfaen. Mae swyddogion awdurdodau lleol a chonsortia yn gweithio gydag ysgolion i fynd i'r afael â'r diffyg medrau hyn ac maent yn ymwybodol o'r angen i sicrhau nad yw ysgolion yn canolbwyntio ar y medrau craidd hyn ar draul y cwricwlwm ehangach.

Cefnogi sgiliau Cymraeg

- 31 Problem a nodwyd yn ystod tymor yr haf oedd dysgu disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg o gartrefi Saesneg eu hiaith, gan nad oedd llawer o'r disgyblion hyn wedi cael cyfle i glywed nac ymarfer yr iaith. Roedd mynd i'r afael a'r mater yma yn un o nodau rhaglen 'Recriwtio, adfer a chodi safonau' Llywodraeth Cymru. Wrth i'r disgyblion oedd wedi effeithio gan hyn ddychwelyd i'r ysgol ym mis Medi, roedd staff yn pryderu'n arbennig am lefelau medrau siarad disgyblion. Rhoddodd awdurdodau lleol nifer o fentrau ar waith i gefnogi ysgolion a disgyblion. Er enghraifft, yng Nghastell-nedd Port Talbot, datblygodd gwasanaeth ymgynghorol y Gymraeg adnoddau defnyddiol a chydweithio â'r Fenter Iaith a'r Urdd i ddarparu cymorth i ysgolion. Yn Wrecsam, sicrhodd swyddogion fod disgyblion ysgolion cyfrwng Cymraeg y bu'n rhaid iddynt hunanynysu ers Medi yn cael pecynnau adnoddau a sesiynau wyneb yn wyneb neu sesiynau ar-lein wythnosol, gan gynnwys podlediadau. Defnyddiodd sawl awdurdod lleol, gan gynnwys Conwy a Phen-y-bont ar Ogwr, eu cyfleusterau trochi i gynnig cymorth ychwanegol i'r disgyblion hyn ac fe wnaeth Caerdydd gynyddu ei ddarpariaeth yn y maes hwn i helpu ymdopi â'r galw. Hefyd, darparodd swyddogion yn y consortia rhanbarthol gymorth i ysgolion. Gosododd EAS aelodau o'i dîm cymorth Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ar draws y rhanbarth yn nhymor yr hydref i gynorthwyo staff a disgyblion i fynd i'r afael â'r diffyg ym medrau disgyblion. Yn ein trafodaethau â phenaethiaid o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg, dywedodd llawer ohonynt eu bod yn gwerthfawrogi'r cymorth gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol ar gyfer addysgu'r Gymraeg, yn enwedig yr adnoddau a luniwyd gan staff tîm ymgynghorol y Gymraeg i gefnogi'r ddarpariaeth yn yr ysgol.

Cameo: Cefnogi disgyblion sy'n newydd i'r Gymraeg

Un enghraifft o alinio gwaith Gwynedd a GwE yn agos yw eu dull o gynorthwyo ysgolion i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion. Fe ddwysaodd her darparu ar gyfer eu hanghenion ieithyddol pan ail-agorodd ysgolion ar gyfer yr holl ddisgyblion ym mis Medi oherwydd anawsterau cynnal unedau Cymraeg yn eu ffurf draddodiadol. I gefnogi ysgolion cynradd, trefnodd yr awdurdod lleol i'r athrawon arbenigol gynnig gwasanaeth allgymorth ar sail clwstwr, gyda swyddog cymorth gwella'r clwstwr yn gweithio gyda'r ysgolion i greu ac addasu cynlluniau gwaith Cymraeg.

- 32 Ymatebodd tua 1,000 o rieni i gwestiwn ein harolwg am y cymorth i ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Dywedodd llawer o'r rhain eu bod yn hapus â'r

cymorth a ddarparodd yr ysgol i helpu eu plant i wneud cynnydd o ran eu Cymraeg. Ychydig bach iawn o rieni deimlodd nad dyma oedd yr achos, ond o'r rhai a oedd o'r farn honno, dywedont fod diffyg cymorth i rieni nad ydynt yn siarad Cymraeg a diffyg adnoddau dwyieithog i alluogi rhieni i roi cymorth i'w plant gartref. Cytunodd y rhan fwyaf o'r disgyblion a ymatebodd i'n harolwg eu bod yn cael cymorth da i'w helpu gyda'u medrau Cymraeg.

Cameo: Cefnogi datblygiad Cymraeg disgyblion

Yn Sir Gaerfyrddin, nododd swyddogion yn gynnar yn ystod y pandemig fod angen cefnogi disgyblion i barhau i ymwneud â'r Gymraeg. Fe wnaeth tîm ymgynghorol y Gymraeg addasu a mireinio'u hadnoddau presennol i ddarparu gweithgareddau i ysgolion ac UC Dau eu rhannu gyda disgyblion a rhieni. Yn ogystal, aethant ati i greu gweithgareddau allgyrsiol a gwersi micro i ddisgyblion adalw dysgu blaenorol, adolygu gramadeg a datblygu'u medrau darllen a'u medrau rhifedd. Darparont dasgau buddiol yn seiliedig ar gerddi Cymraeg fel ysgogiad i ddysgu, ynghyd â darparu gweithgareddau i ddatblygu medrau Cymraeg disgyblion drwy'r 'Cynllun Clonc' a gweithgareddau Flipgrid.

Defnyddiwyd y cyfryngau cymdeithasol yn dda i hyrwyddo gweithgareddau Cymraeg, er enghraifft gweithgareddau gwyddonol yn yr awyr agored a gweithgareddau ar hanes yr ardal leol. Hefyd, dosbarthwyd llyfrynau gwaith cartref i alluogi rhieni i gynorthwyo'u plant â gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg. Gweithiodd swyddogion yr awdurdod lleol ac athrawon nifer o'i ysgolion uwchradd gyda staff y consortiwm rhanbarthol i greu amrywiaeth eang o adnoddau Cymraeg gwerthfawr i gefnogi disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Fe wnaeth swyddogion barhau i ddatblygu adnoddau i ysgolion trwy gydol tymor yr hydref i gynorthwyo ysgolion i wella datblygiad Cymraeg disgyblion.

Hyrwyddo profiadau cwricwlwm eang

- 33 Trwy addasu'r hysbysiadau ynglŷn â'r gofynion cwricwlwm yng Nghymru, newidiodd Llywodraeth Cymru'r gofynion bod rheidrwydd ar ysgolion a lleoliadau meithrin nas gynhelir sy'n cael eu hariannu i ddarparu cwricwlwm sylfaenol a'r trefniadau asesu cysylltiol. Yn ymarferol, bu'r cwricwlwm gulhau mewn llawer o ysgolion yn ystod tymor yr hydref. Oherwydd eu hasesiadau risg unigol neu gam ddealltwriaeth o ofynion arweiniad gweithredol Llywodraeth Cymru, bu nifer o ysgolion yn gweld yr angen am ddiheintio adnoddau rhwng eu defnyddio. Yn yr ysgolion yma, roedd hyn wedi effeithio yn arbennig ar y disgyblion ieuengaf a'r hynaf. Er enghraifft, yn y cyfnod sylfaen, ystod gyfyngedig o adnoddau oedd ar gael i ddisgyblion y cyfnod sylfaen eu defnyddio yn eu darpariaeth barhaus ac estynedig. Mewn ysgolion uwchradd, roedd yn anos i athrawon reoli mynediad disgyblion at offer mewn pynciau ymarferol fel celf a gwyddoniaeth.

Cameo: Cefnogi addysgu gwyddoniaeth

Rhannodd timau pwnc ERW arweiniad clir a defnyddiol a roddodd sicrwydd i athrawon gwyddoniaeth yn y rhanbarth a'u cefnogi. Er enghraifft, rhoddodd tîm gwyddoniaeth ERW enghreifftiau o safleoedd ar-lein yn cynnwys fideos yn arddangos arbrofion, ac adnoddau defnyddiol a difyr y gallai athrawon eu defnyddio ar gyfer dysgu o bell.

- 34 Mewn ychydig awdurdodau lleol, daeth cyflwyno gwasanaethau a rennir i ysgolion i ben, er enghraifft hyfforddiant cerddoriaeth beripatetig i ddisgyblion. Mewn awdurdodau lleol, gan gynnwys Caerffili a Chaerdydd, daeth swyddogion o hyd i ffyrdd newydd o ddarparu'r gwasanaethau hyn. Yng Ngheredigion, darparodd tîm technoleg gwybodaeth yr awdurdod gymorth i'r gwasanaeth cerddoriaeth i'w galluogi i addysgu'n rhithiwr. Mae hyn wedi galluogi disgyblion i barhau i dderbyn gwersi offerynnol. Mae'r ffordd hon o weithio wedi dileu amser teithio tiwtoriaid ac wedi cyfrannu at gynnal safonau'r disgyblion.

Cameo: Gwasanaeth cerdd Caerffili

Mae swyddogion yr awdurdod lleol wedi gweithio i sicrhau bod y gwasanaeth cerdd i ysgolion wedi gallu ailgydio yn ei waith yn llawnach o Fedi ymlaen. Mae'r awdurdod lleol wedi darparu arweiniad clir i staff y gwasanaeth cerdd ac ysgolion ar sut gellir cyflwyno'r gwasanaeth hwn yn ddiogel mewn ysgolion. Hefyd, mae wedi rhoi arweiniad a phrotocolau manwl ar sut y gellir cyflwyno'r gwasanaeth o bell. Mae'r arweiniad yn cwmpasu amrywiaeth o faterion a senarios, gan gynnwys gwersi i unigolion a dosbarthiadau, sesiynau byw a sesiynau wedi'u recordio, ac ystyriaethau diogelu. Hefyd, mae'r arweiniad yn rhoi gwybodaeth glir ynghylch sut dylai canllawiau Llywodraeth Cymru gael eu dilyn yng nghyd-destun gwasanaeth cerdd Caerffili.

- 35 Ym mis Tachwedd 2020, cadarnhaodd y Gweinidog Addysg, ar gyfer cymwysterau yn 2021, na fydd arholiadau diwedd blwyddyn ar gyfer disgyblion sy'n sefyll arholiadau TGAU, UG neu Safon Uwch. Sefydlodd y Gweinidog Grŵp Dylunio a Chyflawni i roi cyngor ar y broses o ddyfarnu cymwysterau heb arholiadau. Roedd cynlluniau ar gyfer y broses hon unwaith eto'n cael eu hadolygu wrth i'r tymor ddechrau ym mis Ionawr gyda'r holl ddisgyblion yn dysgu o gartref oherwydd cyfyngiadau symud cenedlaethol arall. Er ei bod yn ddealladwy ac yn angenrheidiol bod cynlluniau ar gyfer dyfarnu cymwysterau wedi gorfod newid eto eleni, gall y newidiadau hyn, yn enwedig newidiadau yn ystod y flwyddyn, achosi straen a phryder mawr i ddisgyblion, yn ogystal ag athrawon.
- 36 Mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 sy'n dilyn cyrsiau cwricwlwm amgen o bryder arbennig i lawer o ysgolion. Mae llawer iawn o amrywiaeth o ran pa mor hawdd y gall y disgyblion hyn fanteisio ar eu darpariaeth amgen ac oddi ar y safle, ac mae hyn wedi bod yn her sylweddol i ysgolion o ran amserlennu. Nid yw nifer fawr o gyrsiau mwy ymarferol, fel trin gwallt a harddwch, wedi gallu cael eu cynnal. O ganlyniad, mae ychydig ddisgyblion sydd fel arfer yn manteisio ar ddarpariaeth o'r fath, yn enwedig y rhai oedd gynt mewn perygl o gael eu gwahardd, yn dangos ymddygiad heriol neu'n ymddieithrio. Hyd yn oed pan mae'r cyrsiau hyn yn hygyrch, mae'r amserlen yn llai yn aml gan na all y darparwr ganiatáu i ddisgyblion o un ysgol

gymysgu ag ysgol arall. Ym Mhowys, fe wnaeth swyddogion ymgysylltu â'r holl ddisgyblion ôl-16 drwy wefan Llwybrau Dysgu Powys yn ystod gwyliau'r haf. Helpodd hyn i ddisgyblion deimlo'u bod yn cael eu cefnogi a theimlo'n gysylltiedig ar ôl cyfnod o darfu ar eu dysgu. Ar yr un pryd, darparodd swyddogion yr awdurdod lleol unedau pontio defnyddiol i ddisgyblion a oedd ar fin dechrau cyrsiau ôl-16. Mae'r unedau hyn, ynghyd â'r cyswllt, wedi helpu disgyblion i bontio i'w hastudiaethau ôl-16. Yn ystod tymor yr hydref, bu rhaid i ddisgyblion aros yn eu hysgol eu hunain ar gyfer pob dysgu gan nad oedd hi'n bosibl ymweld â champysau eraill, hyd yn oed os oedd eu hathrawon pwnc yn gweithio yn rhywle arall. Gyda chymorth swyddogion yr awdurdod lleol, mae athrawon pwnc wedi ffrydio gwersi'n fyw er mwyn galluogi pob disgybl fanteisio arnynt. Gan fod yr awdurdod lleol eisoes wedi defnyddio dysgu o bell drwy eu rhaglen 'e-sgol', roedd y pontio i ddysgu ar-lein yn gymharol ddi-dor ac mae ysgolion a disgyblion yn gyfarwydd â sut i wneud y defnydd gorau ohono.

- 37 Mae darparwyr addysg ôl-16 wedi datblygu cynlluniau wrth gefn ar gyfer cyfnodau clo lleol neu achosion o COVID-19 ac maent yn parhau i ddiwygio agweddau ar gyflwyno addysgu, hyfforddi ac asesu ar draws y sectorau. Lle y bu'n rhaid i leoliadau lle mae disgyblion yn cael addysg neu hyfforddiant wyneb yn wyneb gau, mae'r cyfyngiadau ar fynediad at weithleoedd disgyblion yn parhau'n rhwystr mawr rhag dysgu. Mae darparwyr yn cynnig gweithgareddau ar-lein i gynnal ymgysylltiad a diddordeb dysgwyr, ond her allweddol mewn rhaglenni a chyrtsiau galwedigaethol yw cynnal ymgysylltiad a symbyliad disgyblion yn ystod cyfnodau clo neu hunanynysu. Fe wnaeth y disgyblion hyn ddewis cyrsiau ymarferol ac, oherwydd yr argyfwng presennol, mae'r agwedd hon yn aml wedi'i hatal neu ei lleihau yn sylweddol. Dywed darparwyr y gallai disgyblion lefelau uwch ar raglenni lefel uwch, hyd yn oed y rhai sy'n dilyn cyrsiau a rhaglenni academaidd, fethu gwneud y cynnydd a ddisgwyliwyd yn wreiddiol am resymau teuluol, er enghraifft oherwydd bod gofal plant yn cyfyngu ar eu hamser astudio.

Hyrwyddo dysgu o bell a dysgu cyfunol mwy effeithiol

- 38 Yn ei hymchwil a gomisiynwyd gan Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd, canfu Dr Sofya Lyakhove o Brifysgol Abertawe (2020) y gallai cyfran fach o ddisgyblion wneud cynnydd yn eu dysgu, yn enwedig mewn darllen, er bod llawer o ddisgyblion yn disgyn ar ei hôl hi yn eu dysgu academaidd heb fynediad at athrawon a chymorth gan eu rhieni. Dyma ddisgyblion sydd â'r gallu i hunanreoleiddio neu, fel y dywed John Hattie (2020), 'maent yn gwybod beth i'w wneud pan nad ydynt yn gwybod ac mae help prin ar gael'. Mae ymchwil Lyakhova yn pwysleisio bod angen i iechyd a lles emosiynol disgyblion fod yn iach er mwyn iddynt allu dysgu'n annibynnol. Mae ymgynghorwyr gwella ysgolion wedi nodi bod meithrin gwydnwch a datblygu medrau annibynnol wedi dod yn fwy amlwg fel blaenoriaethau i ysgolion ers i ddisgyblion ddychwelyd i'r ysgol yn yr hydref. Mae swyddogion awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn ymwybodol o'r angen am fwy o ffocws ar strategaethau dysgu ac addysgu sy'n cyflymu datblygiad galluoedd disgyblion yn y meysydd hyn.
- 39 Daeth yr angen i ysgolion weithredu'n gyflym i fynd i'r afael â'r angen i ddisgyblion ddysgu gartref yn fwy argyfyngus wrth i dymor yr hydref fynd yn ei flaen. Ym mis Medi 2020, daeth hi'n glir y byddai achosion positif o COVID-19 yn effeithio ar ysgolion ac y byddai angen i ddisgyblion hunanynysu gartref am gyfnodau ar y tro. Yn ein harolwg, dywedodd llawer o lywodraethwyr fod gan eu hysgolion a'u UC'Dau

gynlluniau cadarn ar waith i sicrhau y gallai addysgu barhau pe bai disgyblion i ffwrdd o'r ysgol oherwydd cyfnod clo arall neu'r angen i ynysu. Cytunodd mwyafrif o benaethiaid, gan ddweud bod awdurdodau lleol wedi darparu canllawiau effeithiol i gynorthwyo ysgolion ac UC Dau i ddatblygu cynlluniau hyblyg i ddelio ag achosion pellach o haint COVID-19. Yn ymarferol, mae profiadau disgyblion o ganlyniad i'r achosion hyn wedi amrywio'n helaeth ledled Cymru oherwydd effaith amrywiol y pandemig mewn ardaloedd gwahanol, a hefyd y polisiâu a'r arferion gwahanol y mae awdurdodau lleol wedi'u mabwysiadu yn gysylltiedig â chysylltiadau agos a'r gwahanol ffyrdd y mae ysgolion wedi trefnu grwpiau a charfannau o ddisgyblion. Mae hyn wedi arwain at fwy o anghydraddoldeb yn y profiadau dysgu rhwng disgyblion a dderbyniodd eu haddysg yn nhymor yr hydref yn yr ysgol a'r rhai sydd wedi'u haddysgu o bell, am gyfran sylweddol o'r tymor mewn ambell achos. Lle mae hyn yn digwydd, mae'r rhwystrau rhag dysgu gartref a nodwyd yn nhymor yr haf, gan gynnwys mynediad at dechnoleg ddigidol a chymorth rhieni, yn parhau. Pan gynhaliom arolwg o arweinwyr ysgolion ym mis Hydref 2020, roedd llawer o benaethiaid o'r farn bod awdurdodau lleol wedi bod yn darparu adnoddau technoleg gwybodaeth a chysylltiadau â'r rhyngwrwyd yn rhagweithiol i'r disgyblion heb fynediad at y rhain gartref. Roedd barn athrawon a llywodraethwyr yn llai cadarnhaol am y cymorth hwn. Dywedodd tua hanner y llywodraethwyr fod awdurdodau lleol wedi darparu cymorth effeithiol yn y maes hwn. Er y dywedodd llawer o athrawon ysgolion cynradd ac UC Dau a mwyafrif o athrawon ysgolion arbennig fod ysgolion yn helpu disgyblion i oresgyn rhwystrau rhag dysgu gartref, dim ond rhyw hanner yr athrawon ysgol uwchradd a lleiafrif o athrawon ysgolion pob oed a ymatebodd i'n harolwg oedd yn cytuno.

- 40 Ym mis Tachwedd 2020, siaradodd Comisiynydd Plant Cymru (2020) â disgyblion o Flynnyddoedd 9 i 13 i amlygu unrhyw wahaniaethau yn eu profiadau dysgu rhwng tymhorau'r haf a'r hydref, yn benodol y cyfnod pan roedd yr holl ddisgyblion yn y grwpiau blwyddyn hyn yn gweithio gartref oherwydd y cyfnod atal byr cenedlaethol. Dywedodd y disgyblion a gymerodd ran yn y gwaith hwn bod gwelliannau wedi bod i'w profiadau o ddysgu o bell. Roedd eu diwrnodau wedi'u strwythuro mewn modd tebyg i amserlen ysgol ac roedd athrawon wedi cadarnhau bod dyfeisiau digidol gan bob disgybl, a rhoddwyd adborth ar-lein amserol iddynt ar eu gwaith. Mewn rhai ysgolion, gofynnwyd i ddisgyblion ateb arolygon am eu profiadau dysgu ac, o ganlyniad, roedd athrawon wedi gwneud addasiadau yn addas i ddisgyblion. Er enghraifft, darparodd rhai ysgolion recordiadau o wersi i ddisgyblion eu defnyddio ar adeg oedd yn gyfleus iddynt. Roedd y problemau a godwyd gan ddisgyblion yn cynnwys faint o waith a ddarparwyd, a olygai eu bod yn gweithio oriau hir, ac anghysondeb y ddarpariaeth rhwng gwahanol feysydd pwnc. Hefyd, rhannont bryderon am y diffyg cymorth gan rieni sydd heb y medrau i'w cefnogi a diffyg medrau digidol rhai athrawon. Dywedodd llawer ohonynt eu bod yn gweld eisiau rhyngweithio ag athrawon a disgyblion eraill ac, er bod y dysgu o bell wedi gwella, nad yw'n cymharu'n dda o hyd â dysgu yn yr ysgol. Pwysigrwyd rhyngweithio o bell rhwng cymheiriaid oedd un o ganfyddiadau Asesiad Brys o Dystiolaeth yr EEF (2020). Ar draws yr astudiaethau a adolygwyd gan ymchwilyr EEF, darganfuont amrywiaeth o strategaethau i gefnogi rhyngweithio rhwng cymheiriaid, gan gynnwys marcio ac adborth gan gymheiriaid, rhannu modelau gwaith da, a chyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn trafodaethau byw am gynnwys. Mae'r dystiolaeth gan ddisgyblion ac ysgolion yn dangos bod angen datblygu'r maes dysgu o bell hwn.

- 41 Ledled Cymru, mae swyddogion consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol wedi gweld pandemig COVID-19 yn gyfle i ganolbwyntio ar ddatblygu ethos ac egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru, er enghraifft y ffocws ar iechyd a lles mewn ysgolion ar ddechrau tymor yr hydref. Ym Mhowys, mae ymgynghorwyr her yn hyrwyddo defnyddio egwyddorion addysgegol i gyfoethogi dysgu disgyblion. Yn Sir y Fflint, darparodd swyddogion hyfforddiant ar ddefnyddio amgylchedd yr awyr agored fel ffordd o ddatblygu gwydnwch a dyfalbarhad disgyblion wrth ddatrys problemau. Darparwyd yr hyfforddiant i leoliadau nas cynhelir, ysgolion meithrin a chynradd, ac UC Dau gyda disgyblion oed cynradd. Ar draws rhanbarth GwE, mae swyddogion yn cydnabod bod llawer o ysgolion uwchradd wedi gorfod newid eu dull a chynllunio gwersi fesul blociau thematig oherwydd bod disgyblion mewn 'swigod'. Mae swyddogion ac aelodau etholedig o'r farn bod hyn yn gryfder, gan ei fod yn cysylltu'n glir â gweledigaeth yr awdurdod ar gyfer gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru. Mae llawer o ysgolion uwchradd wedi defnyddio'r adnoddau a ddarparwyd drwy 'ganolfan gymorth' ar-lein newydd GwE, gan gynnwys unedau gwaith amlddisgyblaeth sy'n cyd-fynd yn dda ag egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru. Er y gwaith cadarnhaol hwn, mae cydnabyddiaeth hefyd fod y pandemig wedi arafu'r cynnydd a wnaed gan ysgolion wrth fynd i'r afael â gweithredu'r cwricwlwm newydd.

Dysgu proffesiynol

- 42 Fe wnaeth consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol gynyddu ystod y cyfleoedd dysgu proffesiynol i fynd i'r afael â'r angen ychwanegol a achoswyd gan y pandemig. Fe wnaeth llawer o'u gwaith yn nhymor yr hydref ganolbwyntio ar helpu ysgolion i ddeall a datblygu ymagweddau at ddysgu o bell a dysgu cyfunol, gan adeiladu ar y gwaith a ddechreuwyd ganddynt yn ystod y cyfnod clo. Wrth i ysgolion nodi anghenion disgyblion pan ddychwelsant i addysg amser llawn, ymatebodd swyddogion mewn awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol trwy addasu'u cynnig dysgu er mwyn helpu athrawon i fynd i'r afael ag anghenion penodol disgyblion. Mae GwE yn cynnig amrywiaeth fawr o gyfleoedd i ysgolion gymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu proffesiynol i wella llythrennedd, rhifedd a strategaethau dysgu carlam disgyblion. Yn Abertawe, addasodd swyddogion eu cynnig dysgu wrth i'w dealltwriaeth o effaith dysgu o bell ar ddisgyblion ddatblygu. Buont yn gweithio gydag ysgolion i gynnig y model ffit orau ar gyfer amgylchiadau unigol. Er enghraifft, fe wnaeth yr awdurdod lleol helpu athrawon i ddylunio deunyddiau papur ar gyfer dysgu o bell yn sgil tystiolaeth nad yw disgyblion yn dysgu cystal o flaen sgrin o gymharu â dysgu ar bapur. Hefyd, darparodd swyddogion yn Abertawe gymorth i ysgolion ddatblygu eu dull o asesu gwaith disgyblion drwy blatfformau rhithwir. Cynigion hyfforddiant rhithwir ar ddulliau a oedd yn cynnwys defnyddio cwisiau mini, rhoi adborth trwy ddefnyddio'r cyfleuster sgwrsio byw ar blatfformau fel 'Microsoft Teams', defnyddio recordiadau fideo i esbonio tasgau newydd ac amlygu camsyniadau, a chynnig adborth i'r dosbarth cyfan ar gamsyniadau cyffredin. Bu ychydig awdurdodau lleol, gan gynnwys Caerdydd, yn cydweithio â sefydliadau fel y Brifysgol Agored i gefnogi dysgu proffesiynol mewn ysgolion. Yng Nghaerdydd, bu ysgolion a Choleg Caerdydd a'r Fro yn gweithio gyda'r Brifysgol Agored i gyflwyno rhaglen o weithdai ar-lein rhyngweithiol, yn canolbwyntio ar addysgeg a dylunio dysgu yn effeithiol.

Cameo: Defnyddio tystiolaeth o gyfathrebu ag ysgolion i lywio dysgu proffesiynol

Cynhaliodd swyddogion yn Abertawe arolwg gyda phenaethiaid cynradd, gan geisio gwybodaeth am anghenion hyfforddi penodol yn ystod y pandemig. Fe wnaethant ddadansoddi'r atebion a llunio rhestr o eitemau ar gyfer gweminarau yn y dyfodol. Roedd y rhain yn cynnwys datblygu'r defnydd o sesiynau byw, sut i ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael drwy Hwb a phlatfformau/apiau defnyddiol eraill, ac awgrymiadau am adnoddau hawdd eu defnyddio i athrawon, i'w helpu wrth ddyllunio gweithgareddau dysgu ar-lein/dysgu o bell. O ganlyniad, lluniodd yr awdurdod lleol raglen gynhwysfawr o weminarau i fynd i'r afael â'r rhain.

- 43 Defnyddiodd swyddogion o awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol y cyfnod clo cychwynnol i droi at ymchwil genedlaethol a rhyngwladol, i amlygu arfer effeithiol i'w rhannu gydag ysgolion. Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, casglodd partneriaid gwella ysgolion dystiolaeth am ddysgu gan y Sefydliad Gwaddol Addysg (2020); ymhlith eu canfyddiadau oedd bod ansawdd addysgu yn bwysicach na sut y caiff ei gyflwyno. Mae hyn wedi helpu ysgolion yn yr awdurdod lleol i feddwl am eu hymagweddau at ddysgu o bell a dysgu cyfunol. Yn Sir Gaerfyrddin, defnyddiodd swyddogion gwaith Michael Fullan yn sylfaen ar gyfer symud dysgu o fodel dysgu o bell a ddefnyddiwyd yn ystod y cyfnod pan oedd ysgolion ar gau i fodel y gellid ei ddefnyddio wrth i ysgolion ailagor yn llawn ar gyfer tymor yr hydref. Yn EAS, fe wnaeth swyddogion addasu dull Simon Brakespear i helpu arweinwyr ysgol i ystyried eu hymateb i'r pandemig fesul cam ac amlygu beth oedd yn bwysig ac yn wahanol ym mhob cam.
- 44 Mae swyddogion o awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol wedi dechrau rhoi cynlluniau ar waith i werthuso effaith eu cymorth i ysgolion ar ddysgu disgyblion. Yng Ngwynedd, mae swyddogion yn cydnabod nad yw'n bosibl llunio casgliadau ystyrlon eto ynghylch ymagweddau ysgolion at ddysgu o bell. Fodd bynnag, yn dilyn yr achos cyntaf pan fu'n rhaid i ysgolion orfod anfon carfan sylweddol o ddisgyblion adref yn ystod tymor yr hydref, fe wnaeth swyddogion werthuso'r ddarpariaeth dysgu o bell. Creont astudiaeth achos i ysgolion eraill, yn amlinellu'r goblygiadau a'r ffactorau y mae angen i arweinwyr ac athrawon eu hystyried wrth gynllunio i ddisgyblion ddysgu o bell. Yn dilyn cyfarfodydd clwstwr gyda'r gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol i drafod dysgu o bell a dysgu cyfunol, fe wnaeth un ysgol yn Wrecsam dreialu defnyddio dull dysgu o bell digidol tra roedd disgyblion yn y dosbarth. Cwblhaodd un grŵp o ddisgyblion weithgareddau a thasgau ar-lein wrth i'r athro ddefnyddio hyfforddiant uniongyrchol gyda disgyblion eraill. Caniataodd hyn i athrawon gynorthwyo disgyblion i ddefnyddio meddalwedd a llwytho gwaith i blatfform digidol pan roeddent yn yr ysgol. Hefyd, roedd yn caniatáu i'r ysgol fonitro a gwerthuso effeithiolrwydd y gweithgareddau a'r tasgau a osodwyd ar gyfer dysgu o bell. Mae'r ysgol yn addasu ei dull yn dilyn adborth o'r broses hon. Cynhaliodd EAS arolwg i gael amgyffredion arweinwyr am gynnig dysgu EAS. Mae awdurdodau lleol yn y rhanbarth yn defnyddio'r wybodaeth hon i'w helpu i ddatblygu trosolwg o ddarpariaeth eu hysgol. Ar draws Cymru, mae'n rhy gynnar eto i allu gwerthuso effaith y gwaith hwn yn llawn ar ysgolion a disgyblion, oherwydd megis dechrau cael eu datblygu y mae prosesau i werthuso ansawdd y cynigion dysgu, gan gynnwys dysgu o bell.

- 45 Bu hyfforddiant i gefnogi cymhwysedd digidol athrawon barhau yn nhymor yr hydref. Darparodd swyddogion ERW gyfres o webinarau i ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig, ac UC'Dau, yn rhoi trosolwg o'r adnoddau sydd ar gael drwy Hwb i gefnogi dysgu cyfunol a dysgu o bell, gan ategu'u gwaith cynharach. Fe wnaeth y sesiynau gynnwys themâu penodol i arweinwyr ysgol, fel beth i'w ystyried wrth i grwpiau blwyddyn unigol orfod ynysu. Hefyd, roedd y gweminarau hyn yn cynnwys recordiadau a thrafodaethau byw gydag arweinwyr ysgol o bob rhan o'r rhanbarth; rhoddodd y rhain dawlwech meddwl i arweinwyr ysgol wrth ystyried y ffordd orau o roi eu cynlluniau eu hunain ar waith. Yn ogystal, fe wnaeth y tîm rannu adnoddau diogelwch a hunanadolygu ar-lein, ynghyd â chymorth cwricwlaidd ar gyfer meysydd penodol, er enghraifft i ddatblygu arfer athrawon wrth godio. Mae Google Classroom a sefydlwyd yn benodol i gynorthwyyr addysgu ddatblygu'u medrau ar-lein, wedi denu dros 200 o bobl i gymryd rhan. Yn ein galwadau ymgysylltu ag ysgolion, nododd penaeithiaid fod y gwelliant ym medrau TGCh athrawon a'u hyder wrth ddefnyddio technoleg i gefnogi dysgu'r disgyblion yn effaith gadarnhaol y pandemig ar ysgolion. Roedd yr angen i athrawon roi eu dysgu ar waith yn gyflym wedi gwneud y dysgu proffesiynol yn uniongyrchol berthnasol i'w hanghenion.
- 46 Wrth i ddysgu proffesiynol symud ar-lein, canfu'r rhan fwyaf o gonsortia ac awdurdodau lleol fod mwy o ymarferwyr wedi ymgymryd â chyfluoedd dysgu gan nad oedd y rhain yn golygu diwrnodau cyfan i ffwrdd o'r ysgol mwyach a gellid troi at y deunyddiau unrhyw bryd. Dywedodd mwyafrif o staff cymorth a ymatebodd i'n harolwg eu bod wedi derbyn dysgu proffesiynol effeithiol i'w cynorthwyo i ddychwelyd i'r ysgol yn llwyddiannus. Er gwaetha'r cyfluoedd dysgu proffesiynol oedd ar gael, canfu ein harolwg hefyd nad oedd 22% o'r athrawon a ymatebodd yn teimlo'u bod wedi cael digon o gyfluoedd i gefnogi'u dealltwriaeth o ddysgu o bell a dysgu cyfunol.
- 47 Mae'r cyfnod er Mawrth 2020 wedi cyflwyno sawl her i awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol o ran eu gwaith i gefnogi ysgolion. Hefyd, darparodd gyfluoedd i feddwl yn wahanol a gweithio mewn ffyrdd gwahanol. Mae swyddogion yn ymwybodol o'r angen i ddysgu o'r profiad ac maent yn awyddus i gynnal ac adeiladu ar y ffyrdd newydd o weithio sydd wedi cael effaith gadarnhaol. Mae defnyddio platfformau digidol i gynnal cyfarfodydd fel modd o gyflwyno dysgu proffesiynol wedi bod yn effeithiol o ran amser a chost, ac mae wedi galluogi mwy o staff addysg i gymryd rhan yn y rhain yn amlach. Yn nhymhorau'r gwanwyn a'r haf 2020, bu'n rhaid i athrawon ymateb yn gyflym i'r angen i ddarparu deunyddiau dysgu o bell i ddisgyblion. Fe wnaeth y ddarpariaeth hon wella yn ystod tymor yr haf ac, wrth i nifer y disgyblion yr oedd angen iddynt ddysgu i ffwrdd o'r ystafell ddosbarth gynyddu yn ystod yr hydref, mae'r angen i wella a gwreiddio dysgu o bell a dysgu cyfunol ymhellach wedi parhau'n flaenoriaeth. Mae'r pandemig wedi pwysleisio materion yr oedd awdurdodau lleol a chonsortia eisoes wedi bod yn gweithio gydag ysgolion i fynd i'r afael â nhw. Mae'r rhain yn cynnwys effaith tloidi ar deuluoedd ac, yn benodol, ar ddysgu plant. Mae profiad disgyblion ledled Cymru o'r pandemig wedi bod yn wahanol iawn o ganlyniad i'w hamgylchiadau lleol a'u hamgylchiadau gartref. Mae cyfnod clo cychwynnol a'r angen i ddisgyblion weithio gartref am gyfnodau yn ystod tymor yr hydref wedi amlygu'r angen i ddisgyblion allu gweithio'n annibynnol yn llwyddiannus ac i ysgolion ganolbwyntio ar gynorthwyo disgyblion i wella gwydnwch dysgu.

Cefnogi disgyblion bregus

Paratoi i ddisgyblion ddychwelyd ym mis Medi

- 48 Ar ôl croesawu disgyblion yn ôl i'w hysgol neu UCD am gyfnod byr ar ddiwedd tymor yr haf, trodd sylw arweinwyr at gefnogi disgyblion bregus yn ystod gwyliau'r haf, ynghyd â pharatoi ar gyfer tymor yr hydref. Trefnodd awdurdodau lleol amrywiol weithgareddau haf, wedi'u harwain gan weithwyr ieuencid yn aml. Fel arfer, roedd y rhain yn targedu'r disgyblion mwyaf bregus, fel plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol a phlant yr oedd eu hymddygiad yn eu cymuned yn bryder, a darparont amrywiaeth o weithgareddau defnyddiol i gefnogi medrau personol a chymdeithasol, ynghyd â'u lles.
- 49 Fe wnaeth llawer o wasanaethau cymorth i ddisgyblion bregus barhau yn ystod gwyliau'r haf hefyd, fel cwnsela ar-lein, ymweliadau lles â theuluoedd mewn angen, a llinellau cymorth i'r rhai yr oedd angen cymorth arnynt. Ym Merthyr Tudful, fe wnaeth swyddog yr awdurdod lleol gadw mewn cysylltiad gydol gwyliau'r haf gyda disgyblion a theuluoedd sy'n Sipsiwn, Roma neu Deithwyr, i'w cynorthwyo i ddal ati i ddysgu, a dywedodd ysgolion fod cyfran dda o'r disgyblion hyn wedi dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi 2020. Yn Nhorfaen, fe wnaeth swyddogion lles addysg nodi disgyblion na wnaethant gymryd rhan mewn sesiynau 'Ailgydio, dal i fyny a pharatoi ar gyfer yr haf a mis Medi' mewn ysgolion ar ddiwedd tymor yr haf (Llywodraeth Cymru, 2020d). Yna, bu'r swyddogion yn gweithio'n agos gyda theuluoedd i gynorthwyo disgyblion i ddychwelyd i'r ysgol ym mis Medi.

Cameo: Ailgysylltu disgyblion trwy weithgareddau haf

Cydnabu swyddogion yn Sir Ddinbych y byddai rhai disgyblion bregus yn elwa o fewnbwn ychwanegol er mwyn eu hailgysylltu â dysgu yn llwyddiannus. Sicrhant arian grant i gyflwyno gweithgareddau difyr a chyfoethog i dargedu disgyblion ifanc bregus a disgyblion o ardaloedd dan anfantais yn economaidd. Bu'r Gwasanaethau Addysg a Phlant yn gweithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Ieuencid a phartneriaid allanol i ddarparu rhaglen o weithgareddau gwyliau'r haf dros 5 wythnos. Helpodd hyn i bontio'r bwlch rhwng y cyfnod clo ac ailagor ysgolion yn llawn i'r holl ddisgyblion ym mis Medi trwy ysbrydoli pobl ifanc trwy weithgareddau chwaraeon, cerddoriaeth, drama, meithrin tîm a chreffft. Fe wnaeth gweithgareddau gynnwys gwersi ar ddrymio Affricanaidd, gweithdy drama wedi'i arwain gan un o sêr y 'West End', a gemau tîm ar draeth. Cafodd pawb a gymerodd ran ginio a thocynnau bws am ddim er mwyn ei gwneud hi'n haws iddynt fynychu.

- 50 Er bod gwyddonwyr wedi rhybuddio am botensial 'ail don' o COVID-19, nid oedd modd rhagweld hwn o ran maint nac amseriad. Roedd Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo y byddai pob disgybl yn dychwelyd ar sail amser llawn yn yr hydref, gyda'r posibilrwydd o ddechrau yn raddol ym mis Medi. Fe wnaeth swyddogion awdurdodau lleol ac, weithiau, swyddogion consortia rhanbarthol, weithio'n agos

gydag arweinwyr ysgol ac UC'D ledled Cymru i sicrhau bod safleoedd ysgolion yn ddiogel i ddisgyblion. Mewn rhai achosion, cynhaliodd swyddogion iechyd a diogelwch asesiadau risg ar y cyd ag arweinwyr ysgol ac UC'D. Mewn achosion eraill, cynhaliodd arweinwyr eu hasesiadau eu hunain ac anfonwyd y rhain at swyddogion i'w gwirio. Yn ddefnyddiol, mae llawer o awdurdodau lleol wedi cynnal cyfarfodydd galw heibio ar-lein neu wedi defnyddio fforwm digidol i benaethiaid drafod materion iechyd a diogelwch gyda swyddogion.

- 51 Lle bo'n berthnasol, cynhaliwyd asesiadau risg unigol ar gyfer disgyblion bregus ag anghenion addysgol arbennig a disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt; yn aml, fe wnaeth swyddogion awdurdodau lleol gefnogi'r broses hon a chynorthwyo ag unrhyw bryderon o ganlyniad. Er enghraifft, gweithiodd swyddogion yng Nghaerffili gyda rhieni a staff ysgol i drafod y defnydd o gyfarpar diogelwch penodol pan fydd plentyn â chyflwr ar y sbectwm awtistig yn poeri dan drallod. Mewn ysgol arall, darparodd swyddogion fygydau diogelu anadlol llawfeddygol i staff ar gyfer gweithio gyda disgyblion y mae angen gweithdrefnau aerosol neu sugno arnynt.
- 52 Rhoddodd ysgolion ac UC'Dau ledled Cymru flaenoriaeth i les disgyblion ar ddechrau tymor yr hydref. Darparodd consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol ddysgu proffesiynol, arweiniad ac adnoddau i helpu staff i ystyried y problemau posibl. Canolbwyntiodd llawer o'r dysgu proffesiynol a gynigiwyd i arweinwyr, athrawon a staff cymorth ledled Cymru ar ddeall sut gall trawma effeithio ar blant a phobl ifanc, a sut gall staff nodi'r rheiny sy'n cael trafferth a'u cefnogi. Er enghraifft, cynigiodd GwE 'Rhaglen dychwelyd i'r ysgol i ysgolion sy'n wybodus am drawma', a oedd yn cynnwys strategaethau ymarferol ac egwyddorion a modelau dysgu ac addysgu allweddol. Yn EAS, cynigiwyd hyfforddiant i gynorthwywyr addysgu ar gyflwyno rhaglen ymyrraeth chwe wythnos ar 'ymdopi a chysylltu' i gynorthwyo disgyblion bregus targedig ddod i'r arfer â bywyd ysgol eto. Ym Mhowys, fe wnaeth cymorth presennol rhwng ysgolion barhau, gyda staff yr UC'D yn hyfforddi staff ysgolion ledled yr awdurdod lleol ar gefnogi ymddygiad disgyblion a pharodrwydd disgyblion i ddysgu pan fyddent yn dychwelyd i'r ysgol.
- 53 Yn ogystal, fe wnaeth dysgu proffesiynol ganolbwyntio ar bwysigrwydd perthnasoedd, gydag ysgolion ac UC'Dau yn cael eu hannog i neilltuo amser i hyn ar ddechrau tymor yr hydref. Er enghraifft, prynodd CSC gysylltiad â'r Agweddau Cymdeithasol ac Emosiynol ar Ddysgu (SEAL) i bob ysgol, a chomisiynodd ERW gomisiynu yr Athro Robin Banerjee i gyflwyno dysgu proffesiynol er mwyn datblygu dealltwriaeth staff fod hunaneffeithlonrwydd a hunangysylltiad yn allweddol ar gyfer cefnogi lles.
- 54 Rhoddodd rhai awdurdodau lleol wybodaeth a chynghor i rieni a gofalwyr ar helpu disgyblion i dychwelyd i'r ysgol. Er enghraifft, creodd Sir Gaerfyrddin becyn 'Croeso'n ôl' a esboniodd brofiad posibl disgyblion wrth ddefnyddio cludiant ysgol ac awgrymiadau ymarferol ynghylch sut i gefnogi lles eu plentyn.

Cameo: Cefnogi anghenion lles disgyblion bregus yn barod ar gyfer dychwelyd i'r ysgol

Ar y cyd â'r tîm Seicoleg Addysg, darparodd arweinwyr ac athrawon yng Nghastell Nedd Port Talbot 'Broffil Un Dudalen' drwy Microsoft Forms i bob disgybl ei lenwi cyn y cyfnod 'Ailgydio, dal i fyny a pharatoi ar gyfer yr haf a mis Medi'. Roedd hwn yn ddull effeithiol o gael gwybodaeth unigol, uniongyrchol gan ddisgyblion am eu lles yn ystod y cyfnod clo cychwynnol. Roedd y wybodaeth hon yn ganllaw i ddisgyblion wrth iddynt dychwelyd, yn enwedig i grwpiau penodol, bregus, fel disgyblion ag AAA.

- 55 Roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn hapus i dychwelyd i'r ysgol ym Medi 2020, ar gyfer y cysylltiad cymdeithasol â ffrindiau, yn ogystal â bwrw ymlaen â'u dysgu. Rhoddodd llawer o benaethiaid y cysylltom â nhw sylwadau am ba mor ymgysylltiedig yr oedd y rhan fwyaf o ddisgyblion, a pha mor gadarnhaol yr oeddent i dderbyn arferion a gweithdrefnau newydd. Canfu ein harolwg o ddisgyblion ym mis Hydref 2020 fod 77% ohonynt yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Pan holwyd disgyblion mewn arolwg fel rhan o arolygiad eu hysgol cyn y pandemig, dywedodd 89% o'r disgyblion wrthym, ar gyfartaledd, eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae hyn yn dangos y pryder yr oedd rhai disgyblion yn ei deimlo ynghylch dychwelyd i'r ysgol, er y mesurau amddiffynnol a oedd ar waith. Yn benodol, mynegodd disgyblion bryder am ymddygiad anniogel ychydig bach iawn o ddisgyblion nad oeddent yn dilyn rheolau'r ysgol ac a oedd yn peri risg i eraill. Mae rhai arweinwyr ysgol wedi nodi bod newidiadau a orfodwyd i'r ffordd y mae'r ysgol yn gweithredu, fel amseroedd egwyl am yn ail, parthau ar gyfer grwpiau blwyddyn gwahanol a systemau un ffordd, wedi cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad disgyblion ac maent yn ystyried pa newidiadau y gallai fod yn ddefnyddiol parhau â nhw ar ôl i'r pandemig ddod i ben.
- 56 Roedd disgyblion a oedd yn symud i ddosbarth newydd yn eu hysgol neu UCD, neu i ysgol neu UCD newydd ym mis Medi 2020, wedi colli allan ar y gweithgareddau pontio arferol, gan gynnwys ymweliadau i ymgyfarwyddo â'r safle a'r staff. Fe wnaeth ysgolion ac UC Dau wneud yn iawn am y diffyg ymweliadau a chyfluoedd i gyfarfod â staff newydd yn nhymor yr haf drwy deithiau fideo defnyddiol a chyflwyno'r staff, ynghyd â gwybodaeth ar wefannau i helpu disgyblion i baratoi ar gyfer eu pontio. Yn ein harolwg, roedd 92% o'r disgyblion a symudodd i ddosbarth newydd ym mis Medi o'r farn bod athrawon wedi'u helpu i gynefino, gyda dim ond ychydig bach ohonynt yn anghytuno.
- 57 Dywedodd rhai ysgolion cynradd fod plant ifanc sy'n dechrau'r ysgol am y tro cyntaf yn Medi 2020 yn llai parod ar gyfer yr ysgol na'r arfer. Hefyd, lle'r oedd y cyfnod clo cychwynnol wedi tarfu ar flwyddyn gyntaf plant yn yr ysgol, sylwont fod parodrwydd y plant hyn ar gyfer dysgu wedi llithro yn ôl. Er enghraifft, nododd ysgolion wendidau yn natblygiad medrau cymdeithasol a chyfathrebu'r disgyblion hyn, ac mae mwy o blant na'r arfer yn methu defnyddio'r toiled a bwyta yn annibynnol. Mae hyn yn ei gwneud hi'n fwy anodd i ddisgyblion ifanc gynefino ac mae'n ymestyn adnoddau staff i'w cynorthwyo nhw.

Cameo: Rhannu dulliau ysgol o gefnogi medrau yn y blynyddoedd cynnar ar draws Sir Fynwy

Sylwodd un ysgol gynradd yn Sir Fynwy fod gorffen yr ysgol yn sydyn ym mis Mawrth wedi cael effaith negyddol sylweddol ar ddisgyblion yn y dosbarth derbyn. O fis Mawrth ymlaen, roedd llawer o'r disgyblion ifanc hyn wedi gwneud llai o gynnydd yn eu medrau personol, cymdeithasol a dysgu nag y byddid wedi'i ddisgwyl fel arfer. I helpu mynd i'r afael â hyn, gweithiodd arweinwyr, athrawon a staff cymorth gyda rhieni i greu fframwaith o fedrau i fynd i'r afael â'r diffyg hwn. Rhannodd yr ysgol y strategaeth llwyddiannus hon o fewn yr awdurdod lleol i gynorthwyo ysgolion eraill a'u teuluoedd sy'n gweld materion tebyg. Roedd yr awdurdod lleol wedi nodi bod strategaeth yr ysgol yn llwyddiannus ac aethant ati i rannu'r gwaith yma gydag ysgolion eraill.

- 58 Er bod bron pob un o'r disgyblion wedi dychwelyd i'r ysgol neu'r UCD ym mis Medi 2020, ni wnaeth ychydig bach iawn o ddisgyblion ddychwelyd a dewisodd rhai rhieni addysgu'u plant gartref. Mae nifer y disgyblion sydd wedi bod yn cael eu haddysg gartref wedi bod yn cynyddu'n raddol dros y blynyddoedd diwethaf, ond bu cynnydd tipyn mwy eleni. Dywed tua hanner yr awdurdodau lleol fod nifer y teuluoedd sy'n dewis addysgu'u plant gartref wedi cynyddu o ganlyniad i'r pandemig.
- 59 Gohiriodd Llywodraeth Cymru gyflwyno canllawiau a rheoliadau statudol ar addysg ddewisol yn y cartref oherwydd COVID-19, felly mae cyfrifoldebau a phwerau awdurdodau lleol yn gysylltiedig â sicrhau bod hawl pob plentyn i addysg yn cael ei chynnal yn parhau'n gyfyngedig. Mae llwyddiant ymdrechion awdurdodau lleol i annog y teuluoedd hyn i ymgysylltu'n wirfoddol yn amrywio. Yn achos y gyfran fawr o deuluoedd sy'n barod i ymgysylltu, mae awdurdodau lleol yn cynnig graddau amrywiol o gymorth i rieni a gofalwyr plant sy'n cael eu haddysg gartref. Er enghraifft, ym Môn, sefydlodd swyddogion fforwm addysg ddewisol yn y cartref i helpu cryfhau'r gweithdrefnau o ran addysg gartref ac, yng Nghastell-nedd Port Talbot, gweithiodd swyddogion cynhwysiant ag ysgolion i roi arweiniad i rieni disgyblion â datganiad o anghenion addysgol arbennig.
- 60 Ni wnaeth ychydig bach iawn o ddisgyblion ddychwelyd i'w hysgol neu eu UCD oherwydd pryderon iechyd a diogelwch penodol a olygai fod y risg i'w hunain neu i staff yn rhy fawr. Er enghraifft, fe wnaeth hyn gynnwys disgyblion â chyflyrau iechyd difrifol a disgyblion ag ymddygiad eithriadol o heriol. Yn yr achosion prin hyn, mae awdurdodau lleol wedi gweithio gydag ysgolion ac UC Dau i sicrhau bod y disgyblion hyn yn gallu parhau i ddysgu gartref cymaint â phosibl.
- 61 Yn aml, fe wnaeth awdurdodau lleol fynd ati i helpu pobl ifanc bregus i ddychwelyd i'r ysgol ym mis Medi 2020. Er enghraifft, yng Ngheredigion, roedd tîm o arbenigwyr ieuencid yn gysylltiedig â phob ysgol uwchradd. Fe wnaeth gweithwyr ieuencid, gweithwyr ymddygiad arbenigol a gweithwyr cyfiawnder ieuencid gynorthwyo disgyblion yr oedd yn hysbys bod risg iddynt beidio ag ymgysylltu â'u haddysg. Cyfrannodd y cymorth hwn, yn ychwanegol at gymorth gan yr ysgolion eu hunain, at gyfraddau presenoldeb uchel i'r disgyblion hyn.

Cefnogi lles

- 62 Yn achos plant a phobl ifanc y mae nifer o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod eisoes yn peri her iddynt, gall y pandemig fod wedi gwaethygu'r heriau a wynebant ac achosi niwed mawr i'w lles. Mae'r pandemig hyd yn oed wedi effeithio yn arwyddocaol ar blant a phobl ifanc mewn amgylchedd teuluol sefydlog ag ychydig neu ddim profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Er enghraifft, gall amser i ffwrdd rhag ffrindiau oherwydd cyfnodau clo, cyfnodau o hunanynysu neu orfod aros mewn swigod caeth yn yr ysgol gael effaith andwyol ar ddatblygiad cymdeithasol disgyblion ac ar eu hiechyd meddwl. Yn wir, nododd ysgolion ac awdurdodau lleol nad disgyblion y byddent wedi'u hystyried yn bregus yn flaenorol oedd rhai o'r disgyblion a oedd wedi dod yn destun pryder iddynt.
- 63 Yn ystod cyfnod clo cychwynnol, mireiniodd ysgolion ac awdurdodau lleol eu dulliau a'u systemau ar gyfer nodi a monitro disgyblion bregus a rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau. Yng Nghaerdydd, er enghraifft, sefydlodd yr awdurdod lleol system ddata newydd ar gyfer casglu gwybodaeth am ddisgyblion bregus. Adolygwyd y wybodaeth hon yn wythnosol gan 'banel disgyblion bregus ar y cyd', a gynlluniodd ymateb cydlynedig ar draws gwasanaethau.
- 64 Yn ystod y cyfnod clo cychwynnol, bu'n rhaid i wasanaethau awdurdodau lleol ymateb yn gyflym i gefnogi lles pob disgyblion, yn enwedig disgyblion y gwyddent eu bod yn bregus. Lle'r oedd awdurdodau lleol eisoes yn cydweithio'n effeithiol ar draws gwasanaethau ac asiantaethau allanol, roedd hyn i'w weld yn effeithlonrwydd eu hymateb i anghenion. Mewn awdurdodau lle'r oedd cydweithio heb ei sefydlu cystal, mae'r pandemig wedi bod yn gatalydd ar gyfer cryfhau cydweithio. Er enghraifft, mae gwasanaeth seicoleg addysg Ynys Môn a Gwynedd wedi cydweithio â'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed i ddatblygu ymagwedd newydd at gefnogi disgyblion sy'n absennol o'r ysgol oherwydd eu lles emosiynol.

Cameo: Gweithio amlddisgyblaethol – rhannu gwybodaeth a darparu atebion

Nodwedd allweddol o allu Pen-y-bont ar Ogwr i addasu ac ymateb yn gyflym i anghenion plant a phobl ifanc, yn enwedig y rhai sy'n fregus, yw'r cysylltiadau cryf sy'n bodoli ar draws ac o fewn meysydd gwasanaeth. Er enghraifft, mae'r 'model gwasanaeth cymorth cynnar bro', sydd eisoes yn bodoli ar draws y fwrdeistref, yn helpu sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn rhannu gwybodaeth berthnasol gyda'i gilydd. Mae staff amlddisgyblaeth wedi'u cyd-leoli ar dri safle yn y fwrdeistref. Mae trafodaethau a gwaith sy'n canolbwyntio ar atebion, gyda theuluoedd, yn cynnwys gwasanaethau arbenigol gwahanol. Mae'r ymagwedd integredig hon yn helpu sicrhau hefyd fod cymorth yn cael ei flaenoriaethu a'i neilltuo'n briodol.

Yn ogystal, mae datblygiad y ganolfan ddiogelu amhwyllasant, sydd wedi bod ar waith am y ddwy flynedd ddiwethaf, wedi cyfrannu at rannu gwybodaeth am bryderon diogelu ynghylch unigolion. Mae cydweithwyr o Heddlu De Cymru, y bwrdd iechyd lleol a'r awdurdod lleol wedi'u cyd-leoli ac maent yn bwynt cyswllt unigol i asiantaethau gyfeirio atynt.

- 65 Yn nhymor yr haf 2020, fe wnaeth arweinwyr ysgol nodi'n aml eu bod wedi cael eu llethu gan wybodaeth, canllawiau ac awgrymiadau am anodau a gweithgareddau i gefnogi lles disgyblion a chefnogi disgyblion bregus. Roedd hyn yn adlewyrchu sut roedd pob asiantaeth, gan gynnwys awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, gwasanaethau iechyd, yr heddlu a gwasanaethau cyfiawnder, a mudiadau gwirfoddol lleol a chenedlaethol, yn awyddus i gefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Gan ystyried adborth gan uwch arweinwyr, yn ddefnyddiol, bu asiantaethau yn ad-drefnu eu cyfathrebiadau ag ysgolion yn ystod tymor yr hydref.
- 66 Gan amlaf, mae awdurdodau lleol wedi sicrhau bod prosesau statudol i ddisgyblion ynghylch anghenion addysgol arbennig (AAA), gan gynnwys asesiadau ac adolygiadau blynyddol, barhau yn ystod tymor yr hydref. Lle y bu oedi, gallu gwasanaethau seicoleg addysg a gwasanaethau arbenigol eraill oedd y rheswm mwyaf cyffredin dros hyn oherwydd absenoldebau staff a'r heriau o ddarparu'r gwasanaeth o bell. Yn Wrecsam, mae'r awdurdod lleol wedi cyflogi seicolegydd locwm i hybu'r capasiti yn eu gwasanaeth a helpu i gwblhau asesiadau a oedd yn weddill. Mae gwasanaethau awdurdodau lleol, ysgolion ac UC Dau wedi addasu fel y gall teuluoedd a gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud ag addysg eu plant gyfarfod ar-lein, lle bo'r angen, i hwyluso prosesau statudol. Yn ystod tymor yr hydref, bu i wasanaethau aildechrau gwaith wyneb yn wyneb, yn raddol, i gynorthwyo ag asesu disgyblion ag AAA, er bod anghysondeb ar draws asiantaethau ynghylch dychwelyd i waith wyneb yn wyneb wedi bod yn rhwystredig i benaethiaid.
- 67 Mae gwasanaethau awdurdodau lleol ar gyfer cefnogi disgyblion ag anghenion addysgol arbennig wedi dod o hyd i ffyrdd o barhau i gefnogi disgyblion. Er enghraifft, yng Nghaerffili, mae'r gwasanaeth Cymorth Synhwyraidd a Chymorth Cyfathrebu rhanbarthol i ddisgyblion ag anawsterau synhwyraidd wedi gweithio o bell gyda disgyblion trwy dechnoleg fideo-gynadledda ac wedi darparu hyfforddiant pwrpasol i staff ysgolion fel y gallant gynorthwyo disgyblion â namau ar y clyw neu'r golwg.
- 68 Yn ein harolwg o rieni a gofawyr ym mis Hydref 2020, canfuwyd bod mwyafrif y rheini y mae eu plant yn cael cymorth ychwanegol yn cytuno bod yr ysgol neu'r UC yn ystyried anghenion eu plant a'u bod yn darparu adnoddau, cymorth ac arweiniad priodol iddynt. Roedd cyfran debyg o'r farn bod yr ysgol neu'r UC yn gwneud trefniadau priodol i'w plentyn i drafod teimladau, iechyd a lles neu bryderon eu plentyn. O ran y naill fater a'r llall, roedd ychydig o rieni yn anghytuno. Lle'r oedd gan rieni a gofawyr bryderon, roedd y rhain yn ymwneud â chyfathrebu gwael am sut byddai anghenion eu plentyn yn cael eu bodloni, methu darparu cymorth a amlinellwyd mewn datganiad anghenion addysgol arbennig, llai o gymorth i ddisgyblion â chyflwr ar y sbectrwm awtistig, a phryderon cyffredinol am fethu darparu'r cymorth arferol.
- 69 Rhoddodd Llywodraeth Cymru gyllid ychwanegol i awdurdodau lleol eleni i gynyddu capasiti gwasanaethau cwnsela. Darperir y gwasanaethau hyn yn uniongyrchol gan rai awdurdodau lleol, er mai comisiynu gwasanaeth gan ddarparwr allanol sy'n fwy cyffredin. Mewn rhai achosion, defnyddiwyd cyllid i ehangu mynediad i blant Blwyddyn 4 a Blwyddyn 5, gan fod gofyn i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaeth i blant Blwyddyn 6 yn unig mewn ysgol gynradd. Ym Mro Morgannwg, mae'r awdurdod lleol wedi cyflogi therapydd chwarae i ddarparu cymorth i blant iau mewn

ysgolion cynradd, i ategu'r gwasanaeth cwnsela. Mae llawer o gwmselwyr wedi cwblhau hyfforddiant ychwanegol ar gwmsela ar-lein. Er bod rhai gwasanaethau cwnsela wedi aildddechrau sesiynau wyneb yn wyneb gyda phlant a phobl ifanc yn ystod tymor yr hydref, roedd rhai eraill wedi parhau i ddarparu sesiynau ar-lein neu dros y ffôn, fel y gwnaethant yn ystod y cyfnod clo cychwynnol. Mae barn pobl ifanc ledled Cymru am gwmsela drwy fideo neu alwadau ffôn yn amrywio: mae rhai'n ei chael hi'n haws siarad â chwmselydd fel hyn ond nid yw eraill wedi troi at hyn ac maent yn aros i sesiynau wyneb yn wyneb aildddechrau.

- 70 Mae rhai awdurdodau lleol a chonsortia yn cynorthwyo ysgolion i ddefnyddio'u grant 'Recriwtio, adfer a chodi safonau' gan Lywodraeth Cymru i gynyddu'r gallu i gefnogi lles emosiynol ac iechyd meddwl disgyblion. Er enghraifft, mae ysgolion yng Ngheredigion wedi defnyddio'r cyllid i gynyddu oriau Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol, sy'n gweithio o dan raglen beilot 'Mewngymorth' y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed.
- 71 Parhaodd gwaith diogelu gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd ar-lein trwy gydol tymor yr hydref, pan roedd amgylchiadau'n golygu mai dyma oedd yr opsiwn gorau. Er bod cyfradd y plant a osodwyd ar y gofrestr amddiffyn plant ychydig yn is na'r arfer yn ystod y cyfnod clo cychwynnol, cododd y gyfradd yn ystod mis Awst 2020 a chyrraedd ei hanterth ym Medi, cyn gostwng eto yn ystod tymor yr hydref. Ar ei hanterth, nid oedd y gyfradd yn gynnydd sylweddol o gymharu ag amrywiadau nodweddiadol na'r duedd hirdymor yn nifer cynyddol y plant sy'n cael eu gosod ar y gofrestr yn genedlaethol. Nid oes cydberthynas glir rhwng yr awdurdodau lleol sy'n gweld y cynnydd mwyaf yng nghyfradd y plant sy'n cael eu rhoi ar y gofrestr amddiffyn plant a nifer yr achosion o COVID-19 yn y gymuned.
- 72 Yn aml, mae pobl ifanc wedi treulio mwy o amser ar-lein na'r arfer yn ystod cyfnodau o hunanynysu a chyfyngiadau ar weithgareddau y byddent yn cymryd rhan ynddynt fel arfer. Yn Sir Fynwy, cydnabu'r awdurdod lleol y risg gynyddol i ddiogelwch sy'n gysylltiedig â hyn. Bu swyddogion awdurdodau lleol yn gweithio gyda'u hysgolion, yr UCD a'r Swyddfa Gartref i gynnal Paneli Sianel mwy mynych i adolygu pryderon am ddisgyblion, a hynny'n gysylltiedig ag eithafiaeth neu radicaleiddio.
- 73 Yn naturiol, roedd COVID-19 wedi effeithio ar bresenoldeb yn yr ysgolion yn ystod tymor yr hydref. Ar ôl i ddisgyblion ddychwelyd yn raddol ddechrau Medi 2020, cyrhaeddodd presenoldeb anterth o 88% ddechrau Hydref. Gostyngodd presenoldeb ddisgyn yn ystod mis Hydref wrth i nifer yr achosion o COVID-19 ddechrau cynyddu'n gyflym mewn rhai rhannau o Gymru. Roedd presenoldeb yn 90% yn ystod yr wythnos gyntaf ar ôl y cyfnod clo ym mis Tachwedd, a wnaeth gynnwys hanner tymor, cyn gostwng yn ystod weddill tymor yr hydref. Mae presenoldeb y tymor hwn ar ei uchaf i ddisgyblion mewn ysgolion cynradd, ac eithrio disgyblion meithrin. Disgyblion ym Mlynnyddoedd 11, 12 a 13 sydd â'r presenoldeb isaf. Disgyblion sy'n gorfod hunanynysu sy'n gyfrifol am lawer o'r absenoldeb. Er i hyn gael ei gofnodi'n absenoldeb awdurdodedig, mae ysgolion yn darparu dysgu o bell i'r disgyblion hyn. Oherwydd rhesymau logistaidd, yn aml mae oedi o ddeutu diwrnod cyn bod y trefniadau dysgu o bell yn eu lle ar gyfer disgyblion sy'n hunanynysu. Dywed arweinwyr ysgol fod disgyblion yn aml yn gwneud cynnydd arafach yn eu dysgu pan fyddant yn hunanynysu.

- 74 Mae cydberthynas agos rhwng cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion a chyfraddau COVID-19 lleol. Trwy gydol tymor yr hydref, bu effaith anghyfartal ar ddisgyblion, oherwydd bod gorfod hunanynysu o ganlyniad i gysylltiad agos ag achos wedi'i gadarnhau o COVID-19 wedi effeithio'n fwy ar rai rhannau o Gymru nag ar eraill. Mae rhai disgyblion wedi gorfod dysgu o bell am sawl wythnos yn ystod tymor yr hydref oherwydd hunanynysu, tra bod disgyblion eraill wedi gallu bod yn yr ysgol bob dydd.
- 75 Mae'r strategaeth 'Profi, Olrhain, Diogelu' yng Nghymru yn bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a sefydliadau'r GIG. Diben y strategaeth yw 'gwella gwyliadwriaeth iechyd yn y gymuned, olrhain cysylltiadau yn effeithiol ac yn helaeth a chefnogi pobl i hunanynysu pan fo angen' (Llywodraeth Cymru, 2020f). Ymddengys fod y strategaeth wedi'i gweithredu ychydig yn wahanol ar draws Cymru pan fydd achos positif o COVID-19 wedi'i gadarnhau mewn ysgol. Mewn rhai ardaloedd lleol, mae grwpiau llawer mwy o ddisgyblion wedi cael eu hystyried yn gyswllt agos o gymharu ag ardaloedd eraill, er bod gan ysgolion fesurau amddiffynnol tebyg ar waith. Mae hyn wedi effeithio ar ddisgyblion hŷn mewn ysgolion uwchradd yn arbennig, gyda rhai o'r disgyblion hyn yn treulio sawl wythnos i ffwrdd o'r ysgol yn hunanynysu yn ystod tymor yr hydref. Mae'r amrywio lleol o ran gweithredu'r strategaeth profi, olrhain, diogelu wedi effeithio'n anghyfartal ar gynnydd a lles disgyblion ar draws Cymru.
- 76 Pan fydd yn ofynnol i ddisgyblion hunanynysu, mae rhai awdurdodau lleol yn gweithio gydag ysgolion i rannu'r wybodaeth hon ar draws gwasanaethau a chyda phartneriaid er mwyn gallu cynnig cymorth ychwanegol i ddisgyblion bregus. Er enghraifft, mewn achosion pan fydd disgybl ar y gofrestr amddiffyn plant yn Sir Ddinbych, mae swyddogion yn cysylltu ar y diwrnod hunanynysu cyntaf i sicrhau bod cymorth yn ei le. Pan roedd angen i ychydig gannoedd o ddisgyblion mewn ysgol a oedd yn gwasanaethu ardal â lefel uchel o ddifreintedd hunanynysu, bu Tîm Cymorth Ieuenctid Sir Ddinbych yn gweithio'n adeiladol mewn partneriaeth â heddlu lleol i gefnogi pobl ifanc a oedd yn ymgasglu tu allan yn ystod y dydd, yn hytrach na hunanynysu.
- 77 Weithiau, dywedodd ysgolion, UC Dau a gwasanaethau addysg eu bod wedi nodi cynnydd mewn pryderon am iechyd meddwl disgyblion. Mae pob awdurdod lleol wedi ceisio sicrhau bod ysgolion ac UC Dau yn gwybod am yr holl gymorth sydd ar gael i ddisgyblion sy'n cael trafferth â'u hiechyd meddwl.

Cameo: Arweiniad ar gefnogi iechyd meddwl a lles dysgwyr

O'r cychwyn cyntaf, mae Abertawe wedi rhoi blaenoriaeth i iechyd a lles dysgwyr a staff. Mae rhannu gwybodaeth yn well ar draws yr awdurdod lleol a chydag asiantaethau allanol yn ystod y pandemig wedi caniatáu i swyddogion ganolbwyntio ar faterion cyffredin sy'n effeithio ar ddysgwyr ledled Abertawe. Yn benodol, daeth i'r amlwg y gallai fod cynnydd yn nifer y dysgwyr a oedd yn hunan-niweidio, yn dioddef o orbryder ac iselder, neu a oedd yn ceisio cyflawni hunanladdiad. O ganlyniad, lluniodd yr awdurdod lleol arweiniad amserol i ysgolion gynorthwyo'u dysgwyr a rhoi gwybodaeth am fannau i gael rhagor o help. Hefyd, rhannwyd yr arweiniad hwn gydag awdurdod lleol cyfagos i helpu cefnogi'u dysgwyr nhw.

Cefnogi dysgwyr bregus

- 78 Mae cefnogi'u holl ddisgyblion bregus wedi bod yn arbennig o heriol i ysgolion. Canfu ein harolwg ymhlith staff cymorth bod llawer ohonynt o'r farn eu bod wedi bod yn darparu cymorth effeithiol i ddisgywyr bregus, gyda phrin ddim ohonynt yn anghytuno. Yn yr un arolwg, roedd ychydig o dan hanner yr athrawon o'r farn eu bod yn gallu bodloni anghenion eu disgyblion bregus, gydag oddeutu dau o bob deg athro yn anghytuno.
- 79 Mae plant a phobl ifanc sy'n Sipsiwn, Roma neu'n Deithwyr yn aml yn colli mwy o ysgol na'r rhan fwyaf o ddisgyblion, a hynny am resymau diwylliannol. Mae awdurdodau lleol wedi gweithio'n galed i gynnal cysylltiad â theuluoedd a'u hannog nhw i ddychwelyd i'r ysgol ym mis Medi. Er enghraifft, defnyddiodd swyddogion yn Sir Gaerfyrddin grŵp cymorth presennol ar WhatsApp i gynnal diddordeb teuluoedd ac fel plattform ar gyfer cynnig cymorth, lle'r oedd ei angen. Hefyd, mae'r awdurdod hwn yn cynnig mynediad i'r teuluoedd hyn at becyn pwrpasol o weithgareddau i ategu medrau iaith, oherwydd nodwyd bod hyn yn bryder cyffredin.
- 80 Mae disgyblion y mae Cymraeg neu Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt yn arbennig o agored i wneud bach iawn o gynnydd pan fydd disgwyl iddynt ddysgu gartref, fel y digwyddodd yn ystod y cyfnod clo cychwynnol a chyfnodau o hunanynysu yn ystod tymor yr hydref. Yn aml, nid yw rhieni neu ofalwyr y disgyblion hyn yn deall Cymraeg na Saesneg, ac felly mae'n anodd iddynt gefnogi dysgu'u plant. Yng Nghasnewydd, bu Gwasanaeth Addysg Lleiafrifoedd Ethnig Gwent (GEMS) barhau i gefnogi disgyblion gartref yn ystod tymor yr hydref. Bu staff amlieithog yn GEMS yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â theuluoedd sydd wedi'u heffeithio, i helpu disgyblion i barhau i ddysgu, ynghyd â monitro'u lles.
- 81 Mae Ymgyrch Encompass yn gynllun cymharol newydd, lle y mae gwasanaethau'r heddlu yn ymrwmo i gysylltu â staff allweddol mewn ysgolion perthnasol cyn dechrau'r diwrnod ysgol nesaf os byddant wedi cael eu galw i ddigwyddiad cam-drin domestig yng nghartref y plentyn. Mae'r wybodaeth gynnar hon yn galluogi ysgolion i gynnig cymorth ar unwaith i ddisgyblion sydd wedi'u heffeithio. Oherwydd bod llawer o ysgolion wedi cadw mewn cysylltiad â theuluoedd bregus yn ystod gwyliau haf yr ysgol a'r cyfnod atal byr yn nhymor yr hydref, gweithiodd awdurdodau fel Caerdydd gyda gwasanaethau'r heddlu i ymestyn y cynllun hwn fel ei fod ar waith yn ystod y cyfnodau hyn hefyd.
- 82 Mae plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol ymhlith y rhai mwyaf bregus yng Nghymru, o ran eu lles a'u deilliannau addysgol. Yn aml, mae awdurdodau lleol wedi cynnal gwiriadau a chymorth ychwanegol i'r plant a'r bobl ifanc hyn yn ystod y pandemig. Er enghraifft, ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ymwelodd swyddogion yr awdurdod lleol â lleoliadau bob wythnos, a wnaeth eu helpu i amlygu lleoliadau a allai chwalu a rhoi cymorth ychwanegol yn rhagweithiol, lle'r oedd angen amdano, yn hytrach nag aros i leoliadau fethu. Darparodd awdurdodau lleol Ynys Môn a Gwynedd liniadur i blant sy'n derbyn gofal fel y gallent barhau i ddysgu gartref yn ystod y cyfnod clo neu gyfnodau o hunanynysu.
- 83 Mae disgyblion sy'n dysgu yn y gwaith wedi wynebu colli gwaith neu bryder yn gysylltiedig â diswyddo posibl yn ystod tymor yr hydref. Mae'r pandemig wedi effeithio'n sylweddol ar rai cyrsiau galwedigaethol, fel trin gwallt a harddwch. Mae

hyn wedi effeithio'n anghymesur ar ddisgyblion bregus sy'n fwy tebygol na'u cymheiriaid o ddilyn llwybrau galwedigaethol yn 14-19 oed. Er enghraifft, ni allai disgyblion uwchradd hyn ym Merthyr barhau â phrentisiaethau iau wedi'u cynnal gan y coleg lleol. Achosodd hyn gryn siom i'r bobl ifanc hyn, yr oedd y mwyafrif ohonynt wedi dychwelyd i'r ysgol ar sail amser llawn, ond bu'n rhaid i'r awdurdod lleol wneud darpariaeth arall ar gyfer y gweddill ohonynt.

Cameo: Cefnogaeth awdurdod lleol ar gyfer darpariaeth alwedigaethol

Mewn un ysgol uwchradd yn Sir Benfro, roedd arweinwyr eisoes wedi bwriadu gwerthuso ac adolygu ei darpariaeth alwedigaethol yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf. Buont yn gweithio gyda swyddog yr awdurdod lleol i gyflawni'r gwerthusiad hwn. Nid yw'r ysgol yn cyflogi darparwr galwedigaethol allanol mwyach ac mae wedi creu ei darpariaeth alwedigaethol ei hun. Mae wedi cyflogi tri aelod staff o'r darparwr blaenorol ac athro cymwysedig i oruchwyllo'r ddarpariaeth. Mae hyn wedi arwain at arbedion ariannol sylweddol i'r ysgol, ynghyd â chaniatáu i arweinwyr fonitro ansawdd ac effeithiolrwydd y ddarpariaeth yn fanylach. Ar hyn o bryd, mae oddeutu 230 o ddysgwyr yn manteisio ar y ddarpariaeth alwedigaethol fel rhan o'u cwricwlwm. Mae'r ysgol wedi gweithio gyda'r awdurdod lleol fel y gall disgyblion o ddarparwyr eraill fanteisio ar y ddarpariaeth hon hefyd. Trwy ei chyrsgiau galwedigaethol, mae'r ysgol bellach yn darparu crèche, meithrinfa a gweithdy cerbydau modur sy'n gwasanaethu'r gymuned lleol.

- 84 Mae'n anodd asesu effaith y pandemig ar gyfran y bobl ifanc yng Nghymru nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET). Effeithiwyd yn sylweddol ar waith i fonitro a chynorthwyo pobl ifanc i sicrhau cyrchfan addas ar ddiwedd Blwyddyn 11 ac ar ddechrau'r hydref. O ystyried effaith genedlaethol y pandemig ar gyflogaeth a hyfforddiant yn gyffredinol, nid yw'n syndod bod gwybodaeth gynnar gan rai awdurdodau lleol yn awgrymu bod mwy o bobl ifanc 16 oed heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant eleni nag yn y blynyddoedd diwethaf. Yn Abertawe, lle'r oedd ysgolion a'r UC'D wedi nodi disgyblion a oedd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg cyflogaeth neu hyfforddiant, rhoddwyd blaenoriaeth i'w cynorthwyo yn ystod yr haf 2020. Cyfeiriwyd y bobl ifanc at ganolfannau cymorth cynnar amlasiantaeth i gael cymorth ac arweiniad ar eu camau nesaf, a pharhaodd swyddogion yr awdurdod lleol i fonitro'u cynnydd yn ystod tymor yr hydref a chynorthwyo, lle'r oedd angen. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion bregus hyn wedi cymryd rhan mewn rhyw fath o addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn ystod yr hydref, er gwaethaf yr heriau a achoswyd gan y pandemig.

Cameo: Cefnogi disgyblion sydd wedi ymddieithrio

Cynlluniodd awdurdod lleol Wrecsam raglen i dargedu dysgwyr Blwyddyn 9 sydd wedi ymddieithrio fwyfwy rhag addysg yn ystod cyfnod COVID-19 neu sydd wedi dod yn fregus oherwydd eu profiadau COVID-19. Mae'r rhaglen yn cynnwys 15 sesiwn wythnosol pan fydd rhwng 10 a 15 o ddisgyblion o chwe ysgol uwchradd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a heriau i ddatblygu'u hymngysylltiad â dysgu a gwydnwch. Mae gweithgareddau'n cynnwys gweithdai datrys problemau, gweithgareddau awyr agored, a gweithdai gyda siaradwyr ysgogiadol a chymorth gan Gyrfa Cymru wedi'u cyflwyno ar-lein.

- 85 Mae deilliannau disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn waelach na'u cymheiriaid. Mae'r pandemig wedi rhwystro ymdrechion y system addysg i gynorthwyo'r disgyblion hyn i gyflawni deilliannau gwell na'u rhagflaenwyr. Mae penaethiaid wedi dweud wrthym fod y grŵp hwn o ddisgyblion wedi gwneud cynnydd arafach yn eu dysgu yn ystod y cyfnod clo, gyda rhai disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol gyda medrau iaith a rhifedd gwannach na chyn i'r cyfnod clo cychwynnol ddechrau. Yn ogystal â'r Grant Datblygu Disgyblion blynyddol, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyllid ychwanegol i ysgolion drwy'r grant 'Recriwtio, adfer a chodi safonau'. Mae awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol wedi rhoi cyngor i ysgolion ar sut gellir defnyddio'r grant hwn i ariannu strategaethau addas i gynorthwyo disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim i ddal i fyny â'u dysgu yn ystod tymor yr hydref a'r tu hwnt. Yn Rhondda Cynon Taf, mae'r awdurdod lleol wedi gweithio gyda'r Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant i gryfhau ei gymorth i ddisgyblion sy'n byw mewn tlodi. Er enghraifft, mae clwstwr o ysgolion wedi canolbwyntio ar nodi'r rhwystrau lleol rhag dysgu sy'n bodoli oherwydd tlodi ar hyn o bryd ac maent yn gweithio gyda'r Grŵp Gweithredu a'r awdurdod lleol i fynd i'r afael â'r rhain.
- 86 Mae cynnydd mewn gordewdra ymhlith plant a phobl ifanc yn bryder cenedlaethol oherwydd gallent wynebu iechyd corfforol gwael o ganlyniad. Prif achos gordewdra yw'r hyn y mae plant a phobl ifanc yn ei fwyta a'i yfed, a pha mor weithgar ydynt yn gorfforol. Mae'n ymddangos bod disgyblion wedi cael llai o gyfleoedd na'r arfer i fod yn weithgar yn gorfforol yn yr ysgol yn ystod tymor yr hydref. Yn ein harolwg o ddysgwyr, mae 77% ohonynt yn cytuno'n bod yn cael digon o gyfle i wneud ymarfer corff sy'n is na'r ymateb cyfartalog i arolygon arolygiadau, pan fydd 86% o'r disgyblion yn cytuno. Mae llawer o ysgolion wedi lleihau faint o amser a gaiff disgyblion ar gyfer egwyl ginio er mwyn amddiffyn swigod o ddisgyblion sy'n defnyddio cyfleusterau, gan olygu bod gan ddisgyblion lai o amser i chwarae a bod yn weithgar yn gorfforol. Ychydig bach iawn o ysgolion oedd wedi cynnal unrhyw glybiau ar ôl ysgol yn ystod tymor yr hydref sy'n cynnwys gweithgarwch corfforol ac nid yw'r cystadlaethau chwaraeon arferol rhwng ysgolion wedi digwydd. Mae awdurdodau lleol wedi ymdrin â mynediad at offer chwarae awyr agored a pharciau yn wahanol, a bu'n rhaid i gyfleusterau hamdden a champfeydd gau yn lleol ac yn genedlaethol ar adegau oherwydd cyfyngiadau'r llywodraeth.
- 87 Chwaraeodd gweithwyr ieuencid awdurdodau lleol ran arwyddocaol yn cefnogi plant agored i newid, pobl ifanc a'u teuluoedd yn ystod y cyfnod clo cychwynnol ac maent wedi parhau i ddarparu cefnogaeth yn ystod tymor yr hydref. Yn aml, mae gweithwyr ieuencid yn hynod fedrus yn meithrin perthynas yn gyflym gyda phobl ifanc, gan sicrhau eu hymddiriedaeth a chanfod ffyrdd creadigol o gefnogi pobl ifanc, yn enwedig y rhai sydd mewn perygl o ymddieithrio o addysg. Roedd gweithwyr ieuencid eisoes yn defnyddio technoleg i gyfathrebu â phobl ifanc ac maent wedi adeiladu ar hyn yn ystod y pandemig trwy sefydlu mwy o fannau ar-lein lle y gall pobl ifanc gysylltu'n ddiogel â'i gilydd a chyda gweithwyr ieuencid i gymdeithasu a thrafod materion sydd o ddiddordeb neu o bryder iddynt. Sefydlwyd rhaid o'r manau hyn ar gyfer grwpiau penodol, er enghraifft pobl ifanc sy'n dymuno sgwrsio ar-lein yn Gymraeg, neu i bobl ifanc lesbiaid, hoyw, trawsrywiol a thrawsryweddol.
- 88 Mae gweithwyr ieuencid wedi cael trafferth cadw mewn cysylltiad ag ychydig bach iawn o bobl ifanc bregus sydd heb gysylltiad rheolaidd â'r we neu nad ydynt yn hoff o ddefnyddio adnoddau ar-lein. Er gwaethaf effeithiolrwydd cyfathrebu ar-lein, mae pobl ifanc yn aml yn flin am y diffyg rhyngweithio cymdeithasol personol a gawsant

eleni. Lle y bu'n ddiogel gwneud hynny, mae gweithwyr ieuencid wedi ailsefydlu cyfleoedd i gyfarfod â phobl ifanc yn bersonol. Er enghraifft, mae gweithwyr ieuencid ym Mhowys wedi ymweld â'r trefi marchnad allweddol rhwng 5pm a 7pm yn ystod yr hydref i ymgysylltu'n anffurfiol â phobl ifanc, sydd wedi cynnig cyfleoedd defnyddiol i wirio'u lles a'u helpu i gael at gymorth, os oes angen.

- 89 Er gwaethaf beichiau gwaith trwm tu hwnt, mae rhai gwasanaethau awdurdodau lleol wedi creu lle i ystyried beth sy'n gweithio'n dda a sut y gallent wella'r ffordd maent yn cefnogi disgyblion bregus a'u teuluoedd.

Cameo: Gwerthuso profiadau teuluoedd

Mae'r tîm ADY a Chynhwysiant Cymdeithasol yng Nghonwy yn awyddus i ddysgu rhagor am effaith y pandemig hwn ar ddysgwyr bregus a'u teuluoedd. O ganlyniad, mae swyddogion yn cymryd rhan mewn prosiect sydd wedi'i seilio ar 'Werthuso profiadau teuluoedd yn ystod y cyfnod clo', gan gynnwys ffocws ar gymorth profedigaeth COVID-19 a gwell cymorth cwnsela. I ategu hyn, mae'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg wedi cyflwyno hyfforddiant i ysgolion unigol, ar gais. Diben hyn yw paratoi ar gyfer cyfnod clo posibl arall.

Atodiad 1: Sail dystiolaeth

Fel rhan o'r gwaith, cynhaliom drafodaethau â 340 o ysgolion ac UC Dau ledled Cymru a chynhaliom gyfarfodydd â staff ym mhob awdurdod lleol a chonsortium rhanbarthol.

Dosbarthom arolygon i geisio barn:

- arweinwyr
- athrawon
- staff cymorth
- llywodraethwyr
- rhieni/gofalwyr
- dysgwyr cyfnodau allweddol 2 ac uwch

Yn ogystal, edrychom ar amrywiaeth o dystiolaeth ddogfennol gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol, ynghyd â chanllawiau, data ac ymchwil a oedd ar gael yn genedlaethol.

Atodiad 2


Yn ogystal â'r galwadau ag ysgolion ac ALlau, cyhoeddodd arolygon ar gyfer rhanddeiliaid a'u hyrwyddo.

Roedd gennym arolygon unigol i ddysgwyr, rhieni neu ofalwyr, arweinwyr ysgol neu UCD, staff cymorth a llywodraethwyr neu aelodau pwyllgorau rheoli UC Dau. Cyfeiriwyd rhai neu'r cyfan o'r cwestiynau at grwpiau penodol yn y poblogaethau hynny, felly nid yw pawb a gymerodd ran wedi ymateb i bob cwestiwn.


Mae'r ymatebion wedi'u crynhoi isod.

Hefyd, roedd rhanddeiliaid yn gallu gadael sylw i esbonio'u hatebion neu roi gwybodaeth ychwanegol. Dadansoddwyd y rhain a defnyddiwyd y wybodaeth i lywio'r adroddiad hwn.


Dysgwyr (760 ymateb)




Rhieni a gofalwyr (3620 ymateb)




Athrawon (908 ymateb)




Staff cymorth (397 ymateb)



Arweinwyr (312 ymateb)



Llywodraethwyr (245 ymateb)



Atodiad 3: Cyhoeddiadau Estyn

Arweiniad

- [Cyngor i arweinwyr a llywodraethwyr ysgolion ac UCDAu ar sut i barhau â busnes ysgol ac UCD yn ystod pandemig Covid-19](#)
- [Trefniadau ar gyfer mis Medi 2020 Dulliau wedi'u cynllunio ar gyfer ysgolion a gynhelir ac UCDAu](#)
- [Cameos a syniadau ar gyfer parhad busnes ysgol yn ystod Covid-19](#)
- [Cameos a syniadau o ysgolion ac UCDAu ar barhau â busnes ysgol](#)
- [Egwyddorion allweddol i gynorthwyo â pharhau â busnes ysgol ac UCD](#)
- [Cefnogi lles a dysgu yn ystod COVID-19 – dulliau o bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned](#)
- [Cefnogi lles a dysgu yn ystod COVID-19 – dulliau o golegau addysg bellach](#)
- [Cefnogi lles a dysgu yn ystod COVID-19 – dulliau o ysgolion cynradd](#)
- [Cefnogi lles a dysgu yn ystod COVID-19 – dulliau o UCDAu](#)
- [Cefnogi lles a dysgu yn ystod COVID-19 – dulliau o ysgolion uwchradd](#)
- [Cefnogi lles a dysgu yn ystod COVID-19 – dulliau o ysgolion arbennig](#)
- [Cefnogi lles a dysgu yn ystod COVID-19 – dulliau o ddarparwyr dysgu yn y gwaith](#)
- [Gwaith ymgysylltu: Diweddariad ar y sector cynradd – hydref 2020](#)
- [Gwaith ymgysylltu: Diweddariad ar y sector uwchradd – hydref 2020](#)
- [Gwaith ymgysylltu: Diweddariad ar y sector ysgolion pob oed – hydref 2020](#)
- [Gwaith ymgysylltu: Diweddariad ar y sector ysgolion arbennig a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion \(UCD\) – hydref 2020](#)
- [Gwaith ymgysylltu: Diweddariad ar y sector ôl-16 – hydref 2020](#)

Adroddiadau thematig

- Ysgolion cymunedol: [adroddiad thematig](#) a [deunyddiau hyfforddiant](#) teuluoedd a chymunedau wrth wraidd bywyd ysgol
- [Cipolygon ar sut mae ysgolion annibynnol a cholegau arbenigol wedi ymateb yn ystod pandemig COVID-19](#)
- Gwydnwch dysgwyr – [adroddiad thematig](#) a [deunyddiau hyfforddiant](#) meithrin gwydnwch mewn ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac unedau cyfeirio disgyblion

Postiadau blog

- [Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod \(ACEau\) – sut gall ysgolion gefnogi plant a phobl ifanc sy'n byw mewn amgylchiadau anodd?](#)
- [A yw eich ysgol yn un sy'n rhoi teuluoedd a chymunedau wrth wraidd ei gwaith?](#)
- [Gan fod dysgwyr bellach wedi dychwelyd i ysgolion a cholegau, pa ran rydym ni wedi'i chwarae a sut bydd ein rôl yn newid yn y dyfodol?](#)
- [Ein cefnogaeth i addysg a hyfforddiant Cymru yn yr hinsawdd gyfredol](#)
- [Beth gall ysgolion ac UC Dau ei wneud i gryfhau gwydnwch disgyblion?](#)
- [Gweithio gyda'n gilydd i gefnogi addysgu a dysgu yn ystod argyfwng COVID-19](#)

Atodiad 4: Llinell amser

Mawrth 2020



- Mae Prif Arolygydd Cymru yn cyhoeddi y bydd holl arolygiadau Estyn yn cael eu hatal ar unwaith.
- Mae'r Gweinidog Addysg yn cyhoeddi y bydd ysgolion yn cau ar gyfer darpariaeth addysg statudol erbyn 20 Mawrth. Hefyd, mae'n cyhoeddi y bydd arholiadau TGAU a Safon Uwch yn cael eu hatal ar gyfer haf 2020.



Ebrill 2020

- Atal Cynnig Gofal Plant Cymru. Defnyddir cyllid i gynorthwyo plant sy'n agored i niwed a chostau gofal plant gweithwyr allweddol.
- Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi £1.25 miliwn ar gyfer cymorth iechyd meddwl ychwanegol i blant a allai fod yn profi straen neu orbryder cynyddol o ganlyniad i argyfwng y coronafeirws. Maent yn cyhoeddi £3 miliwn i awdurdodau lleol brynu caledwedd a chysylltiad diogel â'r rhyngwrwd i sicrhau nad yw dysgwyr yng Nghymru yn cael eu 'heithrio'n ddigidol'.
- Mae Estyn yn rhyddhau cyngor i arweinwyr ysgolion ac UCDAu ar sut i barhau â busnes ysgol ac UCD. Ar y cyd â Llywodraeth Cymru, consortia rhanbarthol a CCAC, rydym yn rhyddhau 'Datblygu dulliau i Gefnogi Dysgu o Bell'.
- Mae'r Gweinidog Addysg yn amlinellu pum egwyddor allweddol ar gyfer pryd a sut byddai ysgolion yn dychwelyd.



Mai 2020



- Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi £3.75 miliwn i gefnogi iechyd meddwl mewn ysgolion, ac yn cyhoeddi Cynllun Gwydnwch COVID-19 ar gyfer y sectorau ôl-16, gan gynnwys addysg bellach ac addysg uwch, prentisiaethau, cyflogadwyedd a dysgu oedolion.



Mehefin 2020

- Mae colegau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith yn dechrau ailagor dysgu wyneb yn wyneb ar gyfer grwpiau blaenoriaethol o ddysgwyr.
- Mae'r Gweinidog Addysg yn cyhoeddi y bydd yn defnyddio Deddf Coronafeirws 2020 i ddatgymhwyso gofynion sylfaenol y cwricwlwm i Gymru dros dro.
- Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn ailagor i ddysgwyr i roi cyfle iddynt 'Ailgydio, dal i fyny a pharatoi ar gyfer yr haf, a mis Medi'.



Gorffennaf 2020

- Mae Estyn yn cyhoeddi sawl adroddiad thematig a chipolygon penodol i sectorau i gefnogi Cymru i ddal ati i ddysgu. Ar y cyd â'r 4 consortiwm rhanbarthol, rydym hefyd yn rhyddhau arweiniad 'Modelau dysgu cyfunol' i helpu o fis Medi.
- Mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno'r Bil Cwricwlwm ac Asesu i ddarparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer trefniadau newydd y cwricwlwm ac asesu. Maent yn cyhoeddi cynllun 'Recriwtio, adfer a chodi safonau' i gyflogi 900 o staff addysgu ychwanegol mewn ysgolion.
- Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi dros £50 miliwn o gyllid ychwanegol ar gyfer prifysgolion a cholegau i gynnal swyddi mewn addysgu, ymchwil a gwasanaethau myfyrwyr, buddsoddi mewn prosiectau i gefnogi adferiad economaidd, a chefnogi myfyrwyr sy'n dioddef o galedi ariannol.



Awst 2020

- Mae cynnig Gofal Plant Cymru yn cael ei ailsefydlu. Gall rhieni sy'n gweithio fanteisio ar 30 awr o addysg a gofal cynnar eto.
- Mae Estyn yn rhyddhau 'Dulliau wedi'u cynllunio ar gyfer ysgolion a gynhelir ac UCDAu', i gofnodi amrywiaeth o ddulliau i ymateb i heriau cyffredin ar draws gwahanol sectorau addysg.
- Mae Llywodraeth Cymru yn addo £4 miliwn yn ychwanegol i gefnogi darparwyr gofal plant sydd wedi'u heffeithio gan COVID-19 a chyllid pellach o hyd at £264 miliwn ar gyfer awdurdodau lleol i gefnogi ystod o wasanaethau, fel gofal cymdeithasol, addysg a hamdden.
- Mae Ysgrifenyddion Addysg Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn cyhoeddi y bydd canlyniadau arholiadau wedi'u seilio ar asesiadau athrawon.
- Mae'r Gweinidog Addysg yn sicrhau na fydd gradd Safon Uwch derfynol dysgwyr yn is na'u gradd UG. Mae canlyniadau cyhoeddiedig TGAU a Safon Uwch diwygiedig sy'n seiliedig ar asesiadau athrawon yn dangos cynnydd nodedig mewn graddau dros flynyddoedd blaenorol.
- Mae'r Gweinidog Addysg yn cyhoeddi adolygiad annibynnol o'r trefniadau i ddyfarnu graddau ar gyfer arholiadau haf 2020.

Medi 2020



- Pob disgybl yn dychwelyd i'r ysgol, fesul tipyn, yn ystod pythefnos gyntaf y tymor.
- Mae'r Gweinidog Addysg yn cyhoeddi ymrwymiad i ddarparu gorchuddion wyneb am ddim i'r holl ddysgwyr mewn ysgolion uwchradd a lleoliadau addysg bellach.
- Mae'r Gweinidog Addysg yn cyhoeddi y bydd pob disgybl sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn parhau i dderbyn darpariaeth os ydynt yn gwarchod neu os oes rhaid iddynt hunanynysu.
- Mae Estyn yn dechrau galwadau ymgysylltu ag ysgolion, UCDAu a lleoliadau ôl-16 ar gais gan Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad thematig o raddfa ac effaith dulliau awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol o gefnogi ysgolion, cymunedau eu hysgolion, cyrff llywodraethol a dysgwyr. Hefyd, agorodd Estyn arolwg i ddysgwyr, llywodraethwyr, rhieni a staff ysgol i rannu'u profiadau.



Hydref 2020

- Mae'r Sefydliad Polisi Addysg (EPI) yn cyhoeddi adroddiad sy'n disgrifio bod y ffordd y darparodd Llywodraeth Cymru liniaduron a dyfeisiau wi-fi i fynd i'r afael â diffyg mynediad at ddysgu ar-lein oherwydd pandemig y coronafeirws yn 'glodwiw'. Dywed yr adroddiad fod Llywodraeth Cymru, yn wahanol i wledydd eraill y DU, wedi gallu manteisio ar 'seilwaith hen sefydledig i weithredu'n gyflym yn dilyn cau sefydliadau'.
- Mae'r Gweinidog Addysg yn cyhoeddi cynllun gweithredu wedi'i ddiweddarau, yn amlinellu'r camau nesaf ar daith ddiwygio Cymru cyn cyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru yn 2022. Mae'r cynllun gweithredu, o'r enw Cenhadaeth Ein Cenedl, yn dangos y camau mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i ymateb i bandemig y coronafeirws a'i hymateb i'r adroddiad annibynnol a gyhoeddwyd gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD).
- Mae'r Gweinidog Addysg yn cyhoeddi "bydd codiad cyflog i wobrwyo ein hathrawon hynod fedrus yng Nghymru, sy'n gweithio'n hynod galed". Mae hyn yn cynnwys cytundeb mewn egwyddor i dderbyn holl argymhellion Corff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru ar gyfer 2020/21.
- Mae'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyhoeddi pecyn cyllid gwerth £12.5 miliwn i gefnogi plant a theuluoedd agored i niwed.

Tachwedd 2020



- Arhosodd disgyblion ym Mlynnyddoedd 9 i 13 adref am yr wythnos ar ôl hanner tymor fel rhan o'r 'cyfnod atal byr' cenedlaethol.
- Cyhoeddodd y Gweinidog Addysg na fyddai arholiadau diwedd blwyddyn i ddysgwyr sy'n sefyll TGAU, UG na Safon Uwch yn 2021. Yn lle arholiadau, roedd Llywodraeth Cymru'n bwriadu gweithio gydag ysgolion a cholegau i fwrw ymlaen ag asesiadau wedi'u rheoli gan athrawon, yn cynnwys asesiadau wedi'u gosod a'u marcio'n allanol, ond wedi'u cyflwyno yn yr ystafell ddosbarth o dan oruchwyliaeth athrawon.
- Mae'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn lansio ymgyrch 'Magu plant. Rhowch amser iddo', yn darparu gwybodaeth, cymorth a chynghor i rieni. Mae'r ymgyrch newydd yn cynnwys materion sy'n adlewyrchu pryderon rhieni yn ystod y pandemig, gan gynnwys sut i ddeall ac ymateb i ymddygiad plant.

Rhagfyr 2020

- Mae Estyn yn cyhoeddi ei adroddiadau cipolwg ar effeithiau uniongyrchol y pandemig ar ysgolion, UCDAu a lleoliadau pob oed. Mae'r adroddiadau hyn yn crynhoi canfyddiadau o'r galwadau ymgysylltu a wnaed yn ystod Medi a Hydref.
- Mae Estyn yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd ar gyfer 2019 2020. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn adolygu safonau ac ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru o Fedi 2019 i Fawrth 2020. Hefyd, mae'n cynnig adroddiad cychwynnol ar sut y gwnaeth ysgolion a darparwyr addysg a hyfforddiant eraill gefnogi disgyblion a myfyrwyr yn ystod y cyfnod clo, gan hefyd ddarparu parhad i'w dysgu o bell.
- Mae'r Gweinidog Addysg yn penderfynu y bydd pob ysgol uwchradd a choleg yng Nghymru yn symud i ddysgu ar-lein am wythnos olaf y tymor, a phenderfyniadau lleol yn cael eu gwneud ynghylch p'un a fyddai ysgolion eraill ar agor ai peidio yn ystod yr wythnos honno.



Geirfa

Dysgu cyfunol Pan fydd dysgwyr yn cael cyfuniad o ddysgu wyneb yn wyneb yn yr ysgol, wedi'i ategu gan dasgau a gweithgareddau dysgu o bell wedi'u cynllunio'n drefnus.

Dysgu o bell Pan fydd gwaith yn cael ei osod a/neu wersi'n cael eu darlledu (yn fyw neu wedi'u recordio ymlaen llaw) i ddysgwyr gartref. Mae hyn yn golygu nad oes angen iddynt ddod i'r ysgol i gael at y gwaith.

Rhifau – meintiau a chyfrannau

bron bob un =	gydag ychydig o eithriadau
y rhan fwyaf =	90% neu fwy
llawer =	70% neu fwy
mwyafrif =	dros 60%
hanner =	50%
tua hanner =	yn agos at 50%
lleiafrif =	o dan 40%
ychydig =	o dan 20%
ychydig iawn =	llai na 10%

Cyfeiriadau

Archwilio Cymru (2020) *Democratiaeth cynghorau lleol – llacio'r cyfyngiadau*. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.audit.wales/cy/blog/audit-wales/2020/11/5/democratiaeth-cynghorau-llacol-llacio-cyfyngiadau> [Cyrchwyd 16 Rhagfyr 2020]

Comisiynydd Plant Cymru (2020) *Diwrnod Gwrando, Tachwedd 2020*. Abertawe: Comisiynydd Plant Cymru. [Ar-lein]. Ar gael yn: https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2020/12/ListeningDay_FINAL_CYM.pdf [Cyrchwyd 16 Rhagfyr 2020]

Estyn (2020) *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant 2019-20*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol/2019-2020> [Cyrchwyd 16 Rhagfyr 2020]

Green, F. (2020) *Schoolwork in lockdown: new evidence on the epidemic of educational poverty*. Llundain: UCL Institute of Education. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://seneddresearch.blog/2020/09/15/new-publication-remote-teaching-and-covid-19-approaches-to-school-education/> [Cyrchwyd 16 Rhagfyr 2020]

Hattie, J. (2020) *The New Normal of Learning: Build Back Better*. Corwin Connect. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://corwin-connect.com/2020/05/the-new-normal-of-learning-build-back-better> [Cyrchwyd 15 Rhagfyr 2020]

Lyakhova, S. (2020) *Addysgu o bell a dulliau addysg ysgol yng nghyd-destun COVID-19*. Caerdydd: Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Senedd Cymru. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://seneddresearch.blog/2020/09/15/new-publication-remote-teaching-and-covid-19-approaches-to-school-education/> [Cyrchwyd 16 Rhagfyr 2020]

Llywodraeth Cymru (2020a) *Canllawiau ar ddysgu mewn ysgolion a lleoliadau o dymor yr hydref*. [Ar-lein]. Ar gael yn <https://llyw.cymru/canllawiau-ar-ddysgu-mewn-ysgolion-llleoliadau-o-dymor-yr-hydref-covid-19> [Cyrchwyd 21 Rhagfyr 2020]

Llywodraeth Cymru (2020b) *Canllawiau ar gyfer cefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed a dan anfantais*. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-08/canllawiau-gyfer-cefnogi-dysgwyr-agored-niwed-dan-anfantais.pdf> [Cyrchwyd 21 Rhagfyr 2020]

Llywodraeth Cymru (2020c) *Canllawiau gweithredol ar gyfer ysgolion a lleoliadau o dymor yr hydref*. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredol-ar-gyfer-ysgolion-llleoliadau-o-dymor-yr-hydref-covid-19> [Cyrchwyd 16 Rhagfyr 2020]

Llywodraeth Cymru (2020d) *Datganiad i'r Wasg: Ailgydio, Dal i Fyny, Paratoi ar gyfer yr Haf a mis Medi – pob ysgol yng Nghymru'n symud i'r cam nesaf*. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/dod-ir-ysgol-dal-ati-i-ddysgu-paratoi-ar-gyfer-yr-haf-mis-medi> [Cyrchwyd 16 Rhagfyr 2020]

Llywodraeth Cymru (2020e) *Recriwtio, adfer, a chodi safonau: y rhaglen dysgu carlam*. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/recriwtio-adfer-chodi-safonau-y-rhaglen-dysgu-carlam-html> [Cyrchwyd 16 Rhagfyr 2020]

Llywodraeth Cymru (2020f) *Profi Orlhain Diogelu*. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-html> [Cyrchwyd 16 Rhagfyr 2020]

Llywodraeth Cymru (2020g) *Datganiad Ysgrifenedig: Y wybodaeth ddiweddaraf am Gymwysterau Cyffredinol yn 2021*. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-y-wybodaeth-ddiweddaraf-am-gymwysterau-cyffredinol-yn-2021> [Cyrchwyd 17 Rhagfyr 2020]

Sefydliad Gwaddol Addysg (2020) *Remote Learning: Rapid Evidence Assessment*. [Ar-lein]. Ar gael yn: [https://educationendowmentfoundation.org.uk/public/files/Publications/Covid-19 Resources/Remote learning evidence review/Remote Learning Rapid Evidence Assessment.pdf](https://educationendowmentfoundation.org.uk/public/files/Publications/Covid-19%20Resources/Remote_learning_evidence_review/Remote_Learning_Rapid_Evidence_Assessment.pdf) [Cyrchwyd 16 Rhagfyr 2020]

Annwyl Arwyn,

Yn gynnar yn ystod tymor yr hydref, gofynnodd Llywodraeth Cymru i ni gynnal adolygiad o waith awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i gefnogi'u cymunedau dysgu mewn ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) yn ystod y cyfnod o fis Mawrth i fis Hydref 2020.

Mae'r llythyr hwn yn amlinellu deilliant y gwaith hwn yn GwE. Mae cynnwys y llythyr wedi'i seilio ar gyfarfodydd rhithwir gyda swyddogion ynghyd a gwybodaeth o sampl o ysgolion ac UCD yn yr awdurdodau addysg ar draws y rhanbarth. Rydym hefyd wedi ystyried y ddogfennaeth ategol a ddarparwyd gan swyddogion GwE a'r adborth o arolygon o arweinwyr ysgol/UCD, llywodraethwyr, athrawon a staff cymorth, rhieni a disgyblion. Rydym wedi cyfeirio at y deilliannau o'r arolygon lle bo'n berthnasol, er y defnyddiwyd yr arolygon yn bennaf i lywio'r adroddiad cenedlaethol a gyhoeddwyd ar ein gwefan ar 15 Ionawr. Dyma [ddolen](#) i'r adroddiad hwnnw.

Hoffem ddiolch i'ch staff am roi o'u hamser i drafod eu gwaith gyda ni ac am ddarparu gwybodaeth ychwanegol pan ofynnwyd amdani.

Yn gywir,



Meilyr Rowlands
Prif Arolygydd Ei Mawrhydi

Arweinyddiaeth a chydweithio

Gweithiodd deiliaid portffolio addysg a chyfarwyddwyr addysg o'r chwe awdurdod lleol gyda GwE i drafod effaith y pandemig ar addysg. Cytunont ar ddull rhanbarthol cyson i geisio lliniaru ei effeithiau.

Gweithiodd arweinwyr GwE yn agos â rheolwyr awdurdodau lleol i ddatblygu a rhannu canllawiau rhanbarthol i helpu ysgolion ac UC Dau drwy'r pandemig. Ar ddechrau'r cyfnod clo, cytunwyd ar strategaeth gyfathrebu gyda chyfarwyddwyr y chwe awdurdod lleol a GwE. Yn rhan o'r strategaeth hon, cysylltodd Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant (YCG) ag ysgolion yn rheolaidd i gynorthwyo penaethiaid a lleddfau pryderon. Roedd cysylltiad rheolaidd ag ysgolion er mwyn cefnogi iechyd a lles staff a disgyblion yn flaenoriaeth i'r consortiwm a chroesawodd ysgolion y dull hwn. Mewn sawl achos, dosbarthodd y consortiwm ei staff i awdurdod lleol i helpu gyda gwasanaethau hanfodol i ysgolion ac UC Dau i'w cynorthwyo i aros ar agor.

Parhaodd y consortiwm i weithredu ei strwythur llywodraethu o ddechrau'r cyfnod clo. Cyfarfu Cydbwyllgor GwE yn rhithwir ac ystyriodd ddiwygiadau i'w gynlluniau a'i waith yn sgil y pandemig. Hefyd, parhaodd y Cydbwyllgor â materion y byddai'n eu hystyried fel arfer, fel gwerth y gwasanaeth am arian ac adroddiadau archwilio. Gweithiodd Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a'r Cydbwyllgor yn dda i ragweld a chynllunio ar gyfer problemau yn rhagweithiol. Er enghraifft, trafodont sefydlu ymagwedd ranbarthol at sut roedd disgyblion yn pontio'n ôl i ysgolion mewn da bryd cyn i unrhyw benderfyniadau terfynol gael eu gwneud yn genedlaethol. Galluogodd hyn awdurdodau lleol, GwE ac ysgolion i baratoi ac ymateb yn gyflym pan roddodd Llywodraeth Cymru gyfarwyddyd i ysgolion ailagor i fwy o ddysgwyr.

Daeth ysgolion a darparwyr i'r arfer fwyfwy â gweithio'n rhithwir a chawsant gymorth gan y consortiwm rhanbarthol ac awdurdodau lleol i ddatblygu'u ffyrdd o weithio. Soniodd llawer o ysgolion eu bod yn gwerthfawrogi'r cyfarfodydd cyswllt ar-lein rheolaidd gyda'u YCG. Fe wnaeth y rhain gynnwys cyfarfodydd o fewn clystyrau ysgolion ar draws y rhanbarth i rannu diweddariadau rheolaidd, ystyried unrhyw wersi a ddysgwyd a sicrhau bod penaethiaid yn gallu rhannu unrhyw broblemau a phryderon.

Gweithiodd y consortiwm yn dda yn genedlaethol i ddatblygu canllawiau dysgu o bell i ysgolion, ar y cyd â rhanbarthau eraill. Mae'r rhanbarth wedi parhau i edrych ar ymchwil ryngwladol a cheisiodd gyngor allanol i wella ymarfer.

Hyrwyddo dysgu

O fis Mawrth 2020 ymlaen, addasodd GwE ei waith i ganolbwyntio ar 5 cyfnod penodol. Dyma oedd y rhain: cyn y cyfnod clo; cefnogi ysgolion ar ddechrau'r cyfnod clo; dysgu o bell; cynorthwyo ysgolion i ailagor a'r cyfnod dysgu cyfunol. Cydnabu GwE y byddai rôl ei YCG yn esblygu wrth gynorthwyo ysgolion i ddatblygu'u dulliau dysgu o bell.

Gweithiodd GwE yn agos â'i awdurdodau lleol i rannu canllawiau a chyngor i ysgolion yn ystod pob cyfnod. Cafodd adnoddau, gwefannau a deunyddiau dysgu proffesiynol eu rhannu gydag ysgolion, gan gynnwys fideos 'Sut i', i helpu athrawon ddatblygu'u hymagweddau at ddysgu o bell. Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr ysgol o'r farn bod GwE wedi cynnig cymorth defnyddiol trwy ei blatfform digidol 'Canolfan Gymorth GwE'. Mae hwn yn cynnwys yr holl adnoddau a deunyddiau a luniwyd gan y consortiwm yn ystod cyfnod COVID-19. Sicrhaodd GwE fod staff a dysgwyr yn gallu troi at amrywiaeth o ddeunyddiau dysgu'r ystafell ddosbarth, er enghraifft cymorth i gynnal a datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a medrau digidol. Sefydlodd GwE ystafell ddosbarth ar-lein i bob cyfnod allweddol a lanwythodd gronfa gychwynnol o adnoddau ymarferol a dolenni i ysgolion eu haddasu a'u defnyddio gyda'u dysgwyr. Yn ogystal, roedd y platfform yn cynnwys adnoddau i helpu cynnal cysylltiadau rhwng staff addysgu a staff cymorth yn ystod y cyfnod hwn o unigedd cymdeithasol posibl, gan gynnwys cymorth i feithrin gwydnwch a lles personol.

Cydnabu GwE fod ysgolion wedi cyrraedd camau amrywiol wrth ddatblygu cymorth ar gyfer dysgu o bell ac y byddai eu dull yn amrywio yn ôl eu cyd-destun a'u gallu. Yn ystod y cyfnod hwn, lluniodd y consortiwm ganllaw i gefnogi dysgu effeithiol o bell ac aeth ati i helpu ysgolion i lunio'u modelau dysgu o bell eu hunain. Fe wnaeth hyn gynnwys modelau enghreifftiol er mwyn rhannu arfer dda ar draws y rhanbarth. Roedd llawer o'r rhain wedi'u seilio ar ymchwil ryngwladol ac ennill dealltwriaeth fanylach o ddulliau ac egwyddorion dysgu o bell.

Rhwng Mawrth a diwedd Mai, cynhaliodd GwE drosolwg o lefel ymgysylltiad dysgwyr â dysgu o bell. Cysylltodd YCG â phob ysgol i gasglu adborth ar ymgysylltiad dysgwyr. Roedd gan lawer o'r YCG wybodaeth yn barod am lefel yr ymgysylltiad ac roeddent yn gallu cydweithio ag ysgolion. Galluogodd y gwaith hwn i'r consortiwm ddatblygu trosolwg rhanbarthol o arfer bresennol a nodi arfer effeithiol i lywio ac ategu canllawiau rhanbarthol. Helpodd y wybodaeth amlygu rhwystrau allweddol rhag ymgysylltu gan ddysgwyr a sut gallai'r consortiwm helpu ysgolion, ar y cyd ag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill. Hefyd, nododd yr adroddiad fod angen cryfhau sut roedd ysgolion yn olrhain effaith ymgysylltiad.

O fis Mehefin ymlaen, gweithgaredd allweddol oedd helpu i gynllunio sut roedd disgyblion yn pontio'n ôl i'r ysgol gyda meddylfryd cadarnhaol, a pharhau â'u dysgu mor ddi-dor â phosibl. Roedd hyn yn cynnwys rhoi cymorth i ysgolion sicrhau iechyd a lles dysgwyr a oedd yn dychwelyd i ystafell ddosbarth wahanol iawn yn ystod y cyfnod dychwelyd yn raddol, a chynorthwyo athrawon wrth bontio o atgyfnerthu

dysgu blaenorol i addysgu agweddau newydd. Yn ogystal, cynorthwyodd YCG ysgolion â syniadau am fonitro gwaith disgyblion a rhoi adborth adeiladol arno.

Gwerthusodd GwE gapasiti a gallu ysgolion yn ei ranbarth i ddefnyddio'r platfformau dysgu amrywiol sydd ar gael. Darparodd hyn ddealltwriaeth i'r consortiwm o ba ysgolion yr oedd angen help ychwanegol arnynt i ddatblygu'u hadnoddau dysgu o bell ar-lein a pha aelodau staff yr oedd angen hyfforddiant pellach arnynt ar ddefnyddio'r dechnoleg. Yn gyffredinol, nododd sawl ysgol yn rhanbarth GwE eu bod yn gweld gwerth yr adnoddau digidol a ddarparodd y consortiwm yn ystod y cyfnod hwn. Nododd nifer o benaethiaid fod eu staff wedi dod yn fwy hyderus wrth ddefnyddio technoleg a bod cynnydd yn ei defnydd wedi cael effaith gadarnhaol ar ddysgu yn gyffredinol.

Roedd llawer o ysgolion yn gwerthfawrogi'r cymorth parhaus ar gyfer dysgu proffesiynol. Er enghraifft, darparodd GwE gymorth i gynorthwywyr addysgu trwy ddatblygu ystafell ddosbarth ar-lein, a oedd yn cynnwys cyfres o gyfleoedd datblygu proffesiynol. Hefyd, roedd ysgolion yn gadarnhaol am gymorth YCG ar gyfer meysydd pwnc yn y sector uwchradd a'u cyfarfodydd rheolaidd â grwpiau o arweinwyr pwnc. Hefyd, mae'r consortiwm wedi buddsoddi mewn dysgu proffesiynol i'w staff ei hun er mwyn datblygu'u dealltwriaeth o ddysgu o bell, gan gynnwys ymchwilio i arfer orau yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Siaradodd awdurdodau lleol yn y rhanbarth am eu perthynas agored a chadarnhaol gyda GwE sydd, yn eu barn nhw, ar flaen y gad o ran datblygu parhad cymorth dysgu a chanllawiau i ysgolion. Mae awdurdodau lleol o'r farn bod y consortiwm wedi cynnig cymorth gwerthfawr ar ddechrau Mehefin, pan ddychwelodd llawer o ddisgyblion i ysgolion, ac eto ar ddechrau mis Medi. Er enghraifft, rhoddodd GwE gymorth ac arweiniad fel y gallai staff, disgyblion a rhieni ddod i'r arfer â threfniadau newydd oedd â'r nod o gadw pawb yn ddiogel i ailagor ysgolion.

Ar lefel genedlaethol, gweithiodd GwE yn agos â chonsortia rhanbarthol eraill i ddatblygu ymateb colegol i'r amgylchiadau heriol iawn hyn. Cynhaliodd arweinwyr a staff GwE drafodaethau a chydweithredu rheolaidd â Llywodraeth Cymru ar gyflwyno'r Cynllun Parhad Dysgu ac maent ynghlwm wrth gefnogi'r rhan fwyaf o'r deilliannau allweddol. Roedd GwE yn allweddol o ran annog datblygu a chyhoeddi canllawiau dysgu cyfunol a modelau dysgu cyfunol enghreifftiol mewn cydweithrediad ag Estyn a'r consortia rhanbarthol eraill.

Cefnogi dysgwyr bregus

Ar 23 Mawrth, cafodd ysgolion eu haddasu i gefnogi disgyblion a oedd yn blant i weithwyr allweddol a rhai dysgwyr bregus. I ymateb i hynny, addasodd GwE ei waith er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau a chymorth i ysgolion yn ei ranbarth. Cafodd rolau rhanbarthol a lleol eu nodi er mwyn cefnogi dysgwyr bregus a manteisiodd staff GwE ar hyfforddiant a datblygiad proffesiynol pellach i'w helpu i gefnogi arweinwyr ysgol yn y meysydd hyn.

Yn ystod y cyfnod hwn, rhoddodd GwE help i ysgolion ac awdurdodau lleol, gyda ffocws ar ddiogelwch a lles disgyblion a'r gweithlu. Gyrrwr allweddol y gwaith hwn oedd sicrhau bod cefnogaeth ar gyfer lles corfforol a meddyliol disgyblion a phobl ifanc, gan gynnwys eu paratoi i ddychwelyd i'r ysgol gyda symbyliad a brwdfrydedd i ddysgu. Sicrhaodd YCG y consortiwm gysylltiad rheolaidd â phenaethiaid eu hysgolion cyswllt i wirio'u lles ac i sicrhau eu bod yn cael cymorth priodol.

Mae'r consortiwm rhanbarthol yn nodi bod ymarferoldeb agor ysgolion i bob dysgwr ar gyfer y cyfnod 'Ailgydio, dal i fyny' yn gymhleth. Fe wnaeth Bwrdd Rheoli GwE ymroi i weithio mewn partneriaeth ar draws y rhanbarth i fabwysiadu ymagwedd gyson at ddatblygu fframwaith cefnogol i helpu ysgolion yn ystod y cyfnod hwn. Fel rhan o hyn, gweithiodd YCG GwE gyda chynrychiolwyr yr awdurdod lleol i lunio cynllun dychwelyd i'r ysgol. Y nod oedd helpu pob ysgol yn y rhanbarth i sicrhau bod y polisiau cywir ar waith ganddynt a bod ganddynt asesiad risg cynhwysfawr y gallent ei haddasu i'r amgylchiadau yn eu hysgol nhw. Gweithiodd GwE gyda'r awdurdodau lleol yn y rhanbarth i ddatblygu ymagwedd gyffredin at asesu risg. Roedd hyn yn ganllaw i arweinwyr ysgol gynllunio i ailagor ysgolion ac UC Dau ar gyfer y cyfnod 'Ailgydio, dal i fyny' ac ailagor yn llawn ym Medi. Cyflwynir y fframwaith asesu risg ar ffurf dangosfwrdd ac mae'n cynnwys polisiau, dogfennau a rhestr gwirio. Cafodd ei ddiweddarau'n rheolaidd wrth i ganllawiau Llywodraeth Cymru gael eu cyhoeddi. Sicrhaodd swyddogion iechyd a diogelwch corfforaethol awdurdodau lleol yr ansawdd a phrofi'r gweithdrefnau er mwyn mynd i'r afael â phryderon a phroblemau. Mae arweinwyr ysgol yn nodi'u bod yn gwerthfawrogi'r ymagwedd gyson ar draws ardal yr awdurdod lleol a'r rhanbarth ac, yn benodol, y dangosfwrdd a ddatblygodd GwE. Yn ogystal, roedd eu barn am y sianeli cyfathrebu defnyddiol, gan gynnwys y fforymau i benaethiaid, yn gadarnhaol.

Gweithiodd y consortiwm mewn partneriaeth â swyddogion yr awdurdod lleol, fel y timau cynhwysiant, adnoddau dynol a chcludiant, i ystyried anghenion a phrofiadau dysgu priodol dysgwyr, yn benodol, i gefnogi'u hiechyd a'u lles. Parhaodd YCG GwE ac awdurdodau lleol i weithio'n agos gydag ysgolion wrth iddynt weithio i addasu'u lleoliadau fel eu bod mor ddiogel â phosibl i'w dysgwyr.

Gwaith y consortiwm rhanbarthol i gefnogi ei ysgolion ac UC Dau o Fedi 2020 ymlaen

Arweinyddiaeth a chydweithio

Er mwyn paratoi i ddisgyblion ddychwelyd yn llawn i ysgolion ac UC Dau ym Medi, fe wnaeth GwE ddiwygio'i gynllun gwaith, gan addasu ei flaenoriaethau i fodloni anghenion ysgolion.

Parhaodd GwE i weithio'n agos g awdurdodau lleol, ysgolion ac UC Dau. Mae tystiolaeth o'n galwadau ymgysylltu yn awgrymu bod ysgolion yn rhoi pwys ar y

cymorth a'r hyfforddiant y mae YCG rhanbarthol yn eu rhoi ar ddysgu ac addysgu, yn arbennig yr arweiniad ar ddysgu cyfunol a dysgu digidol.

Mae GwE wedi bod yn yrrwr allweddol yn helpu i ledaenu gwybodaeth ac arweiniad i ysgolion. Er enghraifft, trwy ei 'ddangosfwrdd lles cyffredinol a chymorth i ddysgwyr', datblygwyd cyfeiriadur dysgu proffesiynol a rhannwyd amrywiaeth o arweiniad gyda'r holl ysgolion ar draws y rhanbarth. Rhoddwyd gwybod am hyn drwy ddull clwstwr a chyda swyddogion ym mhob awdurdod lleol. Ar ddechrau'r cyfnod clo, dywedodd lleiafrif o ysgolion eu bod yn cael trafferth cael at y wybodaeth gywir yn brydlon. O ganlyniad i hyn, gwnaeth GwE ddiwygiadau i'r wefan ac, ers Medi, mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn canmol y defnydd o'r dangosfwrdd a hygyrchedd ffynonellau gwybodaeth eraill gan GwE a'u hawdurdod lleol. Ar y cyfan, mae'r cyfathrebu a'r gallu i gael at wybodaeth wedi gwella'n sylweddol yn ystod y cyfnod hwn.

Mae'r 'Grŵp Dychwelyd i'r Ysgol' rhanbarthol, gyda chynrychiolwyr y chwe awdurdod lleol a GwE, wedi bod yn gyfrwng defnyddiol i lywio dull cydlynedig i ymateb i heriau COVID-19 ar draws y rhanbarth.

Cameo: 'Grŵp Dychwelyd i'r Ysgol' Rhanbarthol

Nod sefydlu'r grŵp oedd datblygu dull rhanbarthol cyson, cydlynol a chydweithredol i ymateb i heriau COVID-19 ar draws y chwe awdurdod lleol. Nod y grŵp oedd:

- darparu cymorth amserol a phriodol i bob ysgol
- sicrhau bod pob dysgwr yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn iach yn ystod y cyfnod hwn
- hyrwyddo cynnig dysgu o ansawdd uchel (trwy ddysgu o bell a dysgu cyfunol)
- sicrhau bod sianeli cyfathrebu clir wedi'u sefydlu i alluogi gwybodaeth i lifo i'r ddau gyfeiriad ar draws y rhanbarth – gyda'r ysgol a'r gymuned ehangach
- gwrando ar lais penaethiaid
- cefnogi lles penaethiaid a staff ysgolion
- darparu fframwaith cynhwysfawr i ysgolion i gynorthwyo â'r gwaith o ailddechrau ysgolion, gan gynnwys cymorth ag asesiadau risg
- rhoi ffocws newydd i waith aelodau tîm GwE lle bo'r angen i gefnogi cydweithwyr yn yr awdurdod lleol.

Yn ystod y cyfnod hwn, buodd y grŵp:

- yn gweithio mewn partneriaeth i gynnig i ysgolion fatrics asesu risg ar gyfer lleoliadau cynradd, uwchradd, arbennig ac UC Dau
- yn datblygu dangosfwrdd o adnoddau, gyda chanllawiau rhanbarthol a chenedlaethol, yn 'siop un stop' i bob ysgol droi ato
- yn ysgrifennu, ar y cyd, ddiwygiadau neu atodiadau COVID-19 i bolisiâu presennol i bob ysgol ar draws y rhanbarth eu defnyddio
- yn datblygu strategaeth gyfathrebu ar gyfer gwaith y grŵp yn seiliedig ar dri philer 'hysbysu, cefnogi, gwrando'

- yn cydlynu cyfraniadau gan is-grwpiau rhanbarthol i ddarparu negeseuon cyson ac amserol i ysgolion ynghylch arweiniad adnoddau dynol, cludiant a chymorth i ddysgwyr, yn cynnwys cymorth lles targedig a chyffredinol
- yn cynorthwyo pob ysgol ag adnoddau er mwyn datblygu dysgu cyfunol, fel rhan o hyrwyddo darpariaeth dysgu o ansawdd uchel i bob dysgwr ym mhob ysgol
- yn cynorthwyo pob ysgol ag adnoddau i helpu gyda chynllunio dysgu carlam

Yn ein cysylltiad ag ysgolion ac awdurdodau lleol yn y rhanbarth, roedd llawer yn gwerthfawrogi'r ymagwedd gydlynedig yn ystod y cyfnod hwn. Mae hwyluso a chryfhau cydweithredu a gweithio mewn tîm ar sawl lefel rhwng yr awdurdodau lleol a GwE wedi cael effaith gadarnhaol ar ysgolion ar draws rhanbarth y gogledd. Mae rhai ysgolion wedi dweud bod ganddynt ddealltwriaeth gliriach erbyn hyn o'r rolau a'r cyfrifoldebau o ran mynd i'r afael â materion gyda'r pandemig ac maent yn gwerthfawrogi gallu cydweithio ar draws clystyrau i rannu a manteisio ar arbenigedd. Nododd ychydig o benaethiaid fod cynnal ffocws dysgwyr a staff ar ailagor ysgolion wedi magu hyder ymhlith arweinwyr ysgol, staff a theuluoedd.

I sicrhau parhad i'w dysgwyr, mae cynllunio ar gyfer senarios gwahanol, ar sawl lefel, hefyd wedi bod yn weithgarwch allweddol i arweinwyr awdurdodau lleol a GwE ers mis Medi. Nododd arweinwyr fod angen helpu a pharatoi ysgolion ar gyfer digwyddiadau posibl yn y dyfodol sydd y tu hwnt i'w rheolaeth. Trwy hyn, fe wnaeth GwE a'r awdurdodau lleol annog ysgolion i fyfyrwyr ar wersi a ddysgwyd o'r cyfnod clo a chynllunio senarios ar gyfer cyfnod clo pellach posibl. Ers dychwelyd ym Medi, mae llawer o ysgolion wedi wynebu heriau amrywiol, er enghraifft gyda disgyblion gartref yn hunanynysu. Fe wnaeth yr amrywiol senarios gynnwys ystyried sut olwg allai fod ar ddysgu mewn gwahanol gyd-destunau, o ysgol sydd ar agor yn llawn, i senario lle mae pob disgybl yn dysgu gartref. Helpodd hyn i'r consortiwm ac ysgolion ystyried cadernid eu modelau dysgu o bell a dysgu cyfunol.

Mae uwch arweinwyr GwE yn parhau i ddarparu cyfeiriad a gweledigaeth yn rhagweithiol i gefnogi arweinwyr mewn ysgolion. Yn benodol, maent yn gwybod bod penaethiaid, arweinwyr ysgol a swyddogion addysg yn gweithio o dan amgylchiadau anodd. Mae'r holl YCG wedi parhau â'u cysylltiad rheolaidd â phenaethiaid eu hysgolion cyswllt, i wirio'u lles a sicrhau eu bod yn cael y cymorth y mae arnynt ei angen. I ategu hyn ymhellach, mae cyfres o weithdai ar gael i arweinwyr ysgol a swyddogion addysg gyda ffocws ar eu lles, fel datblygu gwydnwch, addasu yn wyneb amgylchedd sy'n newid a myfyrdod personol. Mae'r cymorth parhaus hwn i'r gweithlu yn dangos ymwybyddiaeth gadarn gan arweinwyr yn GwE a'r awdurdodau lleol o'u hanghenion datblygu a lles tebygol yn y dyfodol agos.

Rhoddodd GwE gyngor ac arweiniad i benaethiaid fel y gallent ystyried sut i addasu cynlluniau strategol eu hysgol o dan yr amgylchiadau presennol. Er bod adolygu cynnydd yn erbyn cynlluniau datblygu ysgol 2019-20 yn statudol o hyd, mae'r consortiwm yn nodi bod y rhan fwyaf o ysgolion wedi mynd ati'n bwylllog trwy adolygu'u blaenoriaethau hyd at fis Mawrth. Darparodd y consortiwm arweiniad ychwanegol i arweinwyr ysgol ar gynnwys posibl eu cynlluniau datblygu ysgol i'w galluogi i adrodd ar gynnydd y tu hwnt i fis Mawrth. Fe wnaeth hyn gynnwys

posibiliadau i ysgolion ystyried cynnydd o ran eu gwaith ar ddysgu o bell, dysgu proffesiynol staff ac addasiadau i'r cwricwlwm, yn gyson â'r hyn roedd angen iddynt fynd i'r afael ag ef yn ystod y pandemig.

Hyrwyddo dysgu


Yn ystod tymor yr haf a thros wyliau'r haf, gweithiodd GwE a'r awdurdodau lleol gydag ysgolion ac UC Dau i ategu'u cynllunio ar gyfer dychwelyd i'r ysgol ym Medi.

Cameo: Model Ailgychwyn Dysgu ar gyfer Gogledd Cymru

Datblygodd GwE fodel ranbarthol, gydag awdurdodau lleol ac ysgolion, i sicrhau bod modd bodloni anghenion unigol dysgwyr, gan ystyried eu cyd-destun lleol. Gwerthusodd y model barodwydd a dull yr ysgol i sicrhau bod dysgu'n parhau i bob disgybl. Canolbwyntiodd ar dair elfen gydgyssylltiedig sy'n asesu parodrwydd disgyblion i ddysgu. Dyma'r tair elfen:

- lles emosiynol a meddyliol
- lechyd a ffitrwydd corfforol
- medrau rhifedd a llythrennedd craidd, medrau annibyniaeth a pharodrwydd ar gyfer dysgu newydd.

Mae'r tair elfen wedi'u rhannu'n gategoriâu angen:



Ffynhonnell: Consortiwm rhanbarthol GwE

Roedd angen i ysgolion sicrhau eu bod yn gallu cynnig darpariaeth i'w dysgwyr ym mhob maes i sicrhau tegwch a chydaddoldeb. Cytunwyd ar gyfrifoldeb am gynorthwyo ysgolion i gyflwyno pob elfen rhwng awdurdodau lleol, GwE ac asiantaethau eraill i gynllunio darpariaeth briodol i fodloni anghenion pob dysgwr.

Nod y model yw cynorthwyo ysgolion i helpu dysgwyr i ddychwelyd i 'ffitrwydd dysgu' a datblygu dysgu sy'n caniatáu i ddisgyblion barhau i wneud cynnydd. Mae

sicrhau cydlyniad i ddysgwyr rhwng dysgu yn yr ysgol a dysgu o bell yn elfen allweddol arall o'r model, gan gynnwys datblygu dysgu priodol pan fo gofynion presennol y cwricwlwm wedi'u datgymhwyso.

Rhoddodd llawer o awdurdodau lleol ac ysgolion ganmoliaeth i rôl GwE yn cydlynu gwaith partneriaeth rhwng ysgolion ac UC'Dau, ar lefel clwstwr mewn ysgolion cynradd a thrwy agosrwydd daearyddol yn y sector uwchradd. Mae'r dull hwn wedi golygu bod ysgolion ac UC'Dau yn gallu derbyn cymorth cwricwlaidd gwerthfawr gan eu YCG a throi at swyddogion yr awdurdod lleol am gymorth gweithredol.

Mae GwE yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol i gynorthwyo ysgolion ac UC'Dau i ddatblygu cwricwlwm eang a chytbwys i ddisgyblion. Yn ystod ein galwadau ymgysylltu, teimlodd llawer o ysgolion fod GwE a'u hawdurdod lleol wedi'u cefnogi'n dda yn ystod y cyfnod hwn. Roedd penaethiaid yn gyson eu barn bod GwE wedi cynorthwyo ysgolion i gyflwyno cwricwlwm mor eang â phosibl, er gwaethaf y cyfyngiadau. Mae llawer o ysgolion cynradd wedi addasu'u cynlluniau o Fedi ymlaen i gynnwys mwy o bwyslais ar weithgareddau sy'n hyrwyddo lles dysgwyr. Mewn llawer o ysgolion, roedd hyn yn golygu addasu'r thema neu'r pwnc y bwriadont ymdrin ag ef yn ystod y tymor hwn. Hefyd, rhoddodd y rhan fwyaf o ysgolion fwy o bwyslais ar gynyddu'u ffocws ar ddatblygu medrau craidd disgyblion. Serch hynny, mae ychydig YCG cynradd arweiniol yn nodi bod y cwricwlwm wedi culhau yn gyffredinol. Mae GwE wedi rhannu modelau cyflwyno newydd gyda phenaethiaid cynradd i geisio gwrthbwysu'r mater hwn.

Dywed penaethiaid ysgolion uwchradd fod gweithio yng nghyfnod COVID-19 yn her i athrawon mewn ychydig o bynciau, yn enwedig wrth roi cyfleoedd i ddisgyblion gwblhau gwaith ymarferol, er enghraifft mewn dylunio a thechnoleg, gwyddoniaeth, celf, cerddoriaeth ac addysg gorfforol. Yn gyffredinol, mae ysgolion wedi addasu'u darpariaeth i ymdopi â'r anawsterau hyn. Mewn rhai ysgolion uwchradd, mae arweinwyr wedi addasu'u hamserlen i gynnal mwy o wersi dwbl. Mae hyn yn caniatáu i ysgolion ymateb i ganllawiau iechyd a diogelwch a chynnal cwricwlwm cytbwys ar yr un pryd. Mewn ychydig o ysgolion, mae adrannau wedi addasu'u cynlluniau gwaith i oresgyn anawsterau ymarferol, fel methu defnyddio ystafelloedd arbenigol.

Y tymor hwn, mae YCG a swyddogion addysg awdurdodau lleol wedi parhau i gydweithio i ychwanegu at yr amrywiaeth o ddeunyddiau dysgu ac addysgu sydd ar gael i athrawon a staff cymorth trwy blatfform ar-lein GwE. Dywed penaethiaid fod yr adnoddau hyn yn cynnig cymorth gwerthfawr i'w staff. Esboniodd swyddogion GwE fod llawer o ysgolion uwchradd wedi defnyddio'r adnoddau a'u bod, yn benodol, wedi troi at unedau gwaith amlddisgyblaeth sy'n cyd-fynd yn dda ag egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru. Mae llawer o awdurdodau'n dweud bod GwE wedi hybu cydweithredu a chydweithio rhwng ysgolion ac o fewn ysgolion yn adrannol. Y tymor hwn, mae athrawon yn y rhanbarth yn rhannu adnoddau ar sail pob maes dysgu a phrofiad i fynd i'r afael â'r angen i gefnogi model cwricwlwm eang a chyfoethocach.

Soniodd llawer o ysgolion yr ymgysylltodd Estyn â nhw fod nifer sylweddol o ddisgyblion, pan ddychwelont i'r ysgol yn wreiddiol ym Medi, wedi bod angen

cymorth pellach i ddal i fyny â'u medrau llythrennedd a rhifedd. Yn benodol, nododd ysgolion yn y rhanbarth fod canolbwyntio'n barhaus ar ailsefydlu medrau llafaredd Cymraeg disgyblion yn flaenoriaeth. I fynd i'r afael â hyn, cydlynodd GwE gyfleoedd i ysgolion cyfrwng Cymraeg weithio ar draws ardaloedd awdurdodau lleol i ddatblygu a rhannu adnoddau. Er enghraifft, mae ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg o Wrecsam, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Chonwy wedi cydweithio i ddatblygu adnoddau i gefnogi medrau llafaredd disgyblion. Dros amser, mae GwE a'i ysgolion wedi adeiladu casgliad cadarn o adnoddau sydd ar gael ar-lein i ysgolion a rhieni yn y rhanbarth. Mae'r rhain yn cynnwys cyfres o adnoddau Cymraeg i ysgolion sy'n addysgu Cymraeg fel ail iaith ac adnoddau dwyieithog i rieni nad ydynt yn siarad Cymraeg. Hefyd, mae GwE wedi codi ymwybyddiaeth o ddeunyddiau ychwanegol sydd ar gael. Er enghraifft, maent wedi hyrwyddo 'Y Pair' fel rhwydwaith yn Hwb a sefydlwyd i rannu adnoddau Cymraeg a addaswyd ar gyfer dysgu o bell a dysgu cyfunol, ac 'Y Gist' fel rhwydwaith i athrawon Cymraeg ail iaith. Yn gyffredinol, wrth i dymor yr hydref fynd rhagddo, teimlai ychydig o benaethiaid fod medrau Cymraeg wedi adfer yn dda, yn enwedig yn achos disgyblion hŷn.

Yn ein harolwg o arweinwyr ysgol, nododd llawer ohonynt eu bod yn cael gwybodaeth ddefnyddiol gan GwE ar ymagweddau at ddysgu o bell a dysgu cyfunol. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion hyn yn fwy cadarnhaol yn rhanbarth GwE nag yn y tri chonsortium arall. I lawer o ysgolion ac UC'Dau, roedd y wybodaeth, yr adnoddau a'r enghreifftiau o arfer ar gyfer dysgu o bell a dysgu cyfunol a luniwyd gan GwE yn fan cychwyn defnyddiol ar gyfer datblygu'u harfer eu hunain. Rhannwyd gwybodaeth a dysgu proffesiynol trwy amrywiaeth o fforymau a rhwydweithiau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfarfodydd clwstwr, cyfarfodydd i benaethiaid, fforymau penodol i bwnc a grwpiau dysgu ac addysgu. Mae GwE wedi cynnig gweminarau a sesiynau cymhorthfa i rannu adnoddau a datblygu dealltwriaeth athrawon o ddysgu ac addysgu ar-lein ac o bell effeithiol. Yn ogystal, mae GwE wedi cynnig hyfforddiant i gynorthwywyr addysgu trwy blatfform ar-lein. Mae llawer o ysgolion ac UC'Dau wedi defnyddio'r adnoddau fel sylfaen i'w pecyn eu hunain o ddysgu proffesiynol i gefnogi cymhwysedd digidol athrawon a chynorthwywyr addysgu. Yn gyffredinol, mae arweinwyr ysgol yn nodi bod staff wedi datblygu'u medrau digidol a'u bod mewn sefyllfa well i gynnig amrywiaeth o brofiadau dysgu ar-lein os oes angen i ddisgyblion ddysgu adref.

Cameo: Ymagwedd at fonitro a gwerthuso effeithiolrwydd dysgu o bell

Yn dilyn cyfarfodydd clwstwr gyda'r gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol i drafod dysgu o bell a dysgu cyfunol, rhoddodd un ysgol ddull dysgu o bell digidol ar brawf tra oedd disgyblion yn y dosbarth. Cwblhaodd un grŵp o ddisgyblion weithgareddau a thasgau ar-lein tra oedd yr athro'n defnyddio hyfforddiant uniongyrchol gyda disgyblion eraill. Fe wnaeth hyn alluogi athrawon i gynorthwyo disgyblion i ddefnyddio meddalwedd a lanlwytho gwaith i blatfform digidol tra oeddent yn yr ysgol. Hefyd, fe wnaeth ganiatáu i'r ysgol fonitro a gwerthuso effeithiolrwydd y gweithgareddau a'r tasgau a osodwyd fel dysgu o bell. Mae'r ysgol yn addasu ei hymagwedd yn dilyn adborth o'r broses hon.

Yn ôl y disgwyl, roedd angen cymorth ychwanegol ar lawer o ddysgwyr i gyflymu'u dysgu pan ddychwelont i'r ysgol. O ganlyniad, cydnabu GwE a'i randdeiliaid bod angen amlygu strategaethau addysgu effeithiol i gefnogi ysgolion a dysgwyr. Trwy adolygiad o lenyddiaeth ymchwil, ynghyd ag ymchwil a wnaed mewn ysgolion yn y rhanbarth, datblygodd GwE ganllaw i helpu ysgolion amlygu'r strategaethau addysgu a'r rhaglenni ar-lein mwyaf effeithiol a allai helpu ysgolion i wella medrau craidd disgyblion. Yn benodol, canolbwyntiodd GwE a'r ysgolion yn y rhanbarth ar wella medrau darllen disgyblion, gan gynnwys eu medrau deall, rhuglder a geirfa, ynghyd â gwella'u medrau rhifedd. Lluniwyd rhai o'r strategaethau a'r deunyddiau cymorth hyn yn benodol i'w defnyddio mewn ysgolion a chan rieni gartref i gefnogi dysgu'u plant. Mae llawer o'r adnoddau a'r strategaethau'n deillio o brosiectau ymchwil cydweithredol diweddar a wnaed gydag ysgolion GwE drwy'r Sefydliad Cydweithredol dros Ymchwil Addysg, Tystiolaeth ac Effaith (CIEREI), sef partneriaeth rhwng Prifysgol Bangor a GwE.

Mewn ychydig o awdurdodau lleol, mae uwch arweinwyr yn awyddus i swyddogion yr awdurdod lleol a GwE gynyddu'u rôl monitro a sicrhau ansawdd fel bod swyddogion yn cael dealltwriaeth gadarn o ansawdd y ddarpariaeth ar draws eu hysgolion. Mae llawer o ysgolion wedi defnyddio asesiadau cyn y cyfnod clo i amlygu sut mae medrau disgyblion wedi datblygu yn ystod dysgu gartref. Mae YCG wedi annog ysgolion i ystyried ystod eang o dystiolaeth ers Medi er mwyn amlygu bylchau yn nysgu'r disgyblion. Mae ysgolion yn nodi'u bod wedi cael trafodaethau defnyddiol gydag YCG am ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd o ran cynnydd disgyblion dros y misoedd diwethaf. Er enghraifft, mae'n ymddangos bod rhai disgyblion wedi gwneud cynnydd sicr gan eu bod wedi cael ystod eang o weithgareddau penagored, a roddodd gyfleoedd buddiol iddynt wneud eu dewisiadau eu hunain.

Addaswyd y cynnig dysgu proffesiynol 'arferol' i sicrhau bod ysgolion a lleoliadau'n cael cymorth perthnasol a phwrpasol. Mae hyn wedi'u galluogi i addasu yn ôl yr amgylchiadau heriol. Yn ein hymgysylltiad ag ysgolion, mae'r rhan fwyaf o benaethiaid wedi canmol cynnwys y dysgu proffesiynol a gynigiwyd gan GwE yn ystod y cyfnod hwn. Er enghraifft, mae wedi darparu hyfforddiant trwy weminarau ar ddulliau dysgu carlam penodol seiliedig ar ymchwil ym Mhrifysgol Bangor. Enghraifft arall yw'r ffordd y mae'r rhaglen arweinyddiaeth ganol wedi cael ei theilwra i fynd i'r afael â sut i arwain mewn cyfnodau o argyfwng a newid. Rhoddodd y cynnig dysgu proffesiynol flaenoriaeth i helpu ysgolion i wella medrau digidol eu staff a'u galluogi i ddatblygu dulliau dysgu o bell a dysgu cyfunol effeithiol ac ymgysylltiad mwy effeithiol gan ddysgwyr.

Mae'r consortiwm rhanbarthol yn cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd i ysgolion gymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu proffesiynol penodol er mwyn gwella llythrennedd, rhifedd a strategaethau dysgu carlam disgyblion. Mae hyn yn cynnwys prosiect helaeth SAFMEDS (Say All Fast Minute Every Day Shuffled) i wella rhuglder medrau mathemateg sylfaenol disgyblion gan ddefnyddio strategaeth addysgu seiliedig ar dystiolaeth. Mae rhaglenni cymorth eraill i ysgolion yn cynnwys ystod gynhwysfawr o ddeunyddiau ac adnoddau hyfforddiant, fel pecyn cymorth llythrennedd dwyieithog, i gefnogi datblygiad medrau llythrennedd disgyblion. Mae

GwE wedi bod yn hyfforddi aelodau staff sydd wedyn yn cyfleu'r hyfforddiant hwnnw i eraill mewn ysgolion ac UC'Dau. Mae arweinwyr a staff ysgol yn elwa o hyfforddiant trwy weminarau, rhwydweithiau arweinwyr pwnc, a chyfarfodydd rhwng arweinwyr dysgu ac addysgu. Rhannwyd adnoddau i hyrwyddo llythrennedd a rhifedd trwy bob cydlynedd. Mae GwE yn hwyluso gwaith rhwng ysgolion i rannu arfer dda a syniadau ynghylch dysgu ac addysgu trwy'r pandemig presennol. Hefyd, mae cymorth i ysgolion fyfyrion ar ansawdd y ddarpariaeth yn ystod y cyfnod clo a defnyddio'r wybodaeth hon wrth iddynt baratoi i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru. Mae penaethiaid yn nodi bod yr adnoddau hyn yn rhoi sylfaen gadarn iddynt arsylwi modelau arfer effeithiol.

Mae llawer o awdurdodau lleol y rhanbarth o'r farn bod ysgolion a'r consortiwm rhanbarthol wedi newid eu ffordd o weithio, a hynny er gwell, mewn sawl ffordd. Yn benodol, mae'r awdurdodau lleol hyn yn gadarnhaol am y datblygiadau ym maes TGCh ac maent yn cydnabod bod gwella gallu o ran TGCh wedi bod yn broses ddysgu sydyn i bawb. Hefyd, gwelant fod cyfleoedd dysgu proffesiynol mwy helaeth ar gael trwy ddefnyddio amrywiaeth o blatfformau digidol. Dywed llawer o ysgolion ac awdurdodau lleol fod staff yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu proffesiynol dewisol pan y gallant wneud hynny o bell a phan fydd yn gyfleus iddyn nhw.

Cefnogi dysgwyr bregus

Mae YCG GwE, ar y cyd â swyddogion awdurdodau lleol, wedi rhoi cymorth pwrpasol i benaethiaid a staff ysgol hyrwyddo lles ac, ar adeg addas, ddechrau ystyried darpariaeth a dysgu. Nododd penaethiaid fod YCG wedi cynnig cydbwysedd effeithiol rhwng cymorth ar gyfer lles dysgwyr ac arweiniad ar ddysgu yn ystod y tymor hwn. Dywedant fod ysgolion yn teimlo straen enfawr wrth geisio cael y cydbwysedd yn gywir rhwng gwella'r ysgol a blaenoriaethu lles staff a dysgwyr.

Mae YCG y rhanbarth sydd â chyfrifoldeb am grwpiau bregus wedi darparu adnoddau pwrpasol i ysgolion a rhieni ac mae'r rhain ar gael ar wefannau AAA a Chynhwysiant bob un o'r awdurdodau lleol. Mae'r YCG hwn yn mynychu cyfarfodydd bob hanner tymor gyda swyddogion addysg bob awdurdod lleol a chynrychiolwyr gwasanaethau plant er mwyn casglu gwybodaeth bwysig am agweddau ar ddysgu y mae angen cymorth pellach arnynt. Mae hyn wedi arwain at ymagwedd fwy targedig at gymorth.

Mae swyddogion GwE wedi cydweithredu ag ysgolion ac awdurdodau lleol mewn amrywiaeth o fforymau. Er enghraifft, cyfrannodd swyddogion at waith y Grŵp ADY/Cynhwysiant rhanbarthol a lluniant gynnwys ar gyfer y dangosfwrdd ar-lein. Hefyd, trefnwyd gyriant rhanbarthol o wybodaeth ac adnoddau, wedi'i rannu rhwng pob un o'r chwe awdurdod lleol. Mae YCG GwE yn parhau i fynychu grwpiau lles a diogelu awdurdodau lleol i rannu arfer a gwybodaeth, a'r grŵp ansawdd rhanbarthol hefyd, er mwyn cydweithredu â'r gwaith i gefnogi plant sy'n derbyn gofal.

Yn ystod ein galwadau ymgysylltu ag ysgolion, roedd penaethiaid yn gadarnhaol am y cymorth a'r cyngor a ddarparodd GwE i'w helpu i gynllunio sut i ddefnyddio'r grant 'Recriwtio, adfer a chodi safonau: y rhaglen dysgu carlam'. Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am fonitro'r gwariant, y cydymffurfio ac am sicrhau bod cynlluniau yn gynaliadwy, a swyddogion consortiwm yn gyffredinol sy'n arwain ar gynghori ysgolion ar ddarpariaeth briodol ac effeithiol.

Mae arweinwyr GwE wedi cyfleu mai penaethiaid sydd yn y lle gorau i flaenoriaethu sut dylid gwario'r cyllid grant ychwanegol hwn. Mae cymorth a chynghori ar gael i ysgolion ond mae YCG ac awdurdodau lleol yn awyddus i roi annibyniaeth i ysgolion ddatblygu'u syniadau eu hunain am sut yn union i dargedu'r grant. Darparodd GwE ffurflen i ysgolion a derbyniodd eu cynlluniau, yna cytunwyd ar y rhain gyda'r awdurdod lleol. Mae GwE wedi creu dangosfwrdd defnyddiol a chronfa o ddogfennau ac adnoddau ar ei wefan yn gysylltiedig â'r grant Recriwtio, adfer a chodi safonau, fel y gall ysgolion gael at wybodaeth yn sydyn i gael syniadau am wario'r grant, er enghraifft cymorth i gynnal grwpiau ymyrryd bach. Hefyd, mae GwE yn ymwybodol o'r angen i gefnogi a chynghori rhai ysgolion yn fanylach, i sicrhau bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio i sicrhau'r effaith fwyaf.

Mae GwE yn gweithio ochr yn ochr â'i gydweithwyr mewn awdurdodau lleol i ddatblygu un dull o fonitro gwariant y grant Recriwtio, adfer a chodi safonau ar draws chwe awdurdod y gogledd. Yn ogystal, disgwylir i ysgolion ddangos bod eu cynlluniau yn gynaliadwy. Dywedodd rhai ysgolion bach wrthym eu bod wedi cael trafferth recriwtio staff, oherwydd bydd cyllid y grant yn cynnal darpariaeth ar gyfer nifer cyfyngedig o oriau ychwanegol yn unig. Yn ôl YCG, mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion llai yn defnyddio'r grant i ychwanegu at oriau cyflogaeth aelodau staff presennol a rhoi hyfforddiant iddynt fel y byddant yn parhau i elwa o'r arbenigedd pan ddaw'r cyllid i ben.

Yn genedlaethol, mae swyddogion GwE wedi cyfrannu at waith amrywiol weithgorau gyda ffocws ar les a dysgwyr bregus. Er enghraifft, cyfrannodd YCG sydd â chyfrifoldeb am les at grŵp cenedlaethol y Grant Datblygu Disgyblion gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau cyfathrebu rheolaidd, rhoi'r diweddaraf am ddatblygiadau rhanbarthol, a rhannu gwybodaeth gyda'r consortiwm.

Mae GwE wedi cynorthwyo awdurdodau lleol ac ysgolion i ymateb i anghenion lles dysgwyr bregus, yn enwedig wrth ddarparu dysgu proffesiynol ategol i staff. Mae'r consortiwm wedi gweithio ar y cyd ag ysgolion unigol, clystyrau o ysgolion ac awdurdodau lleol i gefnogi ymagwedd dargedig a chyffredinol at les dysgwyr a staff. Mae wedi strwythuro'r cynnig dysgu proffesiynol hwn i gefnogi'r dysgu yn yr ysgolion. Â lles y dysgwr yn ganolog i'r cynnig, gall ysgolion elwa o'r adnoddau a'r strategaethau yn y cynnig cyffredinol sydd ar gael i bob ysgol neu ddewis cynnig targedig. Hyd yn hyn, mae llawer o ysgolion wedi profi, rhannu ac elwa o weld enghreifftiau o arfer effeithiol gan ysgolion yn eu hawdurdod lleol ac ar draws y rhanbarth. Mae'r adnoddau ymyrryd ymarferol i ysgolion eu defnyddio, sydd â'r Pum egwyddor i gefnogi dysgu gartref' [EEF, 2020] yn sylfaen iddynt, yn ffocws trafodaethau gan YCG gydag ysgolion wrth iddynt gynllunio a chyflwyno'u rhaglenni dysgu carlam.

Enghraifft dda o gynnig dysgu proffesiynol yw'r 'Rhaglen dychwelyd i ysgolion i ysgolion ystyriol o drawma'. Drwy'r rhaglen hon, caiff sesiynau ysgol gyfan eu hwyluso am effaith y pandemig a dadansoddiad o'r strategaethau y gallai ysgolion ystyried eu defnyddio wrth i'w dysgwyr ddychwelyd. Roedd hyn yn cynnwys egwyddorion a modelau dysgu ac addysgu allweddol. Rhoddodd nifer o ysgolion sylwadau am y rhaglen hon a nodi ei bod yn ddefnyddiol i gynyddu nifer y staff sy'n ystyriol o drawma ac yn gwybod am brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Hefyd, soniodd yr ysgolion hyn fod staff addysgu wedi dod yn fwy hyderus i gynorthwyo ysgolion a nodi cymorth a darpariaeth addas.



ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cwricwlwm i Gymru

Y daith i 2022



Ionawr 2021

Tud. 160

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon i:

Yr Is-adran Cwricwlwm ac Asesu

Y Gyfarwyddiaeth Addysg

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ


e-bost: cwricwlwmigymru2022@llyw.cymru

Blog Cwricwlwm i Gymru: <https://cwricwlwmigymru.llyw.cymru/>

 [@LIC_Addysg](https://twitter.com/LIC_Addysg)

 [Facebook/AddysgCymru](https://www.facebook.com/AddysgCymru)

 [Addysg Cymru / Education Wales](https://www.youtube.com/AddysgCymru)



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Cynnwys

Cwricwlwm i Gymru: Y daith i 2022	2
Pwrpas	2
Yng nghyd-destun COVID-19	2
Sut y dylem fynd ati i baratoi ar gyfer y cwricwlwm	4
Datblygu gweledigaeth ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm	4
Ffyrdd o weithio	5
Beth y dylem ei wneud? Disgwyliadau cyffredin ar lefel ysgol hyd at 2022	6
Disgwyliadau manwl	7
Cwricwlwm i Gymru: cerrig milltir allweddol ac amserlenni	14

Cwricwlwm i Gymru: Y daith i 2022

Pwrpas

Yn sgil rhyddhau'r canllawiau diwygiedig ar gyfer Cwricwlwm i Gymru ym mis Ionawr 2020, mae cyfnod nesaf y gwaith wedi dechrau. Mae gwireddu'r cwricwlwm yn her i bob ysgol a'r system addysg gyfan wrth i ni weithio'n barhaus i gyflawni'r pedwar diben ar gyfer pob dysgwr yng Nghymru.

Pwrpas y ddogfen hon yw nodi disgwyliadau cyson ar gyfer ysgolion o ran proses gynllunio eu cwricwlwm a pharatoi i'w weithredu o 2022 ymlaen.

- Sut y dylai ysgolion fynd ati i baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru?
- Pa gamau y dylem eu cymryd i baratoi ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm yn 2022?

Mae'r ddogfen hon yn nodi disgwyliadau sydd wedi cael eu datblygu a'u cytuno ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru, y consortia rhanbarthol ac Estyn. Ei nod yw helpu ysgolion i gynllunio eu dull gweithredu a threfn eu gweithgarwch – yn ogystal â llywio'r cymorth y mae Llywodraeth Cymru a sefydliadau haen ganol yn ei gynnig. Byddwn yn adolygu'r ddogfen yn 2021 er mwyn sicrhau bod y disgwyliadau'n parhau'n berthnasol ac yn gyfredol.

Rydym yn cydnabod y bydd ysgolion mewn gwahanol sefyllfaoedd, a bydd cyflymdra a ffocws y gweithgarwch yn amrywio. Nid glasbrint mo'r ddogfen hon ac ni fwriedir iddi ragnodi cyflymder datblygu cwricwlwm. Yn hytrach, bydd yn helpu i lywio'r gwaith ac yn darparu pwynt cyfeirio cyffredin i'r holl sefydliadau sy'n gweithio gydag ysgolion er mwyn sicrhau ein bod yn gyson o ran ein disgwyliadau a bod y cymorth yr ydym yn ei ddarparu yn amserol ar gyfer y gweithgarwch sy'n digwydd mewn ysgolion.

Dylai pob ysgol ddefnyddio *Canllawiau Cwricwlwm i Gymru* i'w helpu i ddatblygu eu cwricwlwm (gweler hwb.llyw.cymru/cwricwlwm-i-gymru).

Yn ogystal â'r ddogfen hon, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu a chyhoeddi cynllun gweithredu cwricwlwm a fydd yn nodi'r camau i'r llywodraeth a phartneriaid strategol eu cymryd, i gefnogi ysgolion wrth baratoi ar gyfer y cyfnod cyflwyno.

Yng nghyd-destun COVID-19

Mae'r ymateb i COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar ysgolion wrth gwrs ac yn debygol o fod wedi amharu ar eu cynlluniau i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd. O ran y cwricwlwm, bydd angen i ysgolion ganolbwyntio ar ddwy agwedd. Bydd angen iddyn nhw:

- addasu eu cwricwlwm a'u haddysgu presennol yn sgil amgylchiadau sy'n newid a pharatoi ar gyfer ystod o senarios
- paratoi ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd yn 2022.

I gefnogi ysgolion gyda'r agwedd gyntaf, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar ddysgu (gweler llyw.cymru/canllawiau-ar-ddysgu-mewn-ysgolion-lleoliadau-o-dymor-yr-hydref-covid-19). Mae'r canllawiau hyn yn rhoi cyfres lefel uchel o ddisgwyliadau ar gyfer ysgolion a lleoliadau i ddatblygu dulliau dysgu ac maen nhw'n ceisio cau'r bwlch rhwng ein dysgwyr, ar yr un pryd â chodi'r disgwyliadau i bawb.

Mae'r disgwyliadau yn y ddogfen hon yn ymwneud â'r ail agwedd. Mireiniwyd ac addaswyd y disgwyliadau hyn er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n realistig yng ngoleuni'r pandemig a'u bod yn rhoi hyblygrwydd i ysgolion yn eu hamgylchiadau penodol nhw.

Sut y dylem fynd ati i baratoi ar gyfer y cwricwlwm?

Datblygu gweledigaeth ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm

Wrth i ysgolion fynd drwy'r broses o gynllunio eu cwricwlwm, mae rhai pethau'n parhau i fod yn bwysig. Fel a nodwyd yng *Nghanllawiau Cwricwlwm i Gymru* (gweler hwb.llyw.cymru/cwricwlwm-i-gymru), yn ystod eu gwaith paratoi, dylai ysgolion barhau i ystyried sut y bydd y cwricwlwm y maen nhw'n ei ddatblygu yn:

- galluogi eu dysgwyr i gyflawni'r pedwar diben a'u paratoi ar gyfer dysgu parhaus, gwaith a bywyd
- meithrin disgwyliadau uchel a galluogi pob dysgwr i gyflawni ei lawn potensial
- cynnig addysg eang a chytbwys, sy'n galluogi dysgwyr i greu cysylltiadau rhwng y gwahanol feysydd dysgu a phrofiad, a chymhwyso'u dysgu mewn sefyllfaoedd a chyd-destunau newydd
- cefnogi cynnydd ar hyd continwrm dysgu, a chefnogi'r ffordd y maen nhw fel ysgolion yn gweithio gydag ysgolion eraill i sicrhau cysondeb yn y cyfnodau pontio ar hyd y continwrm 3 i 16 oed
- cefnogi iechyd a lles dysgwyr
- cefnogi dysgwyr i feithrin yr wybodaeth, sgiliau a phrofiadau sy'n sylfaen i fod yn ddinesydd gwybodus
- cydnabod hunaniaeth dysgwyr, eu hiaith/ieithoedd, eu gallu a'u cefndir, a'r cymorth gwahanol y gall fod ei angen arnyn nhw o ystyried eu hamgylchiadau penodol
- adlewyrchu amrywiaeth o safbwyntiau, gwerthoedd a hunaniaethau sy'n llunio eu hardal leol a Chymru, a meithrin dealltwriaeth o'r byd ehangach
- ymgorffori datblygu ar y cyd gyda dysgwyr, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach
- galluogi eu dysgwyr i wneud synnwyr o'r profiad o dyfu'n hŷn yn y Gymru gyfoes ac o faterion a fydd yn bwysig yn y dyfodol, gan gynnwys lles, datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth
- galluogi eu dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth o'u hawliau ac o hawliau pobl eraill.

Dylai'r pwyslais yma fod ar archwilio beth mae'r pedwar diben yn ei olygu i bob dysgwr. Dylai'r gwaith o baratoi a chynllunio'r cwricwlwm gyfrannu at ddatblygiad dysgwyr tuag at y pedwar diben, yn hytrach na cheisio cynnwys y pedwar pennawd ym mhob rhan o'r dysgu.

Mae *Canllawiau Cwricwlwm i Gymru* yn amlinellu y dylai ysgolion ac ymarferwyr ddatblygu gweledigaeth ar gyfer eu cwricwlwm. Mae'r broses hon yn hollbwysig i ddatblygu cwricwlwm sy'n wirioneddol weddnewidiol: ni ddylai ysgolion ddefnyddio'r cynnwys na'r ddarpariaeth bresennol fel man cychwyn na cheisio eu cymhwyso i fodloni gofynion y cwricwlwm newydd.

Dylai ysgolion ystyried yr adran 'Cynllunio eich cwricwlwm' yng *Nghanllawiau Cwricwlwm i Gymru*, y gellir eu gweld yn hwb.llyw.cymru/cwricwlwm-i-gymru/.

Ffyrdd o weithio

Bydd y ffordd y mae ysgolion yn mynd ati i baratoi a chynllunio'r cwricwlwm yr un mor bwysig â'r hyn a wnant. Bydd datblygu ar y cyd yn hanfodol wrth ddatblygu eu dulliau gweithredu. Dylai'r egwyddorion sy'n sail i hyn gynnwys y canlynol:

- **Datblygu ar y cyd** – Mae datblygu ar y cyd yn golygu rhannu problemau a datblygu atebion ar y cyd. Mae datblygu ar y cyd yn gofyn bod pobl yn gweithio ar draws ffiniau traddodiadol: rhwng haenau addysg yn ogystal â rhwng disgyblaethau, ysgolion a chyfnodau, a hefyd gyda rhanddeiliaid y tu hwnt i'r system addysg.
- **Cydraddoldeb wrth ddatblygu ar y cyd** – Dylai datblygu ar y cyd sicrhau cydraddoldeb rhwng lleisiau gwahanol mewn tîm neu yn y system. Dylai gydnabod bod pob llais yn y broses yn gwneud cyfraniad dilys.
- **Amser i feddwl ac ymgysylltu** – Mae datblygu atebion ar y cyd yn cymryd mwy o amser. Mae angen datblygu syniadau, atebion a chydbertnasau o ansawdd uchel dros gyfnod hwy o ymgysylltu. Mae hyn hefyd yn cydnabod bod cynllunio'r cwricwlwm yn broses barhaus o fireinio, yn hytrach na phrosiect sydd â phwynt terfyn.
- **Dealltwriaeth glir o 'pam' y caiff pethau eu dysgu a'u gwneud** – Mae gwybodaeth epistemig yn helpu'r system i wneud penderfyniadau gwell ynghylch yr hyn y dylid ei ddysgu. Mae'r broses o gynllunio'r cwricwlwm yn gofyn i ni resymu pam fod dysgu penodol yn bwysig a beth yw hanfod y dysgu hwnnw.
- **Ymgysylltu beirniadol ag arbenigedd** – Mae angen ymgysylltu'n ddeallusol â gwaith ymchwil o ansawdd, mewnbyn arbenigol ac arbenigedd rhyngwladol wrth gynllunio cwricwlwm.
- **Arweinyddiaeth ar bob lefel** – Mae angen i bob rhan o'r system ddarparu arweinyddiaeth er mwyn galluogi eraill i wireddu ein gweledigaeth a'n dyheadau. Dylai arweinyddiaeth yr ysgol foddelu a galluogi ffyrdd eraill o weithio. Dylai gynnig cyfeiriad clir, her a disgwyliadau uchel, a hefyd chaniatáu perchenogaeth. Dylai hefyd annog diwylliant o ymddiriedaeth a grymuso: dylai ysgolion ac ymarferwyr osgoi datblygu deunydd neu ddata ychwanegol fel tystiolaeth o'r hyn y maen nhw'n ei wneud.

Wrth wreiddio'r egwyddorion hyn, **ni ddylai** ysgolion:

- symud at weithredu yn rhy gyflym
- defnyddio dulliau thematig arwynebol na cheisio dangos tystiolaeth o gynnwys y pedwar diben
- cymhwyso cynnwys cyfredol eu cwricwlwm i gwrdd â gofynion *Canllawiau Cwricwlwm i Gymru*
- cynnal archwiliad mewn ymgais i 'baru' bob disgrifiad dysgu ac yna cynllunio cynnwys i lenwi unrhyw fylchau canfyddedig
- teimlo dan bwysau i gynhyrchu deunydd ychwanegol er mwyn dangos yr hyn maen nhw'n ei wneud
- buddsoddi mewn cwricwlwm parod 'oddi ar y silff'
- ystyried y broses o ddatblygu'r cwricwlwm fel digwyddiad 'unwaith ac am byth'
- asesu'n unol â'r disgrifiadau dysgu'n uniongyrchol.

Beth y dylem ei wneud? Disgwyliadau cyffredin ar lefel ysgol hyd at 2022

Cyfnod	Amser	Gwaith allweddol
Ymgysylltu	1–2 tymor	Bydd angen i ysgolion feithrin dealltwriaeth o fodel cysyniadol y cwricwlwm. Bydd hyn yn cynnwys ymwneud â'r cwricwlwm a gwneud synnwyr ohono gan ddefnyddio deunyddiau a dogfennaeth, a datblygu neu ddiweddarau eu gweledigaeth gyda chymuned gyfan yr ysgol. Bydd yr ysgolion yn myfyrio ar yr arferion presennol a'r hyn a ddysgwyd wrth ymateb i COVID-19.
Cynllunio a threialu	3 thymor	Dylai ysgolion ddechrau datblygu cynllun cwricwlwm ac asesu lefel uchel, wedi'i lywio gan y canllawiau, a symud ymlaen â blaenoriaethau i gefnogi gwireddu'r cwricwlwm yn unol â'u cynllun datblygu ysgol. Gall ysgolion ddechrau treialu agweddau ar gynllunio, dulliau gweithredu ac addysgeg newydd, gan ddefnyddio'r dysgu i werthuso a mireinio eu dull gweithredu.
Gwerthuso a pharatoi ar gyfer addysgu am y tro cyntaf	2–3 thymor	Dylai ysgolion werthuso eu cynlluniau cychwynnol a threialu dulliau gweithredu pellach. Bydd ysgolion yn dechrau llunio'r cynlluniau tymor canolig terfynol ar gyfer ysgolion cynradd a Blwyddyn 7, a'r cynlluniau tymor hwy ar gyfer Blynyddoedd 8 i 11.
Addysgu am y tro cyntaf a mireinio'r cwricwlwm yn barhaus	Medi 2022 ymlaen	Bydd ysgolion yn mabwysiadu eu cwricwlwm ac yn dechrau ei weithredu. Dylai ysgolion uwchradd fireinio cynlluniau cwricwlwm wrth i ddysgwyr wneud cynnydd. Dylai ysgolion fyfrio ar effeithiolrwydd eu cwricwlwm a defnyddio'r canfyddiadau i wella.

Disgwyliadau manwl

Ymgysylltu: 1-2 tymor

Bydd angen i ysgolion feithrin dealltwriaeth o fodel cysyniadol y cwricwlwm. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio deunyddiau a dogfennaeth, a datblygu neu ddiweddarau eu gweledigaeth gyda chymuned gyfan yr ysgol.

Dylai ysgolion:

- ddatblygu dealltwriaeth ysgol-gyfan o gwricwlwm a arweinir gan y dibenion
- ystyried sut y mae'r pedwar diben yn llywio holl flaenoriaethau'r ysgol
- datblygu gweledigaeth ar gyfer eu cwricwlwm a'r dysgu ac addysgu sy'n ei gefnogi
- gwneud cysylltiadau â'r gwaith o weithredu'r diwygiadau ehangach i addysg (e.e. gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a'r Gymraeg mewn Addysg) i sicrhau bod gweithgarwch yn atgyfnerthu'r naill a'r llall
- datblygu barn gytûn ynghylch blaenoriaethau ar gyfer datblygu addysgu yn yr ysgol, a dull gweithredu strategol tuag ati
- arwain diwylliant ar gyfer newid, gan sicrhau sgysiau parhaus ar bob lefel yn ogystal ag amser i ddeall ac ymdrin â newidiadau
- datblygu dealltwriaeth ymhlith yr holl staff o fodel y cwricwlwm a'r dull asesu a nodir yng *Nghanllawiau Cwricwlwm i Gymru*
- deall pwysigrwydd a gwerth gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau a'u rôl wrth alluogi dysgu, fel y nodir yng *Nghanllawiau Cwricwlwm i Gymru*
- gwerthuso'r arferion presennol a'r hyn a ddysgwyd wrth yr ymateb i COVID-19.

Dylai gweithgarwch mewn ysgolion gael ei nodweddu gan:

- arweinwyr yn cydnabod pwysigrwydd buddsoddi amser ac ymdrech i feithrin dealltwriaeth o'r fframwaith cwricwlwm ac asesu newydd ar draws yr ysgol a chymryd camau i sicrhau bod hyn yn digwydd
- ymdrin yn weithredol â'r canllawiau cwricwlwm ac asesu i ddatblygu dealltwriaeth yr holl staff o egwyddorion allweddol cynllunio cwricwlwm Cwricwlwm i Gymru (gan gynnwys y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig), y disgrifiadau dysgu, cynnydd, a rôl disgyblaethau mewn dysgu¹

¹ Mae'r cysyniadau hyn yn newydd ac yn wahanol i'r cwricwlwm presennol. Mae'n hollbwysig bod ysgolion ac ymarferwyr yn deall rôl a phwrpas yr egwyddorion hyn a sut maen nhw'n wahanol i'r arferion presennol cyn eu bod yn mynd ati i gynllunio eu cwricwlwm. Er eng-hrafft, mae'r disgrifiadau dysgu wedi'u cynllunio i gynnal dysgu dros gyfnod o flynyddoedd a dylid eu defnyddio i ddewis cynnwys sy'n darparu dysgu eang a dwfn. Dylai ystod eang o ddysgu helpu dysgwyr i ymgysylltu â'r disgrifiadau dysgu. Nid ydyn nhw wedi'u cynllunio i fod yn dasgau, yn weithgareddau nac yn feini prawf asecu annibynnol i asesu yn eu herbyn yn uniongyrchol.

- datblygu dealltwriaeth yr holl staff o'r egwyddorion a'r arfer o gynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn mewn perthynas â dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)
- ymdrin â dogfennaeth academaidd ac ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth
- dechrau trafod yr hyn sy'n newid gyda dysgwyr, rhieni/gofalwyr a rhanddeiliaid a sut y gellir eu cynnwys, yn ogystal â sefydlu dulliau o ddatblygu ar y cyd gyda nhw'n barhaus
- ystyried sut y gall addysgeg gefnogi'r broses o wireddu cwricwlwm a dechrau adnabod pa ddulliau a fydd yn darparu orau ar gyfer dysgwyr yn yr ysgol honno
- cymryd rhan mewn dysgu proffesiynol i ddatblygu gallu pob gweithiwr proffesiynol, yn ogystal â defnyddio adborth yr arolwg Ysgolion sy'n gweithredu fel sefydliadau sy'n dysgu i helpu i ddatblygu amgylchedd sy'n cefnogi dysgu proffesiynol parhaus
- meithrin dealltwriaeth o'r ystod o anghenion, galluoedd, hunaniaethau a gwerthoedd sydd gan ddysgwyr i helpu i sefydlu beth mae'r pedwar diben yn ei olygu iddyn nhw a chyd-destun yr ysgol
- cydweithio mewn rhwydweithiau – dylai hyn gynnwys gweithio ar draws cyfnodau mewn clystyrau lleol (3–16 oed) a rhwydweithiau eraill sy'n bodoli eisoes o fewn yr un cyfnod i rannu syniadau a chefnogi un continwwm dysgu. Dylai hefyd gefnogi dilyniant ôl-16
- meithrin dealltwriaeth o bwysigrwydd a gwerth gwybodaeth a'i rôl mewn dysgu, ynghyd â dulliau o gaffael gwybodaeth a fynegir yn y cwricwlwm
- defnyddio cynllun datblygu'r ysgol i bennu blaenoriaethau ar gyfer y tair blynedd nesaf, yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r hyn sydd ei angen i wireddu cwricwlwm newydd i'r ysgol.

Cynllunio a threialu: 3 thymor

Dylai ysgolion ddechrau datblygu cynllun cwricwlwm ac asesu lefel uchel, wedi'i lywio gan y canllawiau, a symud ymlaen â blaenoriaethau i gefnogi gwireddu'r cwricwlwm yn unol â'u cynllun datblygu ysgol. Gall ysgolion ddechrau treialu agweddau ar gynllunio, dulliau gweithredu ac addysgeg newydd, gan ddefnyddio'r dysgu i werthuso a mireinio eu dull gweithredu.

Gan adeiladu ar weithgarwch yn y cyfnod blaenorol, dylai ysgolion:

- ddechrau'r broses cynllunio sy'n cynnwys yr holl randdeiliaid – gan gynnwys dysgwyr, yr holl ymarferwyr a llywodraethwyr a chynnwys rhieni/gofalwyr a'r gymuned leol
- nodi egwyddorion cynllunio i sicrhau safonau uchel a galluogi cynnydd da, o leiaf, i bob dysgwr.
- sicrhau cyfranogiad mewn dysgu proffesiynol, gan sicrhau ei fod yn cefnogi datblygu addysgu
- cynnal deialog broffesiynol â rhwydweithiau er mwyn nodi a datrys heriau gyda chwricwlwm yr ysgol
- mabwysiadu dull integredig o weithredu diwygiadau ehangach ym maes addysg
- datblygu dulliau gweithredu ar gyfer elfennau gorfodol y cwricwlwm
- rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod grwpiau allweddol, gan gynnwys llywodraethwyr, yn cael eu cynnwys yn y broses, a datblygu eu dealltwriaeth o'r cwricwlwm.

Dylai gweithgarwch mewn ysgolion gael ei nodweddu gan:

- atgyfnerthu ac adeiladu ar y gweithgarwch a'r dysgu yn ystod y cyfnod ymgysylltu, gan gynnwys:
 - datblygu ymhellach ddealltwriaeth cymuned yr ysgol o fodel y cwricwlwm a'r trefniadau asesu, gan gynnwys y dull ar gyfer sicrhau cynnydd
 - datblygu ymhellach ddealltwriaeth ymarferwyr o bwysigrwydd addysgeg wrth gefnogi'r broses o wireddu'r cwricwlwm a pharhau i adnabod y dulliau y maen nhw'n bwriadu eu mabwysiadu
 - ymdrin yn weithredol â'r Cod ADY i ddatblygu dealltwriaeth yr holl staff a sicrhau bod ei oblygiadau wedi'u hadlewyrchu wrth wireddu gweledigaeth yr ysgol yn ogystal â chefnogi'r broses o gynllunio'r cwricwlwm
 - ymgysylltu â phob dysgwr, rhiant/gofalwr a'r gymuned ehangach i wireddu'r weledigaeth a chefnogi'r broses o gynllunio'r cwricwlwm

- gweithio mewn rhwydweithiau, cydweithredu a rhannu dulliau o gynllunio a datblygu cwricwlwm a galluogi dilyniant di-dor mewn dysgu, gan gynnwys dilyniant i mewn i addysg ôl-16
- sicrhau bod blaenoriaethau'n cael eu nodi'n briodol a bod adnoddau'n cael eu hadnabod i gefnogi datblygiad y cwricwlwm o fewn cynllun datblygu'r ysgol
- ystyried amrywiaeth o ddulliau (e.e. disgyblaethol, rhyngddisgyblaethol, amlddisgyblaethol) ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm a phenderfynu pa dull(iau) i'w treialu a'u gwerthuso yng nghyd-destun yr ysgol a gwahanol feysydd dysgu a phrofiad, gan sicrhau y caiff anghenion pob dysgwr eu hystyried mewn cyd-destun cynhwysol
- datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd mewn ysgol, a nodi beth mae hyn yn ei olygu i'w chyd-destun. Rhannu a thrafod y ddealltwriaeth gychwynnol hon o fewn clwstwr yr ysgol a myfyrio ar y trafodaethau hyn i ddatblygu syniadau yr ysgol ymhellach
- ystyried llais pob dysgwr ym mhroses cynllunio'r cwricwlwm
- datblygu ar y cyd gyda'r holl randdeiliaid fodel cwricwlwm lefel uchel gan gynnwys trefniadau asesu i gefnogi cynnydd pob dysgwr
- gweithio mewn clystyrau i feddwl am daith effeithiol i ddysgwyr ar hyd y continwmm 3 i 16 oed, gan ddod â dilyniant i gwricwla ar draws cyfnodau i gefnogi cynnydd dysgwyr. Datblygu a threialu prosesau pontio ar y cyd i gefnogi dysgwyr
- ystyried y modd y bydd y cwricwlwm newydd yn cefnogi'r Gymraeg mewn Addysg a Cymraeg 2050
- dyfnhau dealltwriaeth staff o'r broses ymholi i gefnogi a hwyluso'r gwaith o gynllunio'r cwricwlwm
- ymgymryd â'r gwaith cynllunio tymor byr a thymor canolig a threialu rhai dulliau o weithio yn yr ystafell ddosbarth
- parhau i gydweithredu mewn rhwydweithiau a thrwy hyn adeiladu cydberthnasau pellach â phartneriaid addysg uwch i gynllunio ar sail tystiolaeth gyfoethog.

Gwerthuso a pharatoi ar gyfer addysgu am y tro cyntaf: 2–3 thymor

Dylai ysgolion werthuso eu cynlluniau cychwynnol a threialu dulliau gweithredu pellach. Dylai ysgolion ddechrau cytuno cynlluniau tymor canolig terfynol ar gyfer ysgolion cynradd a Blwyddyn 7, a'r cynlluniau tymor hwy ar gyfer Blynyddoedd 8 i 11.

Gan adeiladu ar weithgarwch cyfnodau blaenorol, dylai ysgolion:

- werthuso gwaith treialu a myfyrio ar ddysgu i ddylanwadu ar gynllun y cwricwlwm yn barhaus
- defnyddio ystod ehangach o dystiolaeth, gan gynnwys ymgysylltu â sefydliadau addysg uwch, i lywio'r dull o ymdrin â'r meysydd dysgu a phrofiad a'r disgyblaethau oddi mewn iddyn nhw er mwyn llywio'r broses o gynllunio'r cwricwlwm ac asesu
- parhau i fuddsoddi mewn dysgu proffesiynol a datblygu addysgu ac ymarferwyr i wneud y gorau o gyfleoedd Cwricwlwm i Gymru
- datblygu, treialu a chwblhau cynlluniau pontio fel rhan o gynllun y cwricwlwm er mwyn sicrhau proses bontio effeithiol i ddysgwyr ar hyd y continwmm 3 i 16 oed.

Dylai gweithgarwch mewn ysgolion gael ei nodweddu gan:

- atgyfnerthu ac adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd yn ystod y cyfnod ymgysylltu a'r cyfnodau cynllunio a threialu, gan gynnwys:
 - dyfnhau dealltwriaeth yr holl randdeiliaid o fodel y cwricwlwm a'r trefniadau asesu, gan gynnwys y dull ar gyfer sicrhau cynnydd
 - sicrhau bod pob ymarferydd yn deall pwysigrwydd addysgeg wrth gefnogi'r broses o wireddu'r cwricwlwm
 - parhau i ymgysylltu â rhieni/gofalwyr a'r gymuned ehangach i wireddu'r weledigaeth a'r broses o gynllunio'r cwricwlwm
 - parhau i gydweithredu mewn rhwydweithiau, gan rannu dulliau o gynllunio a datblygu'r cwricwlwm
 - ymestyn cynllunio a threialu tymor byr a thymor canolig, gan sicrhau bod y dulliau hyn yn cynnwys pob dysgwr
 - dysgu o'r profiad o dreialu ac arbrofi â dulliau gweithredu posibl ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm, addysgu, dysgu ac asesu, a defnyddio hyn i fireinio'r dull gweithredu, gan sicrhau bod y dulliau hyn yn cynnwys pob dysgwr
 - parhau i gydweithredu mewn rhwydweithiau, a thrwy hyn meithrin cydberthnasau pellach â phartneriaid addysg uwch i gynllunio ar sail tystiolaeth gyfoethog

- defnyddio llais y dysgwr i fyfrio ar addysgu, cynllunio a darpariaeth yn yr ystafell ddosbarth er mwyn llywio'r broses o werthuso a mireinio'r dull gweithredu
- datblygu dulliau o alluogi asesu effeithiol a phriodol fel rhan anwahanadwy o ddysgu ac addysgu
- mireinio dealltwriaeth o gynnydd o fewn ysgol ac ar draws ei chlwstwr a'i rhwydweithiau ehangach. Gwneud trefniadau i gefnogi'r broses barhaus o rannu dealltwriaeth o gynnydd
- ymgysylltu â rhieni/gofalwyr a'r gymuned ynghylch y cwricwlwm ysgol sydd ar y gweill
- datblygu pellach a dulliau gweithredu ar gyfer yr agweddau gofodol ar y cwricwlwm
- datblygu prosesau effeithiol ar gyfer ymgysylltu â rhieni/gofalwyr a chyfathrebu â nhw gydol y flwyddyn ysgol er mwyn cefnogi cynnydd dysgwyr
- datblygu modelau ymchwil weithredu ar lefel ysgol er mwyn hwyluso'r broses barhaus o gynllunio a datblygu'r cwricwlwm.

Addysgu am y tro cyntaf a mireinio'r cwricwlwm yn barhaus: Medi 2022 ymlaen


Gan adeiladu ar weithgarwch cyfnodau blaenorol, dylai ysgolion:

- fabwysiadu'r cwricwlwm a dechrau ei weithredu
- yn achos ysgolion uwchradd, fireinio cynlluniau cwricwlwm wrth i ddysgwyr symud ymlaen o Flwyddyn 7 i Flwyddyn 11 o fis Medi 2022 ymlaen
- datblygu, a defnyddio, prosesau i fyfyrwyr ar effeithiolrwydd y cwricwlwm, addysgeg a threfniadau asesu newydd a defnyddio'r canfyddiadau i wella.

Dylai gweithgarwch mewn ysgolion gael ei nodweddu gan:

- ysgolion yn parhau i adeiladu ar y gwaith a wnaed dros y ddwy flynedd a hanner ddiwethaf
- sicrhau bod y pedwar diben, a'u nodweddion allweddol, yn llywio'r broses o wireddu'r cwricwlwm, y dull asesu, a'r addysgeg
- dyfnhau dealltwriaeth o'r hyn y mae'r pedwar diben yn ei olygu i ddysgwyr, gan gynnwys ymgysylltu ag arbenigedd academaidd, a defnyddio'r canfyddiadau hyn i lywio arfer
- defnyddio'r cyfleoedd a gynigir o fewn y cwricwlwm newydd i newid arferion er mwyn codi safonau, cau'r bwch cyrhaeddiad, a chefnogi cynnydd dysgwyr tuag at y pedwar diben
- cydweithredu gydag ysgolion a lleoliadau eraill i ddyfnhau'r ddealltwriaeth, y capasiti a'r gallu i gefnogi'r broses o wireddu'r cwricwlwm, addysgeg effeithiol ac asesu ar gyfer cynnydd dysgwyr
- parhau i ddatblygu ar y cyd wrth wireddu'r cwricwlwm yn yr ysgol, gyda chyfranogiad priodol yr holl staff, dysgwyr, rhieni/gofalwyr a'r gymuned ehangach.


Cwricwlwm i Gymru: cerrig milltir allweddol ac amserlenni



Tud. 175

¹ Gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â byd gwaith (Rhagfyr); addysg cydberthynas a rhywioldeb (Rhagfyr); Crefydd, gwerthoedd a moeseg (Rhagfyr); addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS)/unedau cyfeirio disgyblion (Medi); Iaith Arwyddion Prydain (Medi); Llwybrau Galluogi (Rhagfyr); Fframwaith cwricwlwm ac asesu ar gyfer lleoliadau nas cynhelir a ariennir (Rhagfyr).

Cwricwlwm i Gymru: cerrig milltir allweddol ac amserlenni





Y DAITH DDIWYGIO Papurau Procio

CYNNWYS

1.	RHAGAIR	3
2.	CYFLWYNIAD	4
3.	ARWEINYDDIAETH	5
4.	GWELEDIGAETH	9
5.	ADDYSGEG	12
6.	ASESU	15
7.	DYLUNIO'R CWRICWLWM	19



RHAGAIR



Pleser mawr yw rhannu'r darnau meddwl hyn â chi. Buom yn ffodus iawn i weithio gyda'r Athro Graham Donaldson, sydd wedi'n cyngori a'n tywys drwy'r broses. Rydym hefyd yn ddiolchgar i gyd-weithwyr o'r Awdurdodau Lleol, Estyn, Prifysgol Bangor a'r Consortia Rhanbarthol eraill sydd wedi ymuno â ni mewn gweithdai i fireinio ac aildrafftio'r cynnwys.

Gobeithio bydd y Darnau Meddwl hyn, ochr yn ochr â'r cynnig dysgu proffesiynol, yn sbardun i staff yn eich ysgol ac i glystyrau fyfyrion ar yr hyn sydd eisoes yn gweithio'n effeithiol, yr hyn sydd angen ei fireinio a'r hyn sydd angen ei newid. Hoffwn eich gwahodd, a'ch annog, i rannu arferion a syniadau ac i fod yn rhan o'r daith dysgu proffesiynol yr ydym i gyd arni wrth baratoi ar gyfer mis Medi 2022.

Mae hyn yn broses ddysgu i ni gyd. Edrychwn ymlaen at gefnogi, rhannu a datblygu datrysiadau er mwyn sicrhau bod y cwricwlwm newydd yn seiliedig ar arferion rhagorol sydd eisoes ar waith yn ein hysgolion. Gwelwyd arloesi newydd yn ystod y pandemig, a fydd yn sylfaen gref ar gyfer datblygu cynnig newydd i ddysgwyr. Rwy'n sicr y bydd y cynnig cwricwlwm newydd hwn yn sicrhau bod dysgu yn brofiad cadarnhaol iawn i'n dysgwyr, profiad fydd yn cynhyrchu'r safonau uchaf un.



Arwyn Thomas
Rheolwr Gyfarwyddwr GwE



CYFLWYNIAD



Mae'r rhaglen ddiwygio addysg yng Nghymru, sydd yn seiliedig ar y Cwricwlwm i Gymru newydd, yn rhoi ffordd gadarnhaol i symud ymlaen wrth i gyfyngiadau'r flwyddyn ddiwethaf gael eu llacio. Mae nifer o syniadau arweiniol wrth wraid hyn.

- Dylai'r cwricwlwm a'r addysgeg a'r asesu sydd yn gysylltiedig lifo o'r dibenion clir a gytunwyd yn genedlaethol ac a ddilyniir yn lleol.
- Dylai'r dibenion hynny alluogi ein plant ifanc i fod yn: ddysgwyr uchelgeisiol, galluog; yn gyfranwyr mentrus, creadigol; yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus; yn unigolion iach, hyderus.
- Dylai'r dysgu ddatblygu'n raddol tuag at y dibenion hynny yn ystod amser pobl ifanc yn yr ysgol.
- Dylai athrawon ac ysgolion gael mwy o ryddid i gyflawni'r dibenion hynny mewn ffyrdd sydd yn gallu bodloni anghenion a nodweddion y bobl ifanc a'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu.


Mae rhai goblygiadau pwysig yn deillio o'r syniadau sylfaenol hyn.

- Dylai fframwaith y cwricwlwm cenedlaethol sefydlu cysondeb yn genedlaethol o ran pwrpas a gweithredu, gan adael lle i wneud penderfyniadau yn lleol am agweddau allweddol ar ddysgu ac addysgu.
- Dylai'r cwricwlwm fod yn broses ble mae cydweithio yn digwydd rhwng athrawon, ysgolion a buddiannau ehangach.
- Ni ddylai atebolrwydd lesteirio ansawdd na chulhau cwmpas y dysgu. Ble bynnag bosibl, dylai wella ansawdd nid sicrhau ansawdd cul.

Dylid barnu llwyddiant y rhaglen ddiwygio yn erbyn y graddau y mae'n arwain at ddysgu gwell a mwy perthnasol i bobl ifanc, ac i safonau cyflawniad uchel. Dylai ansawdd y dysgu a natur safonau ymwneud â'r graddau y mae'r dibenion cytun yn cael eu cyflawni yn ymarferol i'r holl bobl ifanc.

Wrth gwrs, bydd effaith y pandemig yn dylanwadu ar sut y gallwn ni symud ymlaen â'r diwygio. Mae angen i ni ail-sefydlu perthnasedd y pedwar diben arweiniol i bobl ifanc Cymru. Mewn amryw o ffyrdd, mae'r pandemig yn golygu bod y dibenion hynny yn fwy perthnasol nag erioed o'r blaen wrth i ni geisio meithrin hyder ein pobl ifanc ac ail danio eu hawydd i ddysgu. Bu'n rhaid i bawb yn ein plith feddwl yn ddwys am yr hyn sydd yn bwysig o ran dysgu mewn cyfnodau o darfu ar ysgolion, ac mae pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru newydd yn ymdopi'n dda â'r prawf hwnnw. Gyda'r pandemig, bu'n rhaid newid natur y dysgu a'r addysgu, yn enwedig felly y ffyrdd y gall technoleg ddigidol gynyddu'r cyfleoedd i ddysgu'n fwy annibynnol.

Mae'r gyfres hon o bapurau gan GwE yn arddel y syniadau a'r goblygiadau hyn. Maent yn gofyn i ni feddwl yn ddwys am bwrpas ac amlygu materion yn ymwneud â chynllunio'r cwricwlwm, addysgeg ac asesu y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt os ydym ni am wireddu'r cyfleoedd a ddaw yn sgil y rhaglen ddiwygio. Maent wedi'u mynegi yn iaith y dysgu, nid cyfeiriad y dysgu nac ychwaith y gweithredu. At ei gilydd, maent yn caniatáu cydweithio, archwilio a dysgu all ddarparu sylfeini cadarn ar gyfer gwireddu'r cyfleoedd a ddaw yn sgil y cwricwlwm newydd i bob person ifanc ym mhob ysgol, ac ym mhob dosbarth ar draws y consortiwm.



Yr Athro Graham Donaldson

Tud. 182

ARWEINYDDIAETH

Cwricwlwm i Gymru: Ystyriaethau i arweinwyr ysgolion

'...Arweinyddiaeth yw'r gallu i ddylanwadu ar eraill a'u hysbrydoli i weithredu, ac ymateb efo gweledigaeth a hyblygrwydd mewn cyfnod o dwf, tarfu neu ansicrwydd i arwain at y newid sydd ei angen.'

Yvonne Ruke Akpoveta, Prifysgol Cornell

Mae'n debyg mai dyma'r her arweinyddol fwyaf erioed i ysgolion wrth iddynt arwain eu hysgolion drwy'r daith ddiwygio. Mae'r pandemig wedi chwyddo'r her hon gan fod arweinwyr ysgol yn gorfod ymateb yn gyflym i gadw pawb yn ddiogel, sicrhau lles pawb a chyflwyno ffordd newydd o ddysgu.

Gyda'r Cwricwlwm i Gymru, daw cyfle i arweinwyr ar bob lefel, gan gynnwys arweinwyr canol a llywodraethwyr, ddylanwadu, cydweithio ac ysbrydoli eraill; y dysgwyr, yr athrawon, cymuned ehangach yr ysgol a chyd-arweinwyr ar draws y gyfundrefn. Wrth iddynt arwain cymuned ysgol drwy'r daith hon, dylai arweinwyr gadw'r dysgwyr wrth wraidd unrhyw benderfyniad a gweithredu ac wrth wraidd unrhyw newidiadau y maent yn dylanwadu arnynt. Ar bob cam o'r daith, mae angen i ni atgoffa ein hunain o'r nod a phen y daith; sef bod dysgwyr yn cael darpariaeth well sydd yn arwain at godi safonau yn y pendraw.

Yn ystod y pandemig, mae pob ysgol wedi dangos gallu a hyblygrwydd i addasu i dirlun sy'n newid yn gyson, a gwelwn Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu ar ei orau. Maent wedi arddel themâu ymddiriedaeth, amser, cyd-feddwl a thechnoleg sydd wedi rhoi sylfaen gref iddynt ar gyfer y daith tuag at y Cwricwlwm i Gymru.




CYFLEOEDD

Mewn cyd-destun arweinyddiaeth, mae'r Cwricwlwm i Gymru yn cynnig llawer o gyfleoedd. Ymhellach, er mor heriol fu'r pandemig, bu cyfleoedd i ddatblygu a gwelsom bartneriaethau gwell efo rhieni, proffesiwn dysgu mwy medrus, cymhwysedd digidol, a chydweithio rhwng ysgolion a chyrrff allanol.



YR HERIAU

Gall arweinwyr wynebu amryw o heriau ar hyd y daith. Bydd y pandemig yn chwyddo'r heriau hyn ymhellach. Bydd angen i arweinwyr ystyried pryd maent yn cynllunio ac yn gweithredu'r daith ddiwygio. Mae hyn yn cynnwys argyhoeddi'r ysgol gyfan a'r gymuned leol, a sicrhau bod trosglwyddo llyfn rhwng uchelgais a gweithredu. Bydd angen gwneud hyn mewn ffordd gytbwys a chydweithredol nad yw'n cymhlethu'r hyn sydd eisoes yn gymhleth. Her sylweddol i arweinwyr fydd creu cyd-destun i reolwyr da weithio ynddo. Mae'n bwysig grymuso arweinwyr ar bob lefel, a sicrhau bod ganddynt le, amser a dysgu proffesiynol i wireddu'r weledigaeth.



Y BROSES

Proses, nid digwyddiad yw gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru; mae angen ei gynllunio a'i weithredu fesul cam. Mae angen cynnwys digon o amser er mwyn i'r gweithredu fod yn effeithiol, yn enwedig yn y cyfnod cynllunio. Mae angen blaenoriaethu camau'r daith yn briodol. Cwricwlwm ysgol yw popeth y caiff dysgwyr brofiad ohono, a dylai'r pedwar diben fod yn sail i hyn. Wrth gynllunio'r prosesau, mae angen i ni gynllunio sut rydym yn dathlu llwyddiant ac yn gollwng gafaél ar bethau nad ydynt yn gweithio.


Yn ystod y broses hon, bydd angen i rôl pob arweinydd ganolbwyntio ar adnabod cryfderau'r ysgol a gweld ble mae angen datblygu, cyn cynllunio'r camau y mae angen i'r ysgol eu cymryd i yrru'r Daith Ddiwygio yn yr ysgol, yn y gymuned leol a thu hwnt.

CAMAU/CYFNODAU

Wrth gychwyn ar y daith hon, bydd arweinwyr ysgol yn canolbwyntio ar weithredu gweledigaeth gyffredin. Bydd rhaid i arweinwyr ystyried pa gamau i'w cymryd a phryd. Drwy fapio llwybr sydd â nifer o gamau ynddo, bydd yn helpu arweinydd i 'weld' y daith o'u blaenau a sicrhau bod y weledigaeth yn cael ei gweithredu. Bydd y camau hyn yn amrywio o ysgol i ysgol ac o'r naill gyd-destun i'r llall. Gellir eu categorio'n dri maes:

1. Ymgysylltu (mint)
2. Dylunio a Chynllunio (pinc)
3. Treialu, gwerthuso a pharatoi'r addysgu cyntaf (melyn)

Bydd angen i ni hefyd ystyried beth yw'r edefyn aur yn camau hyn; llesiant, dysgu proffesiynol, 3 i 16 a chy-dweithio ar draws ysgolion. Mae hefyd yn hanfodol bod arfarnu parhaus trwy gydol y broses, gan ddechrau gyda arfarniad o arferion cyfredol yr ysgol ac arfarnu'r cynnydd ar hyd y camau. Bydd angen cyfathrebu'n rheolaidd gyda rhanddeiliaid wrth i ysgol gweithio drwy'r camau o'r daith.



Dyma feini prawf llwyddiant posibl ar gyfer Arweinyddiaeth yn ein hysgolion wrth i ni weithredu Cwricwlwm i Gymru...

..fel dysgwr yn fy ysgol byddaf yn:

- gweld ac yn teimlo bod y pedwar diben wrth wraidd popeth mae'r ysgol yn ei wneud
- gwybod bod fy lles yn bwysig
- gwybod lle i droi am help
- gallu mentro a gwneud camgymeriadau ar hyd y ffordd mewn lle diogel
- gwybod y bydd fy ngwaith yn fy herio i feddwl, cael disgwyliadau uchel o fy hun a fy helpu i fod yn annibynnol
- cael cyfleoedd i arwain fy nysgu fy hun
- gweld perthnasoedd da o'm hamgylch
- teimlo bod gen i lais a bod rhywun yn gwrando arnaf ac yn gweld fy ngwerth
- cael sicrwydd fy mod i'n cael fy nghefnogi
- cael adborth gwerthfawr sy'n fy helpu i wella
- unigolyn ac yn dathlu fy llwyddiannau fy hun a rhai eraill efo'i gilydd
- cydnabod bod fy athrawon yn dysgu wrth fy ochr i er mwyn bod yr athrawon gorau y gallant fod
- cael sicrwydd bod fy addysg yn fy mharatoi am y dyfodol
- cydnabod bod yr ysgol yn dysgu popeth y dylwn i wybod ac rydw i'n cael cyfleoedd i ddatblygu fy niddordebau
- falch o fod yn rhan o fy nghymuned leol, yn ddinesydd Cymru a'r Byd
- cael cyfleoedd i weithio a dysgu efo plant a phobl ifanc eraill o gwmpas y byd
- cydnabod bod fy ysgol yn fy helpu gyda fy nyfodol drwy fod yn ymwybodol o'r amgylchedd a datblygu cynaliadwy

Yn athro, byddaf yn:

- sicrhau bod y pedwar diben yn sail i fy ngwaith
- cydweithio ymhellach â chydweithwyr yng nghymuned fy ysgol ac yn bellach
- rhan o ddysgu proffesiynol priodol ar y Cwricwlwm i Gymru
- defnyddio ymchwil a thystiolaeth ymholi i ddatblygu fy arferion dosbarth ymhellach
- sicrhau bod diwylliant 'sefydliad sy'n dysgu' yn amlwg yn fy arferion
- datblygu ymhellach fy sgiliau technegol i gyflwyno dysgu effeithiol i fy holl fyfyrwyr
- manteisio ar sesiynau hyfforddi a hwyluso er mwyn i mi ddatblygu ymhellach yn broffesiynol
- sicrhau bod gweithdrefnau hunan asesu cadarn ar waith yn fy nosbarth
- cyfrannu at astudiaethau achos ar arferion effeithiol a hwyluso sesiynau dysgu proffesiynol yn yr ysgol a thu hwnt

Yn rhiant, byddaf yn:

- dysgu gan yr ysgol sut mae'r pedwar diben yn sail i bopeth a wna fy mhlentyn
- gweld sut mae fy ysgol yn gweithio gyda'r gymuned ehangach ac yn dysgu ohoni
- cael sicrwydd bod yr athrawon yn yr ysgol yn mynd i sesiynau dysgu proffesiynol o safon uchel fel y gallant gefnogi fy mhlentyn i ddysgu
- dysgu beth yw sefydliad sy'n dysgu, a bod yn rhan o'r daith honno a minnau'n un o'i rhanddeilaid pwysicaf
- cael cymorth ac anogaeth gan fy ysgol i ddatblygu fy sgiliau technegol fel y gallaf gefnogi fy mhlentyn i ddysgu
- sicr bod fy ysgol yn defnyddio'r holl strategaethau asesu sydd ar gael er mwyn cael darlun cyfan a chyfansawdd o alluoedd fy mhlentyn.
- cefnogi fy mhlentyn i ddysgu drwy chwarae rhan weithredol.



GWELEDIGAETH

PAPUR PROCIO: GWELEDIGAETH

DIFFINIAD O WELEDIGAETH:

- Nid syniad yw gweledigaeth ar y cyd ond grym yng nghalonau pobl – ateb i ‘Beth ydym eisiau ei greu?’ (Peter Senge)
- Datganiad syml yw gweledigaeth y mae’r holl randdeiliaid yn ei gludo gyda nhw drwy’r holl brosesau meddwl dros amser ac mae’n gweithredu fel egwyddor arweiniol.

DIFFINIAD O WELEDIGAETH AR GYFER CYMRU 2021 A THU HWNT:

- Gweledigaeth fel grym gwthiol beunyddiol sy’n pennu newidiadau a blaenoriaethau, mawr neu fach.
- Gweledigaeth sy’n defnyddio’r pedwar diben fel y man cychwyn a’r dyhead ar gyfer dyluniad cwricwlwm yr ysgol.
- Gweledigaeth sy’n cwmpasu pawb yng nghymuned yr ysgol fel dysgwyr; yn cynnwys disgyblion, athrawon, arweinwyr, llywodraethwyr a rhieni/gofalwyr.

Yr hyn mae gweledigaeth yn ei olygu i:

Ddisgyblion

- *Beth yw eich man cychwyn cyfredol?*
- *Fel dysgwr yng Nghymru, beth sydd ei angen arnoch i allu llwyddo yn y byd rydych yn byw ynddo?*

A yw’r pedwar diben ar gyfer disgyblion yn golygu fod ganddynt:

- Brofiadau dysgu gwell sy’n cynnwys cyfleoedd dysgu cyfoethog a chyd-destunau dysgu dilys sy’n caniatáu i ddisgyblion gymhwyso a mireinio eu sgiliau a’u gwybodaeth?
- Resymau go iawn dros gymryd rhan mewn dysgu sy’n eu hannog i fod yn greadigol, i barhau i ofyn cwestiynau ac i gyfrannu eu meddyliau a’u barnau?
- Yr hyder eu bod yn cael eu cefnogi i ddeall sut maent yn dysgu a sut i fyfyrion ar eu gwaith a gwneud cynnydd?
- Ddiogelwch wrth wybod bod yr ysgol yn eu hadnabod yn dda fel unigolion, yn darparu cyfleoedd iddynt gydweithio ag eraill, yn eu hannog i flaenoriaethu eu lles eu hunain ac yn eu grymuso i fod yn uchelgeisiol ac i fod â disgwiliadau uchel?
- Amgylchedd diogel ar gyfer cymryd risgiau pwylllog ac i wybod ble a sut i gael cymorth pe bai angen?

Rhieni/Gofalwyr

- *Beth yw eich man cychwyn cyfredol?*
- *Sut allwch chi gefnogi eich hun a’ch plentyn/plant i allu llwyddo yn y byd maen nhw’n byw ynddo?*

A yw’r pedwar diben ar gyfer rhieni a gofalwyr yn golygu eu bod nhw:

- Yn bartner gweithredol a gwerthfawr wrth gyfrannu i’r weledigaeth?
- Yn gallu cymryd rhan mewn cyfathrebu dwyffordd, ystyrion, gyda’r ysgol?
- Yn gallu sefydlu perthynas sy’n canolbwyntio ar ddysgu ac sy’n ymgorffori cyd-ymdiriedaeth a pharch?
- Yn cael cyfleoedd i gyfrannu at ddysgu eu plentyn/plant?
- Yn cael eu hannog i deimlo’n falch o’u plant ac i fod yn rhan weithredol o’r hyn y mae eu plant wedi ei gyflawni?

Athrawon

- *Beth yw eich man cychwyn cyfredol?*
- *Beth sydd ei angen arnoch er mwyn bod yr athro gorau y gallwch fod?*
- *Beth mae'n ei olygu i alluogi'ch dysgwyr i lwyddo yn y byd maen nhw'n byw ynddo?*

A yw'r pedwar diben ar gyfer athrawon yn golygu fod ganddynt:

- Gyd-ddealltwriaeth o lwyddiant?
- Hyder i ddatblygu creadigrwydd ac arloesedd, y grymusiad i gyfrannu i'r weledigaeth a dod â hi'n fyw a'r cyfle i gymryd cyfrifoldeb?
- Ymdeimlad cryf o les unigol a chyfunol sy'n eu caniatáu i deimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi o fewn eu proffesiwn, i wybod y caiff eu llais ei glywed, i fod â disgwyladau uchel ac i fod yn falch o addysgu yng Nghymru?
- Gyfleoedd i ddatblygu set eang o sgiliau, i gael dealltwriaeth ddofn o addysgu effeithiol ac i gymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol parhaus?
- Amser digonol i feddwl ar y cyd, i gynnal perthnasoedd cadarnhaol, ymddiriedus ac i gydweithio gydag eraill yn eu hysgolion eu hunain a chydag ysgolion eraill?
- Y sgiliau i ddatblygu fel arweinydd ac i sefydlu partneriaethau cartref-ysgol cryf?
- Ofod diogel a'r rhyddid i gymryd risgiau pwylllog, i ddod yn wneuthurwyr cwricwlwm gweithredol sy'n hwyluso dysgu ac i ddarparu ystafelloedd dosbarth cynhwysol sy'n cefnogi cynnydd pob dysgwr?

Arweinydd Ysgolion

- *Beth yw eich man cychwyn cyfredol?*
- *Beth sydd ei angen arnoch er mwyn bod yr arweinydd gorau y gallwch fod?*
- *Beth mae'n ei olygu i greu hinsawdd dysgu ffyniannus i bawb?*

A yw'r pedwar diben ar gyfer athrawon yn golygu fod ganddynt:

- Gyd-ddealltwriaeth o sut beth yw llwyddiant ar draws y pedwar diben?
- Ffocws ar ddysgu gwell a deilliannau uwch?
- Ffocws priodol ar gydnabod a datblygu ethos ysgol gyfan sy'n hyrwyddo'r ysgol fel sefydliad sy'n dysgu ac sy'n hyrwyddo dysgu parhaus ar bob lefel?
- Ymdeimlad cadarn o'u lles eu hunain a lles eraill, ymagwedd wylaidd, y gallu i wrando, ac awydd i ddeall ac i ymgysylltu â chymunedau lleol?
- Parodrwydd i wneud cyfraniad ystyrlon i ddatblygu dysgu?
- Ffocws ar greu amser ar gyfer meddwl gyda'n gilydd fel ysgol a chymuned sy'n dysgu, ac i hyrwyddo grymuso staff?
- Y sgiliau i ddatblygu partneriaethau ymddiriedus gyda rhwydwaith o ysgolion, i sefydlu cyfathrebu dwyffordd eglur o fewn eu hysgolion eu hunain ac i ymgysylltu'n gadarnhaol â'r holl randdeiliaid?
- Ethos o arweinyddiaeth trwy syniadau yn hytrach nag arweinyddiaeth trwy reolaeth?

Llywodraethwyr

- *Beth yw eich man cychwyn cyfredol?*
- *Sut all y corff llywodraethu gefnogi'r ysgol wrth ddod â'r weledigaeth yn fyw?*

A yw'r pedwar diben ar gyfer llywodraethwyr yn golygu fod ganddynt:

- Gyd-ddealltwriaeth o sut beth yw llwyddiant ar draws y pedwar diben?
- Y parodrwydd i wneud cyfraniad gweithredol i fywyd ysgol a balchder wrth wneud gwahaniaeth?
- Ffocws eglur ar gynrychioli'r ysgol o fewn y gymuned ehangach?
- Y sgiliau ar gyfer gwranddo, cefnogi, herio a chraffu ar waith yr ysgol er mwyn cyflawni safonau uwch i bawb?

Y gymuned ehangach

- *Beth yw'r man cychwyn cyfredol?*
- *Sut all y gymuned ehangach chwarae rôl weithredol wrth gyfrannu at y cwricwlwm?*

A yw'r pedwar diben ar gyfer y gymuned ehangach yn golygu bod:

- Busnesau lleol yn cael cyfleoedd i gyfrannu at brofiadau dysgwyr?
- Cydgyfrifoldeb a pharodrwydd i ymrwymo ar draws y gymuned ehangach?
- Y gymuned ehangach yn gallu cyfrannu i ddysgu trwy well cyfleoedd o fewn diwydiant, trwy dechnoleg well, a thrwy gynghori ar y sgiliau y bydd eu hangen ar ddysgwyr er mwyn diwallu anghenion gweithlu'r dyfodol?
- Y gymuned ehangach yn gallu cyfrannu i weledigaeth yr ysgol trwy ddarparu ymwybyddiaeth o gyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol gan gynnwys ymwybyddiaeth o gynaliadwyedd a sut i leihau anghydraddoldebau ar draws ein cymdeithas.

Pam mae angen i ni newid?

- Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn rhoi pedwar diben eglur i ni ar gyfer addysg. Felly, mae gennym yn awr y cyfle i ofyn pam? Beth yw anghenion pob dysgwr ar gyfer ffynnu a chyfrannu at 21ain Ganrif sy'n newid yn gyson a datblygu'n dechnolegol?
- Ni fydd y weledigaeth bresennol o angenrheidrwydd yn cefnogi'r cwricwlwm newydd. Felly, pa wybodaeth, sgiliau a phrofiadau all ysgolion eu cynnig i ganiatáu dysgwyr ddatblygu'r pedwar diben?
- Mae cyfnod Covid wedi dod â heriau sydd wedi newid y ffordd mae ysgolion yn gweithio a gweithredu. Beth all ysgolion ddysgu o'r profiad hwn a pha gyfleoedd allwn ni eu datblygu ac adeiladu arnynt er mwyn creu gwytnwch newydd, mwy o annibyniaeth disgyblion, gwell creadigrwydd a dysgu digidol gwell?

Beth sydd angen i ni ei newid?

- Bydd y newidiadau sydd eu hangen ar lefel ysgol yn benodol i ysgolion unigol a bydd angen iddynt grisialu gweledigaeth y pedwar diben ar lefel lleol.
- Bydd cyfle i ystyried gweledigaeth ehangach Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)
- Ar lefel weithredol, mae gofyn am newid diwyllianol trwy lunio aildiffiniad cyffredin o lwyddiant. Dylai hyn gynnwys casgliad o ddangosyddion sy'n fwy eang a mwy ansoddol, wedi eu perchnogi gan bawb yn cynnwys y gymuned ehangach. Dros amser, bydd y dangosyddion hyn yn newid a datblygu wrth i ysgolion ennill gwell dealltwriaeth.
- Mae angen i'r gwaith o ddylunio gweledigaeth newydd, sy'n cynnwys cwricwlwm lleol o fframwaith cenedlaethol, ganiatáu ac ymgorffori penderfyniadau cydweithredol lleol.
- Mae angen i'r weledigaeth newydd adlewyrchu cwricwlwm fel proses sy'n brofiad ac a fydd yn esblygu yn hytrach na fel cynnyrch terfynol.

Sut ydym yn mynd ati i wneud y newidiadau hynny?

Mae'n rhaid i ni:

- Sicrhau fod yr holl randdeiliaid yn rhan o'r sgwrs ynghylch pam mae'r newidiadau hyn yn digwydd ac wrth ail osod y weledigaeth. Bydd hyn yn sicrhau fod pawb yn teimlo perchnogaeth, yn gallu gweld eu rolau eu hunain ac fe fydd yn cyflawni dealltwriaeth gyffredin o lwyddiant.
- Gwneud y defnydd gorau o Ddysgu Proffesiynol GwE ar gyfer uwch arweinwyr. Bydd hyn yn annog myfyrio a thrafodaeth ar y broses o ddatblygu gweledigaeth ar y cyd trwy ymgysylltu â'r holl randdeiliaid.
- Sicrhau fod ymddygiadau dymunol yn cael eu modelu gan bawb trwy ddiwylliant o ymddiriedaeth a chyfathrebu eglur a chynhwysol.
- Cynnal llif eglur o gyfathrebu a chydweithio trwy berthnasoedd agored a chadarnhaol. Adeiladu hyder trwy gadw popeth yn syml a sicrhau bod y prif ffocws ar y dysgwyr bob amser.

ADDYSGEG

PAPUR PROCIO: ADDYSGEG

Mae **addysgeg** yn cwmpasu mwy na'r 'addysgu' sy'n digwydd drwy ddulliau yn yr ystafell ddosbarth yn unig. Mae'n ymwneud â dethol y dulliau hynny'n ystyriol yng nghyd-destun dibenion y cwricwlwm ac anghenion a chyfnod datblygiadol y plant a phobl ifanc ar draws y continwrm 3-16. Mae'n galw am gyfuno gwybodaeth a sgiliau damcaniaethol ac ymarferol â barn fanwl ynghylch yr hyn sydd ei angen i hybu dysgu effeithiol mewn cyd-destunau penodol. Mae wrth wraidd yr hyn sy'n gwneud athro neu athrawes ragorol.

(*'Dyfodol Llwyddiannus' t.63*)


Bydd addysgeg gadarn yn hanfodol i weithrediad llwyddiannus y cwricwlwm. Mae hyn yn golygu llawer mwy na gweithredu repertoire o ddulliau sydd wedi'i bennu ymlaen llaw ac yn galw am athrawon o ansawdd uchel sydd â dealltwriaeth drylwyr o ddulliau addysgu a'r rhesymau drostynt yn ogystal â chynnwys yr addysgu. Mae'r goblygiadau o ran creu athrawon sy'n ymarferwyr myfyriol ac o ran datblygu ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu yn sylweddol.

Cwestiynau allweddol i'w hystyried (p.52 'Canllawiau Cwricwlwm i Gymru')

1. Sut y byddwn yn creu diwylliant sy'n annog ymarferwyr i feithrin dealltwriaeth ddofn o addysgeg a'r sgil i ddewis y dull gweithredu addysgegol mwyaf priodol?
2. Sut y byddwn yn sicrhau bod addysgeg y Cyfnod Sylfaen yn cael ei datblygu a'i hymestyn?
3. Sut y bydd ein gweledigaeth ar gyfer dysgu yn adlewyrchu'r deuddeg egwyddor addysgeg?
4. Pa amgylchedd dysgu y mae angen i ni ei greu i gefnogi ein gweledigaeth ddysgu'n llawn?

Addysgeg

Gwneud synnwyr o'r rhyngweithio a'r perthnasau sy'n arwain at ddysgu



Pam mae angen i ni newid?

- Mae'r angen am newid yn eglur iawn os ydym am ddatblygu cwricwlwm sy'n cefnogi ac yn galluogi addysgu a dysgu o'r radd flaenaf yn yr unfed ganrif ar hugain. Os yw Cwricwlwm i Gymru am gael yr effaith gadarnhaol a fwriadwyd ar ddysgu a chyflawniad plant a phobl ifanc, mae'n hanfodol ein bod yn ystyried yn llawn y goblygiadau ar gyfer addysgeg. Mae cyd-ddibyniaeth sylfaenol rhwng 4 diben y cwricwlwm, addysgeg ac asesu.
- Mae plant a phobl ifanc am i wersi fod yn fwy perthnasol a diddorol, gyda mwy o wersi ymarferol, mwy o hwyl, mwy o ryngweithio, a mwy o weithgareddau y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae teimlad bod y brwdfrydedd mwy cyffredinol dros ddysgu wedi cael ei aberthu yn yr ymgiprys am gymwysterau.
- Mae angen sylweddol i symud oddi wrth 'ddysgu am bethau' at 'ddysgu i wneud pethau', gyda mwy o sylw i sgiliau a phwyslais ar gymhwyso a meithrin uwch sgiliau, yn enwedig creadigrwydd, entrepreneuriaeth a llythrennedd digidol.
- Rhoddir sylw cynyddol i ddibenion asesu a'r defnydd ohono, yn enwedig ei gyfraniad hanfodol at addysgu a dysgu.
- Yn yr un modd, roedd cynrychiolwyr busnes yn bryderus iawn bod ysgolion wedi colli cysylltiad â datblygiadau mewn gweithleoedd digidol. Credent fod y gallu i ddefnyddio technoleg yn greadigol i ymchwilio a datrys problemau'n gymwyseddau allweddol ac roeddent am weld y cymwyseddau hyn mewn darpar weithwyr. (*'Dyfodol Llwyddiannus' t.63*)

Beth sydd angen i ni ei newid?

Mae angen i ni wneud y canlynol:

- Ymdrechu dros barhad a dilyniant dulliau addysgeg ar draws y continwmm 3-16, sy'n gosod y pedwar diben wrth graidd addysgu a dysgu gyda llesiant yn y canol.
- Dyfnhau dealltwriaeth athrawon o'r dulliau addysgeg priodol ar gyfer diwallu anghenion unigol plant a phobl ifanc yn hytrach na'r dulliau a ffeirir gan athrawon.
- Creu profiadau dysgu ystyrion sy'n herio ac yn ysgogi anghenion a chyd-destunau unigol holl blant a phobl ifanc Cymru. Sut ydyn ni'n cynllunio profiadau dysgu perthnasol ac atyniadol er mwyn sicrhau eu bod nhw'n gwneud cynnydd cyson a dyfnach sy'n briodol i'w camau datblygu?
- Cynllunio profiadau dysgu sy'n datblygu ac integreiddio'r uwch sgiliau trawsgwricwlaidd lefel uwch a'r sgiliau cyfannol yn llawn.

Datblygu cymwyseddau digidol ymhellach i ganolbwyntio ar addysgeg, datblygu sgiliau dyfnach, trosglwyddadwyedd a dealltwriaeth, yn ogystal â chymhwysiad posibl y cymwyseddau hyn. Adeiladu ar y profiadau a'r cynnydd a gafwyd trwy'r dulliau dysgu cyfunol o addysgu ar-lein ac wyneb yn wyneb yn ystod pandemig Covid-19.

Sut mae mynd ati i wneud y newidiadau hynny?

Beth mae hyn yn ei olygu i bob arweinydd ac ymarferydd addysgeg?

Pa mor dda ydyn ni'n:

- Creu, datblygu a gweithredu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer addysgeg gyda'r holl randdeiliaid er mwyn gwireddu'r pedwar diben?
- Gwerthuso ein harfer cyfredol? Sut ydyn ni'n gwybod 'beth yw' a 'ble mae' ein cryfderau mewn arferion addysgeg a beth sydd angen ei ddatblygu ymhellach?
- Darparu cyfleoedd Dysgu Proffesiynol (DP) i'r holl staff addysgu drafod a rhannu arfer da? I fyfyrion ar ymchwil addysgol gyfoes a chaniatáu datblygiad proffesiynol parhaus a all wella gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau addysgeg pob ymarferydd yn ogystal ag ansawdd y ddarpariaeth mewn ysgol a chlwtwr. Sut mae'n cefnogi eu gwaith mewn perthynas â'r safonau proffesiynol?
- Modelu addysgeg effeithiol ar draws y continwmm? Sut mae dilyniant a chyflymder y 12 egwyddor addysgegol yn edrych yn ymarferol o safbwynt addysgu a dysgu ar gyfer pob cam a phob angen?
- Sicrhau cyfleoedd i arbrofi gyda dulliau newydd ac i ganiatáu amser i rannu, myfyrion a mireinio?
- Sicrhau bod gennym ddisgwyliadau uchel ar gyfer pob dysgwr? A yw ymarfer dosbarth ac ar-lein yn llwyddiannus wrth ymglymu'r holl ddysgwyr i ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth i lefel sy'n briodol uchel wrth iddynt symud drwy'r ysgol a'r continwmm?
- Archwilio a gwireddu potensial yr amgylchedd dysgu y tu mewn a'r tu allan? Ar ben hynny, sut y gall trefniadaeth, arferion a pherthnasoedd ystafell ddosbarth hwyluso gwahanol ddulliau a phrofiadau dysgu yn ogystal â datblygu lles cymdeithasol, emosiynol a chorfforol plant a phobl ifanc.
- Archwilio **Addysgeg Neilltuol** sy'n gyffredin i ddisgyblaethau penodol a Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDaPh) sy'n diwallu anghenion dysgwyr unigol a'r amcanion dysgu?
- Gwreiddio asesu ar gyfer dysgu fel egwyddor addysgeg yn gyson mewn ymarfer ystafell ddosbarth? Sut mae'n rhoi mewnwleidiad i ymarferwyr o effeithiolrwydd addysgu a dysgu ac yn ystyried atebolrwydd a disgwyliadau allanol?
- • Ystyried addysgeg wrth ddylunio asesiadau? Ydyn ni'n darparu cyfleoedd i ddysgwyr gymhwyso sgiliau a gwybodaeth mewn gwahanol ffyrdd i gydweddu â'u hoff arddulliau dysgu a chymhwyso?
- • Sicrhau bod dulliau addysgeg yn cynnig profiadau eang tra'u bod hefyd yn caniatáu cyfleoedd i weithio gydag arholiadau a chanlyniadau? Ni allwn ddiystyru arwyddocâd cymwysterau wrth lunio bywydau pobl ifanc.

Darllen ac ymchwil pellach

- Dyfodol llwyddiannus ar llyw.cymru
- Canllawiau Cwricwlwm i Gymru ar [Hwb](#)
- Offeryn 12 Egwyddor Addysgegol GwE (sy'n crisialu'r ymchwil, y llenyddiaeth a'r ymarfer mewn ysgolion)
- Rhwydwaith cenedlaethol 'Trafod Addysgeg' ar [Hwb](#) a [Microsoft Teams](#)

Geirfa

Addysgeg Neilltuol (*Signature Pedagogies*) - dealltwriaeth o brofiadau sy'n caniatáu i ddysgwyr feddwl a gweithredu yn yr un modd ag arbenigwyr mewn maes arbennig.



ASESU

PAPUR PROCIO: ASESU

Y dysgwyr yw prif berchnogion gwybodaeth asesu a dylent chwarae rhan allweddol yn eu proses o ddysgu. Mae asesu, cynllunio cwricwlwm ac addysgeg yn gyd-ddibynnol ac mae angen eu cynllunio ochr yn ochr â'i gilydd.


Yn ôl 'Cefnogi cynnydd dysgwyr: canllawiau Asesu' Cwricwlwm i Gymru, prif ddibenion asesu yw:

- **Cefnogi dysgwyr unigol yn barhaus o ddydd i ddydd**
- Nodi, crisialu a myfyrio ar gynnydd dysgwyr unigol dros amser
- **Deall cynnydd grwpiau er mwyn myfyrio ar arferion**

Mae hefyd yn nodi :

"Mae asesu yn chwarae rhan sylfaenol o ran sicrhau bod pob dysgwr unigol yn cael ei gefnogi a'i herio'n briodol. Dylai gyfrannu at ddatblygu darlun holistaidd o'r dysgu - ei gryfderau, y ffyrdd y mae'n dysgu, a'i feysydd i'w datblygu - er mwyn llywio'r camau nesaf yn y dysgu a'r addysgu."

Egwyddorion Allweddol Asesu



Pam mae angen i ni newid?

- Mae rhai prosesau asesu yn ddiangen ac nid ydynt yn cyd-fynd gydag egwyddorion Cwricwlwm i Gymru
- Mae angen i asesu adlewyrchu'r newidiadau i'r weledigaeth, y cwricwlwm a'r addysgeg yn effeithiol.

Beth sydd angen i ni ei newid?

Mae angen i ni:

- Gynyddu'r pwyslais ar asesu ffurfiannol effeithiol ac ar drafod ac asesu'r dysgu gyda dysgwyr.
- Annog mwy o ddeialog broffesiynol rhwng yr holl staff o fewn ysgolion a rhwng ysgolion gyda ffocws ar: asesu er mwyn galluogi cynnydd disgyblion, sut i gynnal trafodaeth effeithiol am eu dysgu gyda dysgwyr a dulliau o gynllunio ac adolygu camau nesaf dysgwyr, a thrwy hynny ddyfnhau'r dysgu.

Sut ydym yn mynd ati i wneud y newidiadau hynny?

Mae angen i ni:

- Gynnwys yr holl randdeiliaid wrth ddatblygu'r weledigaeth ar gyfer asesu a phwrpas y prosesau.
- Gymryd amser i fyfrio a chynllunio. Er enghraifft, y ffordd orau o ddefnyddio'r Datganiadau o'r hyn sy'n Bwysig, egwyddorion cynnydd a disgrifiadau dysgu i gynllunio prosesau asesu.
- Ystyried yn ofalus y pwrpas/rheswm dros unrhyw asesu. Er enghraifft, a yw'n berthnasol? Pa ddefnydd a wneir o wybodaeth asesu?

PWY SYDD ANGEN BETH O ASESU?

Beth sydd ei angen ar ddysgwyr?

Mae dysgwyr angen:

- Adborth amserol am eu cynnydd presennol a chyfeiriad ar gyfer eu camau dysgu nesaf. Er enghraifft, ar ffurf adborth dyddiol gan oedolion, cyfoedion, hunan asesu yn y dosbarth a hefyd o asesiadau cyfnodol.
- Dathlu ac atgyfnerthu llwyddiannau a chymhelliant ar gyfer dysgu pellach.
- Perchnogaeth ar wybodaeth asesu a chwarae rhan ganolog mewn cynllunio ar gyfer cynnydd pellach:
 - cynyddu ehangder a dyfnder gwybodaeth;
 - dyfnhau'r ddealltwriaeth o'r syniadau a'r disgyblaethau o fewn meysydd;
 - coethni a soffistigeiddrwydd cynyddol wrth ddefnyddio a chymhwyso sgiliau;
 - creu cysylltiadau a throsglwyddo dysgu i gyd-destunau newydd;
 - cynyddu effeithiolrwydd fel dysgwr.
- Dealltwriaeth dda o sut maen nhw'n dysgu ac yn datblygu fel dysgwyr hyderus, annibynnol.
- Amgylchedd dysgu sy'n eu galluogi i asesu eu dysgu yn effeithiol, i drafod camgymeriadau neu gamdybiaethau yn hyderus ac i roi a derbyn adborth yn barchus.

Beth sydd ei angen ar ymarferwyr?

Maen nhw angen:

- Gwybodaeth berthnasol, ymarferol, hygyrch y gellir ei defnyddio'n hyblyg i gynllunio ar gyfer dilyniant dysgwyr, yn ddyddiol yn y dosbarth ac o asesiadau cyfnodol.
- Gwneud defnydd da o asesu ffurfiannol a sicrhau ymateb effeithiol i adborth
- Gallu rhoi eu hamser a'u hegni i addysgu, a chydabod bod cymryd amser i siarad â dysgwyr a gwrando arnynt, yn asesu gwerthfawr.
- Gallu asesu'r dysgwr trwy ddefnyddio data mwy ansoddol, gan ddefnyddio dull mwy cyfannol o adolygu cynnydd a nodi camau nesaf. Dylid canolbwyntio ar les a metawybyddiaeth yn ogystal â chynnydd academaidd.

Er enghraifft, ystyried gwaith dysgwyr, eu datblygiad fel dysgwyr a derbyn mewnbwn gan rieni / staff cymorth / asiantaethau allanol.

- Yr amser i gymryd rhan mewn deialog broffesiynol effeithiol a rheolaidd ar gynnydd dysgwyr gyda chydweithwyr eraill ac arweinwyr yr ysgol a, phan fo'n berthnasol, rhwng ysgolion. Er enghraifft, ymgysylltu â chymheiriaid, deialog broffesiynol, cyfarfodydd trosglwyddo.

Beth sydd ei angen ar arweinwyr ysgolion?

Maen nhw angen:

- Prosesau syml, effeithiol ar gyfer nodi cynnydd dysgwyr a chael darlun clir o addysgu a dysgu. Dylent wedyn ddefnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio cyfeiriad strategol effeithiol ar gyfer yr ysgol a rhannu'r wybodaeth yn briodol â gwahanol randdeiliaid a chynulleidfaoedd.
- Meithrin amgylchedd sy'n seiliedig ar gyd-ymddiriedaeth a pharch, yn hytrach nag ar gydymffurfio ac adrodd.
- Sicrhau dysgu proffesiynol effeithiol i'r holl staff er mwyn iddynt ddatblygu arferion asesu ffurfiannol cryf.
- Trafodaethau rheolaidd a gwybodus ar asesu rhwng arweinwyr canol, uwch arweinwyr a llywodraethwyr, er mwyn cefnogi cynllunio strategol ar gyfer datblygu'r ysgol.

Beth sydd ei angen ar rieni/gofalwyr?

Mae angen iddyn nhw:

- Dderbyn gwybodaeth a sicrwydd am gynnydd eu plentyn/plant a dathlu ei lwyddiannau academaidd a'i lwyddiannau fel person ifanc.
- Fod yn rhan o gyfathrebu amrywiol a rheolaidd gyda'r ysgol i rannu gwybodaeth am gynnydd eu plentyn/plant a gwybod sut orau i gefnogi dysgu pellach a chynnydd.

CWESTIYNAU I'W HYSTYRIED

- Pa arferion asesu cyfredol sydd angen i chi eu cadw/ ailfeddwl/ newid/dileu?
- Pa effaith fydd adborth yn ei gael ar gynnydd dysgwyr ac addysgu? E.e. *Sut fydd dysgwyr yn gwella eu gwaith yn seiliedig ar adborth llafar yn y foment ac ar adborth ysgrifenedig?*
Sut fydd athrawon yn addasu eu haddysgu mewn ymateb i adborth gan/i ddealltwriaeth dysgwyr?
- Sut fydd eich arferion asesu yn llywio addysgu a dysgu?
- Sut fyddwch yn sicrhau bod dysgwyr yn chwarae rhan lawn mewn asesu a chynllunio eu cynnydd?
- Sut fydd eich dulliau asesu yn cefnogi'r pedwar diben?
- Sut fyddwch yn sicrhau cyd-ddealltwriaeth o ddilyniant - yn eich ysgol a rhwng clwstwr o ysgolion?
- Sut fyddwch yn sicrhau mai prif bwrpas asesu yw darparu gwybodaeth am gynnydd dysgwyr yn hytrach nag atebolrwydd?
- Pa wybodaeth fydd ei hangen arnoch a phryd? Pa ddefnydd fyddwch chi'n ei wneud o'r wybodaeth?
- Sut fydd yr wybodaeth yn ddefnyddiol i ddysgwyr/rhanddeiliaid?
- Sut fyddwch chi'n sicrhau bod rhieni'n rhan o bartneriaeth ddysgu effeithiol?
- Sut ydych chi'n bwriadu symud ar hyd y continwmm o asesu meintiol i asesu ansoddol?
- Sut allech chi greu'r gofod a'r gallu i ddatblygu a defnyddio asesu yn effeithiol?

Darllen pellach:

- Canllaw Cwricwlwm i Gymru
<https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/>
- Cwricwlwm i Gymru – Cefnogi Cynnydd Dysgwyr: Canllaw Aseu
<https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cefnogi-cynnydd-dysgwyr-canllawiau-asesu/>
- *Assessment for Learning: Using the right tools and resources to notice and respond to progress across the curriculum* (Cwricwlwm Seland Newydd)
<https://nzcurriculum.tki.org.nz/Strengthening-local-curriculum/Leading-local-curriculum-guide-series/Assessment-for-learning>
- *Assessing and monitoring Pupil Progress EEF*
<https://educationendowmentfoundation.org.uk/tools/assessing-and-monitoring-pupil-progress/>
- *Rethinking Assessment (bigeducation.org)*
<https://bigeducation.org/blogs-ra/>



CYNLLUNIO'R CWRICWLWM

PAPUR PROCIO: CYNLLUNIO'R CWRICWLWM


Beth yw Cynllunio'r Cwricwlwm?

Proses yw cynllunio'r cwricwlwm. Mae'r egwyddorion a'r ystyriaethau pwysig a ddylai lywio'r broses honno yn cynnwys datblygu:

- gweledigaeth ar gyfer y cwricwlwm mewn ysgol
- strwythur cwricwlwm i wneud y weledigaeth honno'n realiti

Pam mae angen i ni newid ein cynllunio cwricwlwm presennol?

Mae'r dystiolaeth o arolygon y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA), perfformiad cymharol plant a phobl ifanc yng Nghymru mewn cymwysterau cenedlaethol, a gwerthusiadau yn adroddiadau Estyn i gyd yn dangos nad yw'r lefelau cyrhaeddiad mor uchel ag y gallent ac y dylent fod. – *Dyfodol Llwyddiannus*.



Pam Cynllunio'r Cwricwlwm?

Mae'n hanfodol y dylai holl blant a phobl ifanc Cymru allu elwa o'r trefniadau cwricwlwm ac asesu a fydd yn diwallu eu hanghenion orau a'u paratoi ar gyfer eu bywydau yn y dyfodol. Dim ond amser cymharol fyr sydd gan ein plant a'n pobl ifanc yn yr ysgol felly mae'n rhaid i ni ddefnyddio'r amser hwnnw'n ddoeth ac yn

gynhyrchiol er mwyn helpu pob un i dyfu'n unigolyn galluog, iach a chyflawn a all ffynnu yn wyneb heriau anhysbys yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd, mae cynllun y cwricwlwm yn aml ar ffurf fframwaith o bynciau i'w haddysgu dros gyfnod penodol megis cyfnodau allweddol. Mae'r dull hwn o ymdrin â'r cwricwlwm yn cynnwys diffinio'r hyn y dylai pob plentyn (neu grwpiau o blant) ei brofi. Mae dull amgen yn canolbwyntio'n fwy uniongyrchol ar ganlyniadau disgwyliedig dysgu. Yn y dull hwn mae'r cwricwlwm yn aml yn cael ei fframio o ran y sgiliau, y galluoedd neu'r cymwyseddau allweddol a fydd yn cael eu datblygu mewn plant a phobl ifanc.

Mae'r ddadl 'pwnc yn erbyn sgiliau' yn y ddau ddyluniad cwricwlwm hyn yn creu cymariaethau di-fudd. Mae angen i gwricwlwm effeithiol ennyn brwdfrydedd plant a phobl ifanc tuag at ddysgu mewn ffyrdd sy'n cynnwys cyfraniad hanfodol dysgu ar sail disgyblaeth a'r wybodaeth, y sgiliau a'r anian a fydd yn eu helpu i ddiwallu anghenion heddiw a heriau yfory.

Dylid diffinio'r cwricwlwm ysgol yng Nghymru fel un sy'n cynnwys yr holl brofiadau dysgu a gweithgareddau asesu a gynlluniwyd wrth geisio dibenion cytunedig addysg. Dylai'r dibenion hyn ddylanwadu'n uniongyrchol ar benderfyniadau ynghylch cwricwlwm, addysgeg ac asesu.

T. 14 Dyfodol Llwyddiannus – Egwyddorion cynllunio'r cwricwlwm – dylai'r cwricwlwm fod: yn ddilys, wedi'i seilio ar dystiolaeth, yn ymatebol, yn gynhwysol, yn uchelgeisiol, yn rymusol, yn unedig, yn ddiddorol, wedi'i seilio ar sybsidiaredd, yn hawdd ei drin.

Pwyntiau allweddol ar gyfer cynllunio cwricwlwm lleol

- Dylai cwricwlwm lleol fod yn unigryw ac yn ymatebol i flaenoriaethau, dewisiadau a materion dysgwyr, rhieni a chymuned yr ysgol.
- Dylai'r hyn sy'n gweithio'n dda, ac sy'n gwella dysgu i bawb, fod wrth wraidd cynllunio cwricwlwm lleol.
- Efallai na fyddwn yn darganfod yr hyn sy'n gweithio orau yn syth neu ar gyfer pob dysgwr. Mae deall mai taith yw hon yn golygu y gallwn barhau i herio a gwerthuso ein syniadau, ein systemau a'n prosesau wrth i ni ddysgu ar hyd y ffordd.

Beth sydd angen i ysgolion ei newid?

Dylai ysgolion wneud y canlynol:

- Adeiladu cwricwlwm sy'n caniatáu i ddysgwyr fynd ar ôl y pedwar diben.
- Cydweithio i sicrhau bod continwmm dysgu rhwng cyfnodau / sectorau.
- Adolygu strwythur, dosbarthiad a'r dyraniad amser ar gyfer disgyblaethau a staffio
- Gwerthuso a chwestiynu: pam ydyn ni'n gwneud hyn a sut mae'n datblygu'r dysgu?
- Ystyried rôl mesurau atebolrwydd a deilliannau perfformiad. Mae'n rhaid i ysgolion baratoi dysgwyr ar gyfer arholiadau a chymwysterau. **Ni ddylent gyfaddawdu'r cwricwlwm a phrofiadau dysgu ein dysgwyr.**
- Sicrhau mynediad cyfartal i'r cwricwlwm ar gyfer pob dysgwr

Gwneud y weledigaeth yn realiti

Er mwyn creu'r cwricwlwm o'r weledigaeth mae'n rhaid i ni ystyried y canlynol:

- **Beth ddylem ei addysgu a pham?**
- **Sut ddylem ei addysgu?**
- **Sut fydd hyn yn cefnogi ein dysgwyr i wireddu'r pedwar diben?**

Mae angen i ni ofyn i'n hunain:

- A ydym yn cynnwys yr holl randdeiliaid mewn sgwrs am y tri chwestiwn hyn?

- A yw gweledigaeth, gwerthoedd, ethos, lleoliad ac amgylchedd yr ysgol yn sail i'r cwricwlwm hwn?
- Sut y bydd asesu yn cefnogi'r cwricwlwm hwn yn ogystal â'r dysgu?

Dylai'r rhyddid dewis hwn gael ei danategu gan broses o gynllunio'r cwricwlwm sy'n seiliedig ar dystiolaeth, lle mai'r nod bob amser yw helpu dysgwyr i wireddu'r pedwar diben

- Sut ydym yn dewis cynnwys y cwricwlwm?
- Sut allwn ni gefnogi ein hathrawon wrth ddewis y profiadau, yr wybodaeth, y sgiliau a'r cyd-destun a fydd yn cefnogi'r dysgu orau?
- Sut mae'r dysgu wedi'i strwythuro orau?
- Pa ddysgu proffesiynol fydd ei angen ar ein hathrawon?
- Ar gyfer dysgwyr, sut mae'r cwricwlwm yn cyfrannu at wireddu'r pedwar diben a chaffael y sgiliau annatod sy'n sail iddynt?
- Sut mae'r cwricwlwm yn cefnogi'r datblygiad o ymdeimlad o hunaniaeth y dysgwyr yng Nghymru?
- A yw'r cwricwlwm yn eang a chytbwys?
- A yw'r cwricwlwm yn briodol ar gyfer y dysgwyr o ran oedran, gallu a dawn?
- Sut mae'r cwricwlwm yn galluogi dilyniant priodol ar hyd y continwwm dysgu?
- Sut mae'r cwricwlwm yn ymgorffori cyfleoedd ar gyfer cymhwyso sgiliau trawsgwricwlaidd?
- Sut mae'r cwricwlwm yn ymgorffori asesu ar gyfer dilyniant dysgwyr?
- Sut mae'r cwricwlwm yn tynnu ar lais y dysgwr ac yn ymateb i anghenion, profiadau a mewnbwn dysgwyr?

Pa strwythur ddylai danategu'r dysgu a darparu'r un disgwyliadau uchel ar gyfer pob dysgwr?

Mae angen i ni ofyn i'n hunain:

- Sut allwn ni ddefnyddio profiadau, arbenigedd, sgiliau ac angerdd ein hathrawon / tîm orau er mwyn darparu cwricwlwm cyfredol a pherthnasol?
- Sut fyddwn yn cefnogi dilyniant ar hyd y continwwm dysgu a sut ydyn ni'n cydweithredu i sicrhau trosglwyddo effeithiol ar draws yr ystod oedran 3 i 16?
- Ai'r Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDaPh) yw'r strwythur cyflwyno mwyaf effeithiol ar gyfer cyflawni'r pedwar diben?
- Ai strwythur confensiynol cyfredol yr wythnos - 25 x gwrs 1 awr neu 30 x 50 munud mewn ysgolion uwchradd - a'r dyraniad amser presennol i wahanol bynciau - yw'r cyfrwng mwyaf effeithiol er mwyn cyflawni'r hyn sy'n amlwg yn gwricwlwm gwahanol iawn? A oes angen ailedrych ar ddisbarthiad yr amser cyflwyno ochr yn ochr â'r sgysiau ynghylch dysgu?
- Sut ydyn ni'n sicrhau bod egwyddorion dilyniant yn gyrru'r broses gynllunio ac nid y thema'n unig o fewn y dull thematig (os yw ysgol yn penderfynu mai cwricwlwm thematig yw'r ffordd fwyaf priodol ymlaen)?
- Ai amseriadau a threfniadaeth carfannau ysgolion ar hyn o bryd sydd orau o ran diwallu anghenion y cwricwlwm newydd? A oes angen i ni edrych yn hyblyg ar amseriadau'r diwrnod a grwpiau?
- Beth yw'r ffordd orau i ni ddefnyddio amser digyswllt athrawon / staff cymorth i gefnogi datblygiad y cwricwlwm?

DYSGU O BROFIAD

- Gan fyfyrion ar yr hyn rydym wedi'i ddysgu yn ystod pandemig Covid-19 – beth allwn ni ei gymryd o'r profiad hwn wrth symud ymlaen?
- A ydym yn gweld diben addysg yn wahanol?


MODELAU CYNLLUNIO'R CWRICWLWM

A ydych chi wedi ystyried modelau gwahanol ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm?

MODEL	DIFFINIAD
Disgyblaethol	Addysgu arbenigol o fewn disgyblaethau neu bynciau
Amlddisgyblaethol	Mewn cwricwlwm amlddisgyblaethol caiff un pwnc ei astudio o safbwynt mwy nag un ddisgyblaeth.
Rhyngddisgyblaethol	Mae'n cyfuno sawl pwnc ysgol mewn un prosiect gweithredol neu mae wedi'i drefnu i dorri ar draws llinellau pwnc, gan dynnu amrywiol agweddau ar y cwricwlwm ynghyd i gysylltiad ystyrllon. Mae'n tynnu gwybodaeth a sgiliau o ddwy ddisgyblaeth neu fwy mewn ffordd fwy cysylltiedig Mae'n mynd i'r afael â phroblem gymhleth neu gwestiwn na ellir ei ddatrys trwy ddefnyddio un dull disgyblaethol e.e. <i>Pandemig Byd-eang</i>
Integreiddiedig	Dull rhyngddisgyblaethol, trefniadol yn bennaf, sy'n chwalu ffiniau pynciau traddodiadol - naill ai'n rhannol (e.e. pynciau hybrid) neu'n llawn (e.e. dull ysgol ganol yr UD)

Cwestiynau i'w hystyried

- Pa mor effeithiol fyddai'r model cwricwlwm a ddewiswyd wrth wneud cysylltiadau o fewn a rhwng gwybodaeth a sgiliau a MDaPh, ac ati?
- Pa mor dda y mae'r model yn datblygu'r sgiliau trawsgwricwlaidd?
- Pa mor dda y mae pob model yn datblygu dealltwriaeth ddefn o les, cynaliadwyedd, cydraddoldeb a newid yn yr hinsawdd?
- A yw'r themâu neu'r cwestiynau mawr yn sicrhau dysgu cyfoethog a thrylwyr ar draws meysydd pwnc?
- Sut mae sicrhau bod dilyniant yn cael ei ymgorffori yn y model cwricwlwm?
- Sut ydym yn sicrhau bod dulliau amlddisgyblaethol neu rhyngddisgyblaethol yn darparu dysgu cyfoethog a thrylwyr ym mhob un o'r pynciau cysylltiedig?
- A fyddem yn mapio'r model hwn ar draws y cwricwlwm cyfan?
- Sut allai'r model hwn effeithio ar ddilyniant dysgu o fewn meysydd?
- Sut allwn ni ddarparu'r amser a'r lle i athrawon ymgymryd â chynllunio cydweithredol?
- Sut ydyn ni'n cefnogi ein hathrawon i drosglwyddo o'r hen gwricwlwm i'r 'Cwricwlwm i Gymru' newydd?
- A yw model penodol yn fwy addas i rai meysydd dysgu yn fwy nag eraill? Pam?
- Sut mae pob dull yn edrych ar draws y continwwm 3-16?
- Sut allem drefnu'r dysgu i sicrhau na chollir cysyniadau allweddol?
- Sut ydym yn osgoi rhoi sylw arwynebol i rai cysyniadau allweddol?
- Sut allwn ni gyfateb y gwahanol ddulliau gyda pharatoi ar gyfer arholiadau?





Cydweithio • Dysgu • Llwyddo


- ☎ 0300 500 8087
- ✉ post@gwegogledd.cymru
- 💻 www.GwEGogledd.Cymru
- 🐦 [@GwEGogleddCymru](https://twitter.com/GwEGogleddCymru)

Atodiad 6: Gweithgareddau a gofnodwyd ac amser a dreuliwyd

Mae pob Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant (YCG) yn cysylltu â'i r(h)eolwr llinell bob bore a chofnodir rhestr o'u tasgau dyddiol yn eu calendr. Dyma grynodedb o weithgareddau staff GWE ers y cyfnod clo cyntaf:

1. Am y cyfnod rhwng 23 Mawrth a 22 Mai, 2020 .

Categori	Oriau	%
Cefnogi a gweithio gydag ysgolion	9049	44%
Gwaith Rhanbarthol ac Awdurdod Lleol	6992	34%
Cefnogi Dysgu Proffesiynol	1645	8%
Parhad Dysgu Cenedlaethol	2879	14%
Arall	45	<1%



Gwynedd

Ysgolion - Cefnogi a gweithio gydag ysgolion (rhithwir) : **1638 awr**


2. Am y cyfnod rhwng 1 Mehefin a 17 Gorffennaf, 2020 .

Categori	Oriau	%
Cenedlaethol	1044	7%
Gwaith Rhanbarthol	3704	25%
Ysgolion - gwaith Rhanbarthol wrth gefnogi ysgolion	3619	24%
Cyfarfodydd Awdurdod Lleol	653	4%
Ysgolion - cymorth unigryw/clwstwr	2788	19%
Arall er enghraifft paratoi, datblygu canllawiau/adnoddau, gwneud gwaith ymchwil, darllen, gwella sgiliau digidol (gweminarau) ac ati	3084	21%

Gwynedd


Ysgolion - gwaith Rhanbarthol wrth gefnogi ysgolion: **658 awr**

Ysgolion - cymorth unigryw/clwstwr : **493 awr**



3. Am y cyfnod rhwng 1 Medi a 31 Rhagfyr, 2020 .

Categori	Oriau	%
Cenedlaethol	2284	6%
Gwaith Rhanbarthol	10675	28%
Awdurdod Lleol	2284	6%
Ysgolion - Cefnogi a gweithio gydag ysgolion (rhithwir), ymweliadau ysgol, cefnogi gwaith clystyrau a chynghreiriau, Dysgu Proffesiynol	11789	31%
Ysgolion - Rheoli Perfformiad Penaethiaid	380	1%
Dysgu Carlam	3423	9%
Arall er enghraifft paratoi, datblygu canllawiau/adnoddau, gwneud gwaith ymchwil, darllen, gwella sgiliau digidol (gweminarau) ac ati	7223	19%



Gwynedd


Ysgolion - Cefnogi a gweithio gydag ysgolion (rhithwir), ymweliadau ysgol, cefnogi gwaith clystyrau a chynghreiriau, Dysgu Proffesiynol : **2116 awr**

4. Am y cyfnod rhwng 1 Ionawr a 9 Ebrill, 2021

Categori	Oriau	%
Cenedlaethol	1614	7%
Gwaith Rhanbarthol	7639	33%
Awdurdod Lleol	1542	6%
Ysgolion - Cefnogi a gweithio gydag ysgolion (rhithwir), cefnogi gwaith clystyrau a chynghreiriau, Dysgu Proffesiynol	7895	34%
Ysgolion - Rheoli Perfformiad Penaethiaid	213	1%
Arall er enghraifft paratoi, datblygu canllawiau/adnoddau, gwneud gwaith ymchwil, darllen, gwella sgiliau digidol (gweminarau) ac ati	4338	19%

Gwynedd

Ysgolion - Cefnogi a gweithio gydag ysgolion (rhithwir), cefnogi gwaith clystyrau a chynghreiriau, Dysgu Proffesiynol : **1425 awr**




5. Am y cyfnod rhwng 11 Ebrill a 23 Gorffennaf, 2021.

Categori	Oriau	%
Cenedlaethol	1168	5%
Gwaith Rhanbarthol	7212	33%
Awdurdod Lleol	1414	6%
Ysgolion - Cefnogi a gweithio gydag ysgolion (rhithwir), ymweliadau ysgol, cefnogi gwaith clystyrau a chynghreiriau, Dysgu Proffesiynol	8184	37%
Arall er enghraifft paratoi, datblygu canllawiau/adnoddau, gwneud gwaith ymchwil, darllen, gwella sgiliau digidol (gweminarau) ac ati	4218	19%

Gwynedd

Ysgolion - Cefnogi a gweithio gydag ysgolion (rhithwir), ymweliadau ysgol, cefnogi gwaith clystyrau a chynghreiriau, Dysgu Proffesiynol : **1466 awr**





Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding



Cynllun Busnes GwE 2021-2022

Data Rhanbarthol ac Awdurdod Lleol

Chwarter 2



www.gwegogledd.cymru



@GwEGogleddCymru



Tud. 207



CYNLLUN BUSNES 2021-2022

BLAENORIAETHAU A DARPARIAETH RHANBARTHOL 2021-2022

Data Rhanbarthol ac Awdurdod Lleol

AMCAN 1 - CWRICWLWM AC ASESU																										
Cefnogi cwricwlwm cenedlaethol ble mae tegwch a rhagoriaeth yn ganolog ac sydd yn gosod safonau uchel i bob dysgwr.																										
CONTINWWM ADDYSG 3 I 16																										
Data Rhanbarthol: Prosiect GwE a Shirley Clarke – Haen 3 Cyfanswm ysgolion ar draws y rhanbarth yn Haen 1, 2, and 3		Data Awdurdod Lleol: Prosiect GwE a Shirley Clarke – Haen 3 Ysgolion Gwynedd yn Haen 3:																								
<table border="1"> <thead> <tr> <th></th> <th>Ysgolion</th> <th>Athrawon</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Haen 1</td> <td>27</td> <td>54</td> </tr> <tr> <td>Haen 2</td> <td>193</td> <td>386</td> </tr> <tr> <td>Haen 3</td> <td>140</td> <td>261</td> </tr> <tr> <td>Cyfanswm</td> <td>260</td> <td>701</td> </tr> </tbody> </table> <ul style="list-style-type: none"> 89% ysgolion y rhanbarth 96% Cynradd 80% Uwchradd 70% Arbennig 			Ysgolion	Athrawon	Haen 1	27	54	Haen 2	193	386	Haen 3	140	261	Cyfanswm	260	701	<table border="1"> <thead> <tr> <th></th> <th>Cyn</th> <th>Uwch</th> <th>Arb</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Gwynedd:</td> <td>20</td> <td>5</td> <td>2</td> </tr> </tbody> </table>			Cyn	Uwch	Arb	Gwynedd:	20	5	2
	Ysgolion	Athrawon																								
Haen 1	27	54																								
Haen 2	193	386																								
Haen 3	140	261																								
Cyfanswm	260	701																								
	Cyn	Uwch	Arb																							
Gwynedd:	20	5	2																							
GWIREDDU'R CWRICWLWM (CIG)																										
Data Rhanbarthol: Gweithdai Cwricwlwm i Gymru <ul style="list-style-type: none"> % sydd wedi mynychu un sesiwn neu mwy - 80.3% 54 sesiwn 108 awr o Ddysgu Proffesiynol 1155 wedi mynychu'r sesiynau = 2310 awr o Ddysgu Proffesiynol i arweinwyr ysgolion 		Data Awdurdod Lleol: <table border="1"> <thead> <tr> <th colspan="2">% sydd wedi mynychu 1 sesiwn neu fwy</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Gwynedd:</td> <td>88.5%</td> </tr> </tbody> </table>		% sydd wedi mynychu 1 sesiwn neu fwy		Gwynedd:	88.5%																			
% sydd wedi mynychu 1 sesiwn neu fwy																										
Gwynedd:	88.5%																									
TIMAU MDaPh:																										
Data Rhanbarthol (13/10/2021): Niferoedd sydd wedi datgan diddordeb mewn cyfrannu at y rhaglen gymorth barhaus ar gyfer Ysgolion mewn perthynas â'r Daith Ddiwygio:		Data Awdurdod Lleol (13/10/2021): Niferoedd sydd wedi datgan diddordeb mewn cyfrannu at y rhaglen gymorth barhaus ar gyfer Ysgolion mewn perthynas â'r Daith Ddiwygio:																								
<table border="1"> <thead> <tr> <th>Disgrifiad</th> <th>Nifer</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Asesu - Assessment</td> <td>94</td> </tr> <tr> <td>Cynllunio Cwricwlwm - Curriculum Design</td> <td>124</td> </tr> <tr> <td>Gwyddoniaeth a Thechnoleg - Science and Technology</td> <td>60</td> </tr> <tr> <td>Iechyd a Lles - Health and Well-being</td> <td>60</td> </tr> </tbody> </table>		Disgrifiad	Nifer	Asesu - Assessment	94	Cynllunio Cwricwlwm - Curriculum Design	124	Gwyddoniaeth a Thechnoleg - Science and Technology	60	Iechyd a Lles - Health and Well-being	60	<table border="1"> <thead> <tr> <th>ALL_LA</th> <th>Nifer</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Gwynedd</td> <td>91</td> </tr> </tbody> </table> <table border="1"> <thead> <tr> <th>ALL_LA</th> <th>Disgrifiad</th> <th>Nifer</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Gwynedd</td> <td>Asesu - Assessment</td> <td>11</td> </tr> </tbody> </table>		ALL_LA	Nifer	Gwynedd	91	ALL_LA	Disgrifiad	Nifer	Gwynedd	Asesu - Assessment	11			
Disgrifiad	Nifer																									
Asesu - Assessment	94																									
Cynllunio Cwricwlwm - Curriculum Design	124																									
Gwyddoniaeth a Thechnoleg - Science and Technology	60																									
Iechyd a Lles - Health and Well-being	60																									
ALL_LA	Nifer																									
Gwynedd	91																									
ALL_LA	Disgrifiad	Nifer																								
Gwynedd	Asesu - Assessment	11																								

leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu - Languages, Literacy and Communication	87	Gwynedd	Cynllunio Cwricwlwm - Curriculum Design	18
Mathemateg a Rhifedd - Mathematics and Numeracy	60	Gwynedd	Gwyddoniaeth a Thechnoleg - Science and Technology	9
Y Celfyddydau Mynegiannol - Expressive Arts	61	Gwynedd	Iechyd a Lles - Health and Well-being	6
Y Dyniaethau - Humanities	53	Gwynedd	leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu - Languages, Literacy and Communication	17
		Gwynedd	Mathemateg a Rhifedd - Mathematics and Numeracy	11
		Gwynedd	Y Celfyddydau Mynegiannol - Expressive Arts	9
		Gwynedd	Y Dyniaethau - Humanities	10

AMCAN 2 - DATBLYGU PROFFESIWN ADDYSG O SAFON UCHEL

Gwella'r dysgu a'r addysgu yn ein hysgolion

IEITHOEDD TRAMOR MODERN

Data Rhanbarthol:

Adnoddau a tanysgrifadau newydd 'Power Language': 31 ysgol cynradd

Prifysgol Agored: 9 o athrawon cynradd

Data Awdurdod:

Cerdd Iaith / nifer o ysgolion

Gwynedd:	1
----------	---

'Power Language' / nifer o ysgolion newydd

Gwynedd:	1
----------	---

Prifysgol Agored: nifer o Athrawon

Gwynedd:	1
----------	---

Cymorth parhaus i ysgolion uwchradd: 3

**Nifer ysgolion / Cyfarfod Rhwydwaith ar 1
Gorffennaf: 26 Ysgolion/ 31 Athrawon**

Nifer yr ysgolion / Cystadleuaeth Cyfieithu - 18

Cynllun mentora bl 8/9: 15 ysgol

Cymorth parhaus i ysgolion uwchradd

Gwynedd:	2
----------	---

Nifer ysgolion yn y cyfarfod Rhwydwaith 1/7/21

Gwynedd:	8
----------	---

Cystadleuaeth Cyfieithu

Gwynedd:	6
----------	---

Cynllun mentora bl 8/9

Gwynedd:	6
----------	---

Ysgol wrth gefn – Cynllun mentora

Gwynedd:	1
----------	---

CALU - LIDCD

Regional data:

Cymorthyddion addysgu sydd newydd eu penodi

	2021-22
Rhanbarthol	55

Darpar CALU Cylch 3

Rhanbarthol	43
-------------	----

Asesiadau Statws CALU Cylch 2

Rhanbarthol	33
-------------	----

Aseswyr CALU

Rhanbarthol	24
-------------	----

Dosbarth Google i gymorthyddion

Niferoedd	1900 erbyn Hydref
Rhanbarthol:	2021

Data Awdurdod Lleol / Local Authority data:

Cymorthyddion addysgu sydd newydd eu penodi

	2021-22
Gwynedd:	1

Darpar CALU Cylch 3

Gwynedd:	5
----------	---

Asesiadau Statws CALU Cylch 2

Gwynedd:	4
----------	---

Aseswyr CALU

Gwynedd:	2
----------	---

Y Gymraeg (DP)

Data Rhanbarthol:

Cynllun Sabothol, Cwrs Cymraeg mewn Blwyddyn
2020-21 (cwblhau Haf 2021)

	Nifer
Rhanbarthol	11

Hyfforddiant ar-lein Croeso: Ymarferwyr mewn
Addysg

Data Awdurdod Lleol:

Gwynedd: d/b

Hyfforddiant ar-lein Croeso: Ymarferwyr mewn Addysg

Rhanbarthol			Awdurdod	Cofrestru	Cwblhau Rhan 1	Cwblhau Rhan 2
Cofrestru	Cwblhau Rhan 1	Cwblhau Rhan 2	Gwynedd	4	1	0
94	52	43				

LEFEL A

Data Rhanbarthol:

Rhwydweithio a rhannu arfer dda: 20

Data Awdurdod Lleol:

Rhwydweithio a rhannu arfer dda (ar y cyd):

Gwynedd:	6
Ynys Mon	

DIGIDOL

Data Rhanbarthol:

Ymgysylltiad Rhanbarthol Hwb yn Chwarter 2:
93.16%* (yn cynnwys gwyliau'r haf)

Data Awdurdod Lleol:

Ymgysylltiad â Hwb yn Chwarter 2	
Gwynedd:	85.3%

MATHEMATEG A RHIFEDD

Data Rhanbarthol:

Uwchradd - 11 o ysgolion o'r 54 wedi derbyn cefnogaeth unigol.

Data Awdurdod Lleol:

Gwynedd:	4
----------	---

SAESNEG A LLYTHRENNEDD

Data Rhanbarthol:

Cefnogaeth llythrennedd i ysgolion naill ai yng nghategori Estyn / Mesurau Arbennig, YAC neu angen arweiniad.

Data Awdurdod Lleol:

Ysgolion sy'n achosi pryder:

	uwchradd
Gwynedd:	6

Y GYMRAEG A LLYTHRENNEDD

Data Rhanbarthol / Regional data:

Cyfarfodydd rhwydwaith ac 'Ar alw' (Medi '21)

Aelodau o'r Teams 'GwE - Y Gymraeg - Uwchradd'

Data Awdurdod Lleol / Local Authority data:

Nifer o benaethiaid adrannau Y Gymraeg ym mhob ALL a lwyddodd i fynychu'r cyfarfodydd hyn:
Gwynedd = 8

Aelodau o'r Teams 'GwE - Y Gymraeg - Uwchradd'
Gwynedd = 14

GWYDDONIAETH

Data Rhanbarthol:

Nid oes unrhyw rwydweithiau Gwyddoniaeth benodol wedi digwydd yn chwarter yma, oherwydd datblygiad y rhwydweithiau MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg rhanbarthol a lleol.

Data Awdurdod Lleol:

Nifer ysgolion sydd wedi derbyn cefnogaeth bwrrpasol:

Gwynedd:	5
----------	---

CYFNOD SYLFAEN

Data Rhanbarthol:

Data Awdurdod Lleol:

Cymorth pwrpasol i ysgolion: 24	Cefnogaeth benodol ar gais YCG ar gyfer ysgolion unigol neu ysgolion risg uchel/dilyniant Estyn		
Cymorth pwrpasol i glystyrau: 3			
<table border="1"> <tr> <td>Gwynedd:</td> <td>0</td> </tr> </table>		Gwynedd:	0
Gwynedd:	0		

AMCAN 3 - ARWEINYDDIAETH
Cefnogi arweinwyr ysbrydoledig yn cydweithio i godi safonau. Cynnwys darpar arweinwyr a rhwydweithiau proffesiynol

ARWEINYDDIAETH

<p>Data Rhanbarthol:</p> <ol style="list-style-type: none"> Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol (RhDAG): 98 Rhaglen Datblygu Uwch Arweinwyr: 61 Rhaglen Datblygu Darpar Benaethiaid (paratoi ar gyfer CPCP): 72 Rhaglen Datblygu Penaethiaid Newydd a Phenaethiaid Dros Dro: 37 Rhaglen Datblygu Penaethiaid Profiadol: 17 <p style="text-align: right;">CYFANSWM: 285</p>	<p>Data Awdurdod Lleol:</p> <table border="1"> <thead> <tr> <th></th> <th>1</th> <th>2</th> <th>3</th> <th>4</th> <th>5</th> <th>Cyf</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Gwynedd:</td> <td>9</td> <td>10</td> <td>12</td> <td>7</td> <td>1</td> <td>39</td> </tr> </tbody> </table>		1	2	3	4	5	Cyf	Gwynedd:	9	10	12	7	1	39
	1	2	3	4	5	Cyf									
Gwynedd:	9	10	12	7	1	39									

CYMORTH I LYWODRAETHWYR

<p>Data Rhanbarthol:</p>	<p>Data Awdurdod Lleol:</p> <table border="1"> <tr> <td>Gwynedd:</td> <td>70 o lywodraethwyr yn ystod 2 x sesiwn ar Zoom 23/6/21 a 29/6/21</td> </tr> </table>	Gwynedd:	70 o lywodraethwyr yn ystod 2 x sesiwn ar Zoom 23/6/21 a 29/6/21
Gwynedd:	70 o lywodraethwyr yn ystod 2 x sesiwn ar Zoom 23/6/21 a 29/6/21		

CYNGHREIRIAU/RHWDWEITHIAU/CLYSTYRAU

<p>Data Rhanbarthol:</p> <p>Nifer ysgolion uwchradd sy'n cymryd rhan mewn cynghrair : 53</p> <p>Nifer ysgolion cynradd sy'n cymryd rhan mewn cynghrair: 331</p> <p>Nifer yr ysgolion uwchradd sy'n cydweithio mewn clwstwr CiG: 54</p> <p>Nifer yr ysgolion cynradd sy'n cydweithio mewn clwstwr CiG: 331</p>	<p>Data Awdurdod Lleol:</p> <p>Nifer ysgolion uwchradd sy'n cymryd rhan mewn cynghrair</p> <table border="1"> <tr> <td>Gwynedd:</td> <td>14</td> </tr> </table> <p>Nifer ysgolion cynradd sy'n cymryd rhan mewn cynghrair</p> <table border="1"> <tr> <td>Gwynedd:</td> <td>78</td> </tr> </table> <p>Nifer yr ysgolion uwchradd sy'n cydweithio mewn clwstwr CiG</p> <table border="1"> <tr> <td>Gwynedd:</td> <td>14</td> </tr> </table> <p>Nifer yr ysgolion cynradd sy'n cydweithio mewn clwstwr CiG</p> <table border="1"> <tr> <td>Gwynedd:</td> <td>78</td> </tr> </table>	Gwynedd:	14	Gwynedd:	78	Gwynedd:	14	Gwynedd:	78
Gwynedd:	14								
Gwynedd:	78								
Gwynedd:	14								
Gwynedd:	78								

AMCAN 4 - YSGOLION CRYF A CHYNHWYSOL

yn ymroi i ragoriaeth, tegwch a llesiant

GDD PMG

Data Rhanbarthol:

- Ymweliadau / Cefnogaeth Ysgolion Unigol x 24
- Fforymau / Clystyrau Penaethiaid x 10
- Swyddogion PMG ALL x 12

Data Awdurdod Lleol:

Gwynedd:	5 cyfarfod
----------	------------

AILGYDIO MEWN DYSGU

Data Rhanbarthol:

Remote Instruction of Language and Literacy (RILL) – PHASE 2: 54 ysgol

Precision Teaching and SAFMEDS: 7

Improving fluency in Oral Reading (iFOR): 42

Data Awdurdod Lleol:

Remote Instruction of Language and Literacy (RILL) – PHASE 2 -

Gwynedd:	15
----------	----

Precision Teaching and SAFMEDS

Gwynedd:	1
----------	---

Improving fluency in Oral Reading (iFOR)

Gwynedd:	5
----------	---

AMCAN 5- CEFNOGI SYSTEM SY'N HUNAN WELLA

Cefnogi system ble mae gan y proffesiwn addysg y sgiliau, y gallu a'r cynhwysedd i ddysgu a gwella eu harferion yn gyson

YMGYSYLLTU Â CHYMHEIRIAID

Data Rhanbarthol :

Nifer ysgolion / clystyrau sy'n cymryd rhan: 72/12

Adolygwyr cymheiriaid wedi'u hyfforddi: 97

Hwyluswyr gwella wedi'u hyfforddi: 92

Tymor yr Hydref 2021

Nifer yr ysgolion / clystyrau a nodwyd ar gyfer hyfforddiant yn y carfan nesaf: 193 / 33

Data Awdurdod Lleol:

Nifer ysgolion / clystyrau sy'n cymryd rhan:

Gwynedd:	11
----------	----

Adolygwyr cymheiriaid wedi'u hyfforddi::

Gwynedd:	18
----------	----

Hwyluswyr gwella wedi'u hyfforddi:

Gwynedd:	14
----------	----

Tymor yr Hydref 2021:

Nifer yr ysgolion sydd wedi mynegi diddordeb::

Gwynedd:	56
----------	----

YSGOLION SY'N ACHOSI PRYDER

Data Rhanbarthol:

Nifer YAC uwchradd rhanbarthol: 11

Data Awdurdod Lleol:

Nifer YAC uwchradd yn ALL :

Gwynedd:	3
----------	---

<p>Nifer YAC cynradd rhanbarthol : 2</p> <p>Nifer ysgolion uwchradd sy'n cymryd rhan yn peilot cenedlaethol YAC [mesurau arbennig]: 4</p> <p>Nifer YAC uwchradd rhanbarthol sy'n cymryd rhan yn y rhaglen bartneriaeth ysgolion: 5</p> <p>Nifer YAC cynradd rhanbarthol sy'n cymryd rhan yn y rhaglen bartneriaeth ysgolion: 0</p> <p>Nifer YAC uwchradd rhanbarthol sy'n cymryd rhan mewn cynghrair cydweithredol: 11</p> <p>Nifer YAC cynradd rhanbarthol sy'n rhan o gydweithio clwstwr: 2</p> <p>Nifer y swyddogion ac ymgynghorwyr sy'n cymryd rhan yn y Grŵp Tasg a Gorffen rhanbarthol: 16</p>	<p>Nifer YAC uwchradd yn ALL</p> <table border="1" data-bbox="775 129 1302 170"> <tr> <td>Gwynedd:</td> <td>0</td> </tr> </table> <p>Nifer ysgolion uwchradd sy'n cymryd rhan yn peilot cenedlaethol YAC [mesurau arbennig]:</p> <table border="1" data-bbox="775 277 1302 318"> <tr> <td>Gwynedd:</td> <td>1</td> </tr> </table> <p>Nifer YAC sy'n cymryd rhan yn y rhaglen bartneriaeth ysgolion:</p> <table border="1" data-bbox="775 425 1302 465"> <tr> <td>Gwynedd:</td> <td>0</td> </tr> </table> <p>Nifer YAC cynradd sy'n cymryd rhan yn y rhaglen bartneriaeth ysgolion::</p> <table border="1" data-bbox="775 573 1302 613"> <tr> <td>Gwynedd:</td> <td>0</td> </tr> </table> <p>Nifer YAC uwchradd rhanbarthol sy'n cymryd rhan mewn cynghrair cydweithredol::</p> <table border="1" data-bbox="775 721 1302 761"> <tr> <td>Gwynedd:</td> <td>3</td> </tr> </table> <p>Nifer YAC cynradd sy'n rhan o gydweithio clwstwr:</p> <table border="1" data-bbox="775 837 1302 878"> <tr> <td>Gwynedd:</td> <td>0</td> </tr> </table> <p>Nifer swyddogion sy'n cymryd rhan yn y Grŵp Tasg a Gorffen rhanbarthol:</p> <table border="1" data-bbox="775 985 1302 1025"> <tr> <td>Gwynedd:</td> <td>1</td> </tr> </table>	Gwynedd:	0	Gwynedd:	1	Gwynedd:	0	Gwynedd:	0	Gwynedd:	3	Gwynedd:	0	Gwynedd:	1
Gwynedd:	0														
Gwynedd:	1														
Gwynedd:	0														
Gwynedd:	0														
Gwynedd:	3														
Gwynedd:	0														
Gwynedd:	1														

Atodiad 8: Cymorth i fforwm Penaethiaid rhanbarthol gyda Graddau wedi'u Pennu gan Ganolfannau.

Dyddiad	Agenda
16/11/20	<ul style="list-style-type: none"> • Ymateb cenedlaethol i'r Adolygiad Annibynnol. • Rôl y Grŵp Dylunio a Chyflawni • Cynllunio dull rhanbarthol o gefnogi pob ysgol
23/11/20	<ul style="list-style-type: none"> • Trafodaethau ar lunio system achredu'r haf - nodi materion ac arferion i gael effaith ar ddatblygiadau cenedlaethol.
21/01/21	<ul style="list-style-type: none"> • Trafodaethau ar sut i ddatblygu model cydweithredol cadarn ar gyfer ysgolion rhanbarthol. • Nodi materion a phryderon i'w codi gyda CC/CBAC ar 25/01/21
25/01/21	<ul style="list-style-type: none"> • Cyflwyniadau ar ddatblygiadau cenedlaethol - Ian Morgan CBAC, Philip Blaker CC a Georgina Haarhoff Llywodraeth Cymru. • Sesiwn Holi ac Ateb gyda'r uchod • Datblygu model cyfoethogi ansawdd - trafodaethau dan arweiniad Phil McTague
04/03/21	<ul style="list-style-type: none"> • Cyflwyniad CBAC ar ddatblygiadau cenedlaethol • Sesiwn Holi ac Ateb gydag Ian Morgan CBAC
11/03/21	<ul style="list-style-type: none"> • Rhannu arferion <ul style="list-style-type: none"> ✓ Cameo Ysgol, Ysgol 1 ✓ Cameo Ysgol, Ysgol 2 ✓ Cameo Ysgol, Ysgol 3 • Grwpiau trafod • Adborth • Amserlen weithredu a chynllunio'r camau nesaf
18/03/21	Cyfle pellach i ysgolion drafod cymorth o fewn eu cynghreiriau dynodedig.
25/03/21	<ul style="list-style-type: none"> • Canllawiau diweddaraf - sesiwn Holi ac Ateb gydag Ian Morgan a Philip Blaker • Cyfarfod Cynghrair
19/05/21	<ul style="list-style-type: none"> • Adborth ar waith y Grŵp Dylunio a Chyflawni cenedlaethol • Cyflwyniad gan Philip Blaker CC • Sesiwn Holi ac Ateb gyda chynrychiolwyr CC • Adnabod camau ar gyfer cymorth unigryw rhanbarthol pellach
09/06/21 a 06/07/21	<ul style="list-style-type: none"> • Datblygu cydweithio cynghrair y tu hwnt i safoni a chymedroli Graddau wedi'u Pennu gan Ganolfannau.

Atodiad/Appendix 9 : Cefnogaeth rhwydweithio ychwanegol yn y sector uwchradd / Additional Secondary Sector Network Support

RHWYDWAITH/FFORWM NETWORK/FORUM	DYDDIADAU DATES	MATERION AGENDA AGENDA ITEMS	GWYNEDD NIFER YSGOLION YN CYFRANOGI NUMBER OF SCHOOLS INVOLVED
Penaethiaid Gwyddoniaeth	17/11/2020 + 19/11/2020 (dau gyfle i fynychu)	Dyfodol cymwysterau Dysgu ac addysgu dan yr amodau presennol - Dysgu cyfunol a hybrid Y Model Cynghair Cyfle i rannu profiadau, syniadau a chyfleoedd yn y dyfodol	14 ysgol (17 unigolyn yn bresennol)
	18/03/2021	Cymwysterau • 2021 - Cynllunio ar gyfer asesu/GBG - cyfle i rannu profiadau, syniadau a ffyrdd ymlaen • 2025 – Cymwys ar gyfer y Dyfodol – Dweud eich dweud Diweddariadau rhanbarthol a chenedlaethol	11 ysgol (14 unigolyn yn bresennol)
Gwyddoniaeth Gymhwysol a Meddygol (TGAU a Safon Uwch)	27/01/2021	Cynllunio ar gyfer y cymwysterau Meini prawf asesu Rhannu'r arfer gorau o ysgolion llwyddiannus	2 ysgol (5 unigolyn yn bresennol)
ANG ac Athrawon Gyrfa Gynnar mewn Gwyddoniaeth	22/04/2021	Rôl GWE? Ymateb i anghenion cymorth a nodwyd Cynllunio ar gyfer dysgu Adnoddau/gwefannau STEM Cynllunio at y dyfodol	2 ysgol
Rhwydweithiau STEM	02/12/2021	Cyflwyno Fframwaith 4 Piler i strwythuro datblygiad STEM mewn ysgolion	
Gweithdy/weminar dysgu gallu	4/2/21	Canfyddiadau ymchwil	9 ysgol (17 aelod o'r ysgolion hyn)

cymysg mewn Mathemateg		<p>Strategaethau effeithiol, a ble i gael adnoddau ymarferol.</p> <p>Rhannu arferion da - 2 gyflwyniad gan ysgolion</p>	
Gweithdy/weminar dysgu o bell mewn mathemateg	10/2/21	<p>Rhannu arferion da - gweithdy dan arweiniad ymarferydd arweiniol yn y rhanbarth yn canolbwyntio ar y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Gwersi byw neu ddim ➤ Technegau effeithiol ar gyfer gwersi byw ➤ Asesu dealltwriaeth ➤ Technegau effeithiol ar gyfer addysgu ar-lein (ddim o angenrheidrwydd yn fyw) 	8 ysgol (16 aelod o'r ysgolion hyn)
Cyfarfod Rhwydwaith ANG mewn Mathemateg	17/3/21 & 23/6/21	<p>Cyfarfod cyntaf Adnoddau/gwefannau defnyddiol</p> <p>Trafodaethau mewn grwpiau llai:</p> <p><i>Pa strategaethau ac/neu adnoddau fu'n arbennig o ddefnyddiol hyd yma yn eich gyrfa addysgu? Unrhyw beth heb weithio crystal?</i></p> <p><i>Pa gefnogaeth fyddai'n ddefnyddiol i'ch helpu chi i barhau i ddatblygu yn athro mathemateg?</i></p> <p>Y cwricwlwm newydd</p> <p>Cynllunio at y dyfodol <u>Ail gyfarfod</u> Trinolion a chynrychioliadau gweledol.</p> <p>Enghreifftiau ymarferol ac arddangosiadau</p> <p>Rhagor o adnoddau/gwefannau defnyddiol</p>	Cyfarfod cyntaf: 4 aelod Ail gyfarfod: 0 aelod
Cyfarfod Rhwydwaith Cydlynwyr Rhifedd	24/3/21	<p>Diweddariadau - gan gynnwys SAFMEDS a llythrennedd ariannol</p> <p>Cyflwyniad i ddysgu manwl</p> <p>Cyflymu'r Dysgu</p>	7 ysgol (8 aelod o'r ysgolion hyn)

<p>Cyfarfodydd Rhwydwaith Penaethiaid Mathemateg</p>	<p>(1af) 20/11/20, (2il) 1/3/21, (3ydd) 22/3/21, 23/3/21 & 25/3/21</p>	<p>Asesiadau personol ar-lein <u>Cyfarfod cyntaf (2020/21)</u> Newidiadau yn arholiadau Haf 2021 Rhaglen Dysgu Carlam Ffocws Dysgu ac Addysgu: Strategaethau Adalw Systemau tracio ar gyfer CA4 a CA3 Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach Cymru (RhGMBC) - Diweddariad ar ddatblygiadau <u>Ail gyfarfod (2020/21)</u> Diweddariadau cyffredinol Diweddariad RhGMBC - rhannu adnoddau perthnasol a deunyddiau atodol a chyfleoedd DP Dulliau dyfarnu GBG Dysgu o bell/cyfunol - beth i'w ystyried wrth symud ymlaen a strategaethau i gefnogi myfyrwyr yn ôl yn y dosbarth <u>Trydydd cyfarfod (2020/21)</u> <u>(sesiynau galw mewn</u> <u>dewisol)</u> Trafodaethau dilynol a chymorth ar ddyfarnu GBG</p>	<p>Cyfarfod cyntaf: 8 ysgol rhwng dau sesiwn. Ail gyfarfod: 13 ysgol (14 aelod o'r ysgolion hyn) Trydydd cyfarfod: 9 ysgol (9 aelod)</p>
<p>Fforwm Penaethiaid Saesneg</p>	<p>Dewis o ddyddiadau 13/10/20,15/10/20,19/10 /20</p>	<p><u>Cyfarfod cyntaf:</u> Rhaglen Cyflymu'r Dysgu i CA3 - adnoddau ymyrraeth CA3/4 Cefnogi asesu mewn Saesneg - Traciwr GwE Cefnogi dysgu cyfunol - dulliau ac adnoddau defnyddiol Adnabod cymorth pellach a'r camau nesaf</p>	

	<p>Ail gyfarfod</p> <p>18/1/21</p> <p>Trydydd cyfarfod:</p> <p>17/3/21</p>	<p>CA4. Arferion gorau o ran dysgu o bell. Ymarfer adalw - gweithredu ac adborth</p> <p>GBG. Gwybodaeth ddiweddaraf o negeseuon CBAC. Cymwys ar gyfer y dyfodol.</p> <p><u>Ail gyfarfod:</u></p> <p>Ymarfer adalw Cyflwyniad a Strategaethau - cyflwyniad i ymarfer adalw effeithiol</p> <p>Ymarfer adalw effeithiol - rhannu arferion da</p> <p><u>Trydydd cyfarfod:</u></p> <p>GBG. Gwybodaeth ddiweddaraf o negeseuon CBAC. Cymwys ar gyfer y dyfodol.</p>	
Safon Uwch Saesneg Iaith/Llenyddiaeth	1/12/20	<p>Trafod anghenion a dulliau GBG</p> <p>Rhannu arferion da ac asesu disgyblion ar gyfer GBG.</p>	1 ysgol (dim ysgol arall yng Ngwynedd yn cynnig y cwrs hwn)
Arweinwyr Llythrennedd	11/2/21	<p>Cyflymu Llythrennedd. Strategaethau ymgysylltu â rhieni. Cyflwyniad i adeiladu pŵer darllen</p> <p>Trosolwg o adnoddau newydd a thrafod y cymorth sydd ar gael. Cyflymu'r Dysgu</p>	8 ysgol
Llenyddiaeth Saesneg Safon Uwch	3/2/21	Sicrhau ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer ymdrin â'r cymhwyster mewn ysgolion a gosod tasgau o ran GBG. Rhannu arferion da mewn asesu.	6 ysgol
Fforymau ANG Saesneg	8/2/21	Cyflwyniad i ddarpariaeth a mynegi diddordeb	4 ysgol
	<p>1/3/21</p> <p>14/3/21</p> <p>16/3/21</p> <p>29/4/21</p> <p>7/6/21</p>	<p>Llenyddiaeth - addysgu testun</p> <p>Llenyddiaeth - addysgu barddoniaeth</p> <p>Iaith - Dulliau darllen</p> <p>Iaith - Strategaethau ysgrifennu</p> <p>Llafaredd - datblygu sgiliau yn CA3</p>	
Adeiladu pŵer darllen	Amrywiol ddyddiadau rhwng 30/1/21-10/7/21	Cyfle i fod yn rhan o ddatblygu rhaglen ddarllen gyda hyfforddiant unigryw i	1 ysgol

Rhwydweithiau PA Y Gymraeg	9/12/2020 3/3/2021 17/3/2021 23/9/2021 30/9/2021	bob partner ar gyflwyno <u>Cyfarfod 1:</u> Ymateb i hyfforddiant TGAU Llenyddiaeth CBAC <u>Cyfarfod 2:</u> Cyfarfod i drafod trefniadau GBG <u>Cyfarfod 3:</u> Dilyniant i'r arweiniad (GBG) <u>Cyfarfod 4:</u> Heriau'r flwyddyn newydd - ymyraethau Teithiau diwygio CiG Cyfarfod 5: Ar alw - sesiwn agored a recordiwyd (Swyddog Pwnc Y Gymraeg CBAC)	C1: Gwynedd = 14 aelod C2: Gwynedd = 13 aelod C3: Gwynedd = 13 aelod C4: Gwynedd = 10 aelod C5: Recordiad
Cyfarfod 'Y Gymraeg ar garlam - Ymyraethau i gefnogi dysgwyr CA3 a 4'	10/3/21	Cyfarfod 'Y Gymraeg ar Garlam' i cynrychiolwyr o'r ysgolion yn benaethiaid adrannau a Chydlynwyr Llythrennedd)	Gwynedd = 20 aelod
Gweithdai digidol 'Be' sy'n bosib?'	25/1/21 1/2/21 8/2/21 22/2/21	Cyfres o weithdai digidol 'Be' sy'n bosib?' ar gyfer athrawon y rhanbarth	Gwynedd = 18 aelod
Gweithgor Cenedlaethol CA3	18/11/21 9/12/21 13/4/21 24/5/21	Cyfarfodydd Gweithgor Cenedlaethol CA3	Gwynedd = 1 aelod
	30/6/21	Lansio 'Y Silff Lyfrau' (Adnodd Gweithgor Cenedlaethol CA3)	Gwynedd = 10 ysgol
Gweithgor Cenedlaethol CA4	24/11/21 20/4/21 29/5/21 22/9/21 13/10/21	Cyfarfodydd Gweithgor Cenedlaethol CA4	Gwynedd = 3 aelod
	16/11/21	Lansio 'Cornel Cerddi TGAU' (Adnodd Gweithgor	Gwynedd = 1 aelod (yn cyflwyno)

		Cenedlaethol CA4)	Gwynedd = 9 ysgol
Cyfarfod y Coleg Cymraeg Cenedlaethol	24/05/21	Hyrwyddo'r Gymraeg fel pwnc Safon Uwch	Gwynedd = 2 ysgol
ANG Y Gymraeg	8/3/21 12/4/21 12/5/21	Cyfarfodydd / Gweithdai ANG Y Gymraeg	Gwynedd = 2 aelod
Prosiect llafaredd 'Ein Llais Ni'	20/10/21	Cynhadledd 'Ein Llais Ni'	Gwynedd = 5 ysgol
	9/11/21	'Ein Llais Ni - Model Rhwydweithiol' (Sesiwn ar alw)	Gwynedd = 1 ysgol
	9/11/21	'Ein Llais Ni' - Model Ymchwil Ysgol' (Sesiwn ar alw)	Gwynedd = 1 ysgol
Dysgu Carlam - rhwydwaith rhanbarthol i Benaethiaid Adran a Chydlynwyr Llythrennedd		Rhannu strategaethau ymyrraeth	
Gweithdai Arweinyddiaeth Ganol Eithriadol mewn Cyfnod Cythryblus (Uwchradd ac Arbennig)		Arwain tîm mewn pandemig, sicrhau ansawdd/gwella ansawdd mewn amgylchedd dysgu cyfunol, Arweinyddiaeth gadarn, Rheoli anghydfod	
Grŵp SEREN/MAT		Cyngor ar gefnogi disgyblion MAT, ar Ddysgu ac Addysgu, lles, a chyngor i rieni, arweinwyr ac athrawon Fel uchod, diweddarwyd ar gyfer datblygiadau COVID, gyda phwyslais ar gefnogaeth gyda dosbarthiadau arholiad. Rhannwyd amrywiaeth o adnoddau Her dysgu ac addysgu.	
Rhwydwaith Sgiliau Bagloriaeth Cymru	21.4.21 10:30 & 15:30 7.10.21 10:30 & 15:30	Diweddariadau CBAC (trefn asesu ac adnoddau dysgu cyfunol newydd) Trafod dysgu ac addysgu a rhannu adnoddau dysgu cyfunol (GwE ac ysgolion)	Gwynedd = 10 ysgol Gwynedd = 11 ysgol
Cyfarfod Cydlynwyr Bagloriaeth Rhanbarthol	2.10.20	Hwyluso cyfarfod efo cydlynwyr arweiniol CBAC drwy adnoddau ac unrhyw ymholiadau pellach o ran y drefn asesu ar gyfer Haf 2021.	GWYNEDD = 11 ysgol
Rhwydweithiau Ôl-16	Un cyfarfod tymhorol ym mis Tachwedd - tri charfan 10.11 - D/C	Cymorth i fyfyrwyr Blwyddyn 12 Dulliau dysgu cyfunol sy'n gweithio gyda'r chweched dosbarth.	Gwynedd – 4



Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

	12.10 - F/W 19.10 - G/M	<p>Diweddariad ar UCAS</p> <p>Beth sy'n gweithio'n dda gyda dysgu o bell- rhannu arferion</p> <p>VESPA</p> <p>GBG - sut oedden nhw? Unrhyw faterion o safbwynt Chweched Dosbarth.</p> <p>UCAS - sut mae pethau yn edrych ar hyn o bryd?</p> <p>Cynllunio gweithgareddau pontio i Flwyddyn 11/12 a defnyddio cyllid LIC</p> <p>Angen cymorth a dysgu profesiynol ar gyfer blwyddyn nesaf</p> <p>Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ôl-16</p>	
Hyfforddiant VESPA Cymru Gyfan (ôl-16)		4 gweithdy ar gymorth i ddysgwyr	
Rhwydwaith Ieithoedd Tramor Modern	MEDI 2020 - MAWRTH 2021		
	30 Tach 2021	DYSGU AC ADDYSGU: WEMINAR DB-E GwE i ANG ac athrawon anarbenigol neu athrawon llanw Her mewn Gwersi ITM	7
	O fis Tachwedd 2021: cyfarfodydd pob hanner tymor	<p>Dysgu ac Addysgu Cyfarfod rhwydwaith ANG ITM</p> <p>25 Tachwedd 21 - Argraffiadau cyntaf o addysgu: her a llwyddiannau. Rheolaeth ddosbarth</p> <p>20 Ion 21 - Technoleg mewn ITM + Dysgu ac addysgu o bell</p> <p>3 Mawrth 21 - Dysgu dosbarthiadau arholiad - arferion galw i gof</p> <p>15 Mawrth 21 - Cwestiynu mewn ITM</p> <p>3 Mai 21 - Dysgu dosbarthiadau arholiad - Disgwyliadau uchel i bawb</p> <p>30 Mehefin 21 - Gwersi i adeiladu arnynt a ffarwelio.</p>	4 ysgol: 5 athro ANG (7 ar draws GwE)
	25 Ionawr 2021	DYSGU AC ADDYSGU: WEMINAR DB-E GWE	11

	TGAU Uwchradd datblygu sgiliau siarad a bod yn barod am arholiadau Haf 2021	
4 Chwefror 2021	Cyfarfod Hwb/Rhwydwaith DB-E ITM GwE: Rhannu diweddariadau, arferion da ac adnabod anghenion DP yn y dyfodol	9
11 Mawrth 2021	Cyfarfod Hwb/Rhwydwaith DB-E ITM GwE: Dangos a dweud: adnoddau a llwyfannau digidol i gyfoethogi dysgu ac addysgu mewn ITM a datblygu arferion galw i gof	10
17 Mawrth 2021	Cyfarfod Hwb/Rhwydwaith DB-E ITM GwE: Cymorth: cynlluniau asesu	12
22 Mawrth 2021	Cyfarfodydd Penaethiaid a Phenaethiaid Adran Arfon Cynlluniau asesu ac asesiadau	5
Tymor1+2 2020-2021	Cynllun mentora myfyrwyr - Mentora ITM a Phrifysgol Bangor Blwyddyn 8/9 Uwchradd	8
Hydref 20	Cynllun mentora myfyrwyr - Mentora ITM a Phrifysgol Bangor Ôl-16	1 (dim ond un ysgol yn cynnig ITM ôl-16 yng Ngwynedd)
Medi-20 Mai 2021	Cystadleuaeth Cyfieithydd Ifanc - Gwobr Anthea Bell 8 ysgol yn GwE	2
Ion-Mehefin 21	Hyfforddiant Cenhadon Iaith Disgyblion Routes Cymru + Prifysgol Bangor Uwchradd Disgyblion B8/9	2
Mawrth 21	Dosbarthiadau Meistri Routes Cymru + Prifysgol Bangor a Chaerdydd Myfyrwyr Blwyddyn 12/13	1 (dim ond un ysgol yn cynnig ITM ôl-16 yng Ngwynedd)
EBRILL 2021-TACH 2021		
Ebrill21-Rhithiol	Seren Coleg yr Iesu, Prifysgol Rhydychen Disgyblion Blwyddyn 8/9	1

	12 Ebrill 2021 Arfon:	Dysgu ac Addysgu: Ysgolion ARFON: Adrannau ITM Ymarferiad cymedroli ar hen bapurau CBAC a darparu deunyddiau i gefnogi cynlluniau asesu Uned 4 Ysgrifennu	5 + 1 (Meirion Dwyfor)
	1 Gorffennaf 2021	Cyfarfod Hwb/Rhwydwaith DB-E ITM GwE Diweddaru a chynllunio ar gyfer 2021-2022	8
	Medi 2020- Gorffennaf 2021	Dysgu ac Addysgu Parhaus/Rheolaidd cymorth ysgol i ysgol	4
	Ebrill 2021	Dysgu ac Addysgu: Cyllid i ddatblygu'r defnydd o lwyfannau digidol effeithiol mewn ITM	14
	14 Hydref 2021	DYSGU AC ADDYSGU: Cyfarfod Hwb/Rhwydwaith DB-E ITM GwE Diweddaru a chynllunio ar gyfer CiG	7
	Hydref 2021.	Dysgu ac Addysgu Parhaus/Rheolaidd cymorth ysgol i ysgol	4
	O fis Tachwedd 2021: cyfarfodydd pob hanner tymor	DYSGU AC ADDYSGU: Cyfarfod rhwydwaith ANG ITM 18 Tach: Cyfarfod cychwynnol	
	Tymor 1 2021	Cynllun mentora myfyrwyr - Mentora ITM a Phrifysgol Bangor Blwyddyn 8/9 15 ysgol ar y mwyaf	6
	Medi-20-Mai 2021	Cystadleuaeth Cyfieithydd Ifanc - Gwobr Anthea Bell 18 ysgol yn GwE	6
Gweithdy ar-lein: Ymglyfarwyddo â'r Maes Dysgu a Phrofiad Mathemateg a Rhifedd	15/11/21 (cyfrwng Cymraeg) 22/11/21 (cyfrwng Saesneg)	Nod y gweithdy oedd crynhoi'r newidiadau yn y maes dysgu a phrofiad mathemateg a rhifedd, cyn awgrymu tasgau a thechnegau i ddatblygu'r hyfedreddau mathemategol sydd yn rhan o'r cwricwlwm newydd	Cyfrwng Cymraeg: 8 ysgol (9 aelod)
Cyfarfodydd Cynghreiriau	33.11.20 17.11.20 04.02.21 22.02.21 08.03.21	Cydweithio ar gyfer cynllunio profiadau ar gyfer y Cwricwlwm Newydd Safoni a chymedroli GB	Ysgolion Uwchradd Dwyfor





Cefnogi arweinwyr a staff mewn ysgolion ac UCD i arfarnu eu darpariaeth wrth ymateb i COVID-19 a gweld beth lwyddodd a pha feysydd sydd angen mwy o sylw

CEFNDIR A CHYD-DESTUN

Mae'r ymateb i COVID-19 wedi newid ein bywydau yn aruthrol. Yn y cyd-destun heriol hwn, amharwyd yn sylweddol ar y system addysg ac ysgolion. Ar 23 Mawrth 2020, newidiwyd pwrpas ysgolion, i gefnogi plant gweithwyr allweddol a rhai dysgwyr bregus ar yr un pryd â chefnogi pob dysgwr i aros yn ddiogel a dal ati i ddysgu gartref.

Ar 3 Mehefin 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LIC) y byddai ysgolion yn ailagor yn raddol o 29 Mehefin, 2020 er mwyn rhoi cyfle i bob disgybl "ddod i'r ysgol, dal ati i ddysgu a pharatoi". Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chanllawiau Dysgu [<https://llyw.cymru/canllawiau-ar-ddysgu-mewn-ysgolion-lleoliadau-coronafeirws>] i gynnig cyngor ar y dysgu a'r addysgu a fyddai'n digwydd mewn ysgolion a lleoliadau am weddill tymor yr Haf ac i gefnogi ymarferwyr wrth iddynt baratoi ar gyfer tymor yr Hydref.

Ar 9 Gorffennaf, 2020 cadarnhaodd y Gweinidog Addysg y byddai pob disgybl yn dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi ac y byddai'n ofynnol i ysgolion ddychwelyd yn llawn erbyn 14 Medi. Cyhoeddodd y Llywodraeth ragor o ganllawiau dysgu [<https://llyw.cymru/canllawiau-ar-ddysgu-mewn-ysgolion-lleoliadau-o-dymor-yr-hydref-covid-19>] ar gyfer tymor yr Hydref, oedd yn rhoi set gyffredin o flaenoriaethau ar gyfer dysgu i ysgolion a phartneriaid cefnogi, waeth beth oedd lefel y gweithredu mewn ymateb i COVID-19.

Yn ystod Tymor yr Hydref, roedd yr effaith ar ysgolion yn amrywio'n sylweddol ar draws y rhanbarth. Mewn rhai ysgolion, roedd blynyddoedd cyfan yn gorfod hunan-ynysu gartref yn rheolaidd am gyfnod estynedig, tra bo eraill yn gallu agor i bob disgybl drwy gydol y tymor.

Ar 4 Ionawr 2021, yn sgil cyflwyno ail gyfnod clo, parhaodd yr ysgolion ar gau i bob plentyn ar wahân i blant gweithwyr allweddol a rhai dysgwyr bregus, a gwelwyd ysgolion yn darparu dysgu o bell am ran fwyaf Tymor y Gwanwyn.

Yn yr wythnos yn cychwyn 22 Chwefror 2021, dechreuodd blant dan 7 oed yn y Cyfnod Sylfaen yn ôl yn yr ysgol, efo plant ysgolion cynradd eraill a myfyrwyr uwchradd hŷn (Blynyddoedd 11 ac 13) yn dychwelyd i'r ysgol ar 15 Mawrth 2021. O 12 Ebrill 2021, dychwelodd ysgolion cynradd, arbennig ac uwchradd a'r Unedau Cyfeirio Disgyblion (UCD) i ddarparu darpariaeth ar y safle i bob dysgwr.

PWRPAS YR ADRODDIAD

Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o sut y mae ysgolion ac UCD yng Ngogledd Cymru wedi ymateb i COVID-19 ac mae'n seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd gan Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant GWE yn rhan o'u gwaith yn cefnogi ysgolion yn ystod tymor y Gwanwyn a'r Haf, 2021. Yn ystod y cyfnod hwn, canolbwyntiwyd yn bennaf ar weithio mewn partneriaeth gydag ysgolion ac UCD i roi cymorth iddynt arfarnu ansawdd ac effaith eu darpariaeth yn ystod y cyfnodau clo.

Defnyddiwyd y templed a geir yn Atodiad 1 i 'brocio' trafodaeth efo'r ysgolion, ac hefyd i gofnodi a chasglu'r wybodaeth a gafwyd. Er hynny, nid oedd rheidrwydd i ysgolion ddefnyddio'r templed hwn. Pwysleisiwyd mai enghreifftiau yn unig oedd y cwestiynau a



gyflwynwyd o feysydd ac agweddau i'w hystyried ac nad y bwriad oedd iddynt gael eu dehongli fel rhestr gynhwysfawr a therfynol. Adroddiad hunanarfarnu yr ysgol a'u prosesau casglu tystiolaeth oedd man cychwyn pob trafodaeth.

Ar gyfer pob ysgol ac UCD, adroddodd yr Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant ar:

- Sut y mae'r ysgol wedi gwerthuso ei darpariaeth a'i heffaith yn ystod y cyfnod clo;
- Beth mae'r ysgol wedi'i adnabod yw cryfderau allweddol ei darpariaeth ar gyfer dysgu ac addysgu yn ystod y cyfnod clo;
- Sut y mae'r ysgol yn bwriadu datblygu ar ei llwyddiannau er mwyn datblygu'r cwricwlwm newydd;
- Pa welliannau mewn darpariaeth a safonau y mae'r ysgol wedi'u hadnabod yn sgil targedu ei gwariant grant;
- Tystiolaeth yr ysgol o effaith cymorth/ymwneud GwE ac hadnabod cymorth ychwanegol wrth symud ymlaen;
- Meysydd sydd angen eu datblygu a'u cefnogi ymhellach.

PRIF GANFYDDIADAU

SECTOR CYNRADD AC ARBENNIG

Sut mae ysgolion wedi gwerthuso eu darpariaeth a'i heffaith yn ystod y cyfnod clo?

Ar y cyfan, mae ysgolion cynradd ac arbennig wedi defnyddio canllawiau cenedlaethol, rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn amserol ac yn bwrsadol drwy gydol pandemig COVID. Mae bron pob ysgol wedi llwyddo i werthuso ansawdd ei darpariaeth drwy'r cyfnod clo gan ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth a thystiolaeth defnyddiol, gan gynnwys trafodaethau rheolaidd ag ysgolion clwstwr eraill a swyddog cyswllt GwE. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi casglu barn rhanddeiliaid drwy holiaduron i ddisgyblion a rhieni, galwadau ffôn neu sgysiau ag unigolion. Mae llawer wedi addasu a gwella eu darpariaeth yn sylweddol ar sail y canfyddiadau hyn. Mae natur ymholiadau wedi amrywio ac wedi cynnwys ystod eang o gwestiynau yn ymwneud â holi am les, sicrhau bod gan ddisgyblion offer priodol i gwblhau eu gwaith, holi am gysylltiad digidol ac yn ymwneud ag amllder, priodoldeb ac ansawdd y ddarpariaeth ar draws pynciau.

Mae'r rhan fwyaf o benaethiaid ac uwch arweinwyr wedi cael mynediad at ddisbarthiadau digidol athrawon ac wedi bod yn craffu yn anffurfiol ar waith dysgwyr ac yn monitro ansawdd y ddarpariaeth dysgu o bell a dysgu cyfunol yn rheolaidd. Yn rhai o'r arferion gorau, gwelwyd dysgu ac addysgu byw neu gydamsol, yn ogystal â sesiynau lles o bell. Mae llawer o arweinwyr a staff wedi gwerthuso'r ddarpariaeth drwy fonitro gwaith disgyblion ar lwyfannau digidol fel Google Classrooms a SeeSaw. Mae hyn wedi cynnwys monitro asesiadau ffurfiannol ac ansawdd yr adborth i ddisgyblion. Mae rhai ysgolion wedi datblygu systemau fel bod modd trafod yn agored, yn onest ac yn gyson efo rhieni, monitro cysondeb y ddarpariaeth rhwng dosbarthiadau a monitro lles eu staff a chymuned yr ysgol.

Llwyddodd rai ysgolion cynradd wedi llwyddo i gynnal sesiynau craffu ar lyfrau mwy ffurfiol, teithiau dysgu ac arsylwi ambell wers (weithiau fel rhan o Reoli Perfformiad Staff).

Bu ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer cefnogi lles disgyblion yn gryfder, gyda bron pob ysgol yn cysylltu â disgyblion a theuluoedd yn rheolaidd. Roedd trefniadau cadarn ar waith ar draws y



rhan fwyaf o ysgolion i fonitro lefelau presenoldeb ac ymgysylltu yn ystod y cyfnodau clo. Adroddodd lawer o ysgolion bod lefelau ymgysylltu wedi gwella'n gyson yn yr ail gyfnod clo yn mis Ionawr 2021. Nododd rai ysgolion fod tarfu ar lefel isel pan ddychwelodd dysgwyr i'r ysgol a bod ychydig o ddisgyblion yn methu ail-gydio â bywyd ysgol.

Cafodd dysgu disgyblion ei olrhain drwy lu o wahanol ddulliau mewn ysgolion ar draws y rhanbarth, gyda llawer yn canolbwyntio ar ystod o sgiliau sylfaenol gan gynnwys defnyddio data llythrennedd a rhifedd. Mae ansawdd y systemau olrhain cynnydd disgyblion yn amrywio rhwng ysgolion. Er hynny, roedd bron pob arweinydd yn olrhain ymgysylltiad yn effeithiol yn ystod y cyfnod clo a datblygodd rai systemau hynod effeithiol ar gyfer olrhain a thargedu darpariaeth i deuluoedd.

Rhoddodd lawer o ysgolion flaenoriaeth i weithio gydag unigolion a welwyd oedd yn fregus neu angen cymorth ychwanegol. Roedd y cymorth i ddisgyblion bregus yn aml yn amserol a chafodd teuluoedd amrywiaeth o ffyrdd o ddysgu gan gynnwys gweithgareddau ar bapur. Er hynny, gwelodd lawer o arweinwyr nad oedd y dysgwyr hyn wastad yn gwneud y cynnydd disgwylidig yn ystod y cyfnod clo a bod rhai dysgwyr ADY ac/neu ddysgwyr oedd yn arfer cael anhawster, wedi cymryd cam yn ôl yn safon eu sgiliau iaith a mathemateg. Mae llawer o ysgolion wedi gweithredu mesurau priodol i gefnogi a thargedu'r dysgwyr hyn. Mae bron pob ysgol wedi cynnal rhyw ffurf o asesiadau gwaelodlin wrth ddychwelyd i'r ysgol yn sgil y cyfnod clo er mwyn pennu lefel y cymorth a'r ymyrraeth angenrheidiol ac adnabod grwpiau targed o ddisgyblion. Nododd nifer o ysgolion fod safonau disgyblion wedi llithro yn sgil y cyfnod clo cyntaf a'u bod wedi gweithredu strategaethau ymyrraeth llwyddiannus i godi safonau wrth i ddisgyblion ddychwelyd i'r ysgol mis Medi 2020.

Nododd rai ysgolion ddirywiad yn sgiliau Cymraeg disgyblion gyda hyn yn dibynnu ar iaith yr aelwyd.

Llwyddodd Penaethiaid i gynnal cyfarfodydd staff a chyfarfodydd tîm rheolaidd ar lwyfan ddigidol drwy gydol y cyfnod clo, er mwyn trafod a monitro ymgysylltiad, cynnydd disgyblion ac addasrwydd tasgau, darpariaeth ADY a lles disgyblion. Mae bron pob ysgol wedi ystyried effaith eu darpariaeth a'i haddasu yn briodol wrth i'r cyfnod clo barhau.

Parhaodd lawer o ysgolion i gynnal cyfarfodydd rhithiol i lywodraethwyr yn rheolaidd yn ystod y cyfnod clo, gan gynnwys cynnal Rheoli Perfformiad i Benaethiaid. Mae llawer hefyd wedi trafod canfyddiadau holiaduron/arfarniad gyda'r corff llywodraethu, ond prin fu'r cyfleoedd i lywodraethwyr ymweld ag ysgolion yn ffurfiol i gynnal gweithgareddau monitro ac arfarnu. Er hynny, roedd llywodraethwyr yn gynyddol ran o hunan arfarnu yn ystod tymor y Gwanwyn a'r Haf, 2021 mewn llawer o ysgolion. Mewn rhai ysgolion, mae hyn wedi cynnwys arfarnu adroddiadau monitro a chynnal gweithgareddau fel craffu ar waith disgyblion.

Nododd lawer o ysgolion cynradd ac arbennig fod eu harfarniadau wedi bod yn fodd iddynt barhau i ganolbwyntio ar gynllunio gwelliant drwy gydol y cyfnod ac y gwelsant fod angen gwella sgiliau allweddol a lles a pharhau i wella'r ddarpariaeth ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru a Thrawsnewid ADY.

Beth mae ysgolion wedi adnabod yw cryfderau allweddol eu darpariaeth ar gyfer dysgu ac addysgu yn ystod y cyfnod clo?



Gwelwyd cryfder yng ngallu staff a disgyblion i addasu'n gyflym i newid, gyda llawer yn gwella eu sgiliau digidol a'u defnydd o wahanol feddalwedd ac apiau yn sylweddol. Dywedodd bron pob ysgol bod gallu staff i addasu a bod yn greadigol wrth ddatblygu dulliau dysgu o bell a chyfunol yn gryfder. Roedd gwahaniaeth amlwg yn ansawdd y ddarpariaeth rhwng y cyfnod clo cyntaf a'r ail, gyda'r rhan fwyaf o ysgolion yn darparu tasgau amrywiol ac ystyrion. Roedd llawer o athrawon yn gallu addasu eu darpariaeth i roi cynnig oedd cyn agosed â phosibl at eu harferion dosbarth arferol. Yn ôl llawer o ysgolion, maent wedi defnyddio llwyfannau digidol amrywiol yn effeithiol ar gyfer dysgu, gan gynnwys See Saw, Class Dojo, Teams a Google Classrooms, sydd yn gadael i uwch arweinwyr fonitro safon y ddarpariaeth yn rhwydd. Gwelwyd y ddarpariaeth ar gyfer ffrydio byw neu ddysgu cydamserol yn gwella'n sylweddol yn ystod yr ail gyfnod clo.

Gwelwyd ansawdd 'Asesu ar gyfer Dysgu' athrawon drwy gyfrwng dysgu o bell yn gwella ac yn datblygu i gynnwys rhoi adborth ar waith disgyblion ar ffurf recordiad llais yn ogystal â sylwadau wedi'u hysgrifennu. Fel hyn, roedd yr athro a'r disgybl yn gallu siarad am y dysgu mewn llawer o ysgolion, oedd yn rhoi cyfle i ddisgyblion ymateb i adborth a gwella'u gwaith terfynol. Nododd llawer o ysgolion fod amrywiaeth gyfoethog o dasgau wedi'u darparu, gan gynnwys tasgau llythrennedd a rhifedd, gwaith thema yn ogystal â gweithgareddau corfforol, creadigol a lles. Magodd llawer o ddisgyblion hyder o ran asesu ansawdd eu gwaith eu hunain a dod yn fwy annibynnol yn eu dysgu.

Roedd bron i bob ysgol yn rhoi blaenoriaeth i'w trefniadau bugeiliol a lles ac yn rhoi lles disgyblion a staff wrth wraidd eu dulliau yn ystod y cyfnod clo. Bu ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer cefnogi lles disgyblion yn gryfder, gyda bron pob ysgol yn cysylltu â disgyblion a theuluoedd yn rheolaidd. Codwyd pryderon i'r awdurdod lleol am deuluoedd nad oedd modd cysylltu â nhw.

Roedd llawer o ysgolion yn teimlo y bu mwy o ymdeimlad o gydweithio a gwaith fîm yn ystod y cyfnod hwn. Roedd hyn yn ymestyn i'w hysgolion clwstwr a thu hwnt. Drwy ddatblygu Canolfan Cefnogaeth GwE, roedd hyn yn annog i adnoddau ac arbenigedd gael eu rhannu ac yn cyfrannu at athrawon yn cael trafodaethau ystyrion am ansawdd y ddarpariaeth. Drwy ddefnyddio llwyfannau digidol, roedd hyn yn gwneud y broses yn fwy effeithlon o ran amser ac yn paratoi'r ffordd i ysgolion fod yn gweithio a chydweithio maes o law.

Mae llawer o arweinwyr wedi gweld cyfle i adolygu'r drefn gyffredinol o gysylltu â rhanddeiliaid yn ystod y cyfnod - gwnaed y drefn yn fwy effeithiol ac effeithlon ac fe'i defnyddiwyd i gefnogi'r dysgu, er enghraifft drwy newyddlenni rheolaidd, bwletinâu fideo, defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn effeithiol ac ati. Yn sicr, gwelwyd y cyswllt â rhieni yn gwella dros y cyfnod clo. Er hynny, nododd llawer o ysgolion yr angen i gefnogi rhieni a gofalwyr yn fwy effeithiol i helpu eu plentyn i ddysgu.

Roedd y ddarpariaeth i blant gweithwyr allweddol mewn ysgolion yn gryf ac yn well dros y cyfnod, ac yn symud o fod yn ddarpariaeth gofal plant yn y rhan fwyaf o ysgolion i fod yn rhoi pwyslais ar ddysgu a lles. Mewn llawer o ysgolion yn ystod yr ail gyfnod clo, roedd y ddarpariaeth i blant gweithwyr yn cyd-fynd yn well â dysgu cyfunol o bell a arweiniodd at wella cysondeb a chefnogi disgyblion wrth iddynt drosglwyddo yn ôl i'r ysgol. Chwaraeodd cymorthyddion dysgu rôl amlwg wrth ddarparu'r cymorth hwn mewn llawer o ysgolion.



Mewn llawer o ysgolion cynradd, gwnaed defnydd da iawn o ystod o ddangosyddion perfformiad dibynadwy a defnyddiol, gan gynnwys data sillafu, darllen a rhifedd safonedig ac/neu asesiad athro i fesur effaith cyfnod clo COVID-19 ar gynnydd a safonau disgyblion. Yna aeth ysgolion i adnabod disgyblion oedd yn cael anhawster ac angen cymorth ychwanegol. Ar draws y clystyrau, mae disgyblion y mae arnynt angen cymorth ychwanegol yn cael amrywiaeth o strategaethau a rhaglenni effeithiol e.e. rhwyddineb rhifedd SAFMEDS, Headsprout, Reading Eggs, ELSA a'r rhaglen RILL newydd. Drwy ddefnyddio asesiadau diagnostig fel hyn, mae ysgolion wedi gallu monitro cynnydd disgyblion yn agos.

Yn sgil dychwelyd i'r ysgol yn llawn amser fis Mawrth 2021, mae llawer o ysgolion wedi cychwyn ystod gwerthfawr o ddarpariaethau lles ac academiaidd sy'n seiliedig ar dystiolaeth, fel rhaglenni Seasons for Growth, Friends Resilience ac ELSA.

Sut y mae ysgolion yn bwriadu datblygu ar eu llwyddiant er mwyn datblygu'r cwricwlwm newydd?

Un canlyniad cadarnhaol i'r pandemig yw bod cydweithio cryf wedi datblygu mewn ysgolion ac ar draws clystyrau. Mae hyn yn ddatblygiad cryf iawn i'r rhanbarth ar gyfer paratoi am y cwricwlwm newydd a'i weithredu. Mae pedair thema drawsliniol Sefydliadau sy'n Dysgu (amser, ymddiriedaeth, meddwl gyda'n gilydd a thechnoleg) wedi bod yn amlwg iawn drwy gydol y cyfnodau clo. Mae defnyddio technoleg fwyfwy wedi rhoi rhwydd hynt i berthynas a chydweithio ddatblygu ymhellach gan roi sail gadarn i ysgolion a chlystyrau symud ymlaen gyda'u paratoadau am y cwricwlwm newydd.

Mae llawer o aelodau staff wedi gorfod uwch sgilio yn gyflym wrth i'r ddarpariaeth symud at lwyfan ddigidol. Mae'r rhan fwyaf o benaethiaid wedi gweld bod cymhwysedd digidol yn faes sydd wedi datblygu'n dda dros y deuddeg mis diwethaf ac maent yn awyddus iawn bod y cynnydd hwn yn nysgu digidol disgyblion a staff yn parhau. Mae ysgolion wedi manteisio ar ystod o ddysgu proffesiynol gan y consortia rhanbarthol ar ddefnyddio technoleg ddigidol i gefnogi'r dysgu a'r addysgu. Bellach, mae mwy o ymarferwyr yn gallu defnyddio ystod o dechnoleg yn hyderus i gefnogi'r dysgu. Mae llawer o ysgolion cynradd wedi seilio eu darpariaeth dysgu o bell a chyfunol ar y 12 egwyddor addysgegol fel yr amlinellir yn *adroddiad Dyfodol Llwyddiannus*. Bwriad ysgolion yw datblygu ar eu pwyntiau twf yn ystod y cyfnodau clo i ddatblygu ymhellach ehangder profiadau a chynnydd dysgwyr. Enghraifft o hyn yw'r pwyslais cynyddol ar addysgeg cwestiynau mawr yn gysylltiedig â datganiadau o'r hyn sy'n bwysig/Meysydd Dysgu a Phrofiad. Nododd y mwyafrif o ysgolion eu bod wedi defnyddio'r amser hwn fel cyfle i arbrofi â dulliau addysgu, ac yn dewis parhau i rannu gwaith ar lwyfannau digidol o fewn y dosbarth, er mwyn datblygu sgiliau dysgu annibynnol dysgwyr.

Mae bron pob ysgol gynradd ac arbennig eisoes wedi dechrau ystyried eu gweledigaeth ar gyfer y cwricwlwm newydd, yn ystyried beth sy'n berthnasol i'r ardal leol, Cymru a'r byd ehangach.

Roedd lles staff a disgyblion yn ystyriaeth allweddol i bob ysgol drwy gydol y pandemig a pharhaodd hyn wrth i ddisgyblion dychwelyd i'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi nodi y byddant yn datblygu ar y gwaith hwn i ddatblygu dull ysgol gyfan tuag at les. Mae bron pob ysgol wedi datblygu'r elfen les a dysgu yn yr awyr agored yn arw, gan weld sut mae'r meysydd hyn yn cyfrannu at gwricwlwm eang a chytbwys.



Drwy ddatblygu Canolfan Cefnogaeth GwE, mae hyn wedi annog ysgolion cynradd ac arbennig i rannu eu hadnoddau a'u cynlluniau. Bwriad penaethiaid yw dal ati i rannu gwaith ar ddatblygu'r cwricwlwm ar draws eu clwstwr a chydweithio i ddatblygu continwmm 3-16 ar gyfer eu cwricwlwm lleol. Mae llawer o ysgolion yn gwneud cynnydd da wrth gynllunio cwricwlwm lleol sydd yn cynnwys cynllunio ar gyfer llais y disgybl ac ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid yn y gymuned. Mae llawer o ysgolion cynradd yn datblygu ar yr arferion arloesol, creadigol a chydweithredol a ddatblygwyd yn ystod y pandemig i baratoi ar gyfer gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru newydd.

Mae'r gwaith cynllunio gan lawer o ysgolion cynradd ac arbennig bellach yn amlygu pedwar diben y cwricwlwm newydd a dyrannwyd amser i staff ddatblygu ymhellach eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth drwy gael dysgu proffesiynol pwrpasol. Mae llawer o ysgolion hefyd wedi datblygu dimensiynau Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu, drwy roi amser i staff weithio ar agweddau ar y Cwricwlwm i Gymru. Mae ysgolion wedi sefydlu prosesau er mwyn i staff allu rhannu gwybodaeth neu arferion da newydd. Mae ysgolion mewn rhai clystyrau yn cymryd rhan mewn ystod o fentrau clwstwr defnyddiol ac effeithiol e.e. gwaith adolygu cymheiriaid clwstwr (Rhaglen Partneriaeth Ysgolion) a phrosiectau yn seiliedig ar dystiolaeth gyda Phrifysgol Bangor e.e. y Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol.

Pa welliannau mewn darpariaeth a safonau y mae'r ysgolion wedi'u hadnabod yn sgil targedu eu gwariant grant?

Yn y rhan fwyaf o ysgolion cynradd, mae cyllid Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau (RRRS) wedi targedu grwpiau o ddysgwyr i roi sylw i fylchau a welwyd yn eu dysgu. Targedwyd y grantiau hefyd at ddisgyblion llai gwydn, â diffyg hyder ac ymgysylltiad gwael. Mae llawer o ysgolion wedi defnyddio'r grantiau i ddarparu cymorth ac ymyrraeth Sgiliau Sylfaenol yn sgil y cyfnod clo. Prynwyd adnoddau a dyrannwyd staff cymorth i ddarparu ymyrraethau. Cafodd rai ysgolion anhawster yn cael staff ychwanegol i gyflawni'r rolau hyn felly defnyddiwyd y grant i ymestyn oriau gwaith rhai staff oedd eisoes ar eu llyfrau, gan sicrhau bod yr oriau ychwanegol yn cael eu treulio i gefnogi'r grwpiau o ddysgwyr sydd wedi'u hadnabod.

Targedwyd cynhaliaeth mewn llythrennedd, rhifedd, cymhwysedd digidol, ymyrraeth gynnar mewn ffoneg a datblygu sgiliau dysgu annibynnol. Ceir llawer o enghreifftiau o dargedu cynhaliaeth yn arwain at wella sgiliau TG disgyblion a'u hyder yn gyffredinol wrth ddefnyddio caledwedd a meddalwedd. Mae bron pob ysgol wedi cynnal rhyw ffurf o asesiadau gwaelodlin wrth ddychwelyd i'r ysgol yn sgil y cyfnod clo er mwyn adnabod grwpiau targed o ddisgyblion. Defnyddiwyd yr adnoddau dysgu carlam a ddatblygwyd gan GwE yn dda. Roedd y rhain yn seiliedig ar dystiolaeth o waith ymchwil i strategaethau ymyrraeth effeithiol. Yn ôl llawer o ysgolion, mae disgyblion sydd yn cael cymorth ychwanegol o ganlyniad i'r grant yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu o ganlyniad i'w darpariaeth grŵp bach. Mae ysgolion yn dra ymwybodol y gall yr effaith ar ddysgu a lles fod yn hirdymor, ac nad yw hyn i'w weld eto.

Bu llawer o ysgolion cynradd yn cynnig cymorth anogaeth i blant sydd yn cael trafferth ers y cyfnod clo. Cynyddwyd y ddarpariaeth les gan fod mwy o ddisgyblion yn cael trafferth addasu ers y cyfnod clo. Defnyddiwyd arolygon lles a chyfeiriadau gan athrawon a rhieni i adnabod disgyblion i gael ymyrraeth. Ymestynnwyd y ddarpariaeth les hefyd i gynnwys cymorth i deuluoedd i sicrhau bod disgyblion a rhieni yn gallu delio gyda'r sefyllfa hon sydd heb ei thebyg.



Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi defnyddio eu grant dysgu proffesiynol i ddatblygu cymhwysedd digidol eu staff i gyflwyno dysgu o bell a dysgu cyfunol effeithiol yn ogystal â defnyddio'r cyllid i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru.

Effaith cymorth/ymwneud GwE ac adnabod cymorth ychwanegol wrth symud ymlaen

Mewn cyfnod o heriau llethol, nododd lawer o ysgolion cynradd ac arbennig eu bod wedi gwerthfawrogi ac elwa o'r cyswllt a'r cymorth rheolaidd gan swyddogion cyswllt GwE, yn enwedig o ran eu helpu i gadw'n bositif. Mae penaethiaid wedi gwerthfawrogi'r cysur a'r cymorth bugeiliol gan eu Hymgyngorydd Cefnogi Gwelliant (YCG) a'r holi cyson ynghylch eu lles. Gwnaeth lawer o ysgolion sylw ar y cyngor a'r cymorth cyffredinol gan GwE a'r awdurdod lleol a fu'n fuddiol drwy gydol y flwyddyn heriol, er enghraifft, roedd y dangosfwrdd asesu risg a grëwyd ar y cyd gan GwE a'r ALI yn arbennig o fuddiol ac amserol. Nododd ysgolion fod cydbwysedd da rhwng her a chymorth gyda phwyslais cryf ar les a diogelwch. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi gwerthfawrogi'r pryder gwirioneddol am eu lles ac hefyd y cymorth ymarferol gan GwE gyda materion gweithredol e.e. asesiadau risg, adroddiadau hunan arfarnu, canllawiau ar ddysgu o bell a dysgu cyfunol a'r llyfrgell adnoddau (Canolfan Cefnogaeth GwE). Croesawyd hefyd yr hyfforddi a'r mentora gan YCG, felly hefyd y cymorth unigryw i ysgolion unigol.

Roedd Penaethiaid yn gwerthfawrogi rôl yr Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant (YCG) o ran darparu cymorth ac arweiniad cychwynnol i ysgolion a chlystyrau i ddatblygu eu darpariaeth dysgu o bell a dysgu cyfunol. Nododd lawer bod hwyluso cyfarfodydd clwstwr yn allweddol, ar y cychwyn, i rannu syniadau ac arferion da ar gyfer datblygu eu darpariaeth dysgu o bell ac, yn fwy diweddar, cynllunio ar gyfer y cwricwlwm newydd. Nododd lawer fod y cyfarfodydd clwstwr yn llawn cefnogaeth a gwybodaeth ac yn cael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd meddwl a'u lles.

Yn ogystal â'r cymorth ar gyfer dysgu ac addysgu a materion gweithredol, mae penaethiaid wedi mynegi gwerthfawrogiad o'r cymorth a gafwyd i gynllunio'n strategol ac yn enwedig ar gyfer paratoi am y cwricwlwm newydd e.e. creu gweledigaeth, rheoli newid a gweithdai dylunio cwricwlwm. Maent wedi gallu rheoli materion gweithredu dyddiol a chanolbwyntio ar eu cynlluniau hirdymor ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm newydd yr un pryd. Roedd llawer o benaethiaid yn gwerthfawrogi cysondeb y gweithredu ar y draws y rhanbarth. Mae'r anogaeth a'r cydwethio y mae GwE wedi'i hwyluso wedi annog mwy o gysondeb ar draws clystyrau ac arwain at rannu arbenigedd ac adnoddau. Bu modd hefyd cyd-gynllunio a chydweithio i weithredu'r daith ddiwygio.

Mae deialog broffesiynol rhwng ysgolion a'r YCG cyswllt wedi helpu i sicrhau bod eu gwariant grant arfaethedig yn cael ei dargedu'n briodol. Ar y cyfan, mae ysgolion wedi gwerthfawrogi manteision a defnyddioldeb y dangosfwrdd grantiau o ran arbed amser a monitro gwariant. Mae llawer o ysgolion hefyd wedi gwerthfawrogi amrywiaeth y cynnig dysgu proffesiynol ar gael a'r hbylygrwydd o ran cyflwyno ac amseru. Gwnaeth lawer o ysgolion sylw hefyd ar yr amrywiaeth o hyfforddiant a weminarau ar lein oedd ar gael drwy Ganolfan Cefnogaeth GwE a nodwyd bod y rhain wedi cael effaith bositif ar ansawdd eu darpariaeth dysgu cyfunol ac o bell.



SECTOR UWCHRADD A'R YSGOLION ARBENNIG AC UCD PERTHNASOL

Sut mae ysgolion wedi gwerthuso eu darpariaeth a'i heffaith yn ystod y cyfnod clo?

Er mwyn ymateb i ganllawiau gweithredu a dysgu Llywodraeth Cymru, mae ysgolion uwchradd wedi gorfod addasu eu prosesau a'u systemau sicrhau ansawdd. Bu pwyslais cryf ac ymrwymiad cryf ar draws bron pob ysgol uwchradd ac unedau cyfeirio i fod yn myfyrio, yn adolygu ac yn datblygu ymhellach ar arferion yn gyson ym mhob cyfnod yn ystod y pandemig.

Ym mron pob ysgol, mae arweinwyr canol ac/neu uwch arweinwyr wedi monitro ansawdd y ddarpariaeth yn rheolaidd drwy Google Classrooms (neu lwyfannau digidol eraill), neu drwy samplu gwaith disgyblion pob hyn a hyn. Ym mron pob ysgol, mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol wedi tracio ymgysylltiad disgyblion ac wedi cynnal cyfarfodydd i drafod, er enghraifft, ansawdd y ddarpariaeth, her yn lefel y dysgu, ansawdd yr adborth ac adborth llais y disgybl. Mewn un enghraifft o arfer dda, gwelwyd ysgol yn defnyddio Google Meet i recordio sesiynau byw ac yna'n defnyddio'r sesiynau hyn ar gyfer dysgu proffesiynol i ddibenion gwella a chyfoethogi'r cyflwyno. Mewn enghreifftiau eraill, gwelwyd uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn trefnu o flaen llaw i 'alw heibio' yn anffurfiol mewn sesiynau dysgu byw.

Bu llawer o ysgolion yn cynnal sesiynau i adrannau rannu arferion gorau ac effeithiol, oedd yn arwain at godi hyder staff i rannu gwaith a dulliau a chydweithio â chydweithwyr eraill. Mae gan arweinwyr canol yn y rhan fwyaf o ysgolion fynediad at Teams/Google Classrooms yn eu pynciau/grwpiau blwyddyn. Mae hyn wedi rhoi trosolwg a chyfle i sicrhau ansawdd y dysgu a'r addysgu yn eu meysydd cwricwlwm eu hunain ac arweinwyr bugeiliol yn eu grwpiau blwyddyn. Trafodwyd canfyddiadau â'r uwch dimau arwain i roi gwybod am unrhyw ddatblygiadau neu addasiadau pellach oedd yn angenrheidiol. Mewn un enghraifft, ble roedd dysgwyr a rhieni wedi nodi bod dysgu o bell yn ystod y cyfnod clo wedi bod yn llethol ar brydiau, ymatebodd un ysgol drwy gynnig egwyl rhwng gwersi ar-lein, ymestyn amser cinio, a chynnig hanner diwrnod ar les i annog amser i ffwrdd o'r sgrin. Nododd riant mewn holiadur adborth i un ysgol bod y sesiynau llesiant wedi rhoi cyfle i "ail gysylltu â fy mhlentyn" yn ystod dwyster y cyfnod clo.

Bu sylwadau rhieni ac athrawon yn bwysig o ran gwerthuso effaith, ond byddai'n deg casglu bod y rhan fwyaf o ysgolion wedi gwerthuso ansawdd y ddarpariaeth yn fwy effeithiol drwy lais rhanddeiliaid a disgyblion, ac wrth ddadansoddi lefel ymgysylltu a lles yn hytrach nag wrth graffu ar sgiliau a safonau, fel ag y buasant wedi'i wneud cyn hyn. Er hynny, mae gwerthuso ar gyfer gofynion gwella wedi bod yn fwy dadansoddol ers Pasg 2021 yn y mwyafrif o ysgolion.

Mae uwch arweinwyr ac arweinwyr bugeiliol a'u timau ym mhob ysgol uwchradd wedi monitro ymgysylltiad disgyblion â dysgu o bell a dysgu cyfunol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn defnyddio meddalwedd tracio i olrhain ymgysylltiad disgyblion, sydd ar gael i bob aelod o gymuned yr ysgol. Mae llawer wedi blaenoriaethu ymgysylltiad a chynnydd y dysgwyr mwyaf bregus, gan roi cymorth ychwanegol ble mae angen ac yn gwneud pob ymdrech i sicrhau eu bod yn cael cymorth wyneb yn wyneb yn yr Hybiau ar y safle yn ystod cyfnodau clo. Rhoddwyd strwythurau cryf ar waith yn y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd i gysylltu â dysgwyr a rhieni/gofalwyr i drafod pryderon a chynnig cymorth. Uwch gyfeiriwyd pryderon i sylw'r Awdurdodau Lleol, pan yn briodol.

Mae ysgolion ac UCD wedi defnyddio arolygon a holiaduron i werthuso effaith newid arferion gwaith ar staff ac ar ddysgwyr. Ym mron pob achos, mae ysgolion wedi defnyddio adborth



gan rieni mewn holiaduron i gyfoethogi'r ddarpariaeth addysgol. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys lleihau nifer y gwahanol bynciau yn cael sylw mewn un diwrnod hyd at ddatblygu gwaith prosiect dros fwy o amser, er mwyn i waith y disgybl allu cyd-fynd yn well â gallu TG y teulu.

Bu deialog broffesiynol rhwng uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn nodwedd o'r gwerthuso wrth i ddisgyblion gwblhau gwaith mewn llyfrau, ac ar-lein, gyda llawer o ffeirio rhwng y ddwy ffordd o weithio oherwydd cyfnodau ynysu er enghraifft. Bu nosweithiau rhieni rhithiol hefyd yn ffynhonnell bwysig er mwyn cael adborth arfarnol. Mae llawer o ysgolion wedi gwneud y sylw bod nosweithiau i rieni wedi'u cynnal yn llwyddiannus - gyda defnydd o meddalwedd newydd yn cael ei defnyddio i amserlennu apwyntiadau ar-lein. Mae ysgolion wedi arfarnu'r systemau o'r adborth gan athrawon a rhieni, a dywed rhai eu bod yn debygol o barhau â'r system wrth symud ymlaen.

Aeth rhai ysgolion ati i arfarnu sgiliau digidol eu dysgwyr er mwyn canolbwyntio'r hyfforddiant ar y dulliau, y llwyfannau a'r adnoddau digidol mwyaf hwylus i'w defnyddio ac a fyddai'n cael yr effaith fwyaf ar addysgu ar-lein. Mae ysgolion hefyd wedi defnyddio canlyniadau arolygon staff i gynllunio ar gyfer anghenion proffesiynol staff. Er enghraifft, buddsoddodd un ysgol mewn hyfforddiant i'r holl staff fod yn 'Google Educators' ar Lefel 1.

Mewn llawer o ysgolion uwchradd, mae uwch arweinwyr wedi rhoi blaenoriaeth i fonitro asesiadau yng Nghyfnodau Allweddol 4 a 5, gan gynnwys y rheiny i fwydo i'r Graddau a Bennir gan Ganolfan, i wirio eu bod yn gadarn a thrylwyr. Bu dyfarnu Graddau a Bennir gan Ganolfan yn dreth fawr ar amser athrawon pwnc ac arweinwyr ar bob lefel yn ystod tymor y Gwanwyn a'r Haf 2021.

Mewn rhai ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyieithog, rhoddwyd pwyslais cryf ar arfarnu sgiliau Cymraeg disgyblion yn gyson, yn enwedig y disgyblion hynny sydd o gartrefi di-Gymraeg neu wedi bod yn rhan o raglenni trochi. Mae hyn wedi helpu rhai ysgolion i gynnal a gwella sgiliau Cymraeg dysgwyr.

Yn dilyn peilot amlasiantaethol yn ystod 2019-2020 efo nifer bach o ysgolion, bu Llywodraeth Cymru ac Estyn yn gweithio gydag awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn ystod Gwanwyn/Haf 2021 i gynnig y cyfle i bob ysgol uwchradd sydd mewn mesurau arbennig i fod yn rhan o'r gweithio aml-asiantaethol hwn. Ar y cychwyn, canolbwyntiodd y dull gweithredu hwn ar drafod lles ac ansawdd y ddarpariaeth dysgu o bell a dysgu cyfunol. Bydd monitro a chraffu mwy ffurfiol yn cychwyn yn nhymer yr Hydref, 2021.

Bu rhai o'r cynghreiriau uwchradd yn canolbwyntio ar ddatblygu dulliau sicrhau ansawdd newydd, gydag arweinwyr yn rhannu arferion ac yn datblygu prosesau newydd. Er enghraifft, mewn dwy ysgol, cwblhaodd staff archwiliad o sgiliau digidol ac mae arweinwyr ysgol wedi cynllunio cyfleoedd dysgu proffesiynol ac HMS i staff ar sail y canfyddiadau. Adolygwyd cynnydd yn erbyn yr archwiliad dros y flwyddyn i fesur effaith.

Beth mae ysgolion wedi adnabod yw cryfderau allweddol eu darpariaeth ar gyfer dysgu ac addysgu yn ystod y cyfnod clo?

Gwelwyd bod uwch sgilio mewn technoleg ddigidol yn gryfder allweddol ar draws pob ysgol yn ystod y pandemig. Dangosodd arweinwyr ac athrawon gryn hyblygrwydd proffesiynol o ran



ennill gwybodaeth a sgiliau newydd i ddarparu dysgu ar-lein. Bu'r dulliau dysgu proffesiynol arloesol a'r rhannu arferion effeithiol o fewn ysgolion, ac ar draws ysgolion, yn gymorth yn hyn o beth. Mae'r cydweithio ag ysgolion, a rhwng ysgolion, wedi bod yn gryfder amlwg, gyda chydweithio ar bolisiau, adnoddau a chyfathrebu yn allweddol, er enghraifft, drwy'r Cynghreiriau y mae GwE wedi'u hwyluso. Mae pob ysgol wedi rhannu adnoddau ac arferion effeithiol drwy eu cynghreiriau a Chanolfan Cefnogaeth GwE.

Yn ôl llawer o ysgolion, bu mwy o greadigedd yn y dysgu a'r addysgu. Mae arweinwyr ysgolion, ar bob lefel, wedi defnyddio canllawiau rhanbarthol a chenedlaethol yn amserol ac yn bwrpasol i lywio ac addasu eu dulliau gweithredu, ac maent wedi rhoi canllawiau a disgygliadau manwl i staff. Mae'r canllawiau a'r dulliau gweithredu a ddefnyddir hefyd yn seiliedig ar waith ymchwil cenedlaethol a rhyngwladol i arferion effeithiol.

Bu'r pwyslais ar les yn gryf ar draws pob ysgol a'r unedau cyfeirio. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi bod yn gweithredu cyswllt wythnosol, neu ddyddiol weithiau, â dysgwyr bregus a rhieni/gofalwyr. Fel arfer, mae hyn wedi golygu rhwydwaith helaeth o arweinwyr/staff bugeiliol/staff gweinyddol ac eraill yn cychwyn neu'n ymateb i wahanol anghenion. Ble codwyd pryderon, bu'r ysgolion yn gweithio ar y cyd â'r awdurdod lleol ac asiantaethau allanol i gefnogi'r dysgwyr hynny a'u teuluoedd, a daeth llawer i'r ddarpariaeth Hwb i gael cymorth wyneb yn wyneb.

Parhaodd y rhan fwyaf o ysgolion i ganolbwyntio ar ddysgu 'cyfunol' yn ystod y cyfnod clo gan lwyddo i sicrhau bod cyfran o'u gwersi wedi cael eu cyflwyno'n 'fyw'. Gwelwyd mwy o ffrydio gwersi byw yn digwydd yn ystod yr ail gyfnod clo yn sgil newidiadau yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru. Cyflwynwyd rhai gwersi yn fwy effeithiol mewn ffordd anghydamserol, fel bod modd i ddysgwyr fynd at wersi ac adnoddau ar adegau gwahanol a mwy cyfleus. Mae enghreifftiau o sesiynau cofrestru boreol a gwasanaethau ysgol yn cael eu cyflwyno'n effeithiol yn fyw ar-lein hefyd.

Bu arweiniad a chyfathrebu efo rhieni/gofalwyr yn nodwedd gyson gref o'r ddarpariaeth ar draws yr ysgolion uwchradd. Nododd llawer o ysgolion fod y cyfathrebu â rhieni a rhanddeiliaid eraill ynghylch y dysgu ac addysgu wedi newid a gwella'n sylweddol yn ystod y cyfnod hwn. Bu'n rhaid addasu'r cyfathrebu a chyfathrebu'n amlach ac mae ysgolion wedi datblygu dulliau rhithiol, fel defnyddio cyfarfodydd Teams ac apiau nosweithiau rhieni ar-lein i ddatblygu eu systemau cyfathrebu. Yn ôl llawer o ysgolion, roeddent yn defnyddio holiaduron yn bwrpasol i gasglu barn rhanddeiliaid, sydd wedi arwain at addasu a gwella'r ddarpariaeth mewn llawer o achosion. Gwelwyd bod rhannu protocolau a disgygliadau ynghylch dysgu o bell efo rhieni/gofalwyr yn agwedd a oedd wedi gwella'n sylweddol erbyn yr ail gyfnod clo. Er enghraifft, mae un ysgol wedi datblygu gwefan i rieni i rannu gwybodaeth a chanllawiau ar sut i gefnogi eu plentyn, gyda fideos yn dangos 'sut i...'. Er hynny, dyma agwedd y gellir ei datblygu ymhellach mewn llawer o ysgolion i helpu rhieni a gofalwyr i gefnogi eu plentyn i ddysgu.

Sut y mae ysgolion yn bwriadu datblygu ar eu llwyddiant er mwyn datblygu'r cwricwlwm newydd?

Gwelwyd bod cydweithio a rhannu arferion effeithiol wedi datblygu'n dda ar draws yr ysgolion. Er mwyn cefnogi'r dysgu o fewn y cwricwlwm newydd, gellir datblygu ymhellach dysgu gyda



thechnoleg newydd, addysgeg ddigidol ac addasiadau i strwythur diwrnod yr ysgol. Bydd y cynnydd a wnaed mewn cymhwysedd digidol hefyd yn helpu i sicrhau manau cychwyn rhagorol ar gyfer sicrhau bod arloesi gyda'r cwricwlwm a hyder ymhlith staff a disgyblion wrth ddefnyddio technolegau newydd. Mae ysgolion wrthi'n adnabod manau cychwyn i fanteisio ar y datblygiadau a welwyd mewn dysgu digidol, gweithio'n annibynnol a dysgu creadigol. Bydd dysgu ar-lein yn cynnig ffyrdd pwysig ac arloesol i gyflwyno'r cwricwlwm newydd a datblygu dysgu annibynnol ymhellach. Bydd y dechnoleg newydd hefyd yn cefnogi cydwethio 3 i 16 a chyfathrebu gwell â rhanddeiliaid. Bu llawer o ysgolion yn arbrofi â ffyrdd newydd o gynllunio sydd wedi golygu rhywfaint o integreiddio ar draws pynciau a rhai unedau gwaith hirach, gyda mwy o annibyniaeth a dewis i ddisgyblion. Bydd yn ddefnyddiol arfarnu newidiadau fel hyn yn fanwl i ysgolion wrth iddynt ddatblygu eu cynllun cwricwlwm.

Mae ysgolion wedi cryfhau'r berthynas rhwng y cartref a'r ysgol ymhellach gan fod rhieni wedi ymwneud mwy o ran deall ac yn cefnogi'r cynnig cwricwlwm i ddysgwyr yn ystod y cyfnod hwn. Mae llais y disgybl wedi cynyddu gan fod dysgwyr wedi gallu cael mwy o ddewis a llais yn eu gwaith. Mae ysgolion wedi ymateb i sylwadau i addasu'r ddarpariaeth ble bo'n briodol. Bu llais y dysgwr yn arbennig o bwysig yn ystod y pandemig er mwyn mesur yr effaith ar ymgysylltu a lles. Gwêl lawer o ysgolion bod hyn yn agwedd hanfodol ar eu gwaith cynllunio wrth symud ymlaen.

Yn ystod y cyfnod clo, cafodd ysgolion ac unedau cyfeirio gyfleoedd i weithio fel sefydliadau sy'n dysgu er mwyn cryfhau a datblygu'r 4 thema drawsliniol sef Amser, Meddwl Gyda'n Gilydd, Ymddiriedaeth a Thechnoleg. Yn fwy nag erioed, mae ysgolion wedi gorfod sicrhau cyfleoedd dysgu parhaus i bob aelod staff i ddarparu dysgu o bell effeithiol a gwneud defnyddio priodol o dechnoleg.

Mae nifer cynyddol o ysgolion uwchradd wedi datblygu eu perthynas ag ysgolion cynradd y dalgylch ac wedi dechrau cyfarfod i drafod datblygiadau'r Cwricwlwm i Gymru. Bu llawer o uwch arweinwyr mewn sesiynau hyfforddiant gan GwE ar reoli newid, yn creu gweledigaeth gyffredin ac yn cyd-gynllunio. Mae YCG yn datblygu ar y cyswllt cychwynnol hwn gyda mwy o gymorth unigryw ar lefel ysgol a chlwstwr.

Dangosodd y cyfnod COVID fod ysgolion yn gallu bod yn gryf yn wyneb newid sy'n digwydd yn aml, yn sydyn ac sy'n tarfu. Mae'r pwyslais ar les a gwydnwch disgyblion yn faes sydd hefyd wedi datblygu'n dda yn ystod y pandemig. Mae llawer o staff wedi dechrau ystyried goblygiadau iechyd a lles ar gyfleoedd dysgu a phrofiadau i'w dysgwyr. Ar adeg pan ataliwyd y cwricwlwm cenedlaethol dros dro, cafodd staff y cyfle i adnabod blaenoriaethau dysgu i'w hysgol ac, o ganlyniad, cynllunio dysgu a phrofiadau i fodloni anghenion dysgwyr, yn unol â phedwar diben y Cwricwlwm i Gymru.

Daeth cadarnhad gan y Gweinidog Addysg y parheir i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru mewn ysgolion cynradd, ysgolion meithrin a gynhelir ac UauCD meithrin nas cynhelir o fis Medi 2022. Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd y rhoddir rhywfaint o hyblygrwydd ychwanegol i ysgolion uwchradd. Yn 2022, bydd ysgolion sy'n barod i gyflwyno'r cwricwlwm i flwyddyn 7 yn gallu bwrw ymlaen gyda hynny. Er hynny, ni fydd hi'n statudol i weithredu'r cwricwlwm newydd yn ffurfiol tan 2023, gyda'r cyflwyno yn digwydd yn y flwyddyn honno i flynyddoedd 7 ac 8 efo'i gilydd. Dyma fydd yr achos hefyd mewn ysgolion arbennig ac ysgolion 3 i 16 oed.

Bydd GwE yn annog ysgolion uwchradd ac arbennig sy'n gallu bwrw ymlaen i weithredu'r cwricwlwm newydd efo Blwyddyn 7 o fis Medi 2022. Rydym hefyd yn sylweddoli y bydd rhai



ysgolion uwchradd yn dewis i barhau ar eu llwybr tuag at ddiwygio'r cwricwlwm o fis Medi 2022, ac y byddant yn gweithredu'r cwricwlwm newydd o fis Medi 2023 pan ddaw'n statudol i flynyddoedd 7 ac 8. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod gwaith diwygio'r cwricwlwm, ac yn enwedig y cswllt uniongyrchol rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd, yn parhau er mwyn cefnogi dysgwyr i bontio waeth beth yw'r amserlen weithredu a ddefnyddir gan yr ysgol uwchradd.

Pa welliannau mewn darpariaeth a safonau y mae'r ysgolion wedi'u hadnabod yn sgil targedu eu gwariant grant?

Ar y cyfan, mae llawer o ysgolion uwchradd wedi rhoi blaenoriaethu cyllid i garfanau o ddisgyblion penodol fel disgyblion sydd yn paratoi am 'arholiadau' (Blynyddoedd 11, 12 ac 13), disgyblion bregus a difreintiedig, Blwyddyn 7 ac unrhyw grwpiau neu unigolion penodol all fod angen cymorth. Targedwyd cynhaliadaeth mewn llythrennedd, rhifedd, cymhwysedd digidol, datblygu sgiliau dysgu annibynnol ac ymgysylltu drwy hyfforddiant.

Bu ysgolion yn greadigol gyda'r datrysiadau a fabwysiadwyd, er enghraifft:

- cyflogi mentoriaid i yrru ymyraethau gyda disgyblion penodol
- cyflogi anogwyr dysgu i roi sylw i rwystrau dysgu a gwella cynhwysiant
- darparu gwersi ychwanegol i ddisgyblion
- rhyddhau aelodau staff i arwain ar lythrennedd a rhifedd neu benodi athro ychwanegol i gynnal sesiynau llythrennedd a rhifedd gyda grwpiau penodol o ddisgyblion yr oedd arnynt angen cymorth ychwanegol yn ystod y cyfnod clo
- penodi arweinydd ar gyfer Rhaglen Cyflymu Dysgu ysgol gyfan er mwyn cynllunio cymorth ychwanegol i ddisgyblion

Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys penodi cymorthyddion addysgu ychwanegol/mentoriaid neu gynyddu amser cymorthyddion dysgu ac anogwyr sydd eisoes mewn swydd i gynnal sesiynau dal fyny ac annog. Blaenoriaethodd llawer o ysgolion eu cyllid i sicrhau cymorth priodol i ddisgyblion oedd wedi datgysylltu o'u haddysg yn ystod y cyfnod clo.

Trwy'r Grant Dysgu Proffesiynol, dywed ysgolion uwchradd bod staff wedi ymgymryd yn dda â dysgu proffesiynol perthnasol ac amserol yn ystod y cyfnod clo er mwyn sicrhau dealltwriaeth gadarn o'r hyn yw dysgu o bell a dysgu cyfunol effeithiol. Yn ddi-os, cafodd hyn effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth.

Defnyddiodd ysgolion y grantiau GDD i gefnogi disgyblion difreintiedig. Er enghraifft, defnyddiwyd y grant yn effeithiol i gefnogi disgyblion PYD i gael gwersi cerddoriaeth, cael mynediad i ddyfeisiau digidol ble roedd angen ac i sicrhau parhad y dysgu. Defnyddiodd y rhan fwyaf o ysgolion y grant i sicrhau bod dysgwyr PYD yn cael cymorth ychwanegol mewn grwpiau llai, neu gymorth gan fentoriaid a chwmselwyr.

Effaith cymorth/ymwneud GwE ac adnabod cymorth ychwanegol wrth symud ymlaen

Roedd bron pob ysgol uwchradd a'r unedau cyfeirio yn croesawu'r cymorth aml ac addasadol gan yr YCG yn ystod y cyfnod clo. Roedd hyn yn cynnwys galwadau ac ymweliadau bugeiliol aml yn ogystal â chyfarfodydd rhwng YCG ac arweinwyr canol ac uwch arweinwyr eraill ar gais Penaethiaid.



Bu ysgolion yn gadarnhaol iawn am gyfraniadau GwE at fforymau lleol penaethiaid uwchradd a fu'n cyfarfod yn rheolaidd ers mis Mawrth 2020. Mynegodd y Penaethiaid hefyd eu bod yn ddiolchgar o'r cyfarfodydd Penaethiaid rhanbarthol, yn enwedig y cymorth ar gyfer y broses dyfarnu Graddau a Bennir gan Ganolfan. Noda ysgolion hefyd eu bod yn gwerthfawrogi'r cymorth gan YCG gyda'r broses ddyfarnu (gan gynnwys cymorth ychwanegol gan yr ymgynghorwyr pynciau craidd).

Croesawyd yn fawr yr arweiniad a'r cymorth ar gyfer dysgu o bell a dysgu cyfunol. Mae rhai ysgolion wedi addasu eu dulliau o gynllunio a darparu ar sail eu defnydd o adnoddau a rannwyd drwy Ganolfan Cefnogaeth GwE. Ar y cyfan, roedd ysgolion yn siarad yn gadarnhaol am y cynghreiriau a bod GwE yn hwyluso'r cyfle hwn i gydweithio ag ysgolion eraill.

Croesawyd dangosfwrdd Asesu Risg COVID a'r dangosfwrdd grantiau yn fawr iawn hefyd.

Mynegodd lawer o ysgolion eu gwerthfawrogiad o'r Rhaglenni Datblygu Arweinyddiaeth a addaswyd i gael eu cyflwyno ar-lein.

Cafwyd ymateb cadarnhaol i Gynlluniau Cymorth pwrpasol tymhorol GwE ac yn enwedig y dull hyblyg sydd wedi caniatáu lle i ymateb i anghenion sy'n newid.

Arfarnu Deilliannau yn CA4 a CA5

Yn ei ddatganiad ysgrifenedig (dyddiedig 21 Mehefin 2021), cadarnhaodd y Gweinidog Addysg 'y bydd y penderfyniad i atal mesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 a'r chweched dosbarth yn ymestyn i flwyddyn academiaidd 2021/22. *Ni fydd data dyfarniadau cymwysterau yn cael ei ddefnyddio i adrodd ar ddeilliannau cyrhaeddiad ar lefel ysgol, awdurdod lleol na chonsortium rhanbarthol ac ni ddylid ei ddefnyddio i ddwyn ysgolion i gyfrif am ddeilliannau dysgwyr.'*

Cadarnhaodd hefyd 'bydd yn ofynnol i bob ysgol a darparwr ôl-16 barhau i gynnal hunanwerthusiad effeithiol ar gyfer gwella'n barhaus. Mae ein trefniadau gwerthuso, gwella ac atebolrwydd ni'n gofyn iddynt ystyried ystod eang o wybodaeth sy'n berthnasol i gyd-destun yr ysgol ei hun wrth hunanwerthuso a nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella. Golyga hyn y bydd ysgolion, gyda chymorth yr awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol, yn defnyddio'r gwybodaeth sydd ganddynt ar lefel disgyblion am gyrhaeddiad a deilliannau eraill i fyfyrion ar eu trefniadau presennol a'u gwella.'

Felly, yn Nhyrnor yr Hydref 2021, bydd GwE yn cefnogi ysgolion i werthuso eu Graddau a Bennir gan y Ganolfan a'r gwersi a ddysgwyd yn ystod y broses eleni.

Dylai ysgolion ystyried yr agweddau isod wrth werthuso:

- Pa wersi a ddysgwyd am ba mor gadarn yw gweithdrefnau safoni a chymedroli mewn ysgolion? I ba raddau y bydd prosesau yn cael eu miniogi ymhellach?
- A ydych chi'n hyderus y bydd pob arweinydd ar draws yr ysgol wedi adnabod eu blaenoriaethau gweithredu ar gyfer 2021-22 yn gadarn ac yn bwrpasol? Pa gynlluniau a fabwysiadwyd i gefnogi arweinwyr pwnc gyda'r gwaith hwn os codwyd pryderon?



- I ba raddau ydych chi'n hyderus bod pob adran [ble'n berthnasol] wedi darparu arweiniad, cymorth ac adborth effeithiol i gynyddu cyfraniad 'gwaith cwrs' cymaint â phosibl? Pa gynlluniau a fabwysiadwyd i gefnogi arweinwyr adran ble codwyd pryderon?
- Beth welwyd oedd eich cryfderau allweddol? Pa gynlluniau a fabwysiadwyd i rannu'r rhain ar draws yr ysgol?
- A ydych chi wedi adnabod unrhyw feysydd/pynciau ble mae angen miniogi cywirdeb y tracio a'r asesu? Pa gynlluniau a fabwysiadwyd i gefnogi arweinwyr pwnc/athrawon gyda'r gwaith hwn fel y gellir targedu amrywiant mewn ysgol yn effeithiol?
- I ba raddau y bydd canfyddiadau yn cael effaith ar brosesau a gweithdrefnau asesu, targedu, tracio ac ymyrraeth?
- I ba raddau y bydd canfyddiadau yn cael effaith ar eich blaenoriaethau CiG i'w gweithredu eleni a thu hwnt?
- I ba raddau y bydd canfyddiadau yn cael effaith ar eich cynlluniau i ddatblygu ymhellach y ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd a rhifedd yn CA3?
- I ba raddau y bydd canfyddiadau yn cael effaith ar eich cynlluniau i ddatblygu ymhellach lles, presenoldeb a chynhwysiant?
- I ba raddau y bydd canfyddiadau yn cael effaith ar gynlluniau i ategu'r cymorth i grwpiau o ddisgyblion bregus?
- Pa gynlluniau sydd i gydweithio ag ysgolion eraill y rhanbarth i gefnogi a chynorthwyo rhagor o welliannau? I ba raddau y bydd cydweithio yn cynnwys cyfraniad uwch arweinwyr a staff addysgu?

MEYSYDD SYDD ANGEN EU DATBLYGU A'U CEFNOGI YMHELLACH.

Mae ysgolion ar draws pob sector wedi nodi'r angen am gymorth yn y meysydd canlynol:

- Gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru - yn enwedig dylunio a chynllunio'r cwricwlwm i gyflwyno'r Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDaPh).
- Dulliau asesu a'r cysyniad o gynnydd i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd
- Tracio cynnydd disgyblion
- Cysylltiadau â'r diwygio ehangach fel ADY a'r Gymraeg.
- Corffori dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a llesiant.
- Cael grwpiau o ddysgwyr i ail-gydio ym Mis Medi, dysgwyr nad oedd wedi ymdopi yn rhy dda yn ystod y cyfnod clo.
- Gwella dysgu ac addysgu, gwahaniaethu, asesu ffurfiannol ac adborth i ddysgwyr.
- Gwella sgiliau'r Gymraeg, llafaredd yn enwedig
- Cryfhau'r trefniadau a'r ddarpariaeth ar gyfer pontio rhwng y cynradd a'r uwchradd/arbennig a datblygu continwmm 3 i 16
- Gweithredu ar y camau mewn cynlluniau cymorth amlasiantaethol 360 (yn benodol mewn ysgolion sy'n achosi pryder)
- Miniogi prosesau sicrhau ansawdd ymhellach ac arfarnu ansawdd y ddarpariaeth a chynnydd disgyblion
- Datblygu gwella ansawdd yn unol â phedwar diben y cwricwlwm newydd
- Defnyddio data dibynadwy fel tystiolaeth ar gyfer gwella
- Gwella ymgysylltiad rhieni i gefnogi'r dysgu
Datblygu adolygu gan gymheiriaid ymhellach drwy'r Rhaglen Partneriaeth Ysgolion
- Datblygu cydweithio ar lefel strategol ehangach er mwyn symud at system sy'n hunan wella



- Rhaglenni Dysgu Carlam i roi sylw i effaith y cyfnod clo ar sgiliau sylfaenol
- Paratoi ar gyfer arholiadau Haf 2022
- Gwerthuso effaith gwariant grant

Mae'r canfyddiadau uchod hefyd yn berthnasol i ysgolion arbennig ac UCD. Fodd bynnag mae'r agweddau canlynol hefyd wedi'u nodi fel meysydd i'w datblygu a'u cefnogi ymhellach:

- Ymgorffori'r prosiectau cydweithredu presennol a rhannu'r dysgu ar draws y sector;
- Parhau i gynnig cyfleoedd arweiniol i reolwyr canol i roi cyfleoedd iddynt ddatblygu eu sgiliau arwain ymhellach;
- Cydweithio i ddadansoddi effeithiolrwydd y gwaith a wnaethpwyd ar y cyd;
- Parhau i ddylunio a chynllunio profiadau dysgu cyfoethog o amgylch y pedwar diben a nodi'r ffyrdd gorau o asesu cynnydd ar draws yr ystod o anghenion dysgwyr.

BLAENORIAETHAU RHANBARTHOL

Mae'r broses arfarnu wedi adnabod y blaenoriaethau rhanbarthol lefel uchel hyn:

- Sefydlu strategaeth ranbarthol glir i weithredu cynllun adfer COVID-19 Llywodraeth Cymru: Adnewyddu a diwygio i gefnogi lles a chynnydd dysgwyr (cyhoeddwyd yn gyntaf 16 Mehefin 2021)
- Sefydlu rhwydweithiau datblygu i bob Maes Dysgu a Phrofiad (MDaPh) ar lefel ranbarthol a lleol fel bod arweinwyr ysgol ac ymarferwyr yn gallu cydweithio i ddatgloi potensial pob Maes drwy fodelu, dylunio a rhannu arferion cwricwlwm.
- Sicrhau bod cyswllt uniongyrchol rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd, yn parhau er mwyn cefnogi dysgwyr i bontio waeth beth yw'r amserlen weithredu a ddefnyddir gan yr ysgol uwchradd.
- Datblygu fframwaith ansoddol rhanbarthol er mwyn dangos ac arfarnu cynnydd ysgol/clwstwr mewn dull cyfannol.
- Adolygu prosesau i roi sylw i ysgolion sy'n destun pryder a gweithio gydag Awdurdodau Lleol i sefydlu a gweithredu strwythurau a phrotocolau rhanbarthol ar gyfer adnabod, cefnogi a herio Ysgolion sy'n Destun Pryder.
- Cryfhau ymhellach y diwylliant, yr ymddygiad, y systemau a'r prosesau er mwyn cymell arweinwyr ac athrawon i gyd-ymdrechu er sicrhau gwelliant ysgol.



Atodiad 1

Arfarniad ysgol. Nid oes rheidrwydd i ysgolion ddefnyddio hwn, ond gellir ei ddefnyddio:

- i ysgolion ei gwblhau eu hunain
- i ysgolion wirio yn erbyn eu prosesau hunan arfarnu eu hunain
- gan glystyrau neu grwpiau cydweithio fel sail i'w harfarniadau ar y cyd.

Ysgol	YCG Cyswllt
Am Dymor y Gwanwyn/Haf 2021	
Prif gryfderau	
<ul style="list-style-type: none"> • • • 	
Meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach	
<ul style="list-style-type: none"> • • • 	
Gweithredu a Chynnydd	
Sut mae ein hysgol wedi gwerthuso ei darpariaeth a'i heffaith yn ystod y cyfnod clo?	
<ul style="list-style-type: none"> • Sut mae ein hysgol wedi crynhoi canfyddiadau er mwyn nodi cryfderau, meysydd i'w gwella, ac wedi cynllunio ar gyfer gwella ymhellach? A oes gennym enghreifftiau sy'n dangos tystiolaeth o hyn? • Os nad yw ein hysgol wedi gallu cynnal prosesau hyd yma oherwydd cyfyngiadau Covid, beth yw'r bwriad ar gyfer y tymor hwn? 	
Beth yw ansawdd ein darpariaeth ar gyfer dysgu ac addysgu yn ystod y cyfnod clo?	
<ul style="list-style-type: none"> • Beth mae ein tystiolaeth yn ei amlygu am gynnydd dysgwyr yn ystod y cyfnod clo? A yw hyn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer dysgwyr bregus? • Sut mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysgu ac asesu wedi esblygu yn ein hysgol yn ystod y cyfnod hwn? • Beth yw'r prif gryfderau yn ein dulliau addysgu ac asesu, cyflawniad a chynnydd? • Pa agweddau sydd eu angen eu cryfhau ymhellach o ran addysgu, asesu, cyflawniad a chynnydd? • Pa heriau ydym ni wedi'u hadnabod o ran dysgu ac addysgu wrth symud ymlaen, a sut ydym ni'n bwriadu ymateb i'r rhain? 	
Sut y mae'r ysgol yn bwriadu meithrin ei llwyddiannau er mwyn datblygu'r cwricwlwm newydd?	
<ul style="list-style-type: none"> • Sut ydym wedi mesur cynnydd mewn perthynas â'r daith ddiwygio? • Sut ydym wedi cyfrannu fel partner at waith clwstwr? 	



- Sut mae ein hysgol wedi datblygu dimensiynau Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu yn ystod y cyfnod hwn?
- Sut ydym wedi manteisio ar waith cymheiriaid i ddilysu ein harfarniadau a'n cefnogi ar ein taith wella? A ydym yn chwarae rhan gyfatebol gyda'n hysgolion partner?

Sut mae'r ysgol wedi monitro a gwerthuso'r defnydd o'r amrywiol grantiau sydd ar gael, a'i effaith, a pha negeseuon allweddol sydd wedi codi hyd yma?

- Sut ydym wedi targedu gwariant grant a beth yw effaith hynny ar ddarpariaeth a safonau?
- Pa negeseuon sydd ar gyfer gwariant grantiau pellach?

Beth yw ansawdd ein darpariaeth ar gyfer llesiant dysgwyr yn ystod y cyfnod clo?

- Beth mae ein tystiolaeth yn ei amlygu am gynnydd dysgwyr yn ystod y cyfnod clo?
- Beth yw ein prif gryfderau o ran y ddarpariaeth les?
- Pa agweddau sydd angen eu cryfhau ymhellach o ran y ddarpariaeth les?
- Pa heriau ydym-wedi eu hadnabod o ran lles wrth symud ymlaen, a sut ydym yn bwriadu ymateb i'r rhain?

Sut mae arweinyddiaeth ar draws ein hysgol wedi datblygu dros y cyfnod clo?

- Beth fu'r heriau mwyaf?
- A ydym wedi cael cyfleoedd i ddatblygu neu arloesi?
- A oes gennym arferion arwain y gellid eu rhannu gydag ysgolion eraill?
- A ydym wedi adnabod agweddau arweinyddiaeth sydd angen cefnogaeth?

Rhaglen Waith Ddrafft Craffu 2021/22

PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI

10/06/2021
<ul style="list-style-type: none">• Y Gymraeg ym myd Addysg gan gynnwys y Canolfannau Iaith• Grantiau i fyd addysg i gynorthwyo disgyblion (ar y cyd â GwE)• Cinio ysgol am ddim
21/10/2021
<ul style="list-style-type: none">• Gagendor Lles , gan gynnwys• effaith covid <u>ar addysg</u> ein holl ddisgyblion• pa gynlluniau sydd gan ysgolion o ran llesiant ein holl ddisgyblion (ar y cyd â GwE)• Cefnogaeth i fusnesau (ymlaen o 08/02/22)
09/12/2021
<ul style="list-style-type: none">• Lefel diweithdra a chefnogaeth nol i swyddi• Adroddiad blynyddol Addysg• Cinio ysgol am ddim
08/02/2022
<ul style="list-style-type: none">• Fframwaith Adfywio• Cefnogaeth i athrawon gyda materion cam drin ar y we (newydd)• Cynllun hygyrchedd ysgolion (newydd)
31/03/2022
<ul style="list-style-type: none">• BUEGC / NWEAB• Twristiaeth gynaliadwy• Cwricwlwm newydd i Gymru gan gynnwys rhoi sylw i addysg awyr agored (symud o 08/02/22)